



RHOI DIWEDD AR DDIGARTREFEDD YNG NGHYMRU: ADOLYGIAD DEDDFWRIAETHOL

Panel Adolygu Arbenigol

2023

Acronymau

Defnyddir yr acronymau a ganlyn yn yr adroddiad hwn:

CLILC —Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

DHP —Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai

EHRC —Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

GTTA —Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr

LHMA —Asesiad o'r Farchnad Dai Leol

NICE —Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal

NRPF —Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus

PHP —Cynlluniau Tai Personol

RPB —Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

RRTP —Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym

RSL —Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (y cyfeirir atynt hefyd fel cymdeithasau tai)

VAWDASV —Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Llun ar y clawr: Aaron, a gafodd gymorth gan Crisis i ddod o hyd i gartref saff a diogel.



Rhagair gan Gadeirydd y Panel Adolygu Arbenigol

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cofnododd awdurdodau lleol fod 12,537¹ o aelwydydd yn ddigartref ac yn cael cymorth. Mae'r bobl hyn yn aml yn wynebu sefyllfaoedd anodd, os nad amhosibl – yn symud o sofffa i sofffa, yn treulio cyfnodau hir mewn lleoedd na fwriadwyd iddynt fod yn ddim mwy na llety dros dro, a rhai'n cysgu ar y stryd.

Mae hyn yn cael effaith ddychrynlyd. Mae rhywun sy'n ddigartref yn wynebu heriau bob diwrnod, ac mae digartrefedd yn aml yn effeithio ar iechyd meddwl a chorfforol unigolyn.

Pan ddaeth y pandemig yn 2020, cafodd gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru eu canmol am eu hymdrechion i gydweithio a cheisio mynd i'r afael â digartrefedd drwy ddefnyddio dull "neb yn cael ei adael allan". Ers hynny, mae'r Gweinidog wedi dweud yn glir na ddylid cefnu ar y dull hwn o weithredu, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynllun gweithredu er mwyn rhoi diwedd ar ddigartrefedd.²

Fel sy'n cael ei gydnabod yn y cynllun hwn, er mwyn rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru bydd angen camau gweithredu sy'n canolbwyntio'n benodol ar nifer o wahanol feysydd. Yn ganolog i hyn mae'r angen i gymryd camau pendant mewn cysylltiad â diwygio deddfwriaethol, er mwyn sicrhau bod gennym y systemau a'r strwythurau sydd eu hangen i wneud digartrefedd yn rhywbeth prin, byrloedlog, na fydd yn cael ei ailadrodd.

O ganlyniad, roedd yn ffrainc fawr cael gwahoddiad i gadeirio'r Panel Adolygu Arbenigol a rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r diwygiadau hyn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, clywodd y Panel alwadau cryf am newid gan bobl sydd â phrofiad personol, ynghyd â phobl sy'n gweithio ar y rheng flaen a thu hwnt. Mae'r lleisiau hyn wedi bod yn ganolog i'n holl drafodaethau, ac wedi llywio a dylanwadu ar yr argymhellion sydd yn yr adroddiad hwn.

Daeth aelodau'r Panel at y bwrdd o sectorau amrywiol, gan ddod â safbwyntiau gwahanol gyda hwy, a pharodrwydd i gydweithio tuag at y nod cyffredin o atal digartrefedd a sicrhau, lle mae pobl yn canfod eu hunain yn ddigartref, eu bod yn gallu symud yn gyflym i gartref sefydlog.

Adlewyrchir yr ymrwymiad hwn i gydweithio yn y pecyn cydlynus a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Mae'r pecyn yn ganlyniad rhywfaint o gyfaddawdu gan bob ochr er mwyn dod o hyd i atebion a fyddai'n gweithio i broblemau cymhleth. Rwy'n ddiolchgar iawn i holl aelodau'r Panel am sylweddoli bod angen dod o hyd i dir canol pan oedd safbwyntiau'n amrywio, ac i gyfaddawdu lle bo angen er mwyn canfod ein ffordd tuag at set gydlynol o gynigion i'r Gweinidogion eu hystyried.

Mae rhai o'r atebion a gynigir – gan gynnwys yr alwad ar i wasanaethau cyhoeddus ymgysylltu'n ehangach ynglŷn â digartrefedd – yn newidiadau mawr mewn ffyrdd o weithio. Mae'r newidiadau hyn yn werth eu gwneud, oherwydd byddai'r canlyniadau'n arwyddocaol i bawb. Drwy gydweithio i adnabod a mynd i'r afael ag anghenion cymorth yn gynharach, gallwn helpu i atal anghenion cymhleth rhag datblygu. Mae hyn, wrth gwrs, o fudd i'n gwasanaethau cyhoeddus sydd dan bwysau o hyd, ond mae hefyd, yn hollbwysig, yn atal pobl rhag profi trawma digartrefedd.

Er bod y Panel yn credu bod gan newidiadau i drefniadau cyfreithiol ran hanfodol i'w chwarae er mwyn rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru, rydym hefyd yn cydnabod bod angen i ddeddfwriaeth gysylltu'n effeithiol â chyd-destunau polisi, ymarfer ac adnoddau er mwyn cyflawni'r hyn y bwriadwyd iddi ei gyflawni. I'r perwyl hwn, mae'r Panel hefyd wedi ceisio rhannu ein barn ynglŷn â galluogwyr allweddol a fyddai'n helpu i hwyluso'r amgylchedd sydd ei angen ar gyfer newid deddfwriaethol, er mwyn cyflawni'r nodau y mae pob un ohonom yn eu rhannu yng nghyswllt rhoi diwedd ar ddigartrefedd.

Nid oes amheuaeth bod digartrefedd wedi dod yn fwy o broblem yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diweddar. Mae'r argyfwng costau byw, y gwrthdaro yn Wcráin, heriau yn gysylltiedig

1 Ystadegau Llywodraeth Cymru (2023) *Digartrefedd: Ebrill 2022 – Mawrth 2023*. Darllenwyd 5 Medi 2023. <https://stats.cymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/householdsforwhichassistancehasbeenprovided-by-outcome-householdtype>

2 Llywodraeth Cymru (2021) *Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru: cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026*.

â'r cyflenwad o dai, a nifer o ffactorau eraill, wedi golygu bod mwy o bobl yn symud i lety dros dro nag sy'n symud i gartrefi sefydlog y naill fis ar ôl y llall.³

Er gwaetha'r heriau hyn, rwy'n falch fod Llywodraeth Cymru yn chwilio am ffordd o wella gwasanaethau ac atal digartrefedd lle bo modd. Wrth i'r pwysau gynyddu, dyma'r adeg i gymryd camau radical a dewr.

Clywsom gan y Prif Weinidog yn ddiweddar fod Cymru yn wynebu ei sefyllfa ariannol anoddaf ers datganoli.⁴ Fodd bynnag, er bod yn rhaid i ni nodi'n glir iawn bod goblygiadau ariannol ynghlwm wrth ddiwygio'r gyfraith, nid yw gwneud dim, hyd yn oed mewn cyfnod anodd fel hwn, yn opsiwn os ydym am leihau nifer y bobl sy'n gofyn am gymorth oherwydd eu bod yn ddigartref. Bydd darparu adnoddau ar gyfer y mesurau cychwynnol hyn a gweithredu'r cynigion a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn yn arwain at gamau mawr ymlaen, gan leihau gwariant yn ogystal â'r pwysau ar wasanaethau digartrefedd yn yr hirdymor.

Yn bennaf oll, credwn y byddai'r pecyn a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn sefydlu llwybr i'r cyfeiriad cywir ac yn gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl ledled Cymru sy'n wynebu bygythiad o ddigartrefedd neu sy'n canfod eu hunain heb le i'w alw'n gartref.



Yr Athro Suzanne Fitzpatrick,
Cadeirydd y Panel Adolygu Arbenigol

3 Ystadegau Llywodraeth Cymru (2023) *Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan: Ebrill 2023*. Darllenwyd 24 Awst 2023. <https://www.llyw.cymru/darpariaeth-llety-digartrefedd-chysgu-allan-mai-2023>

4 Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru (2023) *Diweddariad ar y Gyllideb 2023-24*. Darllenwyd 24 Awst 2023. <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-diweddariad-ar-y-gyllideb-2023-24>

Diolchiadau

Wrth gyhoeddi'r adroddiad hwn hoffem ddiolch i'r canlynol:

- Tîm polisi Cymru yn Crisis, cyd-awduron yr adroddiad hwn, a fu'n galw'r Panel ynghyd (Debbie Thomas, Jordan Brewer, Jasmine Harris ac Abi Renshaw);
- Cymorth Cymru am ymgynghori ag arbenigwyr drwy brofiad ac â Rhwydwaith Rheng Flaen Cymru;
- Y Grŵp Cyfeirio Awdurdodau Lleol a gweithgor Cartrefi Cymunedol Cymru ar ddigartrefedd am eu cyfraniadau fel sail i drafodaethau'r Panel;
- Tai Pawb am ei adroddiad ar ddigartrefedd a nodweddion gwarchoddedig;
- Bec Woolley am arwain ymchwil i ddyrannu tai cymdeithasol i aelwydydd digartref, yn ogystal â Llywodraeth Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru a CLILC am gomisiynu'r ymchwil hwn ar y cyd;
- Gweision sifil Llywodraeth Cymru a roddodd eu hamser i gynorthwyo'r Panel;
- Y rhanddeiliaid niferus a gyfrannodd tuag at drafodaethau'r Panel drwy gydol y flwyddyn.

Diolch yn arbennig i'r canlynol:

Unigolion â phrofiad personol o ddigartrefedd yng Nghymru a fu mor garedig â rhoi eu hamser i rannu eu meddyliau, eu barn a'u profiadau â'r Panel. Dylanwadodd y cyfraniadau hyn ar drafodaethau'r Panel ac maent yn ganolog i'r argymhellion sydd yn yr adroddiad hwn.

Dros 300 o bobl a siaradodd mor agored am eu profiadau o ddigartrefedd – ni fyddem wedi gallu gwneud yr adroddiad hwn heb eich cymorth chi. Diolch.

//

Clywed nad wyt ti
'ddim yn mynd i fod yn
ddigartref am byth' ... ond
dydw i ddim eisiau bod
yn ddigartref nawr.

//

Cynnwys

Cyflwyniad	10
1. Pam y sefydlwyd y Panel Adolygu Arbenigol?	11
2. Am y Panel	11
3. Cefndir	12
RHAN 1: Gwella deddfwriaeth digartrefedd a thai	15
1. Profion cyfreithiol	16
1.1. Cymhwysra	16
1.2. Angen Blaenoriaethol	19
1.3. Bwriadoldeb	21
1.4. Cysylltiad lleol	23
2. Dyletswydd Atal	26
3. Dyletswydd Liniaru	28
4. Troi allan	29
5. Addasrwydd llety sefydlog a dros dro	32
6. Cynyddu opsiynau tai a dod â'r brif ddyletswydd i ddarparu llety i ben	39
7. Dyrannu Tai Cymdeithasol	41
8. Cadw llety	48
9. Y Cyflenwad Tai	50
10. Y broses o wneud cais	52
10.1. Cyfathrebu â cheiswyr	53
10.2. Methu â chydweithredu	54
10.3. Cynlluniau Tai Personol	56

RHAN 2: Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd Gyda'n Gilydd	60
1. Dyletswyddau ar wasanaethau eraill i nodi, cyfeirio, gweithredu a chydweithredu	61
2. Pobl ag anghenion niferus a chymhleth	66
3. Pobl ag anghenion iechyd	68
4. Pobl sydd â phrofiad o fod mewn Gofal	71
5. Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol	74
6. Carcharorion a rhai sy'n gadael carchar	78
7. Cyn-filwyr	82
8. Troseddoli digartrefedd	83
RHAN 3: Sicrhau bod y system yn gweithio	85
1. Hawliau unigolion i gyngor, adolygiad a gwneud iawn	86
2. Rheoleiddio a Gorfodaeth	88
3. Data	92
Casgliad	95
Atodiad: Rhestr o argymhellion	97

Cyflwyniad

1. Pam y sefydlwyd y Panel Adolygu Arbenigol?

Yn 2021, amlinellodd Llywodraeth Cymru ei chynllun i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.⁵ Roedd y Cynllun Gweithredu Lefel Uchel, Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, a gyhoeddwyd yn dilyn y pandemig, yn canmol ymdrechion gwasanaethau ar y cyd i geisio sicrhau nad oedd neb yn cael ei adael heb lety wrth i COVID-19 ymledu drwy'r wlad. Roedd y cynllun yn cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i barhau â dull gweithredu sy'n sicrhau nad oes "neb yn cael ei adael allan" ac yn amlinellu nifer o gamau gweithredu, pob un â'r nod cyffredin o sicrhau bod digartrefedd yng Nghymru yn rhywbeth prin, byrhoedlog na fydd yn cael ei ailadrodd.

Roedd y camau gweithredu hyn yn cynnwys ymrwymiad i "werthuso'r ddarpariaeth gyfreithiol gyfredol ar gyfer atal digartrefedd ac ... adolygu meysydd i wella'r gyfraith, er mwyn cynnal y dull o sicrhau 'nad oes neb yn cael ei adael allan' a weithredwyd drwy gydol y pandemig a sicrhau bod pob gwasanaeth cyhoeddus yn cydweithio i atal digartrefedd."⁶

Er mwyn helpu i adolygu deddfwriaeth digartrefedd, sefydlodd y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James, y Panel Adolygu Arbenigol i ystyried y "seilwaith statudol" sydd ei angen er mwyn dylanwadu ar y ffordd y caiff gwasanaethau digartrefedd eu trefnu a'u darparu, a gosod sylfaen ar gyfer rhoi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru.⁷

2. Am y Panel

Wrth sefydlu'r Panel Adolygu Arbenigol, gwahoddodd y Gweinidog yr elusen digartrefedd, Crisis, i alw'r Panel ynghyd, a phenododd yr Athro Suzanne Fitzpatrick fel Cadeirydd. Mae'r Athro Suzanne Fitzpatrick o Brifysgol Heriot-Watt wedi

gwneud llawer o waith cyn hyn yn ymchwilio i ddigartrefedd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban a bu'n cadeirio paneli tebyg yn yr Alban ac yn Lloegr. Mae hefyd yn gyfarwyddwr I-SPHERE, y Sefydliad Ymchwil Polisi Cymdeithasol, Tai a Chydraddoldeb.

Dywedodd y Gweinidog y dylai'r Panel gynrychioli sectorau allweddol er mwyn rhoi ystyriaeth lawn i'r diwygiadau deddfwriaethol sydd eu hangen. O ganlyniad, pwysleisiodd y dylai'r Panel gynnwysartneriaid o lywodraeth leol, cymdeithasau tai,⁸ sefydliadau digartrefedd a chydraddoldeb yn y trydydd sector ac arbenigwyr o feysydd academiaidd a chyfreithiol.⁹ Roedd yr aelodau a benodwyd i'r Panel yn cynnwys:

- Yr Athro Suzanne Fitzpatrick (Cadeirydd) – Prifysgol Heriot-Watt
- Yr Athro Peter Mackie – Prifysgol Caerdydd
- Angela Bowen – Cyngor Sir Gâr
- Sam Parry/Ashleigh Stevens/Anna Mann – Cyngor Conwy
- Matt Downie MBE – Crisis
- Clarissa Corbisiero – Cartrefi Cymunedol Cymru
- Katie Dalton – Cymorth Cymru
- Emily James – Cyngor Sir Benfro
- Jennie Bibbings – Shelter Cymru
- Nazia Azad – Tai Pawb
- Jim McKirdle – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Mae'r Panel hefyd yn ddiolchgar i Liz Davies CB o Siambrau Garden Court am weithredu fel cynghorydd cyfreithiol ac i'r gweision sifil amrywiol o Lywodraeth Cymru a roddodd gyngor ar y polisi presennol.

⁵ Llywodraeth Cymru (2021) *Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun Gweithredu Lefel Uchel 2021-2026*.

⁶ Llywodraeth Cymru (2021) *Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun Gweithredu Lefel Uchel 2021-2026*. t. 17.

⁷ Julie James AS, Y Gweinidog Newid Hinsawdd, Datganiad Ysgrifenedig (2022) *Sefydlu Panel Adolygu Arbenigol ar gyfer deddfwriaeth digartrefedd yng Nghymru*. Darllenwyd 24 Awst 2023. <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-sefydlu-panel-adolygu-arbenigol-ar-gyfer-deddfwriaeth-digartrefedd-yng>

⁸ Sylwer bod y term 'cymdeithas dai' yn cael ei ddefnyddio yn yr adroddiad hwn i gyfeirio at Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Fodd bynnag, wrth wneud argymhellion, defnyddiwyd y term cyfreithiol, sef Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

⁹ Julie James AS, Y Gweinidog Newid Hinsawdd, Datganiad Ysgrifenedig (2022) *Sefydlu Panel Adolygu Arbenigol ar gyfer deddfwriaeth digartrefedd yng Nghymru*. Darllenwyd 24 Awst 2023. <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-sefydlu-panel-adolygu-arbenigol-ar-gyfer-deddfwriaeth-digartrefedd-yng>

Dechreuodd y Panel gyfarfod ym mis Awst 2022 a gofynnwyd iddo adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru ag argymhellion ar gyfer newid deddfwriaethol ym mis Medi 2023.

Ymgysylltu ehangach

Gan fod cylch gwaith y Panel yn eang, roedd yn bwysig sicrhau bod trafodaethau'r Panel yn seiliedig ar arbenigedd aelodau'r Panel, a hefyd ar raglen ymgynghori eang. Roedd hyn yn cynnwys pobl â phrofiad personol o ddiartrefedd yn ogystal â rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector tai a sectorau perthnasol eraill lle gwyddys bod mwy o risg i bobl fod yn ddiartref.

Pobl â Phrofiad Personol

Roedd yn bwysig iawn i'r Panel ac i'r Gweinidog bod lleisiau'r rhai sydd â phrofiad personol o ddiartref yn sail i waith y Panel.

Rhannodd mwy na 300 o bobl â phrofiad personol o ddiartrefedd eu barn a'u profiadau drwy waith ymgynghori dan arweiniad Cymorth Cymru. Cysylltodd Tai Pawb hefyd ag arbenigwyr drwy brofiad â nodweddion gwarchoddedig i helpu'r Panel i gael gwell dealltwriaeth o rwystrau penodol a wynebir gan y grwpiau hyn.¹⁰

Roedd yr adborth gan arbenigwyr drwy brofiad yn darparu mewnwediad a phersbectif gwerthfawr iawn o'r rhwystrau sy'n bodoli yn y systemau presennol. Roedd y mewnwediad hwn yn sail i bob trafodaeth a gafodd y Panel ac mae'n ganolog i'r argymhellion a wnaethpwyd.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Panel wedi ymgymryd â rhaglen eang o ymgysylltu â rhanddeiliaid – yn y sector tai a thu hwnt. Drwy ymgynghori yn eang, llwyddodd y Panel i gynnal dadleuon manwl a oedd yn ystyried newid deddfwriaethol o nifer o wahanol safbwyntiau, gan arwain at argymhellion cadarn.

Teimlai'r Panel fod ymgysylltu â'r rhai sy'n gweithio ar draws y sector yn hollbwysig – mae barn a safbwyntiau gweithwyr proffesiynol sydd ar y rheng flaen yn darparu persbectif personol pwysig

ynglŷn â sut y mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn gweithio, y potensial i newid a pha newidiadau allai fod yn ymarferol. I'r perwyl hwn, mae gwaith y Panel wedi'i seilio drwy'r adeg ar ymgynghoriad â'r rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymorth digartrefedd, cymdeithasau tai ac adrannau opsiynau tai mewn awdurdodau lleol. Yn fwyaf arbennig, ymgynghorodd y Panel â Rhwydwaith Rheng Flaen Cymru Cymorth Cymru a gweithgor Cartrefi Cymunedol Cymru ar ddiartrefedd, yn ogystal â Grŵp Cyfeirio Awdurdodau Lleol arbenigol, a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o ddim Opsiynau Tai pob awdurdod lleol.

Yn ogystal, cynhaliodd Crisis gyfres o sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyfarfodydd uniongyrchol â grwpiau rhanddeiliaid a oedd yn canolbwyntio ar bynciau penodol a oedd yn cael eu hystyried gan y Panel. Roedd y sesiynau a'r cyfarfodydd hyn yn gofyn am farn pobl o bob rhan o'r sector tai a thu hwnt – gan ymestyn allan at grwpiau eraill y gwyddys eu bod yn wynebu mwy o risg o ddiartrefedd.

Ategwyd gwaith y Panel hefyd gan ymchwil¹¹ (wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) i ddyrannu tai cymdeithasol i aelwydydd digartref. Drwy gynnal arolwg dienw, sesiwn rhanddeiliaid a chyfres o gyfweiliadau uniongyrchol, roedd yr ymchwil hwn yn darparu trosolwg hollbwysig o'r modd y mae dyraniadau yn gweithio yng Nghymru ac yn sail i drafodaethau'r Panel yn y maes hwn.

3. Cefndir

Mae ar bawb angen lle diogel i'w alw'n gartref. Mae'r Panel yn rhannu'r uchelgais a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru, Rhoi Diwedd ar Ddiartrefedd, sef sicrhau bod digartrefedd yn rhywbeth prin, byrloedlog na fydd yn cael ei ailadrodd, ac mae'n croesawu'r cyfle hwn i argymhell sut y gallai newid deddfwriaethol helpu i gyflawni hyn.

Yn anffodus, mae ystadegau'n dangos bod angen camau llym iawn er mwyn cyflawni'r nod hwn. Mae nifer y bobl sy'n gofyn am gymorth tai yn

cynyddu o hyd – yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2022/23), roedd 9,246 o aelwydydd wedi wynebu bygythiad o ddiartrefedd, ac roedd dyletswydd i atal neu leddfu yn berthnasol i 12,894 o aelwydydd.¹² Mae'r niferoedd uchel o bobl sy'n nodi eu bod yn ddiartref, hefyd wedi rhoi mwy o bwysau ar lety dros dro ac wedi gadael miloedd o bobl yn wynebu cyfnod hir neu amhenodol yn aros am gartref sefydlog. Yn ôl y cyfrif diwethaf roedd 10,872¹³ o unigolion yn dibynnu ar lety dros dro – llawer ohonynt heb gyfleusterau coginio a golchi dillad, neu ddim byd gwerth sôn amdano.¹⁴

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wrth gwrs, mae'r system wedi bod dan bwysau na welwyd ei debyg o'r blaen, yn fwyaf arbennig oherwydd yr argyfwng costau byw, y gwrthdaro yn Wcrain a phandemig COVID-19. Ond ar wahân i'r straen y mae'r pwysau allanol yma wedi'i roi ar ein systemau, mae'n amlwg hefyd bod gwir angen gwella ein seilwaith cyfreithiol presennol er mwyn gwneud mwy i atal digartrefedd.

Clywodd y Panel gan bobl â phrofiadau personol gwahanol ac amrywiol o ddiartrefedd. Er bod manylion y profiadau hyn yn amrywio, roedd themâu cyffredin hefyd. Roedd yn amlwg bod digartrefedd yn brofiad trawmatig ynddo'i hun, ond bod y gwasanaethau a'r systemau sydd wedi'u hystyried i'r eithaf weithiau'n gallu gwneud y trawma hwn yn waeth. Dywedodd llawer o bobl wrthym fod systemau amrywiol yn eu hatal rhag cael y gefnogaeth yr oedd arnynt ei hangen, neu nad oeddent yn gallu ymateb i'w hamgylchiadau unigol hwy. Dywedodd eraill wrthym fod systemau'n anodd i'w defnyddio ac yn achosi iddynt deimlo fel pe baent yn treulio "dedfryd ddi-ben-draw o garchar," heb wybod i sicrwydd pryd y gallent setlo mewn cartref a symud ymlaen â'u bywydau.

Roedd aelodau'r Panel yn awyddus i ganfod sut y gall systemau digartrefedd ganolbwyntio mwy ar yr unigolyn a bod yn ystyriol o drawma, a sut y gall ceiswyr deimlo bod gwasanaethau awdurdodau lleol yn eu cefnogi, yn hytrach na dweud wrthynt beth i'w wneud. I'r perwyl hwn, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys nifer o argymhellion sy'n

canolbwyntio ar gyfathrebu â cheiswyr a sut y gallai Cynlluniau Tai Personol weithredu yn wahanol yn ymarferol.

Clywodd y Panel hefyd gan weithwyr rheng flaen dynodedig sy'n teimlo straen emosiynol peidio â chael yr offer, yr adnoddau na'r hyblygrwydd i ddiwallu anghenion y nifer cynyddol o geiswyr sy'n gwneud cais am gymorth tai. Roeddent yn anfon neges glir bod angen diwygio er mwyn helpu i symud y pwyslais oddi wrth geisio dal i fyny â nifer cynyddol y bobl sy'n dweud eu bod yn ddiartref, i weithio'n fwy effeithiol er mwyn atal digartrefedd yn gynharach – arbed aelwydydd rhag y trawma o fod yn ddiartref a helpu i leihau'r straen ar restrri aros hirfaith am dai.

Ni all gwasanaethau tai sicrhau'r newid hwn ar eu pen eu hunain. Gall y rhesymau y tu ôl i ddiartrefedd fod yn gymhleth ac yn niferus. O ganlyniad, ni ellir rhoi'r cyfrifoldeb am atal yn nwylo'r gwasanaethau opsiynau tai yn unig; mae angen cefnogaeth, arbenigedd a chydweithrediad gan wasanaethau cyhoeddus eraill megis iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau cyfiawnder troseddol. Bydd hyn, wrth gwrs, yn galw am amser a buddsoddiad, ond byddai hynny'n talu ar ei ganfed. Mae cydweithio fel hyn drwy ddulliau ataliol yn helpu i sicrhau bod pobl yn osgoi un o'r profiadau mwyaf trawmatig, ac yn y pen draw, yn arwain at lai o broblemau sydd angen cymorth cymhleth a hirdymor.

Mae'r Panel yn credu bod gan ddeddfwriaeth ran hollbwysig i'w chwarae er mwyn helpu i oresgyn y materion hyn. Mae ein hargymhellion wedi'u gwreiddio yn egwyddorion **atal yn gynnar, neb yn cael ei adael allan, ac ailgartrefu cyflym**. Mae arnom eisiau sicrhau, lle bynnag y bo modd, bod digartrefedd yn cael ei osgoi. Os yw digartrefedd yn digwydd, ni ddylai neb gael ei adael heb gymorth, a dylid gwneud pob ymdrech i helpu ceiswyr i symud ymlaen mor gyflym ag sy'n bosibl i gartref sefydlog.

Âr egwyddorion a'r uchelgeisiau hyn mewn golwg, y mae'r Panel wedi ceisio cynnig pecyn integredig o argymhellion dewr ar gyfer newid

10 Tai Pawb (2023) *Profiadau pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig yng Nghymru o ddiartrefedd*. Comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

11 Woolley, B. (2023) *Allocations, Understanding more in the context of Homelessness in Wales*. Comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, CLILC a Chartrefi Cymunedol Cymru.

12 Llywodraeth Cymru (2023) *Digartrefedd: Ebrill 2022 - Mawrth 2023*. Darllenwyd 5 Medi 2023. <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/householdsforwhichassistancehasbeenprovided-by-outcome-householdtype>

13 Llywodraeth Cymru (2023) *Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan: Mai 2023*. Darllenwyd 24 Awst 2023. <https://www.llyw.cymru/darpariaeth-llety-digartrefedd-chysgu-allan-mai-2023>

14 Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd (2023) *Digartrefedd*.

deddfwriaethol, yn ogystal â rhai argymhellion anneddfwriaethol, y credwn y byddent yn cynorthwyo ac yn cefnogi diwygio cyfreithiol. Rhannwyd yr argymhellion hyn yn dair rhan.

Mae **Rhan 1** yn canolbwyntio ar ffyrdd o wella'r ddeddfwriaeth digartrefedd a thai bresennol er mwyn goresgyn rhwystrau cyffredin a sicrhau bod cymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn ystyriol o drawma.

Mae **Rhan 2** yr adroddiad hwn yn ystyried sut y gall gwasanaethau mewn ystod o sectorau perthnasol weithio yn fwy effeithiol ac ar y cyd er mwyn atal digartrefedd, yn ogystal ag argymhell cymorth i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o fod yn ddiartref.

Yn olaf, mae **rhan 3** yr adroddiad hwn yn ystyried pa fecanweithiau all helpu i roi sicrwydd ansawdd yn y system; ar lefel genedlaethol, lleol ac unigol. Mae'r adran hon hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd deall yn well sut y mae'r darlun o ddiartrefedd yng Nghymru yn newid – adeiladu ar y wybodaeth a'r data sydd ar gael er mwyn sicrhau ein bod yn mynd ati o ddifri i ddiwallu anghenion tai pobl.

Fel sy'n digwydd yn aml â deddfwriaeth, mae ceisio newid un maes yn effeithio ar un arall. I'r perwyl hwn, rhoddwyd ystyriaeth ofalus er mwyn sicrhau bod yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cysylltu â'i gilydd ac yn cefnogi ei gilydd i greu pecyn cadarn o ddiwygiadau arfaethedig.

Er mai prif gylch gwaith y Panel oedd ystyried cynigion deddfwriaethol i helpu i roi diwedd ar ddiartrefedd, roedd adegau yn nhrefodaethau'r Panel lle'r oedd yn amlwg bod angen newid ond bod llwybrau ar wahân i ddeddfwriaeth yn ymddangos yn fwy priodol. I'r perwyl hwn, mae'r Panel hefyd wedi gwneud argymhellion anneddfwriaethol sy'n ceisio ategu a chefnogi ein pecyn arfaethedig o ddiwygio cyfreithiol. Yn yr adroddiad hwn, **nodir argymhellion deddfwriaethol y Panel mewn coch, mae'r argymhellion ar ganllawiau statudol mewn glas ac mae'r argymhellion eraill mewn porffor.** Os caiff yr argymhellion hyn eu rhoi ar waith, gyda'i gilydd, byddant yn gosod llwybr clir a chadarnhaol i atal digartrefedd.

Er bod y Panel yn credu bod yr argymhellion hyn yn becyn cadarn o ddiwygiadau, mae'n bwysig iawn bod adnoddau priodol ar gael i fynd gyda'r diwygiadau a bod sylw'n cael ei roi i'r diffygion sylfaenol yn y cyflenwad o dai. Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Panel wedi clywed pryderon o sawl cyfeiriad bod ein gwasanaethau cymorth digartrefedd dan bwysau na welwyd ei debyg o'r blaen a bod y cyflenwad o dai cymdeithasol ledled Cymru yn bell o fod yn cyfateb i'r galw. Er bod newidiadau i'r gyfraith yn sicr yn gosod safonau sylfaenol clir, ni ellir bodloni'r safonau hyn yn gyson heb fuddsoddiad digonol yn yr adnoddau gofynnol, gan gynnwys cyllid refeniw ar gyfer gwasanaethau cefnogi, capasiti staffio a'r cyflenwad o dai.

Yn yr un modd, mae galwadau am ddata mwy manwl, cynhwysfawr a dibynadwy ar draws y sector tai wedi bod yn thema gyson ar draws gwaith y Panel. Mae'r Panel yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru fuddsoddi er mwyn gwella setiau data ar draws y sector i gefnogi newid deddfwriaethol ac i helpu i fonitro effeithiolrwydd diwygiadau yn y dyfodol.

Mae'r Panel yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth drylwyr i'r pecyn o ddiwygiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, gan weithredu'n gyflym i sicrhau bod gan wasanaethau y fframwaith deddfwriaethol, yr adnoddau a'r cyflenwad o dai i allu sicrhau o ddifri bod digartrefedd yn rhywbeth prin, byrhoedlog na fydd yn cael ei ailadrodd.

RHAN 1: Gwella deddfwriaeth digartrefedd a thai

Llun: Patrice, a gafodd cymorth gan Crisis i ddod o hyd i gartref saff a diogel.

Pan gyflwynwyd Deddf Tai (Cymru) 2014, daeth â'r bwriad clir o fwrw ymlaen â phwyslais ar atal digartrefedd ac ehangu cymorth ymarferol i gynifer ag sy'n bosibl o bobl a oedd yn ddiartref neu'n wynebu risg.

Er bod y Ddeddf hon yn sicr wedi arwain at newidiadau cadarnhaol, mae gwerthusiad o'r ffordd y mae'n cael ei gweithredu hefyd wedi amlygu bylchau ac "amrywiad sylweddol" o ran y ffordd y mae awdurdodau lleol yn dehongli rhannau allweddol o'r ddeddf.¹⁵ Cyfeiriwyd at y bylchau hyn hefyd yn y dystiolaeth a gafodd y Panel gan randdeiliaid ac arbenigwyr drwy brofiad.

Gwelwyd newidiadau amlwg a sylfaenol hefyd yn yr uchelgais i roi terfyn ar ddiartrefedd ers cyflwyno Deddf 2014. Roedd pandemig 2020 yn drobwynt allweddol yn hyn, gan annog dull gweithredu a oedd yn sicrhau bod "neb yn cael ei adael allan" yng nghyswllt cymorth digartrefedd. Ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei hymrwymiad i fwrw ymlaen â'r dull gweithredu hwn. Ond wrth i ymchwil ddangos bod y system bresennol yn achosi rhwystrau i grwpiau penodol o bobl ac yn eu hatal rhag cael cymorth,¹⁶ nid yw'r uchelgais hon yn gyson â'r ddeddfwriaeth digartrefedd bresennol.

Yn yr un modd, mae'r genedl wedi ymrwymo i symud tuag at fodel ailgartrefu cyflym, gan sicrhau bod pobl yn symud i gartrefi sefydlog yn gyflym ac yn gallu cael y cymorth y mae arnynt ei angen. Ac eto mae'r ystadegau cyfredol yn dangos bod mwy a mwy o bobl yn byw mewn llety dros dro am gyfnodau estynedig.¹⁷

Am yr holl resymau hyn, wrth i'r Panel ymgymryd â'i adolygiad deddfwriaethol eang, y cam cyntaf oedd edrych yn fanwl ac yn feirniadol am i mewn i weld sut y mae'r ddeddfwriaeth digartrefedd a systemau tai allweddol yn gweithredu yn ymarferol. Roedd y Panel yn awyddus i sicrhau bod y fframwaith sylfaenol ar gyfer y systemau hyn yn gyson â'r uchelgais newydd a gwell o sicrhau bod digartrefedd yng Nghymru yn rhywbeth prin, byrhoedlog na fydd yn cael ei ailadrodd.

1. Profion cyfreithiol

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn nodi y dylai awdurdodau lleol ystyried pum prawf cyfreithiol cyn penderfynu pa gymorth y gall ceisydd ei gael gan eu gwasanaethau digartrefedd ac ar ba lefel.

Y profion yw; a yw'r unigolyn dan fygythiad o ddiartrefedd neu yn **ddiartref**; a yw'r unigolyn yn **gymwys** i gael cymorth; a yw'r unigolyn mewn categori **angen blaenoriaethol**; a yw'r unigolyn yn ddiartref yn **fwriadol** ai peidio; ac a oes gan yr unigolyn **gysylltiad lleol** â'r ardal ai peidio.

Mae'r Panel yn fodlon ar y cyfan bod y diffiniad statudol presennol o ddiartrefedd (sydd i'w weld yn Adran 55 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014) yn briodol ac yn cynnwys amrywiaeth digartrefedd, gan ymdrin â'r rhai nad oes ganddynt lety, pobl nad ydynt yn gallu cael mynediad i'w llety, yn ogystal â'r rhai nad oes ganddynt lety sydd ar gael ac sy'n rhesymol iddynt ei feddiannu gyda'u haelwyd lawn.

Fodd bynnag, clywodd y Panel lawer o dystiolaeth ynglŷn â rhwystrau sy'n atal cymorth, ac achosion o gymhwysio anghyson mewn cysylltiad â'r pedwar prawf cyfreithiol arall, ac o ganlyniad, mae'n gwneud argymhellion ym mhob un o'r meysydd hyn.

1.1. Cymhwysra

Beth yw'r problem?

Er bod rhai eithriadau, dan Adran 61 ac Atodlen 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, nid yw ceisydd sydd o dramor, yn ddarostyngedig i fesurau rheoli mewnffudo, neu wedi'i wahardd rhag hawlio budd-dal tai drwy Adran 115 o Ddeddf Mewnffudo a Lloches 1999, yn gymwys at ei gilydd i gael cymorth tai.¹⁸

Mae hyn yn achosi rhwystrau amlwg i bobl nad ydynt wedi cael caniatâd i aros yn y DU, neu sy'n aros am benderfyniad, yn ogystal â phobl eraill sydd â chaniatâd sy'n ddarostyngedig i amod yn nodi nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus (NRPF). Gan fod y rhan fwyaf o'r cymorth digartrefedd sydd ar gael drwy awdurdodau lleol a thai cymdeithasol yn cael ei ddosbarthu fel arian

cyhoeddus, ychydig iawn o gymorth sydd ar gael i'r rhai sydd â statws NRPF os ydynt yn canfod eu hunain heb le i aros.

Mae'r risg uwch o ddiartrefedd ymhlith mewnfudwyr yn cael ei chydabod yn eang.¹⁹ Roedd arolwg a gynhaliwyd gan Cyngor ar Bopeth o bobl nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus ledled y DU yn 2021 yn cadarnhau bod y grŵp hwn yn wynebu risgiau uwch. Roedd yn dangos bod bron i hanner (48%) y bobl â statws NRPF yn dweud eu bod yn byw mewn llety gorlawn a bod 1 o bob 5 (18%) wedi profi digartrefedd neu ansicrwydd ynglŷn â chartref.²⁰

Mae elusennau hefyd yn cyfeirio at geiswyr lloches sy'n byw mewn amgylchiadau anodd ac yn cael anhawster â systemau'r Swyddfa Gartref. Dywedodd ceisiwr lloches â hawliad heb ei ddatrys a oedd yn byw yng Nghaerdydd:

"Rwy'n hoffi Caerdydd, ond mae'r system – beth mae'r Llywodraeth eisiau ei wneud â ni – yn anodd. Maen nhw'n rhoi £39 yr wythnos i ni. Rwy'ti'n mynd i Lidl unwaith/dwywaith a does dim llawer ar ôl. Pe bai gen i swydd, gallwn dalu rhent, cynnal fy hun a theimlo bod gen i urddas. Dyna pam y mae rhai pobl yn mynd o'u cof ar y stryd, oherwydd does ganddyn nhw ddim byd. Rydw i wedi bod yma ers 8 mlynedd. Doedd gen i ddim lle i fyw am 6 o'r blynyddoedd hynny. Ro'n i'n cysgu yn nhŷ fy ffrind. Ti'n gwybod, pan wyt ti'n cyflwyno Hawliad Newydd rwy'ti'n gorfod rhestru pobman lle rwy'ti'n aros a dweud wrth y Swyddfa Gartref. Beth ydw i i fod i'w ddweud? Am 6 blynedd rwy'n cysgu yma, yn cysgu acw."²¹

Lle mae ceiswyr lloches yn cael statws ffoadur neu ganiatâd arall i aros yn y wlad, fel arfer mae'n ofynnol iddynt adael llety arbenigol ar gyfer ceiswyr lloches cyn pen 28 diwrnod.²² Mae Cyngor

Ffoaduriaid Cymru, sy'n cefnogi ffoaduriaid, yn disgrifio'r cyfnod hwn fel "cyfnod poenus iawn, lle mae ffoaduriaid yn gorfod dod i ddeall marchnad dai y DU yn gyflym."²³

Ar wahân i gael mynediad at wasanaethau, cydnabyddir hefyd y gall y grŵp hwn wynebu rhwystrau penodol eraill, gan gynnwys "rhwystrau ieithyddol sy'n gallu rhwystro rhywun rhag dod o hyd i waith a chadw swydd, dogfennau wedi eu colli neu wedi cael eu dwyn, sy'n golygu bod rhywun yn methu â phrofi statws mewnfudo, a hynny o bosibl yn arwain at golli swydd neu gartref, a diffyg gwybodaeth am y system les a chymorth statudol yn arwain at fethiant i ddod o hyd i gymorth a chyngor os oes angen hynny."²⁴

Drwy sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid, clywodd y Panel hefyd am yr anawsterau penodol a wynebir gan y rhai nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus ac sy'n ffoi rhag trais. Yn wir, mae llochesi yn aml yn methu â darparu llety i fenywod yn y grwpiau hyn oherwydd natur eu cyllid. Clywodd y Panel hefyd am achos trist iawn lle'r oedd mam nad oedd ganddi hawl i gyllid cyhoeddus wedi dianc o berthynas lle'r oedd yn cael ei cham-drin ac wedi gofyn am gymorth tai, ond wedi cael ei gwahanu oddi wrth ei phlant. Yn yr achos hwn, rhoddwyd y plant mewn gofal a gadawyd y fam heb unman i aros. Mae cryn bryder bod hanesion am achosion fel hyn yn ymledu ymhlith cymunedau ac yn atal menywod eraill sy'n cael eu cam-drin rhag gofyn am gymorth.

Yn ogystal, dywedodd y rhanddeiliaid bod angen cyffredinol am well dealltwriaeth o'r rhwystrau ieithyddol a diwylliannol a allai fod yn atal pobl o'r grŵp hwn rhag cael cymorth. Er enghraifft, gall dibynnu ar aelodau o'r teulu i gyfieithu olygu, yn enwedig os yw unigolyn yn cael ei gam-drin, nad yw ceiswyr yn gwybod beth yw eu hawliau a sut i gael cymorth.

15 Ahmed, A., Rogers, M., Wilding, M., Gibbons, A., Jones, K. a Madoc-Jones, I. (2018) *Gwerthusiad Ôl-weithredu o Ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014: Adroddiad Terfynol*. Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR rhif 46/2018.

16 Gwilym-Taylor, R. a Sanders, B. (2021) *NEB HEB HELP: Realiti rhwystrau cymhwysra i bobl sy'n wynebu digartrefedd yng Nghymru*. Crisis.

17 Llywodraeth Cymru (2023) *Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan*.

18 Adran 61 ac Atodlen 2, Deddf Tai (Cymru) 2014.

19 Boobis, S., Jacob, R., Sanders, B. (2021) *A Home for All: Understanding Migrant Homelessness in Great Britain*. Crisis.

20 Smith, C. et al. (2021) *How do I survive now? The Impact of Living with No Recourse to Public Funds*. Cyngor ar Bopeth. Darllenwyd 27 Medi 2023. https://www.citizensadvice.org.uk/Global/CitizensAdvice/welfare%20publications/How%20do%20I%20survive%20now_%20November%202021.pdf

21 Storiâu gan breswylwyr Home4U (2023). Darllenwyd 25 Awst 2023. www.home4ucardiff.org

22 Yn y cyfnod rhwng pan gwblhaodd y Panel ei argymhellion a phan gyhoeddwyd y papur hwn, mae ymarfer wedi newid sy'n golygu bod posibilrwydd o gyfnod hysbysu byrrach o 7 niwrnod. Sylwer nad oedd y Panel yn gwybod am hyn ar adeg ei drafodaethau.

23 Cyngor Ffoaduriaid Cymru (2023) *Housing and Homelessness*, Darllenwyd 27 Medi 2023. <https://wrc.wales/our-housing-and-landlord-casework/#:~:text=Our%20Housing%20and%20Landlord%20Casework,understand%20the%20UK%20housing%20market>

24 Boobis, S., Jacob, R. a Sanders, B. (2021) *A Home for All: Understanding Migrant Homelessness in Great Britain*. Crisis.

A oes angen newid cyfreithiol?

Ar hyn o bryd nid oes llawer o opsiynau i bobl nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus, sy'n wynebu mwy o risg o ddigartrefedd. Mae cyfyngiadau cyfreithiol yn golygu nad oes gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill lawer o gyfleoedd i helpu'r grŵp hwn ar hyn o bryd. Oherwydd hyn, mae'r Panel yn credu bod angen ymyriad cyfreithiol. Gan nad yw pwerau yn y maes hwn wedi cael eu datganoli, bydd angen cysylltu â Llywodraeth y DU.

Mae argymhellion yn yr adrannau cyfathrebu (gweler tudalen 54) a hawliau ceiswyr (gweler tudalen 88) yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn hefyd yn ceisio mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd uchod ynglŷn â rhwystrau ieithyddol a hygyrchedd gwasanaethau digartrefedd.

Argymhellion y Panel

Mae'r Panel yn argymhell ehangu'r cymorth y gellir ei ddarparu'n gyfreithlon i'r grŵp NRPF ac mae'n dymuno gweld gwell llwybr cyfeirio tuag at gymorth tai i geiswyr lloches sy'n cael caniatâd i aros.

Yn ogystal, mae'r Panel yn argymhell codi ymwybyddiaeth o'r cymorth y gall gwasanaethau cymdeithasol ei gynnig i'r rhai sy'n dianc rhag trais ac nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus.

Cymhwysra'r rhai nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus (nrpf) a'r rhai sy'n cael caniatâd i aros

1. Dylai Llywodraeth Cymru geisio cynnwys pobl nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus (NRPF) yn y rhestr o'r rhai sy'n gymwys i gael cymorth digartrefedd ac i dderbyn budd-daliadau lles, gan gysylltu â Llywodraeth y DU i geisio canfod ffordd o symud ymlaen.
2. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ellid barnu bod ceiswyr lloches sy'n cael eu hysbysu eu bod wedi cael caniatâd i aros (ac o ganlyniad sydd â chyfnod o 28 diwrnod i adael llety arbenigol i geiswyr lloches)²⁵ dan fygythiad o ddigartrefedd (naill ai oherwydd y derbynir eu bod yn debygol o fod yn ddigartref cyn pen 6 mis neu oherwydd bod deddfwriaeth yn nodi y bernir eu bod dan fygythiad o ddigartrefedd

pan roddir caniatâd iddynt). Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried mecanwaith a fyddai'n rhoi dyletswydd ar y Swyddfa Gartref i gyfeirio'r cyn geisiwr lloches i gael cymorth digartrefedd pan roddir caniatâd iddo.

(Gweler hefyd argymhellion 97 a 98 ar ddyletswyddau i nodi, cyfeirio, gweithredu a chydweithredu).

Cymorth i'r rhai heb hawl i gyllid cyhoeddus sy'n ffoi rhag trais

3. Lle mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn cefnogi goroeswyr cam-drin domestig neu riant â phlentyn neu blant nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus, dylai canllawiau a gyhoeddir dan ddyletswyddau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddarparu y dylai rhan o'r gefnogaeth a'r cymorth fod er mwyn helpu i wneud cais i godi'r amod NRPF a/neu gais am y Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd.
4. Nes bydd argymhelliad 1 yn cael ei roi ar waith, fel mesur dros dro, dylai Llywodraeth Cymru roi cyflwyniad gerbron Swyddfa Gartref y DU y dylai goroeswyr trais domestig nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus, er hynny, fod yn gymwys i gael cymorth digartrefedd.
5. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall alluogi goroeswyr nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus i gael mynediad at lety mewn lloches, gan gynnwys y posibilrwydd o ariannu darpariaeth lloches arbenigol.

Galluogwyr a rhwystrau

Gan fod mewnffudo, lloches a budd-daliadau lles i gyd yn faterion a gadwyd yn ôl i Lywodraeth y DU, mae'r Panel yn cydnabod bod pwerau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion hyn yn gyfyngedig.

Er hyn, mae'n bosibl y gallai Gweinidogion Cymru geisio cydweithredu â San Steffan ynglŷn â'r mater hwn – yn enwedig o ystyried ei statws datganedig fel "Cenedl Noddfa." Mae Cynllun Cenedl Noddfa²⁶ Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2019 yn

addo mesurau cadarnhaol i helpu i integreiddio pobl sy'n ceisio lloches yng Nghymru ac i liniaru amddifadedd. Mae hyn yn cynnwys ceisio sicrhau llety o ansawdd da a gwell i geiswyr lloches yn ogystal â chynorthwyo ffoaduriaid i symud o lety ceiswyr lloches i lety cynaliadwy.

Er bod Adran 46 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi na all awdurdod lleol ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo (sy'n cynnwys pobl sydd ag amod NRPF) lle mae'r anghenion hynny wedi codi o ganlyniad i fod yn ddiymgeledd yn unig, mae posibilrwydd y gellid cefnogi'r rhai hynny sy'n ffoi rhag cam-drin domestig. O ganlyniad, mae'n bosibl bod cyfleoedd ar gyfer canllawiau i annog gwasanaethau cymdeithasol i helpu'r rhai hynny nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus ac sy'n ffoi rhag sefyllfaoedd camdriniol i wneud cais am gael codi'r amod NRPF a/neu wneud cais am y Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd.

1.2. Angen Blaenoriaethol

Beth yw'r broblem?

Dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae gan awdurdodau tai lleol ddyletswydd gyfreithiol i gefnogi grwpiau penodol o geiswyr sydd â statws angen blaenoriaethol. Mae hyn yn cynnwys teuluoedd â phlant ifanc, menywod beichiog, pobl ifanc 16 a 17 oed, yn ogystal â'r rhai 18 i 20 oed sy'n wynebu risg benodol o gael eu hecsbloetio yn rhywiol neu'n ariannol neu sydd wedi bod mewn gofal, goroeswyr cam-drin domestig, cyn-filwyr, y rhai sy'n agored i niwed oherwydd eu bod wedi gadael carchar a phobl sy'n agored i niwed am "reswm arbennig."

Os nad yw unigolyn yn perthyn i gategori angen blaenoriaethol, gall gael cyngor a chefnogaeth, gyda'r awdurdod lleol yn cymryd "camau rhesymol" i'w helpu i sicrhau llety. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol yn y pen draw sicrhau llety i'r rhai hynny nad oes ganddynt angen blaenoriaethol. I lawer o bobl mae hyn yn rhwystr ychwanegol y mae'n rhaid iddynt ei oresgyn heb

lawer o opsiynau llety, os o gwbl, a gallent ganfod eu hunain yn ddigartref lle gellid bod wedi atal hynny.

Yn ystod y pandemig, cafodd y prawf angen blaenoriaethol ei 'ohirio' i bob pwrpas wrth i wasanaethau ledled Cymru geisio mabwysiadu dull gweithredu lle nad oes "neb yn cael ei adael allan" a sicrhau nad oedd neb yn cael ei adael ar y stryd gan nad oedd yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth. Mae Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru er mwyn Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn amlinellu ymrwymiad i fwrw ymlaen â'r dull gweithredu hwn.²⁷

Fel rhan o'r dull gweithredu hwn, ym mis Hydref 2022, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddiwygiad i Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a oedd yn ychwanegu pobl sy'n ddigartref ar y stryd fel categori angen blaenoriaethol newydd.²⁸ Roedd hyn yn sicrhau bod y rhai hynny sy'n wynebu digartrefedd ar ei waethaf yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer cymorth tra oedd diwygiadau tymor hwy i sicrhau dull gweithredu lle nad oes neb yn cael ei adael allan yn cael eu hystyried.

O ganlyniad i'r dull gweithredu yn ystod y pandemig, a'r newid er mwyn nodi digartrefedd ar y stryd fel angen blaenoriaethol, mae ystadegau digartrefedd blynyddol Llywodraeth Cymru yn dangos bod nifer y bobl a gofnodwyd fel rhai 'cymwys, yn ddigartref ond nid yn flaenoriaeth' wedi gostwng o 1,470 i 63 rhwng 2019-20 a 2021-22.²⁹

Er bod y prawf angen blaenoriaethol wedi'i sefydlu yn wreiddiol er mwyn amddiffyn pobl a fyddai'n wynebu risg benodol pe baent yn mynd yn ddigartref, mae'r ystadegau uchod yn helpu i ddangos y gallai'r prawf fel y mae'n sefyll yn y ddeddfwriaeth bresennol (unwaith eto) ffurfio rhwystr sylweddol sy'n atal cymorth ymarferol. Digwyddodd y gostyngiad rhyfeddol yn y niferoedd ag angen blaenoriaethol, a nodwyd yn y paragraff uchod, yn ystod cyfnod o amgylchiadau eithriadol, ac mae'r Panel yn awyddus i ddiwygio'r ddeddfwriaeth ar sail hirdymor er mwyn sicrhau nad ydym yn dychwelyd at y niferoedd uchel o

25 Yn y cyfnod rhwng yr adeg y cwblhaodd y Panel ei argymhellion a phan gyhoeddwyd y papur hwn, mae ymarfer wedi newid sy'n golygu bod posibilrwydd o gyfnod hysbysu byrrach o 7 niwrnod. Sylwer nad oedd y Panel yn gwybod am hyn ar adeg ei drafodaethau.

26 Llywodraeth Cymru (2019) Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches.

27 Llywodraeth Cymru (2021) Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun gweithredu lefel uchel 2021-2026.

28 Rheoliadau Digartrefedd (Angen Blaenoriaethol a Bwriadoldeb) (Cymru) 2022, OS 2022/1069.

29 Llywodraeth Cymru (2022) Aelwydydd y darparwyd cymorth iddynt yn ôl y canlyniad a'r math o aelwyd. Darllenwyd 24 Awst 2023. <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/householdsforwhichassistancehasbeenprovided-by-outcome-householdtype>

bobl a oedd yn methu â chael llety oherwydd y prawf hwn.

Er bod rhai arbenigwyr drwy brofiad yn dweud eu bod yn deall ei bod yn bosibl bod angen blaenoriaethu cymorth i rai grwpiau, roedd llawer o rai eraill yn teimlo bod y prawf angen blaenoriaethol yn "rhy llym" ac nad yw'n cydnabod amgylchiadau unigolion.

Dynion sengl yw'r prif grŵp o geiswyr sy'n wynebu'r rhwystr o gael eu cau allan o'r ddyletswydd i ailgartrefu dro ar ôl tro gan nad oes ganddynt angen blaenoriaethol.³⁰ Yn 2021-22, roedd dros 90% o'r ceiswyr a aseswyd fel rhai 'cymwys, yn ddiartref ond nid yn flaenoriaeth' yn aelwydydd un person.³¹

Yn yr un modd, gall gorfod dangos prawf o angen blaenoriaethol achosi rhwystrau i oroeswyr cam-drin domestig. Er bod gan y rhai sy'n ffoi rhag cam-drin domestig angen blaenoriaethol, gall gorfod datgelu hyn fod yn brofiad trawmatig, a gall fod yn anodd profi bod hyn yn digwydd, yn enwedig os nad yw'r unigolyn wedi ymgysylltu â'r heddlu neu wasanaethau cymorth.

Mae eraill wedi mynegi pryder nad yw'r categorïau angen blaenoriaethol presennol yn cynnwys pob unigolyn â phrofiad o fod mewn gofal sy'n wynebu mwy o risg o ddiartrefedd o ganlyniad i diffyg cysylltiadau teuluol a chefnogaeth. Er bod y categorïau angen blaenoriaethol ar hyn o bryd yn cynnwys pobl â phrofiad o fod mewn gofal hyd at 21 oed, gofynnodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd yn benodol i'r Panel ystyried argymhell y dylai pobl â phrofiad o fod mewn gofal gadw eu statws blaenoriaeth hyd at 25 oed.³²

Roedd y gwerthusiad ôl-weithredu o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn nodi bod y cysyniad o fod yn agored i niwed mewn cysylltiad â chategori angen blaenoriaethol bod 'yn agored i niwed o ganlyniad i ryw reswm arbennig' yn oddrychol, a'i fod felly'n

cael ei gymhwyso'n anghyson.³³ Cefnogwyd hyn gan waith ymgysylltu â rhanddeiliaid y Panel a ddangosodd fod gan bobl anabl brofiadau cymysg o'r prawf angen blaenoriaethol, â rhanddeiliaid yn y sector yn awgrymu y gallai hyn fod o ganlyniad i wahanol ddulliau o ddefnyddio'r prawf yn seiliedig ar amrywiadau yn y ffyrdd y mae gwahanol anabledau yn cael eu gweld. Mae canllawiau yn nodi y dylid ystyried "salwch meddyliol a chorfforol ac anabled meddyliol a chorfforol gan gynnwys Anhwylder Sbectrum Awstistig" wrth benderfynu a yw ceisydd yn agored i niwed.³⁴ Er hyn, mae ymchwil yn ddiweddar gan y Ganolfan Effaith Digartrefedd yn nodi bod "anabled yn gallu gwneud aelwyd yn gymwys ar gyfer dyletswydd i ddod o hyd i lety dan angen blaenoriaethol, ond nid bob amser." Dywedodd rhanddeiliaid yn y sector fod awdurdodau lleol yn aml yn defnyddio asesiadau meddygol o anabled, ond mae ymchwil yn dangos nad oes gan bob person anabl ddiagnosis meddygol, ac mae'n anodd iawn i rywun sy'n ddiartref gael diagnosis. O ganlyniad, gall hyn fod yn rhwystr sy'n atal cymorth a lliniaru effeithiol.³⁵

Ar drywydd tebyg, mynegodd rhanddeiliaid bryder y gallai pobl niwrowahanol a phobl sydd mewn trallod gyflwyno eu hunain, er eu bod yn agored i niwed, mewn ffordd nad yw'n bodloni meini prawf asesiad o fod yn agored i niwed, ac o ganlyniad nid ydynt yn cael eu dosbarthu fel angen blaenoriaethol. Yn yr un modd, mae anawsterau iechyd meddwl heb eu diagnosis a goddrychedd ynglŷn â pha mor ddirifol yw anawsterau iechyd meddwl sy'n "rheswm arbennig" yn gadael y prawf angen blaenoriaethol yn agored i wahanol ddeongliadau.

Oherwydd pob un o'r rhesymau a amlinellwyd uchod, mae cefnogaeth eang at ei gilydd ar draws y sector i ddiddymu angen blaenoriaethol fel rhan o'r dull gweithredu lle nad oes neb yn cael ei adael allan. Yn ôl Monitor Digartrefedd Cymru 2021

roedd 15 allan o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru o blaid diddymu'r prawf angen blaenoriaethol.³⁶

A oes angen newid cyfreithiol?

Mae'r Panel yn credu bod angen newid y ddeddfwriaeth er mwyn dileu angen blaenoriaethol fel rhwystr allweddol sy'n atal mynediad at lety.

Argymhellion y Panel

Mae'r Panel yn argymhell y dylid dileu'r prawf angen blaenoriaethol ar ddyddiad a bennir yn y dyfodol.

O ystyried y pryder a sylwadau a gyflwynwyd i'r Panel ynglŷn â'r ffaith fod pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn wynebu mwy o risg o ddiartrefedd, mae'r Panel hefyd yn argymhell, cyn diddymu Angen Blaenoriaethol, y dylid cymhwyso'r eithriad i'r grŵp hwn ar draws ystod oedran ehangach nag sy'n bodoli ar hyn o bryd. Er mwyn sicrhau eglurder, mae'r Panel hefyd yn pwysleisio y dylai pobl sy'n ddiartref ar y stryd, sydd wedi'u hychwanegu yn ddiweddar, aros ar y rhestr o gategoriâu wedi'u heithrio o'r prawf hyd at a than y diwrnod y bydd yn cael ei ddiddymu.

6. **Dylid diddymu'r prawf Angen Blaenoriaethol (fel y mae wedi'i nodi yn Adran 70 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014) a dylai'r ddyletswydd interim i sicrhau llety (Adran 68 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014) a'r brif ddyletswydd i sicrhau llety (Adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014) fod yn gymwys i bob ceisydd sy'n ddiartref, neu a allai fod yn ddiartref, p'un a oes ganddo angen blaenoriaethol ai peidio. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi dyddiad penodedig i weithredu'r diddymiad hwn er mwyn galluogi awdurdodau tai lleol i baratoi.**
7. **Tra mae dileu angen blaenoriaethol yn cael ei ystyried a/neu ei weithredu, dylai pobl (o unrhyw oed) sydd â phrofiad o fod mewn gofal gael eu hystyried yn rhai ag angen blaenoriaethol (gan ddefnyddio pwerau Gweinidogion dan Adran 72(1) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014). Yn ystod y cyfnod hwn, dylai'r mesur interim a gyflwynwyd yn ddiweddar, sy'n nodi y dylai'r rhai sy'n ddiartref ar y stryd gael eu hystyried yn rhai ag angen blaenoriaethol, barhau mewn grym hefyd.**

Galluogwyr a rhwystrau

Er eu bod yn cefnogi'r egwyddor o sicrhau nad oes neb yn cael ei adael allan, roedd llawer o rhanddeiliaid awdurdodau lleol yn bryderus nad oes gan awdurdodau tai lleol ddigon o unedau llety sefydlog ar hyn o bryd i fodloni'r cynnydd tebygol yn nifer yr achosion lle bydd dyletswydd i ddod o hyd i lety os caiff angen blaenoriaethol ei ddiddymu. Dyma pam y mae'r Panel yn argymhell y dylid cael cyfnod arweiniol priodol i alluogi awdurdodau lleol i baratoi, a bod angen buddsoddi mwy yn y cyflenwad o dai.

Wrth ddiddymu angen blaenoriaethol, nodir y bydd proffil ceiswyr sy'n dod drwy'r system yn newid hefyd ac mae angen adlewyrchu hyn yn y math o lety sydd ar gael. Er enghraifft, rydym yn disgwyl gweld mwy o bobl sengl yn cael eu derbyn fel rhai y mae'r brif ddyletswydd i ddarparu llety yn berthnasol iddynt, a fydd yn golygu bod angen cael mwy o letyau un ystafell wely a/neu ddod o hyd i ffyrdd o liniaru effaith dileu'r cymhorthdal ystafell sbâr.³⁷

Mae'r Panel yn cynghori y bydd angen buddsoddi yn y gweithlu, gwasanaethau cymorth tai a llety dros dro mwy addas, yn ogystal â chael mwy o dai sefydlog er mwyn cyflawni'r uchelgais hon. Yn ychwanegol at hyn, bydd yn hanfodol buddsoddi mewn setiau data manwl er mwyn sicrhau darlun cywir a chyfredol o angen a chynnydd.

1.3. Bwriadoldeb

Beth yw'r broblem?

Dan Adran 78 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, gall awdurdodau tai lleol ddewis cymhwyso 'prawf bwriadoldeb' i unigolyn ag angen blaenoriaethol, cyn iddynt benderfynu a yw'r brif ddyletswydd i ddarparu llety yn ddyledus i'r ceisydd (dan Adran 75).

Bennir bod ceisydd yn ddiartref yn fwriadol (dan Adran 77) "os yw'r person yn gwneud unrhyw beth neu'n methu â gwneud unrhyw beth yn fwriadol ac o ganlyniad i hynny mae'r person yn rhoi'r gorau i feddiannu llety sydd ar gael i'r person ei feddiannu ac y byddai wedi bod yn rhesymol i'r person barhau i'w feddiannu."

30 Mackie, P., Gray, T., Hughes, C., Madoc-Jones, I., Mousteri, V., Pawson, H., Spyropoulos, N., Stirling, T., Taylor, H. a Watts, B. (2019) *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru. Comisiynydd gan Lywodraeth Cymru.*

31 Llywodraeth Cymru (2022) *Aelwydydd y darparwyd cymorth iddynt yn ôl y canlyniad a'r math o aelwyd.* Darllenwyd 24 Awst 2023. <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/householdsforwhichassistancehasbeenprovided-by-outcome-householdtype>

32 Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd (2023) *Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.*

33 Ahmed, A., Rogers, M., Wilding, M., Gibbons, A., Jones, K. a Madoc-Jones, I. (2018) *Gwerthusiad ôl-weithredu o Ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014: Adroddiad Terfynol.*

34 Llywodraeth Cymru (2016) *Dyrannu Llety a Digartrefedd: Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol.*

35 Stone, B. a Wertans, E. (2023) *Homelessness and disability in the UK.* Canolfan Effaith Digartrefedd.

36 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Young, G., Watts, B. a Wood, J. (2021) *Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2021.* t. 87.

37 Roedd dileu'r cymhorthdal ystafell sbâr yn golygu lleihad mewn Budd-dal Tai i denantiaid cymdeithasol oed gweithio y mae gan eu heiddo fwy o ystafelloedd nag y mae meini prawf maint yr Adran Gwaith a Phensiynau yn nodi bod arnynt eu hangen.

Gall awdurdodau lleol benderfynu cymhwyso'r prawf i bob grŵp angen blaenoriaethol, neu i rai yn unig ohonynt. Fodd bynnag, ni ddylent gymhwyso'r prawf i deuluoedd â phlant, menywod beichiog, pobl a oedd dan 21 oed pan oeddent yn gwneud eu cais, neu bobl â phrofiad o fod mewn gofal a oedd dan 25 oed ar yr adeg pan oeddent yn gwneud eu cais (oni bai fod unrhyw rai o'r bobl hyn eisoes wedi gwneud cais ac wedi cael cynnig llety yn ystod y 5 mlynedd diwethaf).

Os bernir bod ceisydd yn ddiartref yn fwriadol, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ddarparu llety dros dro am 'gyfnod rhesymol', neu isafswm o 56 diwrnod o'r adeg y derbyniwyd bod dyletswydd i liniaru digartrefedd yr aelwyd.

Yn 2022-23, mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn dangos bod 93 (1.79%) allan o 5,187 o geiswyr a gofnodwyd fel rhai a oedd yn gymwys, yn ddiartref ac yn flaenoriaeth yn cael eu hystyried yn rhai a oedd wedi gwneud eu hunain yn ddiartref yn fwriadol.³⁸

Bwriadwyd y prawf bwriadoldeb yn wreiddiol i ymdrin â 'chymhellion gwrthnysig' i wneud cais am gymorth digartrefedd er mwyn 'neidio'r ciw' ar gyfer tai cymdeithasol. Er bod rhai rhanddeiliaid yn cefnogi bodolaeth y prawf bwriadoldeb am y rheswm hwn, clywodd y Panel lawer o dystiolaeth bod yr amod yn cael ei gymhwyso'n anghywir a'i gamdehongli.

Dywedodd rhanddeiliaid ac arbenigwyr drwy brofiad nad yw'r prawf bwriadoldeb yn ystyriol o drawma a'i fod yn annog beirniadaeth ynglŷn â phwy sy'n haeddu cymorth a phwy nad yw'n haeddu cymorth. Roedd llawer o bobl yn cyfeirio at brofiadau sy'n gyson â'r ymchwil helaeth sy'n dangos bod gan bobl y canfyddir eu bod yn 'ddiartref yn fwriadol' fel arfer anghenion cymorth amlwg heb eu diwallu ac mai'r rhain yn aml iawn yw'r rhai sy'n cael eu cau allan fwyaf o wasanaethau a chymorth.³⁹

Eglurodd gweithiwr rheng flaen a oedd yn ymateb i arolwg Rhwydwaith Rheng Flaen Cymru Cymorth Cymru:

"Gall bwriadoldeb yn aml ddiystyru angen iechyd meddwl unigolyn yn llwyr, rhai ymatebion i drawma, anhawster dysgu, ei ddiffyg gallu i wneud y peth iawn. Gall y gyfraith beidio â sylweddoli ei bod yn bodoli er mwyn amddiffyn a chefnogi pobl sy'n agored i niwed mewn sefyllfaoedd agored i niwed."

Ategwyd y pryderon hyn gan arbenigwyr drwy brofiad a oedd yn teimlo y gallai pobl ganfod eu hunain yn cael eu disgrifio fel rhai sy'n ddiartref 'yn fwriadol' am nifer o wahanol resymau, gan gynnwys problemau iechyd meddwl, caethiwed, cam-drin domestig ac anawsterau dysgu.

Mae canlyniadau cael eich labelu'n ddiartref yn fwriadol yn sylweddol – gall ceiswyr y barnwyd eu bod yn ddiartref yn fwriadol deimlo nad oes ganddynt lawer o obaith cefnu ar ddiartrefedd. Pan fydd anghenion cymorth heb eu diwallu sy'n ymwneud ag iechyd meddwl neu gaethiwed wedi bod yn ffactor sylfaenol wrth ystyried bod unigolyn yn "ddiartref yn fwriadol," gall y straen hwn wneud yr anawsterau hyn yn waeth. O ganlyniad, mae'n debygol y bydd yr unigolion hyn yn gwneud cais arall am gymorth yn nes ymlaen, ac o bosibl ag anghenion mwy dwys ac yn nes at fod mewn argyfwng.

Fel y mae'r ystadegau uchod yn dangos, mae canfyddiadau ffurfiol ynglŷn â bwriadoldeb yn gymharol anghyffredin, ond dywedodd rhanddeiliaid ei fod yn aml yn cael ei ddefnyddio'n anffurfiol mewn trafodaeth â cheiswyr er mwyn eu hatal rhag cymryd camau penodol. Er enghraifft, gallai ceisydd gael ei annog i aros mewn eiddo anaddas er mwyn osgoi cael ei ystyried "yn ddiartref yn fwriadol," ond crynhoi ôl-ddyledion rhent wrth wneud hynny.

Yn ychwanegol at hyn, canfu'r gwerthusiad o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 dystiolaeth o amrywiad sylweddol yn y dehongliad o fwriadoldeb ar draws awdurdodau lleol.⁴⁰ Mynegodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru bryder hefyd

38 StatsCymru (2023) *Aelwydydd y darparwyd cymorth iddynt yn ôl y canlyniad a'r math o aelwyd*. Darllenwyd 5 Medi 2023. <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/householdsforwhichassistancehasbeenprovided-by--outcome-householdtype>

39 Er enghraifft, gweler Campbell, A. J. (2011) *The Impact of Intentional Homelessness Decisions on Welsh Households' Lives*. Abertawe: Shelter Cymru; Rosengard, A., Laing, I., Ridley, J. a Hunter, S. (2007) *Closing the Opportunity Gap: Findings of a Literature Review on Multiple and Complex Needs*. Adroddiad Prosiect. Caeredin: Gweithrediaeth yr Alban; ac Albanese, F. (2019) *Intentionality in the homelessness system across Great Britain*.

40 Ahmed, A., Wilding, M., Gibbons, A., Jones, K., Rogers, M. a Madoc-Jones, I. (2018) *Gwerthusiad ôl-weithredu o Ran 2 Deddf Tai (Cymru)*.

ynglŷn â chamddefnyddio'r prawf bwriadoldeb, gan gyfeirio at enghreifftiau megis menyw oedrannus a ddosbarthwyd fel un a oedd "yn ddiartref yn fwriadol" ar ôl gadael ei chartref priodasol oherwydd bod ei gŵr wedi cael ei gyhuddo o gam-drin plant.⁴¹

A oes angen newid cyfreithiol?

Mae'r Panel yn credu, o ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd uchod, y dylid dileu'r prawf bwriadoldeb. Mae angen deddfwriaeth sylfaenol i wneud hyn.

Argymhelliaid y Panel

8. [Dylid dileu'r prawf 'digartref yn fwriadol' yn Adran 77 o Ddeddf Tai \(Cymru\) 2014 a diwygio'r brif ddyletswydd i ddarparu llety yn Adran 75 o Ddeddf Tai \(Cymru\) 2014 fel bod dyletswydd tuag at bob ceisydd cymwys sy'n ddiartref \(ac nad yw'n cael ei gyfeirio dan gysylltiad lleol\).](#)

Galluogwyr a rhwystrau

Mae'r Panel yn ymwybodol, heb brawf bwriadoldeb, bod rhanddeiliaid wedi mynegi pryder y gallai rhai unigolion 'wneud eu sefyllfa yn waeth' neu gamarwain yr awdurdod er mwyn cael mwy o flaenoriaeth at dai cymdeithasol. Mae'r Panel wedi ceisio diogelu rhag hyn drwy argymhellion yn yr adran ar ddyrannu tai cymdeithasol ar dudalennau 46–47. Drwy gyflwyno mesur a fyddai'n golygu bod y rhai hynny sy'n camddefnyddio'r system ddiartrefedd 'yn fwriadol' yn colli eu hawl i ffafriaeth resymol wrth ddyrannu tai, mae'r Panel yn ceisio mynd i'r afael ag unrhyw 'gymhelliant gwrthnysig' yn y system digartrefedd mewn ffordd sydd wedi'i thargedu'n fwy na'r prawf bwriadoldeb ac sy'n llai cosbol.

1.4. Cysylltiad lleol

Beth yw'r broblem?

Mae Adran 80 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn grymuso awdurdodau tai lleol i gyfeirio ceiswyr digartref nad oes ganddynt 'gysylltiad lleol' â'u

hardal, at awdurdod y mae ganddynt gysylltiad o'r fath â hi, ar gyfer eu hailgartrefu yn yr hirdymor. Gall cysylltiad lleol gynnwys bod yn byw yn yr ardal, bod yn gyflogedig neu fod â chysylltiadau teuluol yn yr ardal, yn ogystal ag 'amgylchiadau arbennig' eraill.

Clywodd y Panel dystiolaeth amrywiol o ymchwil, a chan rhanddeiliaid ac arbenigwyr drwy brofiad, sy'n dangos bod y prawf cysylltiad lleol yn cael ei ddehongli a'i gymhwyso yn anghyson ledled Cymru, weithiau'n anghyfreithlon, ac yn aml mewn ffordd nad yw'n ystyriol o drawma, yn canolbwyntio ar yr unigolyn nac yn gyson ag egwyddorion ehangach atal.

Clywodd y Panel fod y prawf cysylltiad lleol yn achosi rhwystrau sylweddol ac anghymesur i rai grwpiau. Er enghraifft, deellir yn gyffredinol bod pobl LHDTC+yn gallu wynebu mwy o risg o ddiartrefedd o ganlyniad i ffoi rhag cam-drin homoffobig. Mae'r grŵp hwn yn fwy tebygol o geisio symud i ardaloedd newydd er mwyn dianc rhag cam-driniaeth a chael mynediad at gymunedau a gwasanaethau penodol i bobl LHDTC+, felly gallent gael anhawster i ddangos cysylltiad lleol 'traddodiadol' ag ardal arbennig.⁴²

Er gwaetha'r ffaith fod canllawiau yn dweud bod angen mwy o hyblygrwydd ar gyfer pobl â phrofiad o fod mewn gofal wrth gymhwyso'r prawf cysylltiad lleol, mae cysylltiad lleol yn dal i achosi problemau arbennig i bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae ymchwil Dileu Digartrefedd Ieuencid Cymru yn amlinellu bod rhai pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn disgrifio sut y mae camddefnyddio'r prawf cysylltiad lleol wedi achosi eu digartrefedd gan ei fod wedi cael ei ddefnyddio i'w hamddifadu o'r gallu i aros mewn awdurdodau lleol lle maent wedi cael eu maethu a lle maent yn teimlo'n gartrefol. Eglurodd rhai o'r rhai a fu'n cymryd rhan yn yr ymchwil eu bod wedi cael eu hadleoli i'r awdurdodau lleol lle cawsant eu geni, ond nad oedd ganddynt rwydweithiau cefnogi yn yr ardaloedd hynny.⁴³ Nodwyd y broblem hon hefyd yn y sesiwn rhanddeiliaid ar-lein a gynhaliwyd gan Plant yng Nghymru i helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer gwaith y Panel.

41 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (2021) *Adolygiad Digartrefedd: drws agored i newid cadarnhaol*. t. 59.

42 Helen Carr, Adi Cooper, Edith England, Peter Matthews, Gill Taylor a Carin Tunåker (2022) *Queer utopias of housing and homelessness*. Housing Studies.

43 Bridgeman, J. a Russell, H. (2020) *'Don't let me fall through the cracks': Homelessness amongst care-experienced young people in Wales*. Dileu Digartrefedd Ieuencid Cymru.

Mae pryder hefyd ynglŷn â'r defnydd presennol o'r prawf cysylltiad lleol ar gyfer goroeswyr cam-drin domestig. Er bod darpariaeth i atal ceisydd rhag cael ei gyfeirio at awdurdod lleol arall lle gallai wynebu risg o gam-drin domestig, mae rhai goroeswyr wedi dweud bod angen iddynt brofi eu bod yn wynebu risg er mwyn atal hyn rhag digwydd. Mae hon yn broses drawmatig ac, yn ogystal â hynny, nid yw'n bosibl profi'r risg hon bob amser.

Mae pobl anabl hefyd yn wynebu anawsterau â'r prawf cysylltiad lleol. Mae mynediad at ofal iechyd a chyfleusterau meddygol yn anghyson ledled Cymru, felly efallai y bydd angen i berson anabl fyw o fewn ardal bwrdd iechyd penodol er mwyn gallu cael mynediad at gyfleuster meddygol, gwasanaeth cymorth neu gymuned arbennig. Fodd bynnag, gall y dehongliad o'r prawf cysylltiad lleol ar gyfer rhesymau iechyd amrywio. Yn ychwanegol at hyn, oherwydd prinder tai addas ar gyfer anghenion amrywiol pobl anabl, mae rhai pobl anabl wedi gorfod symud o rywle lle mae ganddynt gysylltiad lleol er mwyn byw mewn tŷ hygrych.

Gall y prawf cysylltiad lleol hefyd achosi problemau i'r rhai hynny sy'n ceisio gwella ar ôl bod yn defnyddio sylweddau. Gall cael ei orfodi i aros mewn ardal arbennig, yn agos at gysylltiadau sy'n ymwneud â'u defnydd o sylweddau a risg y bydd rhywun yn camfanteisio'n droseddol arno, gael effaith negyddol ar adferiad unigolyn. Er enghraifft, dywedodd arbenigwr drwy brofiad wrth y Panel:

"Mae llawer o bobl eisiau symud o'r ardal gan fod ganddyn nhw gysylltiadau â defnyddio cyffuriau neu drais yn eu hardal leol. Dydy'r gyfraith bresennol ddim yn ystyried hyn, ac mae pobl yn cael eu dal mewn cylch o ddiartrefedd achos eu bod nhw ddim yn gallu symud oddi wrth eu gorffennol os nad oes ganddyn nhw gysylltiad lleol y tu allan i'w hardal. Mae'n rheol hurt sy'n rhwystro pobl rhag cael yr help y mae arnyh nhw ei angen."

Dywedodd rhanddeiliaid hefyd fod cysylltiad lleol yn rhwystr sy'n atal unigolion sy'n gadael y carchar rhag adsefydlu. Yn achos rhai pobl sy'n gadael carchar, gall dychwelyd i ardal lle mae ganddynt hanes o drosedd gynyddu'r tebygolrwydd o aildrosedd, ond yn aml dyma'r unig ardal y mae ganddynt gysylltiad lleol â hi. Gall rhai sy'n gadael carchar sy'n cael eu hadnabod fel 'Troseddwyr Cyson a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth' hefyd wynebu rhwystrau penodol lle mae cyfyngiadau o ran ble y gallant fyw oherwydd natur eu trosedd.

Grŵp arall y mae'r prawf cysylltiad lleol yn rhwystr iddynt, ac yn eu hatal rhag cael cymorth digartrefedd, yw cyn-filwyr a'u teuluoedd. Mae'n bosibl nad oes gan gyn-filwr a/neu ei gymar gysylltiad lleol cadarn ag unrhyw ardal benodol gan ei bod yn ofynnol iddynt symud bob dwy flynedd. Gall y broblem hon fod yn waeth mewn achos lle mae cyplau'n gwahanu, pan fydd cyn-filwr eisiau byw yn yr un ardal â'i gyn-gymar er mwyn bod yn agos at eu plant, ond ei fod yn methu â chael cymorth tai oherwydd nad oes ganddo gysylltiad lleol â'r ardal honno. Dywedodd un rhanddeiliaid fod un o'i gleientiaid wedi dechrau cysgu ar y stryd er mwyn gallu bod yn agos at ei blentyn.

Er bod cydnabyddiaeth eang bod y prawf cysylltiad lleol yn achosi rhwystrau wrth geisio cael cymorth ailgartrefu, roedd teimladau cymysg a chryf ynglŷn â'r cwestiwn a ddylid diddymu'r prawf ai peidio.

Cododd llawer o awdurdodau lleol sy'n rhanddeiliaid bryder y gallai dileu'r prawf cysylltiad lleol olygu bod rhai awdurdodau – yn enwedig y rhai sydd â dinasoedd mawr – yn cefnogi nifer anghymesur o geiswyr digartref. Yn y cyfamser, cyfeiriodd eraill at ymchwil sy'n awgrymu nad yw pobl ddiartref yn symud i 'ardaloedd sydd â llawer o wasanaethau' yn broblem fawr⁴⁴ a bod ceiswyr digartref yn debygol o aros yn yr ardal newydd o'u dewis hyd yn oed pan wrthodir cymorth iddynt.⁴⁵

Ystyriodd y Panel nifer o wahanol fecanweithiau a allai hwyluso dileu cysylltiad lleol, gan edrych sut y gellid rhannu cost cefnogi ceiswyr o ardaloedd eraill yn decach. Fodd bynnag, anfonodd awdurdodau tai lleol, a'r grŵp cyfeirio awdurdodau lleol yn fwyaf arbennig, neges glir y byddai angen gwneud rhagor o waith er mwyn penderfynu sut y

byddai systemau o'r fath yn gweithredu er mwyn cael hyder ynddynt.

Oherwydd y cyndynrwydd i ddileu cysylltiad lleol yn gyfan gwbl, ystyriodd y Panel nifer o ffyrdd o ddiwygio'r prawf er mwyn lleihau ei rym fel rhwystr sy'n atal cymorth a meddalau ei gymhwysiad, yn enwedig i'r grwpiau y cyfeiriwyd atynt uchod.

A oes angen newid cyfreithiol?

Mae'r Panel yn credu bod angen lliniaru effaith lymach y prawf cysylltiad lleol, gan gynnwys drwy eithriadau ychwanegol i rai grwpiau sydd dan anfantais benodol oherwydd y prawf. Bydd angen newid mewn deddfwriaeth sylfaenol er mwyn gwneud hyn.

Yn ogystal, o ystyried natur eang yr anawsterau a achosir gan y prawf, gan gynnwys cymhwyso'n anghyfreithlon, mae'r Panel hefyd yn argymhell y dylid defnyddio canllawiau statudol er mwyn annog cymhwyso'r prawf mewn ffordd ystyriol o drawma sy'n ystyried amgylchiadau personol yn well.

Argymhellion y Panel

9. **Dylid diwygio Adran 80 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 fel bod y grwpiau canlynol o geiswyr yn cael eu heithrio o'r darpariaethau cysylltiad lleol:**
 - a. **Pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac nad ydynt yn cael llety dan ddyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol.**

(Gweler argymhelliad 126, sy'n nodi mai gwasanaethau cymdeithasol ddylai fod yn bennaf gyfrifol am gefnogi gadawyr gofal sy'n ddiartref.)
 - b. **Cyn-filwyr a'r rhai sydd wedi cyd-fyw â chyn-filwyr yn ystod eu cyfnod mewn gwasanaeth.**
 - c. **Pobl sydd ar hyn o bryd yn wynebu risg o gam-drin domestig, camdriniaeth o fath arall, neu gamfanteisio os cânt eu cyfeirio at awdurdod tai lleol arall, pa un a oedd cam-drin blaenorol ai peidio. Byddai angen i ganllawiau ddarparu eglurder ynglŷn â hyn er mwyn osgoi camgymhwyso.**
 - d. **Pobl sydd wedi dioddef cam-drin domestig, camdriniaeth o fath arall neu gamfanteisio yn y gorffennol, ac**

a fydd yn profi trawma o ganlyniad i'r cam-drin domestig, camdriniaeth arall neu gamfanteisio hwnnw, os cânt eu cyfeirio at awdurdod tai lleol arall. Byddai canllawiau yn darparu diffiniadau o drawma yn y cyd-destun hwn.

10. **Dylai eithriadau o gysylltiad lleol gynnwys gadawyr carchar sydd angen symud i ardal newydd fel rhan o'u proses adsefydlu neu er mwyn helpu i fodloni'r cyfyngiadau a osodwyd o ran ble y gallant fyw o ganlyniad i'w trosedd. Ni ddylid cyfeirio unigolyn sy'n gadael carchar i ardal a fyddai'n anghyson â'i broses adsefydlu neu i ardal lle na allai fyw oherwydd ei drosedd.**

Sylwer, fel y nodwyd uchod dan adran Dyrannu Tai Cymdeithasol yr adroddiad hwn ar dudalen 41, y byddai'r eithriadau hyn hefyd yn gymwys wrth ystyried cysylltiad lleol mewn dyraniadau.
11. **Dylid diwygio canllawiau statudol ar gymhwyso'r prawf cysylltiad lleol gyda'r bwriad o wella cysondeb wrth ei gymhwyso a sicrhau dull gweithredu sy'n fwy ystyriol o drawma. Yn fwyaf arbennig, dylai canllawiau statudol:**
 - a. **Egluro bod yn rhaid cymhwyso'r prawf cysylltiad lleol gan ddefnyddio dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n ystyriol o drawma, ac yn rhoi sylw i amgylchiadau'r unigolyn. Gallai hyn gynnwys hyblygrwydd o ran y dystiolaeth sy'n ofynnol er mwyn penderfynu bod unigolyn yn perthyn i grŵp sydd wedi'i eithrio o'r prawf. Er enghraifft, dylid diwygio Paragraff 8.22 y Cod Canllawiau er mwyn nodi y "dylid ymgymryd ag ymholiadau i achosion lle'r honnir bod camdriniaeth, trais neu gamfanteisio mewn modd sensitif a dylid hysbysu awdurdodau tai lleol na fydd tystiolaeth gyfnerthol ar gael bob amser."**
 - b. **Cynnwys cyngor yn ymwneud ag "amgylchiadau arbennig" yn Adran 81(2) (d) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 y dylid ystyried presenoldeb mewn ysgol leol ers cyfnod maith neu ofyniad i fynychu ysgol i gael cymorth arbenigol yn amgylchiad arbennig er mwyn sefydlu cysylltiad lleol.**

44 Mackie, P. a Thomas, I. (2016) *Transitional Single Homelessness in Wales*. Caerdydd. WISERD.

45 Homeless Link (2015) *Repeat Homelessness in Brighton*.

- c. Cynnwys cyngor y gallai cysylltiadau nad ydynt yn rhai teuluol fod yn bwysig iawn i unigolyn mewn rhai achosion. Gallai rhwydweithiau cefnogi, lle darperir y gefnogaeth gan ffrindiau neu gefnogaeth gymunedol, fod yn "amgylchiadau arbennig" at ddibenion cysylltiad lleol (Adran 81(2)(d) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014), yn enwedig os yw'r unigolyn wedi ymbellhau oddi wrth ei deulu.
- d. Amlinellu sut y gallai'r meini prawf "amgylchiadau arbennig" fod yn gymwys i rai grwpiau sy'n wynebu mwy o risg o niwed o'r prawf cysylltiad lleol, gan annog awdurdodau tai lleol i fabwysiadu dull mwy hyblyg lle maent yn nodi'r risg hon o niwed. Dylai Llywodraeth Cymru geisio ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ynglŷn â datblygu'r canllawiau hyn. Gallai grwpiau o'r fath gynnwys:
- Pobl ifanc 25 oed ac iau
 - Aelodau o'r gymuned LHDTG+
 - Ceiswyr anabl sydd angen cymorth penodol
 - Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr
 - Pobl sy'n ceisio gwella ar ôl bod yn camddefnyddio sylweddau
 - Ffoaduriaid a chyn geiswyr lloches eraill sydd wedi cael caniatâd i aros yn y wlad.
12. Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau tai lleol geisio sicrhau bod gwasanaethau ar gael sy'n cynorthwyo pobl:
- a allai berthyn i grŵp wedi ei eithrio, neu gael eu hystyried yn rhai sydd mewn amgylchiadau arbennig, i ddeall y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â chysylltiad lleol;
 - i ddod o hyd i atebion tai amgen os ydynt yn cael eu cyfeirio dan gysylltiad lleol ond nad oes arnynt eisiau symud;
 - i adleoli i'r awdurdod lleol y maent yn dod ohono yn wreiddiol os yw hynny er eu pennaf les ac os yw'r ceisydd yn cydsynio.

13. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid monitro'r modd y cymhwysir y prawf cysylltiad lleol er mwyn sicrhau nad yw'r prawf yn cael ei gamgymhwyso, gan gymryd camau cyflym lle gwelir achos o gamgymhwyso.

Galluogwyr a rhwystrau

Os yw Llywodraeth Cymru yn mynd i ddiddymu angen blaenoriaethol a bwriadoldeb, mae'n bosibl y byddai pwyslais mawr yn cael ei roi ar y prawf cysylltiad lleol fel offeryn porthgadw. Mae hyn yn peri cryn bryder o ystyried y duedd bresennol i gamgymhwyso cysylltiad lleol. O ganlyniad, rhaid cael canllawiau statudol llym a chliir ynglŷn â sut i'w ddefnyddio, ynghyd â choladu data a monitro'r defnydd o'r prawf er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gymhwyso'n briodol. Bydd argymhellion sy'n cael eu gwneud yn rhan 3 yr adroddiad hwn (gweler tudalennau 93–94) o gymorth yn y cyswllt hwn.

2. Dyletswydd Atal

Fel yr amlinellwyd yng nghyflwyniad yr adroddiad hwn, mae dull y Panel o ymwneud â diwygio deddfwriaethol wedi'i wreiddio yn yr egwyddor o atal digartrefedd yn gynnar, sy'n gyson â chyfeiriad strategol Cynllun Cenedlaethol Llywodraeth Cymru i Roi Diwedd ar Ddigartrefedd.

Beth yw'r broblem?

Mae'r ddyletswydd i atal ceisydd rhag mynd yn ddiartref sydd yn Adran 66 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn ddyledus i bob ceisydd cymwys sydd 'o dan fygythiad o ddiartrefedd'. Mae Adran 55(4) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn nodi bod "person o dan fygythiad o ddiartrefedd os yw'n debygol y bydd y person yn dod yn ddiartref o fewn 56 o ddiwrnodau". Fodd bynnag, roedd aelodau'r Panel a rhanddeiliaid ehangach yn cytuno nad yw'r ffrâm amser hwn o 56 diwrnod yn rhoi digon o amser i awdurdodau lleol atal digartrefedd unigolyn yn effeithiol.

Trafododd y Panel sut y mae rhai awdurdodau lleol yn colli cyfle cynharach i atal digartrefedd ceisydd oherwydd bod y tîm opsiynau tai yn aros tan y pwynt 56 diwrnod cyn dechrau gweithdrefnau ataliol. Cydnabyddir y gall prinder adnoddau arwain at ddiffyg capasiti i atal yn gynharach, ond yn yr hirdymor mae hyn yn wrthgynhyrchiol ac nid yw'n gyson â'r nod ehangach o atal digartrefedd mor gynnar ag sy'n bosibl.

Mae'r ffenestr 56 diwrnod hefyd yn dangos diffyg cysondeb rhwng Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, sydd newydd ddod i rym, mae'n ofynnol i landlordiaid roi chwe mis o rybudd ar gyfer troi allan 'heb fai'. Mae hyn yn golygu y gallai pobl sy'n cael rhybudd o'r fath fod o dan fygythiad o ddiartrefedd ar ôl chwe mis, ond yn methu â chael cymorth gan wasanaethau tai awdurdodau lleol am bedwar mis arall. Heb gymorth yn ystod y cyfnod hwn, gallai eu hanghenion llety fynd yn waeth ac yn rhai brys, gan roi mwy o bwysau ar wasanaethau cymorth digartrefedd yn y pen draw.

Pan fydd ceisydd wedi cael ei asesu fel un sydd 'o dan fygythiad o ddiartrefedd' neu sy'n 'ddigartref', rhaid i'r awdurdod lleol gymryd 'camau rhesymol' i helpu i atal y ceisydd rhag mynd yn ddiartref (gweler Adrannau 65 a 66 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014) a/neu i helpu'r ceisydd i sicrhau llety (gweler Adrannau 65 a 73 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014). Fodd bynnag, clywodd y Panel dystiolaeth bod y dehongliad o 'gamau rhesymol' yn amrywio o'r naill awdurdod i'r llall, a rhwng gweithwyr achos unigol o fewn yr un awdurdod. Roedd y gwerthusiad ôl-weithredu o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn cefnogi'r pryderon hyn, gan ddweud bod 'camau rhesymol' yn agored i ddeongliadau amrywiol a all gael effaith negyddol ar ganlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth.⁴⁶

A oes angen newid cyfreithiol?

Mae'r Panel yn credu bod angen newid cyfreithiol yn y maes hwn oherwydd ei bod yn hanfodol bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i weithredu'n gynharach fel bod modd canolbwyntio ymdrechion ac adnoddau mor gynnar ag sy'n bosibl. Yn ychwanegol at hyn, mae'n rhaid cael eglurder a chysondeb ar draws awdurdodau lleol ynglŷn â'r camau rhesymol sy'n ofynnol er mwyn cynorthwyo ceiswyr sydd o dan fygythiad o ddiartrefedd.

Argymhellion y Panel

14. Dylid diwygio Adran 55(4) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 fel bod person o dan fygythiad o ddiartrefedd (ac o ganlyniad, y bydd y

ddyletswydd atal yn gymwys) os yw'n debygol y bydd y person yn mynd yn ddiartref cyn pen chwe mis.

15. Dylid diwygio'r Cod Canllawiau i nodi y dylai'r awdurdod tai lleol, er mwyn dileu'r ddyletswydd atal, fod yn fodlon bod llety yn debygol o fod yn ddiogel am o leiaf 12 mis (yn hytrach na'r cyfnod presennol o chwe mis).

Sylwer: Mae'r ffrâm amser hwn yn gyson ag argymhelliad 14 ar ymestyn y ddyletswydd atal i'r rhai sydd o dan fygythiad o ddiartrefedd cyn pen chwe mis. Mae'r argymhelliad hwn hefyd yn gyson â'r dull gweithredu a ddefnyddir yn argymhelliad 52 wrth ystyried sefydlogrwydd opsiynau tai ychwanegol.

16. Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau'r ddyletswydd ar yr awdurdod tai lleol i gymryd "camau rhesymol" i helpu'r ceisydd drwy ddiwygio geiriad Adran 65(a) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i ddweud; "cymryd y cyfryw gamau rhesymol sy'n debygol o atal y ceisydd rhag dod yn ddiartref neu sy'n debygol o sicrhau llety i'r ceisydd ei feddiannu gan roi sylw (ymysg pethau eraill) i'r angen i wneud y defnydd gorau o adnoddau'r awdurdod."
17. Dylid diwygio'r canllawiau statudol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru er mwyn rhoi mwy o fanylion i awdurdodau tai lleol ynglŷn â chymhwyso dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wrth ystyried pa gamau y dylent eu cymryd i helpu'r ceisydd i sicrhau llety.

Galluogwyr a rhwystrau

Bydd yn hollbwysig sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael yr adnoddau a'r cyfleoedd datblygu y mae arnynt eu hangen er mwyn cyflawni mesurau ataliol cynharach o fewn y ffrâm amser estynedig ar gyfer atal. Yn wir, yn ei adroddiad yn 2018, pwysleisiodd yr Archwilydd Cyffredinol fod llawer o awdurdodau tai lleol yn dal i ganolbwyntio ar symptomau yn hytrach nag achosion digartrefedd a bod angen ehangu set sgiliau staff er mwyn gwella dulliau gweithio ataliol.⁴⁷

46 Ahmed, A., Wilding, M., Gibbons, A., Jones, K., Rogers, M. a Madoc-Jones, I. (2018) *Gwerthusiad ôl-weithredu o Ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014: Adroddiad Terfynol*. t. 74.

47 Archwilydd Cyffredinol (2018) *Sut mae Llywodraeth Leol yn Rheoli Galw – Digartrefedd*. tt. 10-11.

Fel y nodir mewn rhan arall o'r adroddiad, gallai darparu adnoddau drwy'r Grant Cymorth Digartrefedd hefyd fod yn ystyriaeth allweddol er mwyn cefnogi'r argymhelliad hwn.

Mae'n bwysig ystyried hefyd sut y gall ac y dylai awdurdodau lleol gomisiynu gwasanaethau sy'n atal digartrefedd yn gynharach, yn ogystal â sut y mae ymyriadau penodol mewn deddfwriaeth a chanllawiau yn hybu hyn. Dylai dysgu o'r arferion da presennol ynglŷn ag atal yn gynnar – yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill – gael ei hyrwyddo a'i annog.

Bydd argymhellion y Panel ynglŷn â chael cyrff cyhoeddus ehangach a mudiadau penodol eraill i weithio gyda'i gilydd (gweler Rhan 2) hefyd yn alluogwr hollbwysig er mwyn atal yn gynharach byth.

3. Dyletswydd Liniaru

Beth yw'r broblem?

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae rhanddeiliaid ac arbenigwyr drwy brofiad wedi rhoi adborth gan ddweud bod systemau cymorth digartrefedd yn gymhleth ac yn anodd i'w defnyddio. Mae gwerthusiad Llywodraeth Cymru o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn cefnogi hyn, gan ddweud bod gweithwyr yn teimlo bod y systemau presennol yn faich gweinyddol.⁴⁸ Mae'r Panel, o ganlyniad, wedi bod yn awyddus i ystyried sut y gellid symleiddio'r system.

Mae'r ddyletswydd liniaru bresennol, a gyflwynwyd gan Adran 73 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, yn bodoli er mwyn sicrhau y gall unrhyw un sy'n gymwys ac sy'n ddiartref gael rhywfaint o gymorth i'w helpu i sicrhau llety. Hyd yn oed lle nad oes gan bobl hawl i gael cynnig llety oherwydd eu bod y tu allan i gategori "angen blaenoriaethol", neu eu bod yn cael eu hystyried yn ddiartref "yn fwriadol", mae'r ddyletswydd liniaru yn sicrhau bod y rhai hynny sy'n gymwys ac yn ddiartref yn gallu cael help i sicrhau llety.

Gan fod y Panel yn argymhell y dylid dileu'r profion angen blaenoriaethol a bwriadoldeb, ni fyddai angen y ddyletswydd hon. Dan gynigion y Panel, bydd y rhai sy'n gymwys ac sydd dan fygythiad o

ddiartrefedd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd atal (i sicrhau nad yw llety yn peidio â bod ar gael) a bydd pob un sy'n gymwys ac yn ddiartref yn ddarostyngedig i'r brif ddyletswydd i ddarparu llety (sy'n golygu bod angen cynnig llety addas). Bydd ceiswyr sy'n ddiartref yn cael eu lletya dan y ddyletswydd interim i sicrhau llety, (dan Adran 68 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014) ac yna o dan y brif ddyletswydd i sicrhau llety (Adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014) neu dan y ddyletswydd i sicrhau llety os yw'r ceisydd i'w gyfeirio dan gysylltiad lleol (Adran 82 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014).

A oes angen newid cyfreithiol?

Yn sgil yr argymhellion ar fwriadoldeb ac angen blaenoriaethol, mae'r Panel yn credu y dylid dileu'r ddyletswydd liniaru er mwyn helpu i symleiddio'r system. Mae hyn yn golygu bod angen diwygio deddfwriaeth sylfaenol.

Wrth ddiddymu'r ddyletswydd liniaru, mae'r Panel o'r farn mai dim ond yng ngham y brif ddyletswydd i ddarparu llety y dylid dal i gymhwysu cysylltiad lleol. Fodd bynnag, dylai newid deddfwriaethol pellach ganiatáu eithriad i'r rheol hon, fel bod cysylltiad lleol yn cael ei gymhwysu fel rhan o'r ddyletswydd atal ar gyfer carcharorion. Bydd hyn yn sicrhau y gall yr un awdurdod lleol a fydd yn ddarostyngedig i ddyletswydd i sicrhau llety i berson digartref sy'n gadael carchar fod yn rhan o'r gwaith cynllunio cynnar ar gyfer ei ryddhau.

Argymhellion y Panel

18. *Yn dilyn argymhellion eraill yn ymwneud â dileu angen blaenoriaethol a bwriadoldeb, dylid dileu'r ddyletswydd liniaru.*

(Ni fydd angen y ddyletswydd liniaru oherwydd bydd person sydd o dan fygythiad o ddiartrefedd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd atal dan Adran 66 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a bydd person sy'n ddiartref yn ddarostyngedig i'r brif ddyletswydd i ddarparu llety dan Adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.)

(Sylwer: Mae Argymhelliad 52 yn ceisio sicrhau mwy o hyblygrwydd ar gyfer opsiynau llety fel rhan o'r brif ddyletswydd i ddarparu llety yn dilyn colli'r ddyletswydd liniaru.)

48 Ahmed, A., Rogers, M., Wilding, M., Gibbons, A., Jones, K. a Madoc-Jones, I. (2018) *Gwerthusiad ôl-weithredu o Ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014: Adroddiad Terfynol*.

19. *Yn dilyn argymhelliad y Panel i ddiddymu'r ddyletswydd liniaru, dylid cadw'r sefyllfa bresennol, lle gellir gwneud atgyfeiriadau cysylltiad lleol dim ond mewn cysylltiad â cheiswyr y byddai'r brif ddyletswydd i ddarparu llety dan Adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn ddyledus iddynt fel arall. Fodd bynnag, dylai deddfwriaeth ddarparu eithriad i'r rheol hon i garcharorion. Ystyrir y byddai carcharorion yn elwa o atgyfeiriad dan gysylltiad lleol yn ystod y cam atal yn hytrach na dim ond yng ngham y brif ddyletswydd i ddarparu llety, fel bod y ddyletswydd atal a'r brif ddyletswydd i ddarparu llety yn cael eu cyflawni gan yr un awdurdod tai lleol, yn hytrach nag un awdurdod tai lleol yn cyflawni'r ddyletswydd atal ac yna'n cyfeirio'r brif ddyletswydd i ddarparu llety i awdurdod tai lleol arall.*

Galluogwyr a rhwystrau

Gan fod dileu'r ddyletswydd liniaru yn mynd law yn llaw â dileu angen blaenoriaethol, bydd yn bwysig cadw'r ddyletswydd hon tan y dyddiad a bennwyd ar gyfer dileu angen blaenoriaethol. Yn ychwanegol at hyn, mae'n bwysig hefyd bod y ddyletswydd liniaru yn cael ei dileu dim ond os yw'r argymhelliad i ddileu bwriadoldeb yn cael ei weithredu hefyd. Fel arall, byddai'r rhai hynny y canfyddir eu bod yn ddiartref yn fwriadol yn colli mynediad at gymorth perthnasol er mwyn sicrhau llety sefydlog.

Er y byddai dileu'r ddyletswydd liniaru yn arwain at symleiddio'r system, gallai gyfyngu ar yr ystod o atebion tai y gall awdurdodau lleol eu defnyddio i gynorthwyo pobl sy'n ddiartref pan fyddant yn cyflwyno eu hunain. Mae'r Panel yn gwneud argymhellion yn yr adran isod ar Gynyddu Opsiynau Tai (gweler tudalennau 40–41) er mwyn sicrhau bod pobl, yn yr achosion hyn, yn dal i allu cael mynediad at ystod o opsiynau tai.

49 StatsCymru (2019) *Aelwydydd a ganfuwyd mewn perygl o fod yn ddiartref yn ystod y flwyddyn. Y prif reswm dros fod mewn perygl o fod yn ddiartref yn ôl math o aelwyd (Adran 66)*. Darllenwyd 24 Awst 2023. <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/Statutory-Homelessness-Prevention-and-Relief/main-reason-for-being-threatened-with-homelessness-by-type-of-household-section-66->

50 Sefydliad Bevan (2023) *Wales' Housing Crisis: Local Housing Allowance and the private rental market in Wales*.

51 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Young, G., Watts, B. a Wood, J. (2021) *Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2021*.

4. Troi allan

Beth yw'r broblem?

Gall gorchmynion troi allan fod yn ffactor sylweddol yng nghyswllt mynd yn ddiartref neu wynebu risg ddifrifol o ddiartrefedd. Er bod angen clir am well data ar droi allan yng Nghymru, roedd yr ystadegau diweddaraf sydd ar gael yn awgrymu bod 3,441 o bobl dan fygythiad o ddiartrefedd yng Nghymru yn uniongyrchol o ganlyniad i droi allan yn 2018/19.⁴⁹

Roedd troi allan hefyd yn achos digartrefedd i lawer o'r arbenigwyr drwy brofiad a rannodd eu profiadau â'r Panel. Roedd y rhesymau y tu ôl i'r gorchmynion troi allan hyn yn amrywio o droi allan 'heb fai', er enghraifft landlord yn gwerthu ei eiddo, i droi allan a oedd yn cael ei ddsbarthu fel 'ar fai', gan gynnwys ôl-ddyledion rhent, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu broblemau camddefnyddio sylweddau.

Gall troi allan "ar fai" ddigwydd yn aml pan fydd ar denant angen cymorth, ond nad yw'r anghenion cymorth hyn yn cael eu diwallu. Mae'r Panel yn credu, drwy gynyddu cymorth a rhoi sylw i anghenion cymorth heb eu diwallu, fel y trafodwyd yn yr adran flaenorol, y gallwn leihau nifer yr achosion o droi allan "ar fai" yn sylweddol.

Fodd bynnag, mae'r Panel hefyd yn ymwybodol y gall troi allan heb fai ddigwydd yn aml, ac y gall achosi problemau go iawn i denantiaid, yn enwedig yn yr amgylchedd presennol lle mae rhenti'n codi a dim llawer o gartrefi fforddiadwy ar gael yn y farchnad rentu breifat.⁵⁰ Dywedodd arbenigwyr drwy brofiad eu bod yn teimlo nad oeddent yn gwybod beth i'w wneud pan gyflwynwyd gorchmynion troi allan iddynt, a hwythau'n methu â dod o hyd i eiddo newydd i'w rentu am bris y gallent ei fforddio.

Mae'n amlwg bod camau wedi'u targedu er mwyn amddiffyn rhag gorchmynion troi allan yn gallu cael effaith sylweddol. Ystyrir bod mesurau amddiffyn rhag troi allan yn ystod pandemig COVID-19 wedi chwarae rhan allweddol drwy leihau digartrefedd yn ystod y cyfnod hwnnw.⁵¹

Mae ymchwil yn dangos bod cyfraddau troi allan yn y sector preifat, yn dilyn y pandemig, wedi dechrau codi eto, a'u bod 94% yn uwch yn ail chwarter 2022 nag yn chwarter cyntaf 2019.⁵²

Yn y cyfamser, mae achosion o droi allan o dai cymdeithasol yn parhau'n is nag yr oeddent cyn pandemig COVID-19, 66% yn is yn ail chwarter 2022 o'i gymharu â chwarter cyntaf 2019.⁵³ Gellir priodoli'r duedd hon i awydd parhaus i weld polisi "dim troi allan i ddigartrefedd" ymhlith landlordiaid cymunedol⁵⁴ yng Nghymru. Ym mis Hydref 2019, argymhellodd y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd y dylid cytuno ar 'gytundeb' i sicrhau nad oedd neb yn cael ei droi allan o dai cymdeithasol i ddigartrefedd (neu dai a gefnogir gan y pwrs cyhoeddus).⁵⁵ Clywodd y Panel fod llawer o landlordiaid cymunedol yn frwdfrydig ynglŷn â'r polisi hwn, a dywedodd un gymdeithasol dai fod gostyngiad o 85% wedi bod yn nifer yr achosion o droi allan yn dilyn eu hymrwymiad i'r polisi.⁵⁶ Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad hefyd ym mis Tachwedd 2022, yn amlinellu manylion ymrwymiad gan landlordiaid cymunedol i gymryd camau i gefnogi pobl mewn tai cymdeithasol.⁵⁷

Mae Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, a ddaeth i rym yn ddiweddar, yn ceisio cyflwyno mwy o sicrwydd daliadaeth yn y sector rhentu preifat. Mae'r Ddeddf yn cynyddu'r cyfnod o rybudd sy'n ofynnol ar gyfer troi allan heb fai i chwe mis, a hefyd yn ceisio diogelu tenantiaid rhag cael eu troi allan o ganlyniad i gwyno am gyflwr gwael eiddo. Er bod y Ddeddf wedi cael Cydsyniad Brenhinol yn 2016, ni ddechreuodd y broses o'i rhoi ar waith yn raddol tan fis Rhagfyr 2022.

Mae'r Ddeddf wedi cael derbyniad cymysg yn y sector. Er bod llawer wedi croesawu'r ffaith fod mwy o amddiffyniad i denantiaid, mynegodd

eraill bryder y gallai'r Ddeddf olygu bod mwy o landlordiaid yn gadael y farchnad⁵⁸ neu bod mwy o bobl yn gyndyn i rentu eiddo i denantiaid sy'n cael eu hystyried yn rhai ag elfen o "risg."⁵⁹

Mae'r Panel yn cydnabod bod Llywodraeth yr Alban wedi deddfu er mwyn diogelu rhag troi allan heb fai ar sail dau fis o rybudd, a bod Llywodraeth San Steffan yn y broses o gyflwyno amddiffyniadau tebyg ar gyfer Lloegr,⁶⁰ tra mae cyfraith Cymru yn caniatáu troi allan heb fai ar ôl chwe mis o rybudd.⁶¹ Wrth ystyried a fyddai'n briodol dileu troi allan heb fai yng nghyd-destun Cymru, roedd y Panel yn ymwybodol o faint y newid deddfwriaethol y mae'n ei gynnig, yn ogystal â'r angen i roi amser i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 sefydlu arferion newydd. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Panel yn ymwybodol o'r diffyg data manwl am droi allan sy'n bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd. Oherwydd hyn, daeth y Panel i'r casgliad y dylai Llywodraeth Cymru gadw llygad ar y sefyllfa a dysgu o'r modd yr ymdrinnir â throi allan heb fai yn yr Alban ac yn Lloegr.

A oes angen newid cyfreithiol?

Dim ond ychydig o awgrymiadau ar gyfer newid cyfreithiol yn y maes hwn y mae'r Panel wedi'u gwneud, gan gydnabod yr arferion da sy'n bodoli yn barod yn y sector rhentu cymdeithasol, a'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a ddaeth i rym yn ddiweddar. Mae'n bwysig ystyried effaith y newidiadau hyn cyn asesu a oes angen newid deddfwriaethol pellach. Mae'r Panel hefyd yn awyddus i weld y meysydd ymarfer da hyn yn cael eu hannog a'u datblygu ymhellach.

Er hyn, nodwyd y gellid darparu gwell amddiffyniad cyfreithiol er mwyn atal digartrefedd ar gyfer y rhai hynny sy'n wynebu cael eu troi allan

52 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, *Mortgage and landlord possession statistics*. Darllenwyd 24 Awst 2023. <https://www.gov.uk/government/collections/mortgage-and-landlord-possession-statistics>

53 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, *Mortgage and landlord possession statistics*. Darllenwyd 24 Awst 2023. <https://www.gov.uk/government/collections/mortgage-and-landlord-possession-statistics>

54 Sylwer bod y term 'landlordiaid cymunedol' yn cael ei ddefnyddio yn yr adroddiad hwn i gyfeirio at bob landlord cymdeithasol, yn cynnwys awdurdodau lleol a chymdeithasau tai (y cyfeirir atynt hefyd fel Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig).

55 Adroddiad i Weindogion Cymru gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2019) *Atal cysgu allan yng Nghymru a'i leihau yn y byrdymor*.

56 Shelter Cymru (2021) *Working together to end homelessness from social housing*.

57 Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2022) *Datganiad Ysgrifenedig: Cytundeb Landlordiaid Cymdeithasol ar gyfer 2023-24*.

58 BBC News (2021) *Renting law brings in six-month eviction notice in Wales - BBC News*. Darllenwyd 24 Awst 2024. <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-56182025>

59 Bil Rhentu Cartrefi (Cymru), Memorandwm Esboniadol 2015, "Dywedodd 47 y cant o'r landlordiaid fod y moratoriwm chwe mis yn golygu eu bod, ar hyn o bryd, yn llai tebygol o rentu i bobl y maent yn eu hystyried yn denantiaid "risg uwch"."

60 Bil Rhentwyr (Diwygio) 2023. *Senedd y DU: Bil Tŷ'r Cyffredin 308 2022-23*.

61 Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (2022) *A fairer private rented sector*. Papur gwyn.

o'r sector rhentu preifat. Mae'r Panel yn awyddus i sicrhau bod y rhai hynny y rhoddir gorchymyn troi allan iddynt yn gallu cael mynediad clir a hawdd at gymorth gwasanaethau tai i helpu i atal digartrefedd.

Argymhellion y Panel

Troi allan o dai cymdeithasol

20. Dylai Llywodraeth Cymru gyfathrebu yn glir ei safiad na ddylid troi neb allan i ddigartrefedd o dai cymdeithasol. Dylai'r cyfathrebiad hwn bwysleisio bod safiad Llywodraeth Cymru yn wahanol i'r hyn a amlinellir yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth y DU ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.
21. Dylai Llywodraeth Cymru geisio dathlu arferion da landlordiaid cymunedol sy'n symud tuag at sefyllfa o 'ddim troi allan i ddigartrefedd', gan annog parhad a datblygiad yr ymarfer da hwn ledled Cymru.
22. Dylai data ar droi allan i ddigartrefedd o dai cymdeithasol gan landlord gael eu casglu'n rheolaidd, eu cyhoeddi a'u hadolygu, gyda Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y duedd hon tuag at beidio â throi allan i ddigartrefedd yn parhau.
23. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i gynorthwyo landlordiaid cymunedol i sicrhau nad yw pobl yn cael eu troi allan i ddigartrefedd o dai cymdeithasol, gan gynnwys cyngor ynglŷn â sut i osgoi troi allan o ganlyniad i ôl-ddyledion rhent neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Troi allan o'r sector rhentu preifat

24. Dylai Llywodraeth Cymru gadw llygad ar droi allan heb fai o'r sector rhentu preifat, gan ystyried y pwyntiau a ganlyn wrth iddi adolygu a oes angen rhagor o fesurau deddfwriaethol yn y maes hwn:
 - a. tueddiadau yn nifer yr achosion o droi allan heb fai wrth i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 gael ei sefydlu; a
 - b. sut y mae gweithredu deddfwriaeth newydd yn ymwneud â throi allan heb fai yn yr Alban a Lloegr yn datblygu.

25. Dylai Llywodraeth Cymru osod dyletswydd ar landlordiaid preifat i hysbysu'r awdurdod tai lleol pan fydd yn bwriadu cyflwyno hawliad meddiant dan unrhyw adran o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Dylid diwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i nodi, os methir â chydymffurfio â'r ddyletswydd hon, y caiff hawliadau meddiant eu gwrthod, fel sy'n digwydd ag amodau eraill y mae angen eu bodloni er mwyn cyflwyno hawliad meddiant.

26. Dylai canllawiau statudol hysbysu awdurdodau tai lleol bod derbyn hysbysiad o'r fath yn gyfystyr â chais am gymorth digartrefedd yn unol ag Adran 62(1) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, ac y bydd dyletswydd ar yr awdurdod tai lleol i asesu achos yr unigolyn, gan gynnwys ystyried pa ddyletswydd sy'n ddyledus i'r ceisydd, a llunio asesiad o'r angen o ran tai a Chynllun Tai Personol, lle bo'n briodol.

27. Dylai canllawiau nodi y dylai awdurdodau tai lleol drin deiliaid contractau y mae eu landlord wedi hysbysu'r awdurdod tai lleol ynglŷn â bwriad i ddwyn achos meddiant fel rhai dan fygythiad o ddigartrefedd, oni bai fod yr unigolyn o'r farn nad yw'n wynebu risg a bod trefniadau amgen wedi'u gwneud.

Galluogwyr a rhwystrau

Mae argymhelliad y Panel yn gynharach yn yr adroddiad hwn i ymestyn y ddyletswydd atal i gynorthwyo pobl sydd dan fygythiad o ddigartrefedd i chwe mis yn arwyddocaol yng nghyd-destun lleihau effaith troi allan. Mae'r ffrâm amser hwn o chwe mis yn unol â'r cyfnod o rybudd y mae'n ofynnol i landlord ei roi yn awr ar gyfer troi allan heb fai dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a ddaeth i rym yn ddiweddar. Byddai cysoni'r fframiau amser hyn yn golygu bod y broses o atal digartrefedd yn gallu dechrau o'r adeg y cyflwynir gorchymyn troi allan. Mae'r Panel yn gobeithio y bydd yr argymhellion uchod, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid hysbysu awdurdodau tai lleol wrth gyflwyno gorchymynion troi allan, yn sicrhau mwy fyth o gysondeb ac yn helpu pobl i gael cymorth cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl derbyn gorchymyn troi allan.

Mae'r Panel yn awyddus i sicrhau bod yr ymarfer da a'r brwdfrydedd ynglŷn â pheidio â throi allan i ddigartrefedd o dai cymdeithasol yn parhau. Bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru geisio hybu, datblygu a pharhau â'r gwaith hwn yn rhagweithiol, ar y

cyd â landlordiaid cymunedol. Bydd argymhellion y Panel ynglŷn â chynnig cymorth i gadw llety (argymhelliad 78, gweler tudalen 49) ac ynglŷn â dyletswyddau sefydliadau ehangach i nodi, gweithredu, cyfeirio a chydweithredu er mwyn helpu i atal digartrefedd (argymhelliad 97, gweler tudalen 63) o gymorth er mwyn parhau â'r gwaith hwn yn y dyfodol.

Yn yr un modd, bydd angen i Lywodraeth Cymru hefyd ystyried sut y mae'n gweithio'n effeithiol gyda sefydliadau eraill, megis Rhentu Doeth Cymru, er mwyn codi ymwybyddiaeth ymhlith landlordiaid preifat ynglŷn â phwysigrwydd hysbysu'r awdurdodau tai lleol ynghylch rhybuddion troi allan.

Rydym hefyd yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gasglu data manylach ynglŷn â throi allan (gweler argymhelliad 170 sy'n ymwneud â Data ar dudalen 93) er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i ystyried yn drylwyr pa gamau gweithredu allai fod yn ofynnol (gan gynnwys y posibilrwydd o ddeddfwriaeth bellach) ar droi allan heb fai yn y dyfodol pan fydd yr amseriad yn fwy priodol.

Mae'r Panel yn nodi'r Cynllun Gweithredu ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu dull o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throi allan o dai cymdeithasol sy'n wahanol i'r hyn a awgrymir gan y Panel, ac mewn gwirionedd, yn wahanol i'r cyfeiriad cyffredinol y mae polisi yn anelu tuag ato yng Nghymru. Er bod landlordiaid cymunedol yng Nghymru, fel yr amlinellwyd uchod, yn cael eu hannog i fabwysiadu polisi o beidio â throi allan i ddiartrefedd, mae Llywodraeth y DU yn amlinellu disgwyliad digyfaddawd yng nghyswllt troi allan o "dri rhybudd ac rwyd ti allan".⁶² Er nad yw'r canllawiau hyn yn gymwys yng Nghymru i asiantaethau sy'n cael eu llywodraethu dan bŵer datganoledig (gan gynnwys cymdeithasau tai), maent yn gymwys i asiantaethau nad ydynt wedi'u datganoli, gan gynnwys yr heddlu, timau troseddwyd ifanc a gwasanaethau prawf. O ganlyniad, bydd yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn ystyried yn ofalus sut y gellir egluro'n glir bod safiad Llywodraeth Cymru ynglŷn â throi allan o dai cymdeithasol yn wahanol i safiad Llywodraeth y DU yng Nghymru.

5. Addasrwydd llety sefydlog a dros dro

Beth yw'r broblem?

Mae Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015, OS 2015/1268 ("y Gorchymyn Addasrwydd") yn nodi safonau ar gyfer llety sefydlog a dros dro. Fodd bynnag, gan fod awdurdodau lleol yn profi anawsterau o ran cyflenwi llety dros dro a sefydlog (a drafodwyd yn adran Cyflenwad yr adroddiad hwn ar dudalennau 50–52), efallai nad yw'n syndod bod y Panel wedi clywed nad yw'r safonau hyn yn cael eu cynnal yn gyson mewn llety dros dro nac mewn llety sefydlog.

Mae'r Cod Canllawiau yn nodi y dylai asesiadau addasrwydd ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys, ymhlith pethau eraill; anghenion iechyd penodol yr unigolyn; anabledd; agosrwydd a hygyrchedd cefnogaeth deuluol, cyfleusterau meddygol a gwasanaethau cymorth eraill; pellter y llety o ardal yr awdurdod; yn ogystal â pha mor agos yw cyflawnwyr troseddau honedig a dioddefwyr cam-drin domestig.

Mae gan geisydd hawl i wrthod llety a gynigir os nad yw'n addas i'w anghenion a bydd dyletswydd i ddarparu llety yn parhau'n ddyledus iddo. Rhaid gofyn am adolygiad o addasrwydd cyn pen 21 diwrnod ar ôl cael y cynnig.

Clywodd y Panel bryder gan bobl â phrofiad personol eu bod wedi cael cynnig llety nad oedd yn diwallu eu hanghenion. Roedd adroddiad yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus i wasanaethau digartrefedd, a gyhoeddwyd yn 2021,⁶³ yn ategu'r dystiolaeth hon, gan ddweud nad oedd llawer o awdurdodau lleol yn rhoi ystyriaeth ddigonol i addasrwydd wrth gynnig llety. Roedd yn dweud:

"Mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r ceisiadau am adolygiad a welais yn ymwneud ag addasrwydd llety dros dro a pharhaol ... llety anaddas yw'r rheswm hefyd pam fod llawer o denantiaethau'n methu, a bod yr awdurdodau lleol yn dod â'u dyletswyddau i ben."

Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at nifer o enghreifftiau o lety anaddas, gan gynnwys lleoli unigolyn yn agos at rywun sydd wedi bod yn ei gam-drin, lleoli unigolyn yn bell o rwydweithiau cefnogi, lleoli person anabl mewn llety nad oedd yn bodloni ei ofynion hygyrchedd, a lleoli unigolyn ym mhresenoldeb dylanwadau niweidiol wrth geisio adsefydlu ar ôl bod yn camddefnyddio sylweddau neu'n arddangos ymddygiad troseddol.

Dangosodd y broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid hefyd fod anhawster penodol wrth geisio dod o hyd i lety addas i bobl anabl a phobl ag anghenion iechyd cymhleth. Amlinellir hyn hefyd mewn ymchwiliad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn dwyn y teitl *Tai a phobl anabl: argyfwng cudd Cymru*.⁶⁴

Yn ychwanegol at hyn, wrth ymgynghori â chynrychiolwyr o'r gymuned deithio, cydnabyddid y gallai'r ddeddfwriaeth bresennol adlewyrchu anghenion diwylliannol y grwpiau hyn yn fwy priodol. Pwysleiswyd, yn achos llawer o geiswyr o'r cymunedau hyn (ond nid pob un), na fyddai llety brics a mortar yn gynnig addas o lety.

Ystyriwyd hefyd Adran 83 o Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022, sy'n berthnasol i bob rhan o'r DU, ac sy'n caniatáu i'r heddlu symud cerbydau sydd wedi'u parcio yn eu blaenau. Os bydd yn cael ei defnyddio gan heddluoedd, bydd yn cael effaith sylweddol ar deithwyr sy'n byw mewn cerbyd, ac a fyddai'n ddiartref heb safle i barcio arno. Deallir nad yw'r pŵerau newydd hyn yn cael eu defnyddio yng Nghymru at ei gilydd ar hyn o bryd, ond mae angen ystyriaeth bellach o'r broblem bosibl hon, yn enwedig o ystyried y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chynnig safleoedd addas.

Mae prinder tai sefydlog addas yn golygu bod llawer o bobl yn aros mewn llety dros dro am fisoedd, ac mewn rhai achosion, am flynyddoedd. Ar hyn o bryd mae dros 10,800 o bobl mewn llety dros dro yng Nghymru.⁶⁵

Mae prinder llety dros dro hefyd wedi arwain at ddefnydd amlach o lety gwely a brecwast am gyfnodau hwy na'r disgwyl. Mae hyn wedi cymell

Llywodraeth Cymru i gyhoeddi ymgynghoriad sy'n ceisio eithrio llety gwely a brecwast fel nad yw'n ofynnol iddynt gyflwyno contract meddiannu, oherwydd pryder y gallai ymrwymiad o'r fath achosi i berchnogion llety gwely a brecwast beidio â darparu llety i bobl ddiartref.⁶⁶

Gall byw mewn llety dros dro achosi i unigolyn golli ei urddas a'i adael heb lawer o annibyniaeth na rheolaeth dros ei ffodd o fyw a'i ddyfodol. Mae hyn yn anodd iawn pan mae llety dros dro yn anaddas a'r unigolyn yn gorfod aros mewn llety o'r fath am gyfnod hir. Yn ôl un arbenigwr drwy brofiad:

"Mae llety dros dro yn debyg i garchar, ond dwyt ti ddim yn gwybod pryd y byddi di'n cael dy ryddhau."

Rhannodd arbenigwyr drwy brofiad ddisgrifiadau o letyau dros dro y buont yn byw ynddynt. Roeddent yn cynnwys ystafelloedd llaith ac oer â systemau gwresogi a ffenestri wedi torri, drysau a chloeon wedi torri, yn ogystal â diffyg cyfleusterau coginio a golchi dillad. Yn ychwanegol at hyn, mae pobl sydd â phrofiad personol yn aml yn dweud eu bod wedi cael eu lleoli mewn llety dros dro yn bell oddi wrth eu rhwydweithiau cefnogi a gwasanaethau allweddol y mae arnynt angen mynediad atynt. Pwysleisiodd llawer o bobl â phrofiad personol hefyd y gall llety dros dro fod yn amgylchedd di-drefn, sy'n arwain at fwy o drawma.

O ganlyniad i'r amodau hyn, dywedodd rhai pobl wrth y Panel eu bod yn teimlo'n fwy diogel yn cysgu ar y stryd nag yn aros mewn llety dros dro. Disgrifiodd un arbenigwr drwy brofiad ei lety fel a ganlyn:

"Y tu allan i'r fwrdeistref – dim cyfleusterau coginio a golchi dillad, dim parch, dim preifatrwydd, dim lle i gadw fy mhethau, ar ôl colli fy nhenantiaeth ddiwethaf dim cefnogaeth, dim empathi, doeddwn i ddim yn gwybod i ble ro'n i'n mynd tan y diwrnod cynt, dim amser i wneud trefniadau i symud."

62 Llywodraeth y DU (2023) *Anti-Social Behaviour Action Plan*. t. 21.

63 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (2021) *Adolygiad Digartrefedd: drws agored i newid cadarnhaol*. t. 58.

64 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2018) *Tai a phobl anabl: argyfwng cudd Cymru*.

65 Llywodraeth Cymru (2023) *Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan: Mai 2023*. Darllenwyd 23 Awst. 2023 <https://www.llyw.cymru/darpariaeth-llety-digartrefedd-chysgu-allan-mai-2023>

66 Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru (2023) *Rhentu cartrefi: llety gwely a brecwast a ddefnyddir at ddibenion digartrefedd*. Darllenwyd 24 Awst 2023. <https://www.llyw.cymru/rhentu-cartrefi-llety-gwely-brecwast-ddefnyddir-ddibenion-digartrefedd-html>

Mae fforddiadwyedd llety dros dro hefyd yn achosi problemau i bobl sy'n profi digartrefedd. Yn ôl tystiolaeth Shelter Cymru i ymchwiliad Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd i ddiartrefedd mae pobl sydd mewn llety dros dro wedi gorfod rhoi'r gorau i'w gwaith er mwyn bod yn gymwys i gael budd-daliadau, gan fod eu cyflogau arferol "yn annigonol i dalu'r costau rhent."⁶⁷ Gall gallu pobl sy'n byw mewn llety dros dro i weithio gael ei effeithio hefyd gan amseroedd cyrffiw cyfyngol – os nad yw shifftiau yn galluogi unigolyn i gadw at ofynion cyrffiw, mae'n cael ei orfodi i ddewis rhwng cadw ei swydd neu gadw ei lety.

Yn ogystal, roedd aelodau'r Panel yn bryderus i glywed am achosion lle'r oedd ceiswyr digartref yn teimlo bod yn rhaid iddynt aros mewn llety dros dro anaddas yn hytrach na gwneud trefniadau anffurfiol i aros gyda theulu a ffrindiau am gyfnod byr nes gellid trefnu llety sefydlog. Roedd y ceiswyr hyn yn poeni y byddai gwrthod cynnig o lety dros dro yn golygu bod eu cais yn cael ei wrthod yn anghyfreithlon neu y byddent yn colli eu blaenoriaeth ar gyfer tai cymdeithasol.

Fel yr amlinellwyd ar ddechrau'r adroddiad hwn, mae'r Panel yn cymeradwyo ymrwymiad tymor hwy Llywodraeth Cymru i newid i ddull o ymdrin â digartrefedd sy'n seiliedig ar ailgartrefu cyflym. Bydd y dull gweithredu hwn yn y pen draw yn golygu bod pobl ddiartref yn symud i gartrefi sefydlog yn gyflym a dylai helpu i leihau'r pwysau ar lety dros dro. O ganlyniad, er bod y Panel yn credu bod rhaid gwella safonau llety dros dro, rhaid dal i ganolbwyntio hefyd ar ddatblygu llety sefydlog fel bod modd defnyddio llety dros dro yn llai aml ac am gyfnodau byrrach yn y tymor canolog i hir.

A oes angen newid cyfreithiol?

Mae'r Panel yn credu bod angen newid deddfwriaeth er mwyn cryfhau safonau addasrwydd gofynnol. Fodd bynnag, mae'r Panel hefyd yn ymwybodol o'r prinder parhaus a sylweddol o letyau dros dro addas, ac nid yw'n dymuno creu sefyllfa wrthnysig lle bydd awdurdodau lleol yn gorfod dewis rhwng torri'r gyfraith drwy leoli aelwydydd mewn llety anaddas, neu adael i aelwydydd fod yn ddiartref ar y stryd oherwydd eu bod yn methu â darparu llety addas.

Oherwydd hyn, mae'r Panel yn awgrymu cyflwyno rhai safonau sylfaenol ar unwaith, yna caniatáu i ragor o safonau gael eu cyflwyno dros gyfnod, wrth i'r cyflenwad o lety sefydlog a dros dro gael ei gynyddu i gyfateb i'r galw, ac i'r pwysau ar lety dros dro leihau.

Yn y cyfamser, mae'r Panel yn gwneud nifer o argymhellion deddfwriaethol sy'n ceisio sicrhau bod asesiadau addasrwydd a phenderfyniadau yn canolbwyntio mwy ar yr unigolyn ac yn hyblyg yn unol ag anghenion unigolion. Mae'r argymhellion hyn yn ceisio lleihau'r rhwystrau amrywiol y rhoddwyd gwybod amdanynt i'r Panel gan bobl â phrofiad personol a gweithwyr sydd wedi eu cefnogi.

Mae angen rhagor o newid deddfwriaethol hefyd er mwyn sicrhau bod hawliau i adolygu penderfyniadau ynglŷn ag addasrwydd yn cael eu cyfathrebu ar adegau allweddol gyda cheiswyr a bod yr adolygiadau hyn yn digwydd mewn pryd. Yn wir, clywodd aelodau o'r Panel fod y cyfnod adolygu presennol o 56 diwrnod yn gallu golygu ar hyn o bryd bod ceiswyr yn aros mewn sefyllfaoedd anaddas am gyfnodau annerbyniol o hir.

Yn ogystal, mae'r Panel yn gwneud cyfres o argymhellion aneddfwriaethol, gan gydnabod bod gan ganllawiau rôl allweddol i'w chwarae er mwyn annog gwell ymarfer. Mae hyn yn cynnwys canllawiau yn ymwneud â'r rhai sy'n dewis aros dros dro gyda theulu neu ffrindiau yn hytrach na derbyn cynnig o lety dros dro (y cyfeirir atynt weithiau fel "digartref gartref"). O ystyried y problemau sy'n bodoli ers tro byd o ran cael llety dros dro, roedd aelodau'r Panel yn awyddus i sicrhau cydbwysedd ar y mater hwn. Roedd y Panel yn awyddus i sicrhau bod pobl yn gallu dewis bod yn "ddiartref gartref" heb effeithio ar eu cais digartrefedd na'u dyraniad tai cymdeithasol, ond hefyd er mwyn diogelu rhag rhoi pwysau ar geiswyr i fynd am yr opsiynau hyn lle nad yw hynny'n addas neu'n ddichonadwy.

Er mwyn gwella profiadau i bobl sy'n aros mewn llety dros dro, mae'r Panel hefyd yn argymhell canllawiau i fynd i'r afael â'r arferion a'r polisiau mewn llety dros dro y dywedodd pobl â phrofiad personol eu bod yn cael effaith andwyol ar eu lles.

Argymhellion y Panel

Cyflwyno safonau addasrwydd dros gyfnod

28. Dylid rhoi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i adolygu safonau addasrwydd bob tair blynedd er mwyn asesu a yw datblygiadau yn y cyflenwad o dai yn galluogi'r Llywodraeth i gyflwyno lefel uwch o safonau gofynnol. Dylai'r adolygiadau hyn gynnwys ystyried:
- A ddylid rhagnodi nad yw llety dros dro gorlawn byth yn addas;
 - A ddylid rhagnodi y dylai ystafell fyw bob amser fod ar wahân i ystafelloedd cysgu;
 - A ddylid rhagnodi safonau gofod mwy hael ar gyfer ystafelloedd cysgu;
 - A ddylid rhagnodi safonau gofynnol yn ymwneud â mynediad at gyfleusterau preifat (yn hytrach na chyfleusterau a rennir) er enghraifft coginio a thoiledau;
 - A ddylid rhagnodi rheoliadau llymach yn ymwneud â fforddiadwyedd rhenti â thaliadau gwasanaeth mewn llety dros dro.
29. Dylid diwygio Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015, OS 2015/1268, ("y Gorchymyn Addasrwydd 2015") i nodi:
- Ni fydd llety cysgu a rennir rhwng unigolion nad ydynt yn aelodau o deulu yn cael ei ystyried yn addas mewn unrhyw amgylchiadau (mae teulu yn cyfeirio at y diffiniad yn Adran 56 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac yn cynnwys y rhai sy'n byw fel arfer gyda'r ceisydd fel aelod o'i deulu ac unrhyw berson arall y byddai'n rhesymol disgwyl iddo fyw gyda'r ceisydd).
 - Lle na ddarperir cyfleusterau megis cyfleusterau coginio neu olchi dillad yn y llety, dylid cael trefniant lle bydd y costau ychwanegol i'r aelwyd yn cael eu had-dalu gan yr awdurdod tai lleol.
 - Nid yw llety a asesir fel un sy'n cynnwys peryglon Categori Un byth yn addas.

- Nid yw llety sy'n anaddas i bobl fyw ynddo byth yn addas.
- Dylai'r llety gynnwys toiled sy'n gweithio'n iawn, cyfleusterau ymolchi a chyfleusterau coginio (boed yn gyfleusterau preifat neu'n rhai a rennir).
- Dylai'r llety gynnwys cyfleusterau ar gyfer gwasanaethau Wi-Fi, sydd naill ai am ddim i'r ceisydd a'i aelwyd eu defnyddio, neu bod yr awdurdod tai lleol yn fodlon eu bod yn fforddiadwy i'r ceisydd.
- Dylai llety ganiatáu mynediad i'r trigolion bob adeg o'r dydd a'r nos.

30. Pan fydd awdurdod tai lleol yn ystyried a ddylai llety fod yn fforddiadwy i'r ceisydd a'i aelwyd (dan Adran 59(2) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014), dylid ystyried cost cludiant cyhoeddus neu breifat er mwyn i'r ceisydd allu cael mynediad at addysg, cyflogaeth, cyfleusterau meddygol a gwasanaethau eraill a nodir yn Rheoliad 3 o Orchymyn Addasrwydd 2015. Un ffordd o sicrhau bod yr awdurdod tai lleol yn gallu bod yn fodlon bod y gost yn fforddiadwy fyddai drwy ad-dalu'r costau hynny i'r ceisydd. Rydym yn rhagweld y byddai'r senario hon yn gymwys gan amlaf i gynigion dan y ddyletswydd interim yn hytrach na'r brif ddyletswydd i ddarparu llety. Dylid darparu canllawiau er mwyn amlinellu paramedrau'r hyn a fyddai'n cael ei gynnwys gan yr amod hwn.
31. Dylid dileu'r eithriad yn Erthygl 7(2) o Orchymyn Addasrwydd 2015 ac yn 19.81 o'r Cod Canllawiau (sy'n nodi y bydd llety nad yw'n bodloni'r safon uwch er hynny yn addas am hyd at 6 wythnos os yw'r llety ym mherchnogaeth neu'n cael ei reoli gan awdurdod tai lleol neu landlord cymdeithasol cofrestredig). Dylai'r un safonau fod yn gymwys ar gyfer llety mewn perchnogaeth breifat ac ar gyfer llety nad yw'n hunangynhwysol sydd ym mherchnogaeth neu a reolir gan awdurdod tai lleol/landlord cymdeithasol cofrestredig.
32. Ni ddylai llety sy'n orlawn yn statudol fod yn addas ac eithrio fel llety dros dro, a hyd yn oed wedyn, am ddim mwy na chyfnod hwyaf a ddiffiniwyd (a ddylai yn ein barn ni fod mor fyr ag sy'n bosibl, ac mewn unrhyw achos, yn ddim mwy na 6 wythnos). Dylai

67 Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd (2023) *Digartrefedd*.

canllawiau statudol amlinellu'r fframiau amser a'r amgylchiadau eithriadol lle byddai hyn yn gymwys.

33. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylai cysylltiad unigolyn â'r iaith Gymraeg fod yn gysylltiedig ag addasrwydd llety, gan ofyn am gyngor yn ôl y galw gan y Comisiwn Cymunedau Cymraeg.
34. Dylai canllawiau amlinellu'r safonau ymarfer da yn ymwneud â mynediad at gyfleusterau golchi dillad.

Dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

35. Dylai canllawiau statudol sy'n gysylltiedig â Gorchymyn Addasrwydd 2015 sicrhau hyblygrwydd er mwyn hwyluso dewis y ceisydd. Os yw'r ceisydd yn dewis cyfaddawdu er mwyn hwyluso ei ddewis, rhaid hysbysu'r ceisydd ynglŷn â'r safonau is a rhaid ystyried ei ddymuniadau a chael cydsyniad penodol ganddo.

Sylwer: Mae'r Panel yn rhagweld na fydd y cymal uchod yn cael ei ddefnyddio mor aml wrth i safonau Llety Dros Dro wella dros gyfnod ac wrth i broblemau sy'n ymwneud â'r cyflenwad o dai cymdeithasol leihau.

Mae'r argymhellion ar dudalennau 57–58 dan Gynlluniau Tai Personol yn nodi y dylid cofnodi dymuniadau a barn ceisydd ynglŷn â beth yw llety addas yn y cynllun hwn (y bwriedir iddo fod yn statudol) a'u hystyried wrth gynnig llety ac yn unrhyw adolygiad perthnasol.

Lleoliad lety

36. Dylid diwygio Rheoliad 3(b) Gorchymyn Addasrwydd 2015 er mwyn ystyried agosrwydd a hygyrchedd "cymorth teuluol," a "chymorth" yn fwy cyffredinol, gan gynnwys rhwydweithiau nad ydynt yn rhai teuluol.
37. Dylid defnyddio'r gair "angenrheidiol" yn hytrach na "hanfodol" yn Rheoliad 3(d) o Gorchymyn Addasrwydd 2015 er mwyn sicrhau ystyriaeth fwy cyffredinol ac ehangach o les ceisydd: "agosrwydd a hygyrchedd cyfleusterau meddygol a gwasanaethau cymorth eraill sydd ar hyn o bryd yn cael eu

defnyddio gan y person neu'n cael eu darparu iddo ac sy'n hanfodol er llesiant y person hwnnw."

38. Dylid diwygio'r cyfeiriad at gam-drin domestig yn Rheoliad 3(g) o Gorchymyn Addasrwydd 2015 i ddarllen "domestig neu gam-driniaeth arall." Bydd hyn yn ystyried agosrwydd cyflawnwyr troseddau honedig a dioddefwyr gam-drin domestig yn ogystal â mathau eraill o gamdriniaeth, gan gynnwys ymhlith pethau eraill camdriniaeth hiliol, homoffobig a thrawsffobig.
39. Dylid diwygio Rheoliad 3 o Gorchymyn Addasrwydd 2015 (a chanllawiau cysylltiedig) i nodi na fydd llety yn addas oni bai ei fod wedi'i leoli o fewn pellter teithio rhesymol o gyfleusterau addysgol presennol, cyflogaeth, cyfrifoldebau gofalu, cyfleusterau meddygol a gwasanaethau cefnogi eraill, gan gynnwys rhwydweithiau cefnogi anffurfiol, ac eithrio os bydd y ceisydd yn dymuno symud ymhellach na phellter teithio rhesymol oddi wrth y cyfleusterau hynny. Dylai'r diwygiadau hyn ddarparu eithriad lle bydd llety dros dro yn cael ei sicrhau dan Adran 68 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac nad oes llety addas ar gael. Dylai'r eithriad hwn fod am ddim mwy na chyfnod a bennwyd fel uchafswm.
40. Mewn cysylltiad â'r uchod, lle bo'r ceisydd yn cael cynnig llety tymor hwy neu sefydlog er mwyn dod â'r ddyletswydd atal neu'r brif ddyletswydd i ddarparu llety i ben, gallai fod yn rhesymol disgwyl i'r ceisydd newid ysgolion a/neu gyfleusterau meddygol, gan ddibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn. Ni fyddai byth yn rhesymol disgwyl i'r ceisydd neu aelod o'i aelwyd adael ei waith presennol. Yn yr amgylchiadau hynny, byddai'r pellter teithio rhesymol y cyfeirir ato yn gymwys i gyfleusterau addysgol newydd neu gyfleusterau meddygol. Yn unol ag argymhellion y Panel dan gysylltiad lleol, dylai canllawiau statudol bwysleisio na ddylid disgwyl i geisydd newid ysgolion os oes presenoldeb ers cyfnod maith, lle byddai newid ysgol yn amharu ar les y plentyn, neu lle mae angen i blentyn fynychu ysgol benodol er mwyn cael cymorth penodol.

Digartref gartref

41. Dylai canllawiau statudol bwysleisio y gall unigolyn fod â rhywle i aros yn y tymor byr i ganolig ond dal i gael ei ystyried yn ddiartref neu dan fygythiad o ddiartrefedd (cyfeirir at hyn weithiau fel "digartref gartref"). Mae'r trothwy yn Adran 62(1) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn isel: "os yw'n ymddangos i'r awdurdod y gallai'r person fod yn ddiartref neu o dan fygythiad o ddiartrefedd." [ychwanegwyd pwyslais] Os bydd person yn dweud ei fod yn ddiartref, neu dan fygythiad o ddiartrefedd, a'i fod yn gallu parhau i feddiannu'r llety yn y tymor byr neu ganolig, dylid derbyn cais am gymorth digartrefedd. Dylai'r awdurdod tai lleol asesu anghenion tai'r ceisydd a llunio Cynllun Tai Personol gyda'r ceisydd. Mae'n bwysig iawn bod y rhwymedigaethau hyn yn parhau yn yr amgylchiadau lle gallai awdurdod tai lleol ystyried bod unigolyn yn "ddiartref gartref." Mae'r dyletswyddau statudol yn parhau'n gymwys.
42. Dylai canllawiau statudol bwysleisio bod y prawf ar gyfer ystyried a yw'n "rhesymol parhau i feddiannu" llety yn cyfeirio at yr hirdymor. Gallai person fod yn ddiartref gan nad yw'n rhesymol iddo feddiannu ei lety yn yr hirdymor a dal i allu meddiannu'r llety hwnnw yn y tymor byr. Yn yr amgylchiadau hynny, bydd y brif ddyletswydd i ddarparu llety dan Adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn gymwys a bydd yr awdurdod tai lleol yn dod â'r ddyletswydd honno i ben drwy gynnig llety rhentu preifat neu lety addas Rhan 6 addas i'r ceisydd. Tra bydd y ceisydd yn aros am y cynnig hwnnw, os bydd yn well ganddo aros yn y llety, bydd yn ddiartref gartref.
43. Bydd yr hysbysiad ysgrifenedig ynglŷn â chanlyniad yr asesiad o'r angen am lety yn hysbysu'r ceisydd ynglŷn â'i hawl i ofyn am adolygiad (Adran 63(4) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014). Os bydd yr awdurdod tai lleol yn penderfynu y gall y ceisydd barhau i feddiannu'r llety (sydd, yn yr hirdymor, ddim yn rhesymol i barhau i'w feddiannu) at ddibenion y ddyletswydd interim neu'r brif ddyletswydd i ddarparu llety (Adranau 68 neu 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014), bydd yr awdurdod tai lleol yn hysbysu'r ceisydd ynglŷn â'i benderfyniad nad yw llety yn addas ac yn ei hysbysu ynglŷn â'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw,

ynglŷn â chanlyniadau posibl derbyn neu wrthod y llety hwnnw ac ynglŷn â'i hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad yn ymwneud ag addasrwydd (gan gynnwys unrhyw bryd yn ystod y cyfnod y mae'r llety'n cael ei feddiannu). Bydd hyn yn caniatáu i'r ceisydd godi unrhyw fater yn ymwneud â pham na fyddai'r llety'n addas i'w feddiannu ganddo hyd yn oed yn y tymor byr neu ganolig.

44. Dylid cyflwyno cyfyngiadau yn ymwneud â'r arfer o roi blaenoriaeth is i geiswyr sy'n "ddiartref gartref" o'u cymharu â cheiswyr eraill ar gynllun dyrannu awdurdod tai lleol, naill ai drwy ddiwygio Rhan 6 o Ddeddf Tai 1996 neu drwy ganllawiau. Pwrpas hyn yw er mwyn sicrhau nad yw ceiswyr yn teimlo nad oes arnynt eisiau bod yn "ddiartref gartref," ymarfer sy'n lleihau pwysau ar lety dros dro. Dylai canllawiau statudol ar ddyrannu llety gan awdurdodau tai lleol nodi na ddylai awdurdodau tai lleol roi llai o ffafriaeth neu flaenoriaeth i geiswyr sy'n "ddiartref gartref" yn eu cynlluniau dyrannu tai nag i geiswyr eraill y mae dyletswydd iddynt dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Polisiau ar gyfer llety dros dro a/neu lety â chymorth

45. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau tai lleol ar 'reolau tŷ' a threfniadau eraill mewn llety dros dro a llety â chymorth, yn enwedig mewn mathau cynullol o letyau o'r fath. Dylai canllawiau o'r fath roi sylw i faterion y gwyddys eu bod yn achosi rhwystrau o ran mynediad neu a allai amharu ar les trigolion. Dylent gydnabod y dylai pobl sydd mewn llety dros dro gael eu galluogi i weithio, ac na ddylai rheolau tŷ gosbi tenantiaid, er enghraifft, am fethu â bod yn bresennol yn ystod eu horiau gwaith. Dylai'r canllawiau hyn hefyd drafod a rhoi sylw i feysydd amrywiol eraill y gwyddys eu bod yn achosi rhwystrau anodd, gan gynnwys: polisiau dim anifeiliaid anwes; cyrffiw; defnyddio teledu cylch cyfyng, taliadau gwasanaeth; polisiau ôl-ddyledion rhent; polisiau gwahardd; polisiau yn ymwneud ag euogfarnau blaenorol, ac yn y blaen. Dylid llunio canllawiau o'r fath yng nghyd-destun dull strategol ehangach o drafod dyfodol llety dros dro a llety â chymorth yng Nghymru.

Hawliau sy'n gysylltiedig ag adolygiad: addasrwydd llety

46. Pryd bynnag y bydd awdurdod tai lleol yn sicrhau llety i geisydd dan y ddyletswydd interim, y brif ddyletswydd i ddarparu llety neu'r ddyletswydd i geisydd y mae ei achos yn cael ei ystyried ar gyfer atgyfeiriad cysylltiad lleol (Adrannau 68, 75 ac 82 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014), dylai hysbysu'r ceisydd yn ysgrifenedig:
- Ynglŷn â'i benderfyniad bod y llety yn addas;
 - Ynglŷn â'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw;
 - Ynglŷn â chanlyniadau posibl derbyn a gwrthod;
 - Ynglŷn â hawl y ceisydd i ofyn am adolygiad o addasrwydd llety (pa un a yw'n ei dderbyn ynteu'n ei wrthod); ac
 - Y gellir gwneud cais am adolygiad unrhyw bryd pan fydd y ceisydd yn meddiannu'r llety.
47. Os yw'r llety'n cael ei sicrhau dan unrhyw un o'r dyletswyddau yn Adran 68, 75 neu 82 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, dylai'r ceisydd gael yr hawl i ofyn am adolygiad o addasrwydd llety unrhyw bryd yn ystod y cyfnod y mae'n meddiannu'r llety (ac ni ddylid ei gyfyngu i ofyn am adolygiad cyn pen 21 diwrnod ar ôl cael cynnig llety). Ar ôl i'r ceisydd ofyn am adolygiad o addasrwydd llety, a chael ei hysbysu ynglŷn â phenderfyniad yr adolygiad, os bydd y ceisydd yn gofyn yn ddiweddarach am adolygiad arall o addasrwydd llety, byddai'n rhaid iddo ddangos bod ei amgylchiadau wedi newid ers penderfyniad yr adolygiad blaenorol.
48. Dylai unrhyw gais am adolygiad o addasrwydd llety sy'n cael ei feddiannu dan y dyletswyddau yn Adrannau 68, 75 neu 82 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 gael ei gwblhau a'i ddwyn i sylw'r ceisydd cyn pen cyfnod heb fod yn fwy na thair wythnos ar ôl y cais neu gyfnod hwy y bydd yr adolygwr a'r ceisydd yn cytuno arno yn ysgrifenedig.

49. Dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol gyfathrebu yn rheolaidd â cheiswyr ynglŷn â'r canlynol:
- Cynnydd eu cais am lety hirdymor a'r graddfeydd amser disgwylidig (gweler yr argymhellion dan yr adran Cynlluniau Tai Personol);
 - Eu hawliau i ofyn am adolygiad o addasrwydd y llety ac unrhyw benderfyniadau perthnasol eraill;
 - Cymorth a allai fod ar gael i'r ceisydd.

Addasrwydd llety i gymunedau sipsiwn, roma a theithwyr

50. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu eglurder ynglŷn â'r dull y mae'n ei ffafrio ar gyfer defnyddio pwerau dan Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydau a Llysoedd 2022 i'w gwneud yn ofynnol i'r rhai hynny o gymunedau sy'n teithio (Sipsiwn, Roma neu Deithwyr) adael tir. Os caiff y pwerau hyn eu defnyddio, dylai Llywodraeth Cymru weithredu i sicrhau bod y rhai y gofynnir iddynt adael tir dan y Ddeddf hon yn cael cynnig llety dros dro sy'n briodol o safbwynt eu diwylliant, a hynny'n gyflym. Bydd hyn yn cynnwys gweithio i sicrhau bod safleoedd priodol ar gael a bod Asesiadau o anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu gweithredu'n effeithiol.
51. Dylai canllawiau statudol nodi ei bod yn ofynnol i'r awdurdod tai lleol ofyn i geisydd o'r Gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr a yw'n gwrthwynebu brics a mortar oherwydd ei ddiwylliant ai peidio, a sicrhau bod llety yn briodol ac yn addas i'r ceisydd hwnnw.

Galluogwyr a rhwystrau

Mae cynnydd yn y cyflenwad o dai gwirioneddol fforddiadwy, addas, sefydlog ar gyfer aelwydydd incwm isel yn hollbwysig i lwyddiant yr argymhellion hyn. I'r perwyl hwn, mae cysylltiad agos rhwng yr argymhellion yn yr adran hon ag argymhelliad y Panel dan yr adran Cyflenwad ar dudalen 50.

Mae'r Panel hefyd yn ymwybodol o'r adroddiad blynyddol a gyflwynwyd i'r Gweinidog yn ddiweddar gan y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Dod â Digartrefedd i Ben, sy'n pwysleisio'r angen

i weithio ar y cyd er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau yn ein cyflenwad tai a diwallu anghenion pobl sy'n profi digartrefedd ac sy'n wynebu risg o ddiartrefedd.⁶⁸

Yn ogystal, gallai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir defnyddio grantiau amrywiol i gynorthwyo awdurdodau lleol i dalu costau lle mae aelwydydd yn cael eu lleoli yn bell o gyfleusterau.

Fel yn achos llawer o adrannau eraill o'r adroddiad hwn, mae angen canllawiau clir er mwyn helpu i sicrhau cysondeb wrth gymhwyso a dehongli. Er enghraifft, wrth amlinellu beth allai fod yn "gysylltiad ar wahân i un teuluol."

Er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael eu cefnogi i brosesu adolygiadau mewn ffordd gyson a buan, dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu templedi.

6. Cynyddu opsiynau tai a dod â'r brif ddyletswydd i ddarparu llety i ben

Beth yw'r broblem?

Ar hyn o bryd mae gan awdurdodau lleol hyblygrwydd o ran sut y maent yn cyflawni'r dyletswyddau atal a lliniaru digartrefedd, ond dim ond mewn dwy ffordd y gallant gyflawni'r brif ddyletswydd i ddarparu llety: drwy gynnig tenantiaeth gymdeithasol neu denantiaeth rhentu preifat.

Er bod y naill neu'r llall o'r opsiynau hyn yn debygol o fod yn briodol yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n golygu na ellir defnyddio opsiynau tai eraill a allai fod yn briodol i rai pobl sy'n wynebu digartrefedd. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, tŷ llety â chymorth, llety â chymorth, ac aros neu ddychwelyd i lety blaenorol yr unigolyn, gan gynnwys cartref teuluol.

Mae nifer o enghreifftiau penodol lle gall y diffyg hyblygrwydd hwn fod yn broblemus. Er enghraifft, efallai y byddai'n well gan oroeswyr trais domestig gael cymorth i symud y person sy'n cyflawni'r trais o'i gartref, ac aros yno yn ddiogel, yn hytrach na chynnwrf ac aflonyddwch symud i denantiaeth newydd. Enghraifft arall yw troi allan

yn anghyfreithlon, lle gallai helpu ceisydd i gael gwaharddeb i'w alluogi i ailfeddiannu ei gartref ar ôl cael ei droi allan yn anghyfreithlon fod yn fwy priodol na dyrannu tenantiaeth gymdeithasol iddo.

Gan gadw mewn cof hefyd y bydd llawer o bobl sy'n cael eu derbyn fel rhai digartref yn ifanc ac yn sengl, yn enwedig os caiff y maen prawf angen blaenoriaethol ei ddileu, gallai cael ystod ehangach o opsiynau ailgartrefu posibl fod o gymorth er mwyn dod o hyd i'r ateb mwyaf priodol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r Panel yn credu mai "opsiynau safonol" tai cymdeithasol neu denantiaeth rhentu preifat yw'r opsiynau mwyaf diogel, ac o ganlyniad y dylent fod yn opsiynau diodyn. Ond mae'n bwysig ehangu'r opsiynau hyn, oherwydd gallent fod yn briodol mewn rhai amgylchiadau. Pa bynnag fath o lety a geisir, mae'n hollbwysig ei fod yn diwallu anghenion y ceisydd ac nad yw ceiswyr dan bwysau i dderbyn trefniadau llety llai traddodiadol neu lai safonol lle nad yw hynny'n unol â'u dymuniadau neu eu hanghenion.

Mae'r Panel hefyd yn credu y gallai cynyddu'r opsiynau tai sydd ar gael, os yw hynny'n briodol i anghenion y ceisydd, helpu i leddfu ychydig ar y pwysau sydd ar y cyflenwad o dai cymdeithasol. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Panel yn gwneud argymhelliad sy'n ceisio cynyddu'r cyflenwad o dai yn y tymor hwy (gweler tudalen 50).

A oes angen newid cyfreithiol?

Mae angen newidiadau mewn deddfwriaeth sylfaenol er mwyn darparu mwy o hyblygrwydd o ran yr ystod o opsiynau tai y gall awdurdodau lleol eu cynnig i geiswyr er mwyn dod â'u digartrefedd i ben. Fel arall, bydd awdurdodau lleol yn dal yn gyfyngedig i gynnig y cynigion "safonol" presennol sy'n cyflawni'r brif ddyletswydd i ddarparu llety (h.y. cynnig o denantiaeth gymdeithasol neu lety yn y sector rhentu preifat).

Byddai'r anhyblygrwydd hwn yn mynd yn broblem mewn rhai amgylchiadau pe derbynnid argymhelliad y Panel i ddileu'r ddyletswydd liniaru. Heb gynyddu opsiynau tai hefyd, byddai dileu'r ddyletswydd liniaru yn golygu mai dim ond llety hirdymor y gellid ei gynnig i'r rhai sy'n gwneud cais am gymorth digartrefedd oherwydd eu bod

yn ddiartref ar unwaith mewn argyfwng (er enghraifft ar ôl dianc o berthynas gamdriniol). Fodd bynnag, efallai y byddai'n well gan y ceisydd roi mesurau yn eu lle er mwyn iddo allu teimlo'n ddiogel wrth ddychwelyd i'w gartref, neu aros mewn llety â chymorth am ychydig.

Argymhellion y Panel

Mae argymhellion y Panel isod yn ceisio darparu cyfrwng i awdurdodau lleol ddod â chais digartrefedd i ben drwy sicrhau llety ar wahân i gynnydd o dai cymdeithasol neu denantiaeth yn y sector rhentu preifat. Gan fod yr opsiynau hyn yn gallu bod yn llai sicr, mae'r argymhellion hefyd yn ceisio sicrhau bod opsiynau tai ychwanegol o'r fath ddim ond yn cael eu defnyddio lle mae'r ceisydd yn cydsynio, y llety'n bodloni safonau gofynnol a mesurau diogelu penodol yn eu lle i roi sicrwydd ynglŷn â sefydlogrwydd y llety.

52. Bod y brif ddyletswydd i ddarparu llety yn Adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn gallu dod i ben drwy ystod fwy o opsiynau tai. Ar hyn o bryd, yr unig ffordd y gall ddod i ben yw pan fydd y ceisydd yn cael cynnig ac yn derbyn neu'n gwrthod llety Rhan 6 addas (tai cymdeithasol) neu lety addas yn y sector rhentu preifat (neu'n gwrthod llety Adran 75 addas): Adran 76(2) a (3) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Byddai'r argymhelliad hwn yn caniatáu i awdurdod tai lleol ddod â'r brif ddyletswydd i ddarparu llety i ben mewn amgylchiadau eraill, ond **dim ond** lle mae'r awdurdod tai lleol yn fodlon bod yr amodau a ganlyn wedi'u bodloni:
- bod y llety yn addas i'r ceisydd ei feddiannu, a phob aelod o'i aelwyd; a
 - bod y llety yn debygol o fod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu, a phob aelod o'i aelwyd, am o leiaf 12 mis.
53. Bod opsiynau a allai ddod o dan y dull ychwanegol hwn o ddod â'r brif ddyletswydd i ddarparu llety i ben yn cynnwys:
- Darparu cyngor a chymorth sy'n helpu ceisydd a oedd yn ddiartref oherwydd bod ganddo lety nad oedd yn rhesymol parhau i'w feddiannu i ddychwelyd i feddiannu'r llety hwnnw. Mae enghreifftiau o gyngor a chymorth o'r fath yn cynnwys helpu ceisydd i gael gwaharddeb i'w

alluogi i ailfeddiannu ei gartref yn dilyn troi allan anghyfreithlon, helpu ceisydd i gael gorchymyn meddiannaeth neu rwymedi cyfreithiol arall i wahardd rhywun sydd wedi cyflawni camdriniaeth neu drais, gosod nodweddion diogelwch ffisegol, helpu'r ceisydd i gael cyngor fel bod modd trosglwyddo perchnogaeth neu denantiaeth i'w enw ef yn unig;

- cynorthwyo'r ceisydd i symud i dŷ llety â chymorth neu fath arall o lety â chymorth.
 - cynorthwyo'r ceisydd i ddychwelyd i gartref y mae wedi cael ei wahardd ohono gan rieni neu deulu, er enghraifft darparu gwasanaethau cyfryngu.
54. Dylai fod yn ofynnol i unrhyw gynnydd o lety sy'n dod o fewn yr "opsiwn ychwanegol" hwn gynnwys y mesurau diogelu a ganlyn:
- Cytundeb ysgrifenedig megis contract meddiannaeth (os yw'n briodol) a/neu ddatganiad o hawliau a chyfrifoldeb;
 - Rhaid i'r ceisydd fod wedi cael ei hysbysu yn ysgrifenedig ynglŷn â chanlyniad derbyn y cynnig (y bydd y ddyletswydd yn dod i ben);
 - Rhaid i gynnydd o lety o'r fath gael ei dderbyn yn ysgrifenedig gan y ceisydd os yw'r opsiwn hwn i'w ddefnyddio i ddod â'r ddyletswydd i ddarparu llety i ben. Ni all gwrthod cynnig o'r fath arwain at ddod â'r brif ddyletswydd i ddarparu llety i ben, h.y. **mae gan y ceisydd feto**;
 - Cynnig o gyngor annibynnol ynglŷn â llety i'r ceisydd cyn derbyn llety "opsiwn ychwanegol";
 - Gwybodaeth ysgrifenedig i'r ceisydd ynglŷn â'i hawl i ofyn am adolygiad o addasrwydd y llety;
 - Hysbysu'r ceisydd y gall wneud cais newydd am gymorth digartrefedd gan yr awdurdod tai lleol os bydd y cytundeb yn methu (a sut i wneud hynny);
 - Yn ogystal â sicrhau bod y llety'n bodloni'r holl safonau arferol ar gyfer 'addasrwydd,' rhaid cadarnhau'r canlynol:

- mynediad 24 awr i'r llety hwnnw
- cyfleusterau toiled ac ymolchi digonol
- mynediad at gyfleusterau cegin
- ystafell wely breifat
- ystafell fyw ar gael os yw'r ceisydd yn byw gyda phlant
- fforddiadwy;
- bod gan yr awdurdod tai lleol ddyletswydd i gysylltu â'r ceisydd chwe mis ar ôl iddo dderbyn y cynnig er mwyn canfod a yw'r llety'n parhau i fod yn addas a/neu a yw'r ceisydd dan fygythiad o ddiartrefedd neu'n ddiartref.

Sylwer: Os oes dyletswydd i gynnydd cymorth er mwyn cadw llety, (gweler argymhelliad 78), bydd y ddyletswydd hon yn parhau'n gymwys i bobl sy'n derbyn llety "opsiwn ychwanegol".

55. Os yw'n ymddangos i'r awdurdod tai lleol nad yw'r llety ar gael mwyach i'r ceisydd (neu i bob aelod o'i aelwyd) neu os nad yw'n addas mwyach, dylai'r awdurdod tai lleol gynorthwyo'r ceisydd i wneud cais newydd am gymorth digartrefedd dan Adran 62(1) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Dylai canllawiau statudol gynnwys cyngor y dylai awdurdodau tai lleol fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gallai ceisydd ganfod ei hun yn ddiartref neu dan fygythiad o ddiartrefedd o lety "opsiwn ychwanegol" o'r fath a dylai dderbyn cais newydd am gymorth digartrefedd a chydymffurfio â dyletswyddau statudol yn fuan.
56. Dylai canllawiau statudol nodi bod yn rhaid i awdurdodau tai lleol fonitro eu defnydd o lety "opsiwn ychwanegol", cadw cofnod o nifer y cynigion sy'n cael eu gwneud a'u derbyn, y math o lety, nodweddion y ceisydd a pham yr oedd yn briodol dod â'r ddyletswydd i ben â'r opsiwn hwn. Dylai Llywodraeth Cymru oruchwylio'r cofnodion hyn.

Galluogwyr a rhwystrau

Er y bydd llety 'opsiwn ychwanegol' yn briodol i rai pobl mewn sefyllfaoedd penodol, mae 'opsiynau safonol' tai cymdeithasol neu denantiaeth yn y sector rhentu preifat yn fwy sicr a dylent barhau fel y dewis diodyn. Bydd datblygu canllawiau clir a mecanweithiau i fonitro'r cynnydd mewn opsiynau tai yn hanfodol er mwyn sicrhau bod yr hyblygrwydd ychwanegol hwn i awdurdodau lleol yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

Oherwydd bod 'opsiynau ychwanegol' yn cynnig llai o sicrwydd, rhaid cyflwyno cyfres o fesurau diogelu gyda'r newid deddfwriaethol hwn. Dyma pam y mae argymhellion y Panel uchod yn ceisio sicrhau bod gan geiswyr gytundebau ysgrifenedig yn eu lle, eu bod yn gwbl ymwybodol o'u hawliau ac yn cael cynnig cyngor annibynnol ynglŷn â thai cyn derbyn llety 'opsiwn ychwanegol'. Er mwyn sicrhau bod y cyngor hollbwysig hwn ar gael bydd angen ystyried yn ofalus a darparu adnoddau. Bydd yn hanfodol sicrhau hefyd bod unrhyw lety 'opsiwn ychwanegol' yn bodloni gofynion addasrwydd y ceisydd fel y maent wedi'u nodi yn ei Gynllun Tai Personol.

Mae argymhelliad y Panel i sicrhau bod gan y rhai sy'n derbyn llety 'opsiwn ychwanegol' lwybr cyflym yn ôl i'r system hefyd yn fesur diogelu pwysig er mwyn cyflwyno mwy o hyblygrwydd i'r system.

7. Dyrannu Tai Cymdeithasol

Beth yw'r broblem?

Gall tai cymdeithasol fod yn allwedd i gartref i lawer o bobl sydd wedi profi, sydd yn profi neu sy'n wynebu risg o ddiartrefedd. Er nad yw pob ceisydd digartref yn dibynnu ar dai cymdeithasol i ddod â'u digartrefedd i ben, mae llawer yn cael anhawster i fforddio eiddo ar y farchnad breifat, yn enwedig wrth i renti godi.⁶⁹ Mae Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru i Roi Diwedd ar Ddiartrefedd yn cydnabod rôl bwysig tai cymdeithasol er mwyn rhoi diwedd ar ddiartrefedd.⁷⁰

Mae ymchwil yn awgrymu mai cymdeithasau tai yng Nghymru sydd â'r gyfran isaf o ddyraniadau

69 BBC News (2023) *Rents rise at fastest rate for eight years*. Darllenwyd 24 Awst 2023. <https://www.bbc.co.uk/news/business-66244990>

70 Llywodraeth Cymru (2021) *Rhoi diwedd ar ddiartrefedd yng Nghymru: cynllun gweithredu lefel uchel 2021-2026*. t. 14.

i aelwydydd digartref ar draws awdurdodaethau Prydain Fawr.⁷¹ Yn ôl y *Monitor Digartrefedd* diwethaf yn 2018/19, defnyddiwyd 39% o'r gosodiadau i denantiaid cymdeithasol newydd yn yr Alban i ddatrys digartrefedd o'i gymharu â 25% yn Lloegr a 22% yng Nghymru.⁷² Fodd bynnag, dylid nodi bod llawer o randdeiliaid yn credu bod y data presennol ar ddyraniadau i aelwydydd digartref yng Nghymru yn anghyflawn ac yn ddiffygiol,⁷³ mater a godwyd yn aml yn sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid y Panel.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, comisiynwyd ymchwil penodol gan Lywodraeth Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn dadansoddi dyraniadau tai cymdeithasol i aelwydydd digartref a darparu gwybodaeth sail i waith y Panel.⁷⁴ Roedd yr ymchwil hwn yn cynnwys cyfle i bob Cyfarwyddwr Tai cymdeithasol a Phenathiaid Tai awdurdodau lleol ledled Cymru gyflwyno ymatebion i arolwg dienw, a oedd yn gofyn am adborth ynglŷn â'r dulliau dyrannu ledled y wlad yn ogystal â syniadau ar gyfer newid. Yn ogystal, cynhaliodd yr ymchwilydd gyfweiliadau uniongyrchol â chynrychiolwyr o awdurdodau lleol a rheolwyr cymdeithasau tai, digwyddiad rhanddeiliaid ar-lein a ffocws llifolau ar bum rhanbarth gwahanol.

Roedd yr ymchwil hwn, fel y mae'r Panel yn ymwybodol iawn, yn pwysleisio bod "gwahaniaeth mawr" rhwng y cyflenwad a'r galw am dai cymdeithasol yng Nghymru.⁷⁵ Mae mynd i'r afael â'r bylchau yn ein cyflenwad tai yn rhan hollbwysig o'r darlun o ran dyrannu mwy o dai cymdeithasol i aelwydydd digartref (gweler tudalen 51–52 am fanylion ynglŷn ag argymhelliad y Panel ynglŷn â'r cyflenwad).

Fodd bynnag, mae ymchwil hefyd wedi dangos bod "gwahaniaethau mewn prosesau lleol" ar gyfer dyrannu ymhlith cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r gwahaniaethau hyn yn digwydd am nifer o wahanol resymau, gan gynnwys "disgresiwn gwleidyddol, negodi rhwng partneriaethau a llunio polisiâu lleol."⁷⁶ Mae'r

gwahaniaethau'n cynnwys; manylion cytundebau enwebu rhwng awdurdodau lleol a chymdeithasau tai; cysoni polisiâu dyrannu awdurdodau lleol a chymdeithasau tai; defnyddio gosodiadau yn seiliedig ar ddewis; a defnyddio Cofrestrau Tai Cyffredin.

Rhywbeth a oedd o ddiorddeb penodol i'r Panel oedd yr amrywiad sylweddol rhwng landlordiaid cymunedol ledled Cymru o ran cyfraddau dyrannu tai i aelwydydd digartref. Er bod yr adroddiad yn dweud bod angen gwneud mwy o waith er mwyn cyflwyno data cywir a manwl, roedd yn edrych ar ffigurau dangosol ymhlith yr ardaloedd yr oedd yr ymchwil wedi cymryd ffocws llifolau. Yn ôl y ffigurau hyn roedd y cyfraddau isaf o ran dyrannu llety i aelwydydd digartref yn 23% a'r cyfraddau uchaf yn 60%.

Mynegodd rhanddeiliaid sy'n awdurdodau lleol bryder bod diffyg tryloywder a chysondeb yn y dulliau dyrannu, a bod hynny'n galluogi cymdeithasau tai i "ddewis a dethol" ceiswyr. Roedd llawer o gynrychiolwyr awdurdodau lleol, felly, yn galw am fecanweithiau a oedd yn rhoi mwy o ddyletswydd ar gymdeithasau tai i helpu i gartrefu ceiswyr digartref.

Dywedodd cymdeithasau tai a oedd yn cymryd rhan yn yr ymchwil fod nifer o resymau y tu ôl i'r gwahaniaethau mewn cyfraddau enwebu a chyfraddau dyrannu i aelwydydd digartref. Mae llawer o ffactorau ar wahân i'r cwestiwn a yw unigolyn yn ddiartref ai peidio y mae angen i gymdeithasau tai eu hystyried wrth wneud penderfyniadau dyrannu. Mae hyn yn cynnwys anghenion pwysig eraill megis anghenion perthnasol yn ymwneud ag anabledd ac iechyd, yn ogystal ag addasrwydd lleoliad. I grynhoi hyn, mae'r adroddiad yn dangos bod cynrychiolwyr cymdeithasau tai yn pwysleisio dyraniadau fel "rhan o 'ecosystem' tai cymdeithasol, wedi'u graddnodi i ystyried nifer o wahanol ffactorau"⁷⁷ wrth ddyrannu cartrefi i aelwydydd, gan gynnwys "anghenion, dymuniadau ac amgylchiadau."⁷⁸

Pwysleisiodd cynrychiolwyr cymdeithasau tai a oedd yn cymryd rhan yn yr ymchwil yn fwyaf penodol fod gan geiswyr digartref yn aml anghenion cymorth ychwanegol sydd heb eu diwallu, a all wneud lleoliadau yn anaddas. Dywedasant hefyd y byddent yn gallu dyrannu i niferoedd uwch o aelwydydd digartref pe bai parodrwydd ar ran awdurdodau lleol i ddarparu cymorth priodol ar gyfer anghenion cymorth ychwanegol. Mynegodd llawer o arweinwyr cymdeithasau tai bryder bod angen i unrhyw gynnydd mewn dyraniadau i aelwydydd digartref gael eu cydbwysu'n ofalus yn erbyn diwallu anghenion grwpiau blaenoriaeth eraill ar gyfer tai cymdeithasol, yn ogystal â sicrhau bod llety a ddyrennir yn addas i anghenion unigolyn.

Pwysleisiodd cyfranogwyr eraill yn yr ymchwil fod angen mynd i'r afael â phroblemau sylfaenol â'r cyflenwad tai – yn fwyaf arbennig llety i berson senl – er mwyn gwella cyfraddau dyrannu i aelwydydd digartref.

Yn y cyfamser, mynegodd nifer o weithwyr proffesiynol ym maes tai amheuan sylweddol y gallai newidiadau i gynyddu dyraniadau i aelwydydd digartref greu 'cymhellion gwrthnysig' ac achosi i bobl ddweud eu bod yn ddiartref. Derbyniwyd 45 o ymatebion i arolwg dyraniadau tai Cymru gyfan a chynrychiolwyr yr awdurdodau lleol, a themlai 24 o'r ymatebwyr fod newidiadau i'r system yn arwain at risg y gallai ceiswyr a chymunedau ehangach "ddod i weld digartrefedd fel yr unig ffordd i gael mynediad at dai cymdeithasol."⁷⁹ Roedd galwadau cryf ar i'r Panel gymryd camau er mwyn osgoi creu cymhellion o'r fath yn y system. Yn sgil argymhelliad y Panel i ddileu'r cymal bwriadoldeb (gweler tudalen 21), teimlai cynrychiolwyr awdurdodau lleol fod yr angen i ddiogelu rhag cymhellion gwrthnysig ym maes dyrannu tai cymdeithasol yn bwysicach byth.

Yn ogystal â chyfraddau dyrannu i aelwydydd digartref, cyfeiriodd rhanddeiliaid hefyd at yr angen i wella agweddau eraill ar y system ddyraniadau. Roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn dweud yn aml bod y Cofrestrau Tai Cyffredin yn ddefnyddiol ar gyfer cydweithio.

Mae Cofrestrau Tai Cyffredin yn darparu rhestr aros ar y cyd am dai a ddarperir gan yr awdurdod lleol ac unrhyw gymdeithasau tai sy'n bartneriaid. Er bod y cynrychiolwyr yn ymwybodol bod heriau yn gysylltiedig â'r cofrestrau, teimlai llawer eu bod yn creu ffordd fwy tryloyw o weithio ac yn hybu gwell cysylltiadau â chymdeithasau tai a oedd yn bartneriaid. Yn 2020, roedd 19 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn defnyddio Cofrestr Tai Cyffredin.⁸⁰

Yn yr un modd, roedd gweithwyr proffesiynol a oedd yn gweithio yn y sector anabledd yn ategu galwadau gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol am dull mwy cyffredinol o gymhwysu cofrestrau tai hygyrch ledled Cymru. Mae cofrestrau tai hygyrch yn darparu rhestr o gartrefi addas i bobl anabl sydd ag anghenion mynediad penodol.⁸¹

Mynegodd nifer o randdeiliaid bryder bod y rhestrau aros hir am dai cymdeithasol yn waeth oherwydd pobl a oedd yn gwneud cais am dai cymdeithasol ond nad oedd ganddynt angen uniongyrchol. Er enghraifft, dywedodd un rhanddeiliad:

"Mae llawer o wastraff yn y system gan fod pobl yn gwneud cais am dŷ ac yn cael eu derbyn ar y gofrestr gyffredin er nad oes ganddynt angen uniongyrchol am lety. Byddai'n fuddiol pe gellid gwrthod ceisiadau gan bobl nad oes arnynt angen llety gan y byddai staff yn gallu rhoi mwy o amser i gefnogi pobl sydd mewn angen."

Thema gyffredin arall yn ein sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn â dyraniadau oedd bod polisiâu dyrannu yn amrywio ar draws cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol, ac yn aml yn achosi rhwystrau sylweddol i aelwydydd digartref. Yn fwyaf arbennig, pwysleisiodd rhanddeiliaid fod polisiâu dim anifail anwes, yn ogystal â'r ymarfer cyffredin o gadw lleoliadau tai i bobl dros 55 oed, yn rhwystrau i rai ceiswyr.

71 Watts, B., Bramley, G., Fitzpatrick, S., McMordie, L., Pawson, H. a Young, G. (2022) *The Homelessness Monitor: Great Britain 2022*.

72 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Young, G., Watts, B. a Wood, J. (2021) *Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2021*.

73 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Young, G., Watts, B. a Wood, J. (2021) *Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2021*.

74 Woolley, B. (2023) *Allocations: Understanding more, in the context of homelessness in Wales*.

75 Woolley, B. (2023) *Allocations: Understanding more, in the context of homelessness in Wales*. t. 3.

76 Woolley, B. (2023) *Allocations: Understanding more, in the context of homelessness in Wales*. t. 13.

77 Woolley, B. (2023) *Allocations: Understanding more, in the context of homelessness in Wales*. t. 3.

78 Woolley, B. (2023) *Allocations: Understanding more, in the context of homelessness in Wales*. t. 8.

79 Woolley, B. (2023) *Allocations: Understanding more, in the context of homelessness in Wales*. t. 38.

80 Stephens, M., Perry, J., Williams, P. a Young, G. (2020) *UK Housing Review 2020 Briefing Paper*. Y Sefydliad Tai Siartredig.

81 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2018) *Tai a phobl anabl: argyfwng cudd Cymru*.

Yn ychwanegol at hyn, teimlai llawer o randdeiliaid trydydd sector fod polisiâu dyrannu lleol ymhlith awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn aml yn gosod "disgwyliadau afrealistig," yn enwedig mewn cysylltiad â hanes ceisydd.⁸² Mae polisiâu sy'n ymwneud ag ôl-ddyledion rhent hanesyddol, achosion blaenorol o ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau blaenorol a throthwyon cysylltiad lleol yn aml yn achosi rhwystrau anghymesur sy'n atal ceiswyr digartref rhag cael cartrefi cymdeithasol. Dywedodd rhanddeiliaid fod enghreifftiau o bolisiâu sy'n gwahardd pobl â hanes troseddol o'r fath rhag cael tenantiaeth am hyd at 10 mlynedd.

Roedd cynrychiolwyr yn rhannu pryder nad oedd gan bolisiâu dyrannu yn aml yr hyblygrwydd i ystyried amgylchiadau presennol ceisydd, gan olygu bod hanes ceisydd yn parhau i'w rwystro rhag cael llety, hyd yn oed pan oedd wedi gwneud pob ymdrech i symud ymlaen yn gadarnhaol â'i fywyd. Yn ogystal, rhannwyd pryder y gallai aelodau etholedig, mewn awdurdodau lleol, fod â llawer o ddylanwad ar y penderfyniad i gartrefu ceiswyr â hanes o droseddau neu gamddefnyddio sylweddau mewn ardal leol.

Clywodd y Panel hefyd gan randdeiliaid a oedd yn cynrychioli goroeswyr cam-drin domestig fod y rhwystrau sy'n atal cyflawnwyr troseddau rhag cael llety yn effeithio ar oroeswyr hefyd. Yn aml, pan fydd cyflawnwyr troseddau yn methu â dod o hyd i lety, maent yn dychwelyd at y goroeswr ac yn rhoi pwysau arno ef neu hi i'w gymryd yn ôl.

Yn ogystal â'r sylwadau a wnaethpwyd ynglŷn â nifer y dyraniadau i aelwydydd digartref a'r potensial i fynd i'r afael â rhwystrau yn y system, clywodd y Panel lawer o dystiolaeth hefyd ynglŷn â'r anhawster y gall ceiswyr ei wynebu wrth geisio deall a defnyddio systemau dyrannu. Mynegodd Arbenigwyr drwy Brofiad rwystredigaeth ynglŷn â'r system ddyraniadau ar gyfer tai cymdeithasol, gan ddweud "mae'n cymryd llawer gormod o amser i gael llety" a "does neb i'w weld yn gwybod sut mae'r dyraniadau [i dai cymdeithasol] yn gweithio." Roeddent yn pwysleisio bod diffyg tryloywder, ansicrwydd a chyfathrebu yn y broses, gan ddweud ei bod yn teimlo fel "tynnu enw o het."

A oes angen newid cyfreithiol?

Daeth y Panel i farn fwyafrifol fod angen newid cyfreithiol yn ymwneud â dyraniadau i helpu i leihau'r pwysau ar lety dros dro, darparu tryloywder yn y system i geiswyr, a chreu cyfraniad mwy cyson gan landlordiaid cymunedol ar draws y wlad tuag at yr uchelgais o ddod â digartrefedd i ben.

Er gwaethaf tystiolaeth o ryw faint o ymarfer da, mae'n amlwg bod ymarfer yn ymwneud â dyraniadau wedi bod yn anghyson ers tro byd ledled Cymru. Gan gymryd nad yw'r amrywiad hwn fel pe bai'n cael ei gyfiawnhau gan ffactorau allanol megis amodau amrywiol y farchnad, mae'n ymddangos yn annhebygol y gellir gwneud cynnydd sylweddol heb ddiwygio'r gyfraith.

Mae'r Panel hefyd yn gwneud argymhellion anneddfwriaethol ychwanegol sy'n ceisio ategu'r newidiadau cyfreithiol a awgrymwyd a darparu cyfeiriad ar gyfer dull gweithredu mwy cyson.

Argymhellion y Panel

Mae argymhellion y Panel ar ddyraniadau yn canolbwyntio ar gynyddu mynediad at dai cymdeithasol i aelwydydd digartref, ynghyd â mesurau i ddiogelu rhag creu cymhellion gwrthnysig i wneud cais fel person digartref er mwyn cael lle gwell ar restrau aros tai cymdeithasol.

Mae'r argymhellion hefyd yn ceisio bod yn gydnaws â'r angen i sicrhau nad yw mesurau i leihau'r cynnydd presennol yn nifer y bobl sy'n gwneud cais am gymorth digartrefedd yn arwain at ganlyniadau anfwriadol yn y tymor hwy. Er enghraifft, mae angen cefnogi dyletswyddau i sicrhau bod tai cymdeithasol yn parhau ar gael ar gyfer grwpiau risg a grwpiau gwarchodedig eraill ochr yn ochr â'r uchelgais i ddod â digartrefedd i ben.

Enwebiadau awdurdodau lleol i gymdeithasau tai

57. Dylai Llywodraeth Cymru geisio cyflwyno deddfwriaeth o natur debyg i Adran 5 o Ddeddf Tai (Yr Alban) 2001, a fyddai'n galluogi awdurdod tai lleol i ofyn i landlord cymdeithasol cofrestredig ddarparu llety i berson y mae gan awdurdod tai lleol ddyletswydd iddo dan Adran 75(1) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Rhaid i'r landlord

cymdeithasol cofrestredig gydymffurfio o fewn cyfnod rhesymol o amser oni bai fod ganddo reswm da dros beidio â gwneud hynny, ac os hynny dylai ymateb ysgrifenedig yn nodi'r rheswm y dibynnwyd arno gael ei ddarparu i'r awdurdod tai lleol a'i dderbyn ganddo. Bydd yn hollbwysig bod ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i'r canllawiau ategol sy'n amlinellu natur "rhesymau da" a "chyfnod rhesymol o amser" gan sicrhau bod hyn yn gymwys i'r cyd-destun yng Nghymru.

Wrth benderfynu a ddylid gwneud cais o'r fath, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried a oes llety priodol ar gael yn ei ardal.

Dylai awdurdodau tai lleol hefyd ystyried addasrwydd y llety i'r unigolyn fel y nodwyd yn yr asesiad o'r angen am lety a/neu'r Cynllun Tai Personol.

58. Wrth benderfynu ynglŷn â newid deddfwriaethol o'r fath, a chan gadw unrhyw effaith gronns y gallai newidiadau eraill a argymhellwyd mewn cof, dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n rhagweithiol i sicrhau na fydd hyn yn achosi i'r Swyddfa ystadegau Gwladol ailddosbarthu cymdeithasau tai.
59. Dylai Llywodraeth Cymru annog awdurdodau tai lleol i ddefnyddio contractau a chynlluniau dyrannu i egluro a all landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, y mae ganddynt drefniadau enwebu gyda hwy, wrthod enwebiad, ac os hynny, ar ba sail. Mae'r Panel yn argymhell y byddai'n ymarfer da i awdurdodau tai lleol ailedrych ar y contractau a'r polisiâu dyrannu presennol er mwyn sicrhau bod y rhain yn ymwneud ag enwebiadau ac egluro ar ba sail na fyddai enwebiadau yn cael eu derbyn. Dylid pwysleisio'r pwynt hwn ym Mhennod 3 o'r Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd.

Cynlluniau dyrannu

60. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth newydd i sicrhau'r defnydd o Gofrestrau Tai Cyffredin ar draws pob ardal awdurdod tai lleol.

(Gweler hefyd argymhelliad 64 ar Bolisiâu Dyrannu Cyffredin.)

61. Dylid diwygio Rhan 6 o Ddeddf Tai 1996 er mwyn rhoi pŵer i awdurdodau tai lleol nodi na fydd grwpiau penodol o bobl, nad ydynt mewn angen o safbwynt llety, yn gymwys ar gyfer eu cynllun dyrannu. Dylai canllawiau statudol ddarparu diffiniad o angen am lety. Byddai'r pŵer hwn yn un caniatol yn unig; bydd awdurdodau tai lleol yn cadw disgrisiwn i dderbyn pob ceisydd i'w cynllun dyrannu pa un a oes ganddo anghenion llety ai peidio.
62. Dylai'r Cod Canllawiau ddarparu eglurhad bod y prawf presennol ar gyfer ymddygiad annerbyniol, sy'n caniatáu i awdurdod tai lleol wahardd ceisydd o'i gynllun dyrannu, neu dynnu unrhyw ddymuniad rhesymol oddi arno, yn gymwys dim ond:
 - a. lle mae ceisydd (neu aelod o'i aelwyd) wedi bod yn euog o ymddygiad annerbyniol, sy'n ddigon difrifol i dorri amodau Adran 55 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 gan arwain at orchymyn meddiant llwyr; ac
 - b. ar adeg ystyried y ceisydd, lle mae'r ceisydd yn parhau'n anaddas i fod yn denant oherwydd yr ymddygiad hwnnw (Adranau 160A(7) ac (8) a 167(2B) a (2C) o Ddeddf Tai 1996.
63. Dylai'r Cod Canllawiau bwysleisio difrifoldeb ymddygiad sy'n ofynnol er mwyn arwain at orchymyn meddiant llwyr. Yn ogystal, dylai bwysleisio bod angen i awdurdodau tai lleol ystyried hefyd a yw amgylchiadau presennol y ceisydd, ar yr adeg yr ystyrir y cais, yn golygu nad yw'n addas mwyach i fod yn denant. Fel rhan o hyn, dylai awdurdodau tai lleol ystyried cymorth sy'n cael ei ddarparu i'r ceisydd a fydd yn lleihau risgiau. Yn benodol, dylai'r Cod Canllawiau egluro nad yw hanes o ôl-ddyledion rhent a/neu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn arwain at y casgliad y bydd ceisydd bob amser yn anaddas i fod yn denant oherwydd yr hanes hwnnw.
64. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno Polisiâu Dyrannu Cyffredin ledled Cymru. Gallai Llywodraeth Cymru amlinellu canllawiau i awdurdodau tai lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ymwneud â pholisiâu dyrannu tai cymdeithasol, gan geisio sicrhau dull gweithredu mwy cyson a lleihau effaith

82 Woolley, B. (2023) *Allocations: Understanding more, in the context of homelessness in Wales.*

polisiau y gwyddys eu bod yn creu rhwystrau, megis ôl-ddyledion rhent hanesyddol, gwarantwyr (lle mae amgylchiadau'n golygu bod ceisydd yn gallu dangos y byddai'n anodd cael gwarantwr), polisiau rhent ymlaen llaw, cyfyngiadau oedran, polisiau dim anifeiliaid anwes a chyfyngiadau ar gyn-droseddwy. Dylid llunio canllawiau o'r fath ar y cyd â'r sector a dylent fod yn seiliedig ar yr arferion gorau presennol.

65. Dylai canllawiau amlinellu, lle mae cysylltiad lleol yn faen prawf ar gyfer pennu blaenoriaethau yn y cynllun dyrannu:

a. y dylai "cysylltiad lleol" gyfeirio'n benodol at y meini prawf cysylltiad lleol sydd yn Adran 81 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn eu cyfanrwydd (gan gynnwys unrhyw grwpiau a nodir fel rhai sydd wedi'u heithrio o'r atgyfeiriadau cysylltiad lleol (gweler argymhelliaid 9 ar gysylltiad lleol dan yr adran ar y profion cyfreithiol); a

b. lle defnyddir "preswylid" fel ffordd o gael cysylltiad lleol, y dylid nodi'r cyfnod preswylid sy'n ofynnol er mwyn creu cysylltiad lleol yn y cynllun dyrannu.

66. Dylid darparu mecanwaith clir i geiswyr, nad yw'n ddibynnol ar gyllid Cymorth Cyfreithiol, i herio penderfyniad yn ymwneud â dyrannu llety gan awdurdod lleol neu landlord cymdeithasol cofrestredig.

Mynd i'r afael â chymhellion gwrthnysig

67. Dylid diwygio Adran 167 o Ddeddf Tai 1996 er mwyn sicrhau, lle bo awdurdod tai lleol yn fodlon bod ceisydd wedi camddefnyddio'r system digartrefedd yn fwiadol at ddibenion cael mynediad â blaenoriaeth at dai cymdeithasol, bod gan yr awdurdod tai lleol bŵer i ddileu unrhyw ffafriaeth resymol oherwydd bod dyletswyddau digartrefedd yn ddyledus i'r ceisydd dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (Adran 167(2)(b) o Ddeddf Tai 1996) am gyfnod penodol. Byddai'r ceisydd yn parhau ar y cynllun dyrannu, ond byddai'n cael llai o ffafriaeth na cheiswyr digartref eraill y mae ffafriaeth resymol yn ddyledus iddynt dan Adran 167(2)(b) o Ddeddf Tai 1996. Byddai dyletswyddau yn parhau yn ddyledus i'r ceisydd dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, (dyletswyddau digartrefedd), a byddai'n

cadw unrhyw ffafriaeth resymol arall y mae ganddo hawl iddi. Byddai angen ystyried y canllawiau cysylltiedig sy'n amlinellu manylion y pŵer i gymhwyso prawf "camddefnyddio yn fwiadol" yn ofalus. Byddai gan y ceisydd hawl i gael ei hysbysu yn ysgrifenedig ynglŷn â phenderfyniad i dynnu ffafriaeth resymol oddi arno ar sail y prawf hwn, â rhesymau dros y penderfyniad. Byddai ganddo hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad a'r cyfnod y mae'n gymwys.

Gwella ffafriaeth resymol

68. Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei phŵer yn Adran 167(3) o Ddeddf Tai 1996 i ddiwygio Adran 167(2) o Ddeddf Tai 1996 er mwyn nodi y bydd pobl y mae unrhyw ddyletswydd sy'n ddyledus iddynt dan Adranau 66 a/neu 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn cael ffafriaeth ychwanegol dros y grwpiau eraill a amlinellir yn Adran 167(2) yn ystod cyfnodau penodol. Dylai canllawiau amlinellu mesurau ar gyfer dechrau a diwedd cyfnodau o'r fath.

69. Dylai canllawiau statudol nodi na ddylai cynlluniau dyrannu roi llai o flaenoriaeth i rai sy'n gadael carchar na rhai sydd wedi'u cyhuddo o gyflawni camdriniaeth, oni bai eu bod yn fodlon bod y prawf ymddygiad annerbyniol yn Adran 160A (7) ac (8) o Ddeddf Tai 1996 yn cael ei fodloni.

Gweler hefyd argymhellion 62 a 63 ar ymddygiad annerbyniol.

70. Dylai unigolion sydd â phrofiad o fod mewn gofal ffurfio chweched grŵp sydd â hawl i ffafriaeth resymol o fewn y cynllun dyrannu dan Adran 167(2) o Ddeddf Tai 1996.

Amrywiol

71. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ystyried y cwestiynau sylfaenol a godwyd gan y gwaith ymchwil ar ddyraniadau a gomisiynwyd yn ddiweddar, gan edrych ar y rôl hirdymor y gall tai cymdeithasol ei chwarae yn y dull gweithredu cenedlaethol ehangach o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Dylai'r ymchwil hwn daflu goleuni ar yr arferion da presennol ac ystyried sut y gallai dyraniadau yn gyffredinol weithio yn fwy effeithiol.

72. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y posibiladau ar gyfer digidoleiddio ym maes tai cymdeithasol a sut y gellid cefnogi datblygiadau o'r fath, gan sicrhau hefyd nad yw ceiswyr sydd â mynediad cyfyngedig i'r rhyngwrwyd, neu ddim mynediad o gwbl, yn ogystal â'r rhai hynny nad oes ganddynt lythrennedd cyfrifiadurol, yn cael eu rhoi dan anfantais.

73. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn fuan i ba raddau y mae gan rai unigolion sy'n gwneud cais am lety cymdeithasol incwm rhy isel ar gyfer rhenti tai cymdeithasol, hyd yn oed â chymorth budd-daliadau lles. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut i ddarparu rhagor o gymorth yn y cyswllt hwn a gwneud sylwadau perthnasol i Lywodraeth y DU.

74. Dylai canllawiau statudol nodi, lle mae rhesymau dilys dros beidio â gallu rhoi unigolyn sy'n gadael carchar ar restr ddyrannu mewn ardal benodol (er enghraifft cyfyngiadau oherwydd y math o drosedd neu agosrwydd at ddiodeffwr cam-drin domestig), y dylai awdurdodau lleol gyfeirio'r carcharor i ardal briodol. Dylai hyn gynnwys amodau cadarn a phroses gymrodeddu gydnabyddedig.

75. Dylai canllawiau nodi y gall awdurdodau tai lleol ddefnyddio'r pŵer yn Adran 167(2)(e) o Ddeddf Tai 1996, lle gellir cadw llety penodol ar gyfer pobl o ddisgrifiad penodol, i flaenoriaethu llety addas ar gyfer unigolion sy'n gadael carchar ac sydd â chyfyngiadau yn ymwneud â'r llety y caniateir iddynt ei feddiannu.

76. Dylai fod yn ofynnol dan y gyfraith i bob awdurdod tai lleol yng Nghymru gadw cofrestr dai hygrych. Dylai Llywodraeth Cymru roi arweiniad i gefnogi gofyniad o'r fath.

77. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir beth yw ei hagwedd at ymddygiad gwrthgymdeithasol a dyraniadau, gan nodi ei bod yn wahanol i'r dull gweithredu a nodir yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth y DU ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

Galluogwyr a rhwystrau

Clywodd y Panel bryder gan gymdeithasau tai ac awdurdodau lleol ynglŷn â'r angen i ddiogelu statws cymdeithasau tai fel Corfforaethau Anariannol Preifat. Y pryder oedd y gallai newidiadau i ddeddfwriaeth yn ymwneud â pherchnogaeth a rheolaeth asedau cymdeithasau tai o bosibl achosi i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ailddosbarthu cymdeithasau tai yn Gorfforaethau Anariannol Cyhoeddus (neu gyrff sector cyhoeddus). Mae cymdeithasau tai yn bryderus y byddai ailddosbarthiad o'r fath yn arwain at oblygiadau sylweddol o ran y ffordd y maent yn gweithredu ac o ran sicrhau cyllid i ddatblygu eiddo.

Er bod aelodau'r Panel yn nodi bod deddfwriaeth debyg i'r hyn a gynigir gan y Panel yn bodoli yn yr Alban, lle mae cymdeithasau tai yn dal i gael eu dosbarthu fel darparwyr preifat, mae'r Panel yn ymwybodol bod ailddosbarthu yn fater cymhleth. O ganlyniad, dymuna'r Panel bwysleisio, er mwyn sicrhau newid deddfwriaethol, bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau na fydd ailddosbarthiad o'r natur hwn yn digwydd. Mae hyn yn hollbwysig.

O ran Cofrestrau Tai Cyffredin, bydd angen ystyried y gwariant cychwynnol ar adnoddau ychwanegol, a bydd angen amser i sefydlu'r cofrestrau hyn yn yr ardaloedd nad ydynt yn gweithio fel hyn ar hyn o bryd. Er hyn, mae'r Panel yn credu y bydd y gwariant cychwynnol hwn yn economaidd yn y tymor hir.

Bydd argymhellion y Panel ar sicrhau cydweithrediad y sector cyhoeddus ehangach yng nghyswllt digartrefedd a dyletswydd i gynorthwyo pobl i gadw llety yn helpu i leddfu pryderon ymhlith cymdeithasau tai ynglŷn ag anghenion cymorth dwysach ceiswyr digartref.

Fel yr amlinellwyd yn gynharach (gweler tudalen 32) mae'r Panel yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn ddiweddar, sy'n ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ffordd wahanol i'r dull a awgrymir gan y Panel, ac sydd mewn gwirionedd yn wahanol i'r cyfeiriad teithio cyffredinol yng Nghymru. Mae cynllun Llywodraeth y DU yn nodi y dylai'r rhai sy'n cyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol gael eu rhoi yng nghefn y ciw ar gyfer tai cymdeithasol.⁸³ Yn y cyfamser, fel yr amlinellwyd uchod, mae'r

Panel yn bryderus y gall labeli ymddygiad gwrthgymdeithasol aros gyda phobl am amser maith ar ôl digwyddiad ac achosi rhwystrau sylweddol i rywun sy'n ceisio cael lle i fyw yn y dyfodol, hyd yn oed os nad oes risg bellach y bydd y person hwnnw'n ymddwyn yn anghymdeithasol. Mae'r Panel hefyd yn cydnabod bod mwy o risg, o bosibl, y bydd cyflawnwyr troseddau cam-drin domestig yn dychwelyd at y goroeswr os na ellir dod o hyd i lety iddynt.

Er bod rhai o'r asiantaethau y mae canllawiau newydd y DU yn gymwys iddynt yn dod dan bwerau sydd wedi'u datganoli (e.e. cymdeithasau tai), mae'r canllawiau hefyd yn gymwys i asiantaethau nad ydynt wedi'u datganoli, fel yr heddlu, timau troseddwy'r ifanc a gwasanaethau prawf. O ganlyniad, bydd yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn darparu neges glir wedi ei hystyried yn ofalus ynglŷn â'r dull gwahanol o ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a dyraniadau yng Nghymru.

O ystyried cymhlethdod y systemau dyrannu a chanfyddiadau'r ymchwil a gomisiynwyd i gynorthwyo trafodaethau'r Panel ynglŷn â dyraniadau, mae'r Panel hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i wneud rhagor o ymchwil er mwyn hybu gwelliant parhaus yn y rôl y gall dyrannu tai cymdeithasol ei chwarae er mwyn cynorthwyo aelwydydd digartref. Bydd datblygu mecanweithiau manylach a mwy cyson ar gyfer coladu data ar dai cymdeithasol hefyd yn elfen hollbwysig o'r daith hon i sicrhau gwelliant parhaus (gweler tudalennau 92–94 am ragor o fanylion.)

8. Cadw llety

Beth yw'r problem?

Fel rhan o ffocws y Panel ar atal digartrefedd a sicrhau nad yw digartrefedd yn cael ei ailadrodd, roedd aelodau'r Panel yn awyddus i drafod sut y gellid cynorthwyo pobl i gadw eu llety.

Ar hyn o bryd nid oes dull cenedlaethol o fesur digartrefedd sy'n cael ei ailadrodd yng Nghymru, ond mae dadansoddiad o ddata gan YDG Cymru yn rhoi syniad defnyddiol o faint posibl y broblem hon. Yn ei ddadansoddiad o ddata gan dîm tai awdurdod lleol Abertawe, roedd tua 24% o'r ceisiadau digartrefedd rhwng 2013 a 2015 yn geisiadau gan bobl a oedd wedi gwneud cais digartrefedd o'r blaen.⁸⁴

Pwysleisiwyd yr angen i chwilio am ffyrdd o gynorthwyo tenantiaid i gadw llety hefyd wrth i randdeiliaid rannu achosion â'r Panel lle'r oedd pobl yn cael eu hailgartrefu ond yn canfod eu hunain yn ddigartref eto gan nad oedd eu hanghenion cymorth sylfaenol wedi cael eu diwallu.

Yn ychwanegol at hyn, dangosodd ymchwil a wnaethpwyd er mwyn darparu gwybodaeth i'r Panel ynglŷn â dyraniadau tai cymdeithasol yng Nghymru fod rhai o'r cymdeithasau tai a oedd yn bartneriaid yn gyndyn o gynyddu dyraniadau i aelwydydd digartref heb fwy o hyder y byddai unrhyw anghenion cymorth yn cael eu diwallu, gan ofni na ellid rheoli'r pwysau heb gymorth o'r fath.⁸⁵

Cyfeiriodd llawer o arbenigwyr drwy brofiad hefyd at bwysigrwydd cymorth parhaus ar ôl symud i lety sefydlog, er mwyn cadw tenantiaeth ac osgoi sefyllfa lle mae digartrefedd yn cael ei ailadrodd. Crynhowyd yr angen hwn gan un o'r cyfranogwyr a ddywedodd:

“Llety parhaol yw'r dechrau nid y diwedd.”

Gallai pobl fod yn cael anhawster i gadw llety am resymau amrywiol ac mae tystiolaeth y gall cadw llety fod yn anodd iawn i rai grwpiau.

Er nad oes llawer o ddata ynglŷn â'r rhesymau dros droi allan yng Nghymru, mae StatsCymru yn cofnodi yn 2018/19, bod 900 o denantiaid tai cymdeithasol a 741 o denantiaid sector preifat yn wynebu risg o ddigartrefedd o ganlyniad i ôl-ddyledion rhent.⁸⁶ Yn y cyfamser, datgelodd ymchwil Llywodraeth Cymru ar droi allan o dai

84 Thomas, I. a Mackie, P. (2020) *Measuring repeat homelessness*. YDG Cymru.

85 Woolley, B. (2023) *Allocations: Understanding more, in the context of homelessness in Wales*. t. 3. Comisiynwyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru, CLILC a Llywodraeth Cymru.

86 StatsCymru (2019) *Aelwydydd a ganfuwyd mewn perygl o fod yn ddigartref yn ystod y flwyddyn. Y prif reswm dros fod mewn perygl o fod yn ddigartref yn ôl math o aelwyd (Adran 66)*. Darllenwyd 24 Awst 2023. <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/Statutory-Homelessness-Prevention-and-Relief/main-reason-for-being-threatened-with-homelessness-by-type-of-household-section-66->

cymdeithasol yn 2019 fod 58% o'r landlordiaid yn gweld problemau iechyd meddwl fel y prif reswm y tu ôl i droi allan.⁸⁷

Yn ystod ein sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid, nodwyd y gall gweithredoedd unigolyn sy'n deillio o anghenion iechyd meddwl heb eu cefnogi neu niwrowahaniaeth gael eu camddehongli fel ymddygiad annerbyniol neu wrthgymdeithasol, a all gael effaith sylweddol ar allu unigolyn i gael neu gadw tenantiaeth.

Canfu adroddiadau ymchwil gan Dileu Digartrefedd Ieuencid Cymru a Shelter Cymru hefyd y gall cadw llety fod yn anodd iawn i bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal; gall y newid sydyn o ofal neu lety â chymorth i fyw'n annibynnol fod yn anodd heb ddigon o gefnogaeth.^{88, 89}

A oes angen newid cyfreithiol?

Mae'r Panel yn credu y bydd cyflwyno dyletswydd gyfreithiol i gynnig cymorth i helpu aelwydydd sy'n cael eu cynorthwyo dan ddyletswyddau digartrefedd i gadw llety yn helpu i sicrhau nad yw digartrefedd yn cael ei ailadrodd.

Bydd yn bwysig hefyd gwneud newidiadau i ganllawiau statudol cysylltiedig er mwyn sicrhau bod y cymorth hwn yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn ystyriol o drawma, ac egluro'n glir pa gymorth y gallai'r ddyletswydd hon ei gynnwys.

Roedd y Panel yn glir hefyd y dylai'r ddyletswydd gefnogi hon fod yn gymwys i swyddogaethau ehangach awdurdod lleol, ac nid i'r gwasanaethau tai yn unig, yn sgil natur amrywiol o bosibl y cymorth sydd ei angen.

Argymhellion y Panel

78. **Dylai Llywodraeth Cymru fewnosod dyletswydd newydd yn Neddf Tai (Cymru) 2014 i awdurdod tai lleol gynorthwyo ceisydd i gadw llety: lle mae'r ceisydd yn meddiannu llety sydd wedi'i sicrhau dan swyddogaeth yn Neddf Tai (Cymru) 2014, lle mae'r ceisydd wedi'i gynorthwyo i sicrhau llety (a allai olygu ei lety presennol), neu lle mae llety wedi cael**

ei gynnig i'r ceisydd ac wedi cael ei dderbyn ganddo. Dylai'r ddyletswydd hon fod fel a ganlyn: “Os yw ceisydd wedi cael ei asesu fel un sydd angen cymorth er mwyn cadw llety, mae gan yr awdurdod tai lleol ddyletswydd, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol angenrheidiol, gan ystyried anghenion y ceisydd ac adnoddau'r awdurdod tai lleol:

- i ddarparu'r cyfryw gymorth sy'n dod o fewn ei swyddogaethau i gynorthwyo'r ceisydd i gadw'r llety; a
- i ofyn i awdurdodau cyhoeddus eraill ddarparu cymorth i gynorthwyo'r ceisydd i gadw'r llety.”

Sylwer: Fel yr amlinellwyd ar dudalen 63, mae'r Panel yn argymhell (gweler argymhelliaid 97) y dylai adrannau eraill yn yr awdurdod lleol ac awdurdodau cyhoeddus eraill fod yn ddarostyngedig i ddyletswydd i gydweithredu os bydd yr awdurdod tai lleol yn gofyn am gydweithrediad er mwyn darparu'r cymorth.

79. **Dylai'r ddyletswydd (a amlinellwyd uchod yn argymhelliaid 78) ar awdurdod tai lleol i ddarparu cymorth i geisydd (a/neu aelodau o'i aelwyd) er mwyn i'r ceisydd allu cadw llety barhau nes bydd yr awdurdod tai lleol yn asesu nad oes ar y ceisydd (neu'r aelod o'i aelwyd) angen y cymorth hwnnw mwyach. Wrth wneud yr asesiad hwn, dylai'r awdurdod tai lleol roi sylw dyladwy i farn y landlord (os nad yr awdurdod lleol ei hun yw hwn.) Mae'r ddyletswydd felly'n parhau hyd yn oed ar ôl i unrhyw ddyletswyddau digartrefedd eraill sy'n ddyledus dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ddod i ben.**

Bydd yn ofynnol i'r awdurdod lleol adolygu, yn rheolaidd, a oes ar y ceisydd (neu'r aelod perthnasol o aelwyd y ceisydd) angen cymorth o hyd er mwyn cadw llety. Dylai Llywodraeth Cymru geisio ymgynghori ymhellach er mwyn penderfynu ynglŷn â'r cyfnodau rheolaidd hyn.

87 Llywodraeth Cymru (2019) *Deall achosion o droi allan cymdeithasol yng Nghymru*.

88 Bridgeman, J. a Russell, H. (2020) *Don't let me fall through the cracks: Homelessness amongst Care-Experienced Young People in Wales*. Dileu Digartrefedd Ieuencid Cymru.

89 Shelter Cymru (2019) *End Youth Evictions: Stopping The Cycle Of Youth Homelessness*.

Fodd bynnag, yn unol ag argymhelliad 87, gallai'r ddyletswydd hon ddod i ben pe bai'r unigolyn yn bodloni amodau "gwrthod cydweithredu a hynny'n fwriadol ac yn afresymol."

80. Dylai canllawiau statudol gynnwys enghreifftiau o'r math o gymorth y gellid ei ddarparu dan y ddyletswydd hon. Er enghraifft, gallai cymorth gynnwys cynorthwyo i gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl, darparu cyfryngu, cymorth i ddeall materion ariannol, cymorth i wneud cais am fudd-daliadau lles ac i'w cadw, cymorth i ddodrefnu llety, gwneud llety yn addas i fyw ynddo, cymorth i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol ymddygiadau sy'n cael eu hystyried yn wrthgymdeithasol a chynnal a chadw'r llety. Dylai canllawiau hefyd ddarparu enghreifftiau yn dangos pryd y gellid ystyried bod y ddyletswydd yn dod i ben mewn amgylchiadau amrywiol.

Galluogwyr a rhwystrau

O ystyried y cymorth amrywiol y gallai fod ei angen er mwyn cadw llety, mae'n bwysig nad yw'r cyfrifoldeb am gymorth yng ngofal timau opsiynau tai yn unig, ond yn hytrach ei fod yn dod yn rhan o ddull gweithredu cydgysylltiedig ehangach gwasanaethau cyhoeddus o ddod â digartrefedd i ben. Oherwydd hyn, mae'n bwysig cydnabod y cysylltiad rhwng yr argymhellion yn yr adran hon, sy'n ymwneud yn benodol â chymorth cysylltiedig â thai, a'r argymhellion isod ar ddyletswyddau cyhoeddus ehangach ac ymdrin ag anghenion cymorth cymhleth (gweler tudalennau 61–67). Rhaid darparu hyfforddiant priodol i bob gwasanaeth, gan gynnwys darparwyr tai, a fydd yn ymwneud â helpu i gadw llety.

Mae'r Panel hefyd yn ymwybodol o'r rhwystrau ariannol y mae rhanddeiliaid trydydd sector ac awdurdodau lleol wedi bod yn sôn amdanynt wrth iddynt geisio cwrdd â'r galw cynyddol am gymorth er bod cyllideb y Grant Cymorth Tai wedi aros yr un fath a chwyddiant wedi codi costau darparu gwasanaeth.⁹⁰

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar ynglŷn â Fframwaith Canlyniadau newydd i fesur

canlyniadau allweddol mewn gwasanaethau digartrefedd ar hyd a lled y wlad. Y bwriad yw cynnwys mesur ar achosion o ddiartrefedd sy'n cael eu hailadrodd.⁹¹ Gallai hyn fod yn fuddiol hefyd er mwyn mesur llwyddiant y ddyletswydd i gynnig cymorth i gadw llety.

9. Y Cyflenwad Tai

Beth yw'r broblem?

Yn ystod proses y Panel o ymgysylltu â rhanddeiliaid, roedd y cyflenwad tai, neu yn hytrach, y diffyg cyflenwad, yn thema gyson a pharhaus. Mae'r diffyg cyflenwad hwn yn achosi oedi a phwysau yn y system digartrefedd yn gyffredinol, ond mae hefyd yn arafu cynnydd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddull ailgartrefu cyflym.

Mae dull ailgartrefu cyflym o ddod â digartrefedd i ben yn ceisio symud pobl i'w cartrefi eu hunain cyn gynted ag y bo modd a darparu'r cymorth y mae arnynt ei angen i wneud iddo weithio.

Mae'r math hwn o ddull gweithredu yn ceisio atal digartrefedd rhag digwydd yn y lle cyntaf. Mewn sefyllfaoedd lle mae digartrefedd yn digwydd, mae modelau sy'n cael eu harwain gan dai yn rhagweld bod unigolyn yn treulio lleiafswm o amser mewn llety dros dro ac ychydig iawn o symudiadau cyn mynd i gartref sefydlog. Mae cael y math priodol o lety, sydd o ansawdd da, yn fforddiadwy ac yn hygyrch i bobl sy'n wynebu risg o ddiartrefedd ac yn profi digartrefedd, yn hanfodol er mwyn i system ailgartrefu cyflym weithio.

Er hyn, clywodd y Panel gan lawer o randdeiliaid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fod problem benodol â'r cyflenwad o rai mathau o dai sydd eu hangen er mwyn diwallu anghenion tai pobl sy'n profi digartrefedd ac sy'n wynebu risg o ddiartrefedd. Er enghraifft, mae prinder difrifol o eiddo un ystafell wely, ac mae hynny'n golygu ei bod yn anodd dod o hyd i eiddo ar gyfer pobl sengl sy'n ddiartref, yn enwedig gan fod y cymhorthdal ystafell sbâr wedi dod i ben. Problem arall yw diffyg eiddo addas i deuluoedd mwy.

Mae'r diffyg tai o safon sy'n wirioneddol fforddiadwy i bobl ar incwm isel yn achosi ac

yn ymestyn digartrefedd. Mae llawer o bobl yn gorfod aros mewn llety dros dro am fisoedd, ac mewn rhai achosion, am flynyddoedd, yn bennaf oherwydd prinder opsiynau addas i symud i gartrefi parhaol. Mae hyn yn broblem yn y sector tai cymdeithasol a phreifat.

Ers dechrau casglu data misol ym mis Mawrth 2020, mae mwy o bobl wedi cael eu lleoli mewn llety dros dro nag sydd wedi symud ymlaen i lety sefydlog bob mis. Ym mis Mai 2023, cafodd 1,680 o unigolion eu symud i lety dros dro, ond dim ond 660 o bobl (llai na hanner y swm hwn) gafodd eu symud i lety hirdymor addas yn ystod y mis.⁹²

Ar draws ein gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae llawer o weithwyr rheng flaen mewn timau cefnogi tai wedi siarad yn agored am yr anawsterau dyddiol y maent yn eu hwynebu gan nad oes digon o dai i fodloni'r galw. Gwnaeth llawer o gynrychiolwyr awdurdodau lleol sylwadau tebyg i'r isod, a amlinellwyd gan weithiwr awdurdod lleol ym Monitor Digartrefedd 2021 ar gyfer Cymru:

"Rydym yn croesawu'r syniad a'r bwriad [o Ailgartrefu Cyflym]. Mae pawb yn gwybod pa mor drawmatig a chythryblus y gall cyfnodau hir mewn llety dros dro fod, ac mae pawb am weld pobl yn cael cartref sefydlog yn gyflym, a chael gwared ar gynifer o rwystrau ag y gallwn i wireddu hynny. Er hyn, mae gennym bryderon ynghylch y cyflenwad o dai er mwyn gwneud i hyn ddigwydd. Nid yw'r model llety dros dro presennol yn bodoli oherwydd ein bod yn credu ei fod yn wych ac yn fforddiadwy, rydym yn gwybod ei fod yn ddrud ac y gallai fod yn drawmatig. Yn hytrach, mae'n gynnrych y marchnadoedd lleol presennol a'r cyflenwad cyfyngedig o dai cymdeithasol a rhentu preifat fforddiadwy. Mae angen rhoi sylw i hyn/ buddsoddi ynddo er mwyn i ni gyflawni'r nod hwn."⁹³

Pwysleisiodd cymdeithasau tai a oedd yn cymryd rhan yn y gwaith ymchwil a gomisiynwyd yn ddiweddar ar ddyraniadau tai cymdeithasol hefyd fod y galw am dai yn llawer mwy na'r cyflenwad.⁹⁴

Yn ychwanegol at hyn, mae'r adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Fwrdd Cynghori Cenedlaethol Dod â Digartrefedd i Ben yn pwysleisio bod angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod cynllunio ar gyfer tai yn cydweddu'n effeithiol â Chynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym (RRTP) a mynd i'r afael â bylchau a nodwyd yn y ddarpariaeth dai sydd ei hangen er mwyn diwallu anghenion pobl sy'n profi digartrefedd ac yn wynebu risg o ddiartrefedd.⁹⁵

Yn yr un modd, clywodd y Panel gan randdeiliaid yn cynrychioli'r cymunedau teithio bod prinder safleoedd teithio, a bod angen i Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTTA) gael eu cysylltu'n fwy ystyriol â Chynlluniau Datblygu Lleol yn ymarferol.

Ai newid cyfreithiol yw'r ateb?

Mae'r Panel yn cydnabod bod y deddfwriaeth bresennol yn disgwyl i awdurdodau lleol lunio strategaethau amrywiol, gan gynnwys y Strategaeth Digartrefedd, ac ar hyn o bryd, Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym. Mae canllawiau'n nodi bod angen sicrhau "cydgysylltiad rhwng y cylchoedd cynllunio" wrth ddefnyddio'r strategaethau hyn.⁹⁶ Fodd bynnag, mae'r Panel yn deall nad yw'r strategaethau hyn yn effeithiol ac yn llwyddo i gynyddu'r cyflenwad o dai yn ymarferol. O ganlyniad, nid yw'r Panel yn gofyn am newid deddfwriaethol. Yn hytrach, mae'n ategu galwadau o bob rhan o'r sector ar Lywodraeth Cymru i geisio mynd i'r afael â'r broblem hon ar y cyd â diwygiadau deddfwriaethol.

Argymhellion y Panel

Mae'r argymhellion isod yn ceisio hwyluso gwell cynllunio strategol a chysylltiadau ar draws strategaethau tai a llety allweddol er mwyn cyfrannu tuag at waith i fynd i'r afael ag argyfwng y cyflenwad tai.

90 Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Dod â Digartrefedd i Ben (Awst 2023) Adroddiad Blynyddol i Weinidogion Cymru 2022/23. t. 9.

91 Llywodraeth Cymru (2023) Ymgynghoriad: Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddiartrefedd. t. 11.

92 Llywodraeth Cymru (2023) Darpariaeth Llety digartrefedd a chysgu allan: Mai 2023. Darllenwyd 24 Awst 2023. <https://www.llyw.cymru/darpariaeth-llety-digartrefedd-chysgu-allan-mai-2023>

93 Fitzpatrick, S., Bramley, G., Pawson, H., Young, G., Watts, B. a Wood, J. (2021) *Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2021*. t. 43.

94 Wooley, B. (2023) *Allocations: understanding more, in the context of homelessness in Wales*. Comisiynwyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

95 Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Dod â Digartrefedd i Ben (2023) Adroddiad Blynyddol 2022/23.

96 Llywodraeth Cymru (2022) *Cynnal Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol (LHMA): Arweiniad*.

81. Dylid diwygio Adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i nodi'n benodol ei bod yn ofynnol i awdurdodau tai lleol ystyried eu hadolygiad a'u strategaeth digartrefedd (Adrannau 51 a 52 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014) a lefelau digartrefedd yn eu hardal, a'r lefelau tebygol yn y dyfodol, wrth lunio eu strategaeth dai ac Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA).
82. Dylai Llywodraeth Cymru geisio mynd i'r afael â'r problemau sylfaenol ac allweddol sy'n gysylltiedig â'r cyflenwad tai. Mae'r Panel yn nodi bod canllawiau statudol eisoes yn nodi y dylai strategaethau amrywiol, megis Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol, ystyried digartrefedd a chysylltu â strategaethau eraill megis Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym ac Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr, ond oherwydd maint y broblem â chyflenwad llety Cymru, mae angen gwaith i sicrhau bod y cysylltiadau hyn yn gweithio'n effeithiol a bod gwaith cynllunio a datblygu wedi'i seilïo'n briodol ar ddata manwl am fylchau yn y cyflenwad tai.

Galluogwyr a rhwystrau

Mae'r Panel yn ymwybodol bod y rhwystrau sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael ag argyfwng y cyflenwad tai yn eang ac yn gymhleth. Er enghraifft; mae rhwystrau sy'n atal adeiladu tai, er enghraifft targedau lefel ffosffad a phrinder deunyddiau adeiladu, a rhewi Lwfans Tai Lleol, ymhlith y ffactorau niferus sydd y tu allan i gylich gwaith y Panel. Rhaid i waith i fynd i'r afael â'r meysydd hyn barhau ochr yn ochr â diwygio deddfwriaethol i'n galluogi i symud tuag at ddod â digartrefedd i ben.

Yn ogystal, mae'r Panel yn ymwybodol o'r Adroddiad Blynyddol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Fwrdd Cynghori Cenedlaethol Dod â Digartrefedd i Ben, sy'n dangos parodrwydd y Bwrdd i ganolbwyntio ar sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod strategaethau cynllunio a data ar strategaethau tai wedi'u cysoni'n briodol i ddiwallu anghenion tai pobl sy'n profi digartrefedd ac sy'n wynebu risg o ddiartrefedd. Bydd yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn gofyn am gyngor gan y Bwrdd ynglŷn â hyn.

Yn ychwanegol at hyn, mae cynrychiolwyr awdurdodau lleol wedi dweud wrth y Panel eu bod yn cael anhawster i gyflawni eu llwyth achosion uchel presennol ac i gyflawni eu hymrwymadau i lunio Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym a Strategaeth Digartrefedd. Mae adroddiad Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Dod â Digartrefedd i Ben hefyd yn pwysleisio bod awdurdodau lleol yn cael eu dal yn ôl wrth gyflwyno eu Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym ac yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru geisio darparu adnoddau a chefnogi awdurdodau lleol i gyflawni mewn cysylltiad â'r cynlluniau hyn, yn ogystal â sicrhau bod perchnogaeth cynlluniau pontio ac ailgartrefu cyflym yn cael ei rannu rhwng adrannau perthnasol.⁹⁷

O ystyried pryderon cynrychiolwyr yr awdurdodau lleol ynglŷn â chapasiti gwasanaeth, efallai hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn hoffi ystyried sut y gall gynorthwyo awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod strategaethau yn ategu ei gilydd ac nad ydynt yn dyblygu cynnwys.

10. Y broses o wneud cais

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae arbenigwyr drwy brofiad a rhanddeiliaid wedi adrodd yn ôl wrth y Panel yn gyson bod prosesau gwneud cais am gymorth digartrefedd yn gallu bod yn ddryslyd, yn anodd i'w defnyddio, ac yn achos rhai pobl, yn brofiad trawmatig. O ganlyniad, roedd trafodaethau'r Panel yn ystyried sut y gellid gwella systemau i geiswyr ac mae llawer o'n hargymhellion yn yr adroddiad hwn wedi'u gwneud â hynny mewn golwg.

Er hyn, roedd y Panel hefyd yn awyddus i edrych yn fanylach ar y broses wneud cais ei hun, yn enwedig o safbwynt **cyfathrebu â cheiswyr**; ymddieithrio tybiedig a'r cymal **methu â chydweithredu**; a **Chynlluniau Tai Personol**.

10.1. Cyfathrebu â cheiswyr

Beth yw'r broblem?

Dywedodd nifer o bobl â phrofiad personol o ddiartrefedd wrth y Panel y gall systemau fod yn anodd i'w defnyddio ac yn ddiffygiol o ran cyfathrebu a thryloywder:

“Mae bod mewn llety dros dro yn teimlo fel petaech yn cael eich anwybyddu am gyfnod hir. Yna yn sydyn iawn rydych yn cael gwybod bod gennych dŷ a rhaid i chi ddod o hyd i'r arian i symud ar fyr rybudd.”

“Maen nhw'n dweud, mi wnawn ni gysylltu pan fydd gennym ni dŷ i chi. Mae'r cyfathrebu yn wael iawn; rwy'n poeni bod fy nogfennau wedi mynd i'r swyddfa anghywir, oherwydd dydw i ddim wedi clywed dim gan y Cyngor na'r opsiynau tai.”⁹⁸

Yn ogystal â sylwadau fel yr uchod, a oedd yn nodi angen amlwg i wella prydlondeb ac amllder cyfathrebu rhwng cheiswyr a thimau cymorth awdurdodau lleol, clywodd y Panel hefyd adborth yn cyfeirio at yr angen i wella hygyrchedd y broses. Roedd hyn yn amlgu'r angen i ddefnyddio iaith glir, yn ogystal â sicrhau bod anghenion hygyrchedd cheiswyr yn cael eu diwallu. Dywedodd arbenigwyr drwy brofiad wrthym:

“Mae rhwystr ieithyddol yn broblem fawr; alla i ddim mynegi fy hun fel y byddwn i'n hoffi gwneud. Weithiau rwy'n meddwl ei fod yn esgus iddyn nhw beidio â gallu siarad â mi.”⁹⁹

“Y broblem fwyaf yn hyn i gyd yw bod pobl fyddar yn methu â chysylltu ag unrhyw rai o'r gwasanaethau os nad ydyn nhw'n mynd i'r swyddfa ei hun ac yn cyfarfod pobl wyneb yn wyneb. Does dim ffyrdd eraill o gyfathrebu i bobl fyddar.”

“Pan fyddwch chi'n cael llythyr ynglŷn â llwybr at dai – mae'n hir iawn ac yn gymhleth. Mae angen cael llwybr syml sy'n gliriach i bobl.”

Cododd cyfranogwyr yn sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid y Panel bryder hefyd y gallai pobl niwrowahanol fod angen mwy o amser i brosesu gwybodaeth neu i gael gwybodaeth mewn fformat penodol. Dywedodd cynrychiolwyr wrth y Panel y gallai cheiswyr niwrowahanol, os nad ydynt yn cael y cymorth hwn, gamdeall ac ymddieithrio'n anfwriadol oddi wrth y broses wneud cais.

Ategwyd pryderon ynglŷn â chyfathrebu hefyd gan brif ganfyddiadau ymchwiliad yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn ddiweddar i wasanaethau digartrefedd, a oedd yn cyfeirio at “gyfathrebu aneglur ac annigonol nad oedd cleientiaid bob amser yn ei ddeall.”¹⁰⁰

Yn ychwanegol at hyn, clywodd y Panel lawer o dystiolaeth gan rhanddeiliaid ac arbenigwyr drwy brofiad ynglŷn â'r angen i wasanaethau weithredu mewn ffordd sy'n fwy ystyriol o drawma. Mae colli cartref yn brofiad trawmatig ynddo'i hun, ond mae llawer o geiswyr hefyd wedi bod drwy ddigwyddiadau trawmatig sydd wedi eu harwain i'r pwynt hwn, megis ffoi rhag camdriniaeth, goresgyn anawsterau â defnyddio sylweddau, perthnasoedd teuluol yn chwalu. Lle nad yw gwasanaethau wedi eu paratoi i weithredu mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma, gall hyn gael effaith sylweddol ar les ceisydd yn ogystal â'i hyder a'i allu i ymgysylltu â gwasanaeth. Er enghraifft, dywedodd arbenigwyr drwy brofiad wrthym:

“Dyw systemau ddim yn sylweddoli eu bod nhw'n delio gyda phobl sydd wedi dioddef trawma dwfn.”

“Peidio â gwneud iddyn nhw orfod egluro ac ail-fyw'r trawma o hyd. Dylid cael tim cyfeirio ar gyfer rhywun sydd â gweithwyr cymorth a all gysylltu â'r adran dai a'r Cyngor i helpu heb wneud i'r unigolyn orfod ei ail-fyw o hyd.”

97 Corff Cynghori Cenedlaethol Dod â Digartrefedd i Ben (2023) Adroddiad Blynyddol i Weinidogion Cymru. tt. 6-8.

98 Tai Pawb (2023) Profadau pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig yng Nghymru o ddiartrefedd. Comisiynydd gan Lywodraeth Cymru.

99 Tai Pawb (2023) Profadau pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig yng Nghymru o ddiartrefedd. Comisiynydd gan Lywodraeth Cymru.

100 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (2021) Adolygiad Digartrefedd: drws agored i newid cadarnhaol.

“Cefais rybudd Adran(?) wedyn, ond do’n i ddim yn deall beth oedd o. Rydych chi’n teimlo eich bod ar y dibyn. Pan fyddwch chi mewn perthynas lle’r ydych yn cael eich cam-drin rydych chi’n teimlo y gallwch chi gael eich troi allan unrhyw bryd – ro’n i angen sefydlogrwydd. Wnaeth neb egluro wrtha i beth oedd yr adran yma, ac roedd hynny’n gwneud i mi deimlo panig. Roedd yn bendant yn ychwanegu at y pwysau a’r panig. Mae diffyg gwybodaeth sy’n ystyriol o drawma a ffordd o ymdrin â phobl.”

Mae’n hanfodol ein bod yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau sydd wedi’u cynllunio er mwyn cefnogi ceiswyr digartref yn gallu gweithredu mewn ffordd sy’n ystyriol o drawma ac sy’n ystyried y sefyllfaoedd y mae pobl yn eu profi.

A oes angen newid cyfreithiol?

Mae’r Panel yn cydnabod y dylai gwasanaethau tai, dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, fod yn cyfathrebu mewn ffordd hygyrch yn barod. Yn ymarferol, fodd bynnag, yn aml iawn nid yw hyn yn digwydd.

Dyma pam rydym yn argymhell cyfuniad o adnoddau newydd, hyfforddiant a chanllawiau statudol i gynorthwyo gwasanaethau tai i fod yn ystyriol o drawma ac i wneud eu cyfathrebu yn fwy hygyrch.

Argymhellion y Panel

Mae’r Panel yn awyddus i sicrhau bod gwasanaethau yn cynnwys yr anghenion cyfathrebu amrywiol sydd gan geiswyr digartref. Mae’n hanfodol hefyd nad yw ceiswyr yn cael eu gadael yn y niwl ac yn poeni ynglŷn â statws eu cais am gymorth tai. Yn wir, dywedodd arbenigwyr drwy brofiad wrth y Panel y byddai cael eu hysbysu nad oedd unrhyw newid i’w hamgylchiadau yn rhoi mwy o sicrwydd iddynt na chlywed dim byd o gwbl. Mae’r argymhellion isod yn ceisio sicrhau sianeli cyfathrebu gwell a hygyrch rhwng ceiswyr a gwasanaethau.

83. Dylai canllawiau statudol amlinellu pwysigrwydd tryloywder ynglŷn â pha mor aml, ac ar ba adegau perthnasol, y dylai’r awdurdod tai lleol gysylltu’n rhagweithiol â’r ceisydd a chyfathrebu statws y cais. Gallai’r cyfnodau hyn amrywio o’r naill unigolyn i’r llall a dylid cytuno arnynt gydag unigolion yn gynnar yn eu cais.

Sylwer bod yr argymhelliad hwn hefyd yn cael ei atgyfnerthu gan argymhellion dan “Gynlluniau Tai Personol” sy’n cynnig y dylai amllder cyfathrebu rhwng y tîm cymorth tai a’r ceisydd gael ei drafod a’i gytuno gyda’r ceisydd a’i gofnodi yn ei gynllun.

84. Dylai canllawiau statudol nodi bod y broses o wneud cais yn hygyrch. Dylid cynnig gwybodaeth i geiswyr mewn iaith glir ac mewn fformatau amrywiol (er enghraifft, i bobl nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf neu i bobl niwrowahanol).
85. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu templed o lythyrau mewn iaith glir i gynorthwyo awdurdodau tai lleol. Gellid llunio’r rhain ar y cyd ag arbenigwyr drwy brofiad.
86. Dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu hyfforddiant rheolaidd i staff gwasanaethau tai ar:
- dulliau gweithredu sy’n ystyriol o drawma;
 - cydraddoldeb a hygyrchedd.
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall gefnogi’r broses o gynhyrchu hyfforddiant o’r fath ar y cyd â phobl sydd â phrofiad personol.

Galluogwyr a rhwystrau

Bydd cyflawni’r argymhellion uchod yn dibynnu ar allu Llywodraeth Cymru i gefnogi a darparu adnoddau i alluogi awdurdodau lleol sy’n bartneriaid i ddatblygu hyfforddiant allweddol a thempledi ar gyfer hysbysadau hawdd eu darllen. Bydd yn bwysig bod yr offer hyn yn cael eu llunio ar y cyd ag arbenigwyr drwy brofiad.

10.2. Methu â chydweithredu

Beth yw’r broblem?

Un o’r prif bryderon ynglŷn â’r broses o wneud cais am gymorth digartrefedd yw’r cymal “methu â chydweithredu” dan Adran 79(5) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae’r cymal hwn yn galluogi’r awdurdod lleol i ddod â dyletswyddau perthnasol i geisydd i ben os credir bod y ceisydd yn ‘methu â chydweithredu’ a hynny mewn modd ‘afresymol’. Yn ychwanegu at hyn, os bydd dyletswydd i atal neu liniaru digartrefedd yn cael ei dwyn i ben o ganlyniad i ‘fethu â chydweithredu’, mae’n bosibl na fydd ceisydd (ag angen blaenoriaethol) yn gallu

mynd ymlaen i gam y brif ddyletswydd i ddarparu llety.

Mae ystadegau digartrefedd blynyddol Llywodraeth Cymru yn cynnwys ystadegyn “diffyg cydweithrediad” i ddangos nifer y bobl y mae pob dyletswydd digartrefedd yn ddyledus iddynt, ond a aseswyd fel rhai sydd wedi methu â chydweithredu, ac y daethpwyd â dyletswydd berthnasol i ben o ganlyniad i hynny. Yn 2022–23:

- Roedd y ddyletswydd atal (Adran 66) yn ddyledus i 9,246 o bobl, ac roedd 117 (1.3%) ohonynt wedi methu â chydweithredu;
- Roedd y ddyletswydd i helpu i sicrhau llety (Adran 73) yn ddyledus i 12,537 o bobl, ac roedd 381 (3.04%) ohonynt wedi methu â chydweithredu;
- Roedd y brif ddyletswydd i ddarparu llety (Adran 75) yn ddyledus i 5,094 o bobl, ac roedd 138 (2.7%) ohonynt wedi methu â chydweithredu.¹⁰¹

Clywodd y Panel dystiolaeth sylweddol fod y cymal ‘methu â chydweithredu’ yn aneffeithiol, ac y gellir ei ddehongli mewn ffyrdd amrywiol. Gellir camddehongli methiant i gydweithredu oherwydd anghenion cymorth heb eu diwallu, neu gamddealltwriaeth o’r system fel gweithred fwriadol i beidio â chydweithredu. Mae hon yn risg benodol o ystyried pa mor anhygyrch yw’r broses o wneud cais (a drafodwyd yn yr adran flaenorol).

Lle bo ‘methu â chydweithredu’ wedi digwydd yn bennaf o ganlyniad i anghenion cymorth heb eu diwallu, mae ceisydd sy’n agored i niwed yn barod yn cael ei adael hyd yn oed yn fwy agored i niwed. Yn wir, mae ymchwil yn awgrymu y gall awdurdod lleol sy’n dosbarthu ceisydd fel un sy’n ‘methu â chydweithredu’ achosi i “bobl syrthio’r tu allan i’r system,”¹⁰² heb roi rhesymau clir dros y methiant hwn.

Teimlai rhai aelodau o’r Panel fod y cymal yn awgrymu bod pobl ddiartref yn cael eu “disgyblu” ac y gallai bodolaeth y cymal roi pwysau ar geiswyr i gydweithredu mewn ffordd benodol.

Er bod rhai, oherwydd y rhesymau hyn, yn galw am ddileu’r cymal methu â chydweithredu, roedd eraill yn teimlo’n gryf bod angen i’r system gadw mesurau diogelu ar gyfer digwyddiadau anghyffredin lle’r oedd ceiswyr yn rhoi staff mewn sefyllfaoedd peryglus, neu i sicrhau nad yw ceiswyr sydd wedi symud ymlaen heb roi gwybod i wasanaeth yn dal i gael eu hystyried fel achosion agored.

A oes angen newid cyfreithiol?

Mae angen newid cyfreithiol er mwyn cyfyngu cwmpas y cymal ‘methu â chydweithredu’ a chodi’r trothwy ar gyfer ei gymhwyso i amgylchiadau penodol, er mwyn lliniaru’r canlyniadau llym a all ddilyn ei gymhwyso ar hyn o bryd.

Yn ychwanegu at hyn, mae’r Panel yn credu y dylid cyflwyno gofynion llym a statudol gyda’r cymal newydd hwn i hysbysu ceiswyr cyn tynnu cymorth oddi arnynt, gan roi cyfle i’r ceisydd ailymgysylltu â’r gwasanaeth os yw’n dymuno gwneud hynny.

Argymhellion y Panel

87. Dylid newid y ddarpariaeth bresennol sy’n nodi y gall unrhyw ddyletswydd sy’n ddyledus i geisydd ddod i ben os yw’r awdurdod tai lleol yn fodlon bod y ceisydd yn methu â chydweithredu â’r awdurdod tai lleol wrth ymarfer ei swyddogaethau (Adran 79(5) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014), a hynny yn afresymol, am gymal mwy cyfyng “gwrthod cydweithredu a hynny’n fwriadol ac yn afresymol”, a fydd yn golygu na ellir dod â dyletswydd sy’n ddyledus i geisydd i ben ac eithrio am nifer fach o resymau cyfyngedig sydd wedi’u diffinio’n glir. Drwy awgrymu y dylid defnyddio’r gair “gwrthod” yn lle “methu”, mae’r Panel yn dymuno pwysleisio na ddylid defnyddio’r cymal oni bai fod y ceisydd wedi ymddieithrio’n fwriadol. Roedd yr enghreifftiau a drafodwyd gan y Panel yn cynnwys lle mae’r awdurdod tai lleol yn fodlon bod y ceisydd wedi dangos:

- ymddygiad bygythiol tuag at staff awdurdod tai lleol;

¹⁰¹ StatsCymru. (2019) *Aelwydydd y canfuwyd eu bod dan fygythiad o ddiartrefedd yn ystod y flwyddyn. Y prif reswm dros fod dan fygythiad o ddiartrefedd yn ôl y math o aelwyd (Adran 66)*. Darllenwyd 5 Medi 2023. <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/householdsforwhichassistancehasbeenprovided-by-outcome-householdtype>

¹⁰² Ahmed, A., Rogers, M., Wilding, M., Gibbons, A., Jones, K. a Madoc-Jones, I. (2018) *Gwerthusiad ôl-weithredu o Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014: Adroddiad Terfynol*. tt. 7–11.

- b. dim cyswllt yn gyson â gwasanaethau opsiynau tai, staff perthnasol yr awdurdod lleol neu'r landlord, neu ddarpariaeth cymorth tai berthnasol wedi'i chomisioynu.
88. Dylai deddfwriaeth nodi, pa bryd bynnag y mae awdurdod lleol yn bwriadu defnyddio'r cymal "gwrthod cydweithredu a hynny'n fwriadol ac yn afresymol", bod yn rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig o "fwriad" i'r ceisydd yn gyntaf. Dylai'r hysbysiad hwn:
- Amlinellu'r rhesymau pam y mae'r awdurdod tai lleol yn credu bod y ceisydd wedi gwrthod cydweithredu a hynny'n fwriadol ac yn afresymol;
 - amlinellu canlyniadau unrhyw benderfyniad bod y ddyletswydd sy'n ddyledus iddo wedi dod i ben i'r ceisydd;
 - rhoi cyfle o fewn cyfnod penodedig o amser i'r ceisydd ymateb.
89. Dylai deddfwriaeth nodi na ddylid hysbysu ceisydd ynglŷn â'r penderfyniad ei fod wedi 'gwrthod cydweithredu a hynny'n fwriadol ac yn afresymol' nes bydd y ceisydd wedi ymateb i hysbysiad o 'fwriad', neu bod y cyfnod penodedig o amser wedi dod i ben. Dylai unrhyw hysbysiad ynglŷn â phenderfyniad bod y ceisydd wedi gwrthod cydweithredu a hynny'n fwriadol ac yn afresymol a bod dyletswydd yr awdurdod tai lleol iddo wedi dod i ben:
- gynnwys y rhesymau dros benderfyniad yr awdurdod tai lleol;
 - egluro effaith y penderfyniad; a
 - hysbysu'r ceisydd bod ganddo hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad a pha bryd y dylai'r ceisydd ofyn am yr adolygiad.

Galluogwyr a rhwystrau

Fel y nodir mewn adrannau eraill o'r adroddiad hwn, mae angen gwella dulliau o goladu data er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth newydd yn cael ei gweithredu'n effeithiol. Dylai hyn gynnwys monitro'r defnydd o'r cymal 'gwrthod

cydweithredu a hynny'n fwriadol ac yn afresymol' er mwyn sicrhau mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caiff ei ddefnyddio.

Fel y nodir mewn argymhellion eraill yn yr adroddiad hwn, bydd angen i ganllawiau cysylltiedig chwarae rhan allweddol drwy ddiffinio'n glir y mathau o sefyllfaoedd lle gallai fod yn briodol i gymhwyso'r cymal hwn er mwyn sicrhau nad yw'n cael ei gymhwyso'n anghyson.

Yn ychwanegol at hyn, mae'r Panel yn sicrhau nad yw'r cymal hwn yn fanteisiol i'r rhai a allai fod yn anos i ymgysylltu â hwy o ganlyniad i'r digwyddiadau trawmatig y maent yn eu profi. Oherwydd hyn, mae argymhelliad y Panel ar hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma (gweler tudalen 54) yn alluogwr pwysig i helpu i hwyluso dull mwy effeithiol a sensitif o weithredu'r cymal hwn.

10.3. Cynlluniau Tai Personol

Beth yw'r broblem?

Er nad yw'n un o ofynion Deddf Tai (Cymru) 2014, mae'r Cod Canllawiau yn argymhell y dylid defnyddio Cynlluniau Tai Personol i nodi'r 'camau rhesymol' (fel yr amlinellwyd yn yr adran gynharach ar y ddyletswydd atal) a gymerir gan yr awdurdod lleol, y ceisydd ac unrhyw un arall sy'n gysylltiedig â'r cais digartrefedd. Bwriadwyd i Gynlluniau Tai Personol sicrhau bod ceiswyr yn cael eu cynnwys a'u bod yn ganolog i'r trafodaethau ynglŷn â'u hanghenion tai.

Nododd y gwerthusiad ôl-weithredu o Ddeddf Tai (Cymru) 2014¹⁰³ ymatebion cadarnhaol a negyddol i Gynlluniau Tai Personol.

Dyweddodd y rhai sydd ag agwedd gadarnhaol at Gynlluniau Tai Personol eu bod yn helpu i egluro pa gamau fyddai'n cael eu cymryd ac i sicrhau bod cymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Fodd bynnag, un feirniadaeth oedd nad yw Cynlluniau Tai Personol yn cael eu defnyddio'n gywir, y gallant fod yn gyffredinol, ac yn amheronol, ac yn aml iawn nad ydynt yn ystyried anghenion a galluoedd y ceisydd. Mae'r beirniaid hyn yn awgrymu bod Cynlluniau Tai Personol yn cynyddu'r baich biwrocraidd, ac nad yw hynny o fudd i'r ceisydd.

Yn ôl ymchwiliad yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus i'r system digartrefedd¹⁰⁴ mae ceiswyr yn gallu gweld Cynlluniau Tai Personol yn frawychus, yn ddychrynlyd ac yn achos straen. Mynegwyd pryder hefyd bod Cynlluniau Tai Personol yn cael eu defnyddio'n amhriodol i roi dyletswyddau ar geiswyr. Roedd gweithwyr achos a oedd yn rhoi tystiolaeth i'r ymchwiliad yn cefnogi hyn, ac yn dweud, o'u profiad hwy, bod awdurdodau lleol yn defnyddio methiant ceisydd i gyflawni'r ymrwymadau yn y Cynllun Tai Personol i ddod â'u dyletswydd i ben, ond nid oes cosb i'r awdurdod lleol os yw'n methu â chyflawni ei ymrwymadau ef.¹⁰⁵

Roedd aelodau'r Panel yn awyddus i sicrhau bod ymarfer sy'n ymwneud â Chynlluniau Tai Personol yn newid, fel bod y cynlluniau hyn yn cael eu defnyddio o ddifrif fel dogfennau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n ddefnyddiol i dimau cymorth tai a cheiswyr. Dylid llunio'r cynlluniau hyn mewn partneriaeth â'r ceisydd, gan ystyried ac amlinellu eu hanghenion cymorth a'u dymuniadau er mwyn dod â'u digartrefedd i ben. Dylai cynlluniau o'r fath sydd wedi'u cynhyrchu ar y cyd fod yn ganolog i benderfyniadau a wneir wrth ystyried a yw llety sy'n cael ei gynnig yn addas ai peidio. Dylent roi hyder i geiswyr ac egluro sut y bydd eu hanghenion yn cael eu diwallu, yn hytrach na chael eu defnyddio fel ffordd o ddod â dyletswyddau i ben ar sail 'methu â chydweithredu.' Roedd y Panel hefyd yn awyddus iawn i sicrhau bod y cynlluniau hyn yn ddogfennau byw y gellir eu hadolygu a'u newid gyda'r ceisydd yn unol ag unrhyw newidiadau i'w hamgylchiadau.

A oes angen newid cyfreithiol?

Mae'r Panel yn credu bod angen newid cyfreithiol er mwyn rhoi Cynlluniau Tai Personol ar sylfaen statudol ac amlinellu'n glir y prif benawdau y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynlluniau hyn. Bydd gwneud Cynlluniau Tai Personol yn ofyniad statudol yn helpu i sicrhau bod y cynlluniau hyn yn fwy cadarn ac yn cael eu cymhwyso'n gyson. Bydd hefyd yn sicrhau bod Cynlluniau Tai Personol yn cynnwys y wybodaeth a'r pynciau sydd eu hangen i fod yn offeryn defnyddiol i geiswyr ac i staff gwasanaethau tai.

Yn ychwanegol at hyn, mae rhoi statws statudol i Gynlluniau Tai Personol yn helpu i osod barn ceiswyr wrth graidd penderfyniadau awdurdodau lleol ynglŷn â sut i gynorthwyo unigolyn ar draws ei ddyletswydd atal a'i brif ddyletswydd i ddarparu llety. Mae hefyd yn golygu y gall asesiadau personol o anghenion chwarae rhan fwy canolog mewn adolygiadau a heriau cyfreithiol.

Teimlai'r Panel y dylid defnyddio Cynlluniau Tai Personol i gefnogi ceiswyr ar draws y ddyletswydd atal a'r brif ddyletswydd i ddarparu llety, ond na ddylid defnyddio'r cynlluniau fel mecanwaith i osod cyfrifoldebau ar geiswyr.

Argymhellion y Panel

90. Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol lunio Cynlluniau Tai Personol yn seiliedig ar egwyddorion cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer pob ceisydd y mae'r ddyletswydd atal neu'r brif ddyletswydd i ddarparu llety yn ddyledus iddo dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, â'r newidiadau deddfwriaethol a ganlyn:
- Cyflwyno dyletswydd statudol newydd i lunio a chytuno ar Gynllun Tai Personol gyda'r ceisydd a fydd yn cynnwys y camau a gymerir gan yr awdurdod tai lleol i helpu i atal y ceisydd rhag mynd yn ddigartref a/ neu i sicrhau llety i'r ceisydd;
 - Bydd y ddyletswydd yn gymwys pan fydd awdurdod tai lleol yn derbyn naill ai ddyletswydd atal dan Adran 66 neu brif ddyletswydd i ddarparu llety dan Adran 75(1) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014;
 - Dyletswydd statudol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod tai lleol ganfod a chofnodi dymuniadau'r ceisydd o ran beth fyddai cynnig o lety addas yn yr asesiad o angen ac yn y Cynllun Tai Personol a cheisio parchu a gwredu'r dymuniadau hynny, lle bo modd. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys unrhyw fathau o lety lle na fyddai'r ceisydd yn teimlo'n ddiogel, dymuniadau ceisydd i gael llety gyda'i anifail anwes neu mewn amgylchedd sy'n cefnogi adferiad o ddefnyddio sylweddau;

103 Ahmed, A., Rogers, M., Wilding, M., Gibbons, A., Jones, K. a Madoc-Jones, I. (2018) *Gwerthusiad ôl-weithredu o Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014: Adroddiad Terfynol*.

104 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, (2021) *Adolygiad Digartrefedd: drws agored i newid cadarnhaol*.

105 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, (2021) *Adolygiad Digartrefedd: drws agored i newid cadarnhaol*. t. 50.

- d. Dyletswydd statudol bod yn rhaid rhoi sylw i gynnwys asesiad o angen a Chynllun Tai Personol wrth ystyried addasrwydd llety (diwygiad i Adran 59 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014);
- e. Dyletswydd statudol i adolygu'r asesiad a'r Cynllun Tai Personol gyda'r ceisydd o fewn ffrâm amser a ddiffiniwyd (gweler *argymhelliad 93 isod*).
- Sylwer: Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd y ddyletswydd i lunio Cynllun Tai Personol yn gymwys ar ôl i'r awdurdod tai lleol hysbysu'r ceisydd bod y ddyletswydd atal neu'r brif ddyletswydd i ddarparu llety yn ddyledus iddo.*
91. Dylai canllawiau statudol amlinellu pynciau penodol y dylid ymdrin â hwy mewn Cynllun Tai Personol. Er enghraifft, dylai hyn gynnwys cymorth i'r ceisydd mewn cysylltiad â materion ariannol yn ogystal â dealltwriaeth o sut a pha bwyntiau y bydd yr awdurdod tai lleol yn eu cyfathrebu gyda cheisydd ynglŷn â statws ei gais.
92. Dylai canllawiau statudol bwysleisio bod yn rhaid i'r asesiad o angen a'r Cynllun Tai Personol gynnwys, dan benawdau anghenion tai ac angen cymorth i gadw llety, ystyriaeth o unrhyw anabledau sydd gan y ceisydd neu unrhyw aelod o'i aelwyd.
93. Dylai canllawiau statudol ddarparu amlinelliad ar gyfer graddfeydd amser sy'n gysylltiedig â'r cyfnodau rheolaidd hyn ar gyfer cyfathrebu, â fframiau amser penodol yn cael eu teilwra ar gyfer achosion unigol ac yn cael eu cytuno rhwng yr awdurdod tai lleol a'r ceisydd yn y Cynllun Tai Personol.
94. Dylai deddfwriaeth nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau tai lleol adolygu'r asesiad o anghenion llety a Chynlluniau Tai Personol ar bob adeg berthnasol. Dylai hyn gynnwys:
- Pryd bynnag y mae'r ceisydd yn gofyn am ailystyriaeth oherwydd bod ei amgylchiadau wedi newid;
 - Pryd bynnag y mae'n ymddangos i'r awdurdod tai lleol bod anghenion tai neu amgylchiadau'r ceisydd wedi newid;

- Pryd bynnag y mae'r ddyletswydd sy'n ddyledus i'r ceisydd wedi newid; ac
 - Ar adegau rheolaidd fel y cytunwyd gyda'r ceisydd ond yn ddim mwy na X wythnos/mis (i'w bennu drwy ymgynghori).
95. Rhaid i'r hysbysiad ysgrifenedig o'r asesiad o anghenion tai gynnwys y Cynllun Tai Personol ysgrifenedig a rhaid hysbysu'r ceisydd bod ganddo hawl i ofyn am adolygiad.
96. Dylai'r ceisydd gael yr hawl i ofyn am adolygiad (i'w gyflawni drwy ddiwygio Adran 85(1) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014):
- hawl i ofyn am adolygiad o gynnwys asesiad o anghenion tai;
 - hawl i ofyn am adolygiad o gynnwys y Cynllun Tai Personol gan gynnwys y camau a gofnodwyd yn y Cynllun Tai Personol y bydd yr awdurdod tai lleol yn eu cymryd; (*Ni ddylai'r hawl i ofyn am adolygiad o gynnwys y Cynllun Tai Personol fod yn gyfyngedig i 21 diwrnod o'r dyddiad hysbysu ynglŷn â'r Cynllun Tai Personol a dylai fod ar gael i'r ceisydd bob amser nes bydd y ddyletswydd berthnasol wedi dod i ben.*)
 - hawl i ofyn am adolygiad o fethiant yr awdurdod tai lleol i gymryd y camau a gofnodwyd yn y Cynllun Tai Personol (yn gyfan gwbl, neu yn rhannol);
 - hawl i ofyn am adolygiad o unrhyw benderfyniad gan yr awdurdod tai lleol bod ei ddyletswydd wedi dod i ben, os yw'r ceisydd yn credu bod yr awdurdod tai lleol wedi methu â chymryd y camau a gofnodwyd yn y Cynllun Tai Personol.

Galluogwyr a rhwystrau

O ystyried y pwyntiau a godwyd mewn adroddiadau amrywiol ynglŷn â phrofiadau gwahanol o Gynlluniau Tai Personol a'u cyfyngiadau mewn ymarfer cyfredol, mae'r Panel yn credu y bydd yn hollbwysig darparu adnoddau ar gyfer Cynlluniau Tai Personol a rhoi canllawiau statudol clir ynglŷn â'r defnydd ohonynt. Yn yr un modd, bydd cyflwyno rhaglen ddysgu ar gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn helpu i sicrhau

bod Cynlluniau Tai Personol yn cyflawni eu pwrpas arfaethedig, yn hytrach na dod yn haen arall o fiwrocratiaeth a gwaith papur.

Mae argymhelliad diweddarach y Panel y dylai gwasanaethau gael eu hadolygu gan gymheiriaid (gweler yr adran ar reoleiddio, ar dudalen 91) hefyd yn cynnig cyfle allweddol i sicrhau bod Cynlluniau Tai Personol yn cael eu defnyddio fel y bwriadwyd iddynt gael eu defnyddio – fel cynlluniau tryloyw sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

RHAN 2: Dod â digartrefedd i ben gyda'n gilydd

Gall digartrefedd amlygu ei hun fel darlun cymhleth i rai pobl. Gall y rhesymau pam y mae rhywun yn dod dan fygythiad o ddigartrefedd fod yn niferus ac yn amrywiol – diffyg tai fforddiadwy, amodau byw gwael, gadael systemau'r wladwriaeth, er enghraifft gofal a charchar, anawsterau ariannol, ffoi rhag cam-drin domestig neu straen anawsterau iechyd meddwl; mae llawer o wahanol amgylchiadau sy'n gallu achosi i bobl fod yn ddigartref neu achosi mwy o risg y bydd pobl yn profi digartrefedd. O ganlyniad, ni all yr ateb i ddod â digartrefedd i ben fod yn nwylo gwasanaethau tai yn unig, yn enwedig yng nghyswllt grwpiau sydd ag anghenion cymorth mwy cymhleth. Mae gan bob sector ran i'w chwarae – o ran nodi'r rhai sy'n wynebu risg a helpu i fynd i'r afael ag anghenion cymorth heb eu diwallu a all wthio pobl i ddigartrefedd.

Ar draws gwaith y Panel, roedd y rhai a oedd yn gweithio ar reng flaen gwasanaethau digartrefedd yn aml yn cyfeirio at rwystredigaeth nad oedd gwasanaethau opsiynau tai, heb fwy o gefnogaeth gan arbenigwyr eraill, yn gallu mynd i'r afael yn llawn â'r anghenion cymorth amrywiol a all achosi digartrefedd i wahanol bobl.

Roedd y Panel hefyd yn ymwybodol bod rhai grwpiau yn gallu wynebu mwy o risg o ddigartrefedd – yn enwedig rhai sydd â phrofiad o fod mewn gofal, rhai sy'n ffoi rhag camdriniaeth, rhai ag anawsterau iechyd a chyn-droseddwy.

Oherwydd hyn, roedd y Panel yn awyddus i edrych at allan er mwyn canfod sut y gall gwasanaethau cyhoeddus ehangach weithio gyda'i gilydd yn well er mwyn atal digartrefedd ar y cyfle cynharaf, a lle mae digartrefedd yn digwydd, sicrhau bod pobl yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen er mwyn symud ymlaen â'u bywydau. Byddai cyflawni'r nod hwn yn arwain at nifer o fanteision – o safbwynt cefnogi unigolion ac atal eu hamgylchiadau rhag gwaethygu, ac o ran lleihau y pwysau cronig hirdymor ar lawer o wasanaethau cyhoeddus amrywiol gan fod anghenion cymorth pobl yn parhau heb eu diwallu am gyfnodau estynedig.

Wrth edrych at allan fel hyn, roedd y Panel hefyd yn awyddus i estyn allan at randdeiliaid o sectorau eraill sydd mewn cysylltiad â phobl y gwyddys eu bod yn wynebu mwy o risg o ddigartrefedd.

1. Dyletswyddau ar wasanaethau eraill i nodi, cyfeirio, gweithredu a chydweithredu

Beth yw'r broblem?

Mae ymchwil yn dangos bod gwasanaethau, gan gynnwys addysg, iechyd a chyfiawnder troseddol, yn debygol o ddod i gysylltiad â grwpiau sy'n wynebu risg uwch o ddigartrefedd oherwydd mwy nag un math o allgáu gryn dipyn cyn gwasanaethau tai a digartrefedd.¹⁰⁶ Fodd bynnag, nid oes dyletswydd gyfreithiol ar y cyrff hyn ar hyn o bryd i gyfeirio unigolyn y maent yn credu y gallai fod yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd at awdurdod tai lleol ar gyfer cymorth digartrefedd.

Mae Adran 95 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn nodi y gall awdurdod tai lleol ofyn am gydweithrediad nifer o gyrff, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, cymdeithasau tai, corfforaethau tref newydd, darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig preifat ac ymddiriedolaethau gweithredu ar dai. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar gamau cychwynnol gan wasanaethau tai ac nid yw'n golygu bod yn rhaid i wasanaethau cyhoeddus eraill fynd ati yn rhagweithiol i nodi risgiau, dechrau cydweithredu eu hunain na chymryd unrhyw gamau o fewn eu cylch gwaith i atal neu liniaru digartrefedd. Yn ychwanegol at hyn, nid yw'r rhestr hon o gyrff yn cynnwys nifer o gyrff cyhoeddus a allai fod yn allweddol er mwyn atal a/ neu ddatrys digartrefedd unigolyn.

Dywedodd pobl â phrofiad personol nad yw'r gyfraith fel y mae ar hyn o bryd yn arwain at yr ymateb amlasiantaethol traws-sector at ddigartrefedd sydd ei angen. Dywedodd arbenigwyr drwy brofiad wrth y Panel:

"Un o'r pethau mwyaf a allai ddigwydd yw bod pob gwasanaeth yn chwarae ei ran."

"Cafodd yr ysgol a'r gwasanaethau cymdeithasol gyfleoedd i weld y gamdriniaeth roeddwn i'n dweud wrthyn nhw amdani gartref ond wnaethon nhw ddim byd. Canlyniad hyn oedd fy mod wedi cael fy nhroi allan o'm cartref."

106 Fitzpatrick, S., Bramley, G. a Johnsen, S. (2013) *Pathways into multiple exclusion homelessness in seven UK cities.*

“Roeddwn i mewn cysylltiad â'r meddyg teulu a'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau cyn i mi fynd yn ddiartref. Roedden nhw'n gwybod yn iawn beth oedd fy amgylchiadau ond wnaethon nhw ddim byd i'w atal. Fe wnaethon nhw aros iddo ddiartref. Byddwn wedi gallu cael fy nghyfeirio i gael help [i atal fy niartrefedd].”

Er gwaetha'r potensial amlwg ar gyfer cymorth amlasiantaethol er mwyn nodi ac atal diartrefedd, mae ymchwil yn dangos nad yw cyrff cyhoeddus, ledled y DU, yn ymgysylltu'n effeithiol fel hyn.¹⁰⁷

Yn ei adroddiad ar systemau diartrefedd yn 2018, dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru fod Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi mynd â ni yn nes at yr agenda atal, ond roedd yn cydnabod bod cyfyngiadau i hyn, ac yn dweud “ni all gwasanaeth tai awdurdod lleol ddatrys materion cymhleth rhyngberthynol diartrefedd ar ei ben ei hun. Mae diartrefedd yn fwy na phroblem tai ac mae llawer o'r hyn sy'n achosi diartrefedd y tu hwnt i reolaeth a dylanwad gwasanaethau diartrefedd awdurdodau lleol.”¹⁰⁸ Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd nad yw'r ddyletswydd benodol dan Adran 95 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ar wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i gydweithredu â gwasanaethau diartrefedd “yn gweithio'n gyson ledled Cymru.”

Ymhelaethodd yr Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â hyn hefyd yn ei adroddiad yn 2020 ar gysgu allan, gan ddweud bod achos sylfaenol cysgu allan yn gymhleth a bod angen ymateb hirdymor a chydgyssylltiedig gan bob corff cyhoeddus. Roedd yr adroddiad yn pwysleisio bod y dull gweithredu hwn yn allweddol er mwyn cyflawni cyfrifoldebau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.¹⁰⁹

Yn Lloegr, diwygiodd Deddf Lleihau Diartrefedd 2017 Ddeddf Tai 1996 gan gyflwyno dyletswydd ar gyrff cyhoeddus amrywiol i gyfeirio unigolyn sy'n profi diartrefedd at yr awdurdod lleol. Mae ymchwil yn awgrymu bod y ddyletswydd hon yn cael effaith gadarnhaol at ei gilydd drwy gysylltu pobl â gwasanaethau diartrefedd, ond y “gellid gwneud mwy i roi rôl gryfach i sefydliadau

eraill yn y dasg o atal diartrefedd.”¹¹⁰ Yn fwyaf arbennig, i sicrhau bod sefydliadau ehangach yn cydweithredu â gwasanaethau tai.

Mae'r Panel yn glir bod angen newid sylweddol fel bod sefydliadau ehangach yn chwarae mwy o ran yn y dasg o atal diartrefedd. Drwy gydweithio, gallwn atal mwy o bobl rhag byw drwy drawma diartrefedd, a rhag datblygu anghenion cymorth cymhleth. Bydd hyn yn y pen draw yn lleihau'r pwysau ar ein gwasanaethau sector cyhoeddus yn fwy cyffredinol.

Ai newid cyfreithiol yw'r ateb?

Er bod ymarfer da mewn rhai meysydd yn barod, clywodd y Panel fod arferion o'r fath yn aml wedi'u datblygu o ganlyniad i unigolion brwdfrydig yn hytrach nag ysgogyddion systemig. Er mwyn ymestyn y pcedi hyn o ymarfer da a hwyluso dull mwy cyson o wella cydweithrediad amlasiantaethol, mae angen newid deddfwriaethol.

Yn fwyaf arbennig, mae'r Panel yn argymhell gosod dyletswyddau cyfreithiol ar gyrff sector cyhoeddus amrywiol, yn ogystal â chymdeithasau tai (o ystyried y swyddogaethau cyhoeddus y maent yn eu cyflawni) i nodi, cyfeirio, gweithredu a chydweithredu lle bo unigolyn yn ddiartref neu'n wynebu risg o fod yn ddiartref. Mae'r Panel yn awyddus i ddysgu o brofiadau Deddf Lleihau Diartrefedd 2017 yn Lloegr a sicrhau bod dulliau cydweithredol o weithio yn mynd y tu hwnt i gyfeirio at wasanaethau diartrefedd a chamau i atal diartrefedd ar ran gwasanaethau cyhoeddus eraill. Dan ein cynigion ni, un cam priodol y gall gyrff cyhoeddus eraill a chymdeithasau tai ei gymryd yw atgyfeirio at yr awdurdod tai lleol, ac un arall yw cydweithredu â gwasanaethau tai i'w helpu i gyflawni ei ddyletswyddau diartrefedd. Fodd bynnag, hoffem hefyd weld y gyrff cyhoeddus eraill hyn a chymdeithasau tai yn cymryd camau uniongyrchol i atal diartrefedd, lle bo'n berthnasol, o fewn cwmpas eu cymwyseddau a'u cyfrifoldebau eu hunain.

O ystyried yr anawsterau a nodwyd yng nghyswllt cydweithredu rhwng gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau tai (gweler hefyd yr adran ar Bobl

sydd â Phrofiad o fod mewn Gofal ar dudalen 71), mae'r Panel hefyd yn awgrymu y dylid cynnwys adrannau gwasanaethau cymdeithasol hefyd o fewn y ddyletswydd newydd, ac y byddai newid deddfwriaethol pellach yn helpu i ddarparu eglurder yn y maes hwn.

Mae'r Panel yn cydnabod y gall landlordiaid preifat a darparwyr trydydd sector hefyd chwarae rhan allweddol drwy nodi lle mae unigolyn yn wynebu risg o fod yn ddiartref, neu lle gallai wynebu risg o'r fath, a chefnogi'r agenda ataliol. Fodd bynnag, mae gorfodi dyletswyddau statudol ar landlordiaid preifat a'r trydydd sector yn broblemus. O ganlyniad, mae'r Panel hefyd yn argymhell mesurau anneddfwriaethol a allai helpu i wella cydweithrediad â'r grwpiau hyn hefyd.

Mae'r Panel yn cydnabod ac yn croesawu'r ffaith fod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol presennol yn cynnwys lleoedd ar gyfer cynrychiolwyr tai, ond mae'n ymwybodol y gall swyddogaethau'r byrddau hyn fod yn eang o ran cwmpas. Oherwydd hyn, mae'r Panel hefyd yn argymhell newid deddfwriaethol pellach er mwyn cyflwyno Byrddau Diartrefedd ar y Cyd ychwanegol newydd. Dylid defnyddio'r byrddau hyn i fonitro a yw gwasanaethau'n gweithio'n effeithiol er mwyn datrys diartrefedd a sefydlu mecanweithiau effeithiol ar gyfer cydweithio; i drafod a datrys problemau ag achosion cymhleth; rhannu arferion da sy'n bodoli ar hyn o bryd; ac ymchwilio i weld a oes unrhyw ddigwyddiadau o natur ddiifrifol.

Yn ychwanegol at hyn, mae'r Panel yn cydnabod bod newid anneddfwriaethol arall a all gefnogi ac annog ymarfer da wrth gydweithredu, yn enwedig yng nghyswllt cydeoli a chydariannu gwasanaethau allweddol.

Argymhellion y Panel

Dyletswydd newydd ar awdurdodau cyhoeddus penodedig ac unrhyw awdurdod arall sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus er mwyn nodi'r rhai sy'n wynebu risg o ddiartrefedd, gweithredu, cyfeirio a chydweithredu fel sy'n briodol

97. Dylid gosod set newydd o ddyletswyddau statudol (yn cydgrynhoi unrhyw ddyletswyddau statudol sy'n bodoli'n barod o bosibl) ar awdurdodau cyhoeddus ac unrhyw awdurdod arall sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus er mwyn:

- cymryd camau priodol i **nodi** bod unigolyn y mae'n cyflawni swyddogaethau mewn cysylltiad ag ef yn ddiartref neu dan fygythiad o ddiartrefedd, neu y gallai fod yn ddiartref neu dan fygythiad o ddiartrefedd;
 - gweithredu** fel sy'n briodol a lle bo o fewn ei bŵer i gynorthwyo i atal diartrefedd yr unigolyn hwnnw;
 - cyfeirio'r** unigolyn (â'i gydsyniad) at y cyfryw awdurdod tai lleol a enwebir gan yr unigolyn. Dylai atgyfeiriad o'r fath, yn ei dro, ysgogi dyletswydd yr awdurdod tai lleol i wneud asesiad o'r angen am lety dan Adran 62 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014;
 - cydweithredu** â'r awdurdod tai lleol drwy ymateb i geisiadau am gymorth oni bai fod ganddo reswm da dros beidio â gwneud hynny.
98. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r awdurdodau a fyddai'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd hon (gan gynnwys cael cydsyniad llywodraeth y DU ar gyfer yr awdurdodau hynny sy'n dod o fewn pwerau a gadwyd yn ôl). Dylai sefydliadau o'r fath gynnwys:
- Adrannau gwasanaethau cymdeithasol (o fewn yr un awdurdod lleol â'r adran ddiartrefedd berthnasol ac o awdurdodau gwahanol);
 - Pob agwedd ar y GIG, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl;
 - Penaethiaid ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, a phenaethiaid colegau addysg bellach;
 - Sefydliadau addysg uwch;
 - Adrannau'r Adran Gwaith a Phensiynau;
 - Timau troseddwr ifanc;
 - Prawf;
 - Carchardai a chanolfannau cadw cyfiawnder troseddol eraill;
 - Yr heddlu;
 - Y Swyddfa Gartref ar y dyddiad y

107 Fitzpatrick, S., Mackie, P. a Wood, J. (2021) *Advancing a Five-Level Typology of Homelessness Prevention*.

108 Archwilydd Cyffredinol Cymru (2018) *Sut mae Llywodraeth Leol yn rheoli galw – Diartrefedd, 2018*.

109 Archwilydd Cyffredinol Cymru (2020) *Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i bawb; Cyfrifoldeb i Neb*. t. 7.

110 Sutton-Hamilton, C., Allard, M., Stroud, R. ac Albanese, F. (2022) *Experiences of the Homelessness Reduction Act 2018-2021*.

- cafodd ceisiwr lloches y daethpwyd o hyd i lety iddo dan Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 statws ffoadur neu statws cymwys arall, ac a fydd o ganlyniad dan fygythiad o ddigartrefedd cyn pen chwe mis (ac o bosibl yn llawer cynt);
- xi. Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn mewn cysylltiad â llety i aelodau o'r lluoedd arfog;
- xii. Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
99. Dylid cyflwyno canllawiau statudol cadarn yn ymwneud â'r ddyletswydd i nodi pobl sy'n ddigartref neu a allai fod dan fygythiad o ddigartrefedd, a ddylai amlinellu sut y bydd yn gyweithredu fel sail i ymholiadau wedi'u targedu. Byddai hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth ymhlith staff y sector cyhoeddus a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ynglŷn â nodi ffactorau ar gyfer risg o ddigartrefedd, er enghraifft crynhoi ôl-ddyledion rhent neu anhawster ariannol arall; ymddygiad tenant neu gamau a allai arwain at risg o ddigartrefedd; yn ogystal ag amgylchiadau eraill, gan gynnwys cam-drin domestig neu fath arall o gamdriniaeth, neu achos llys.
- Mecanweithiau y gellid eu defnyddio er mwyn annog landlordiaid preifat i gymryd rhan yn y ddyletswydd i nodi, gweithredu, cyfeirio a chydweithredu**
100. Dylai'r amodau ar gyfer cofrestru landlordiaid preifat gyda Rhentu Doeth Cymru gynnwys y ffaith fod ganddynt ddyletswydd i hysbysu'r awdurdod tai lleol pan fyddant yn bwriadu cyflwyno hawliad meddiant. Dylid diwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i ddarparu lle bo methiant i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon, y bydd hawliadau meddiant yn cael eu gwrthod.
- (Gweler yr argymhellion ar Droï Allan ar dudalen 31).*
101. Dylai Llywodraeth Cymru wneud cais i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan nodi, os cyflwynir protocol cyn gweithredu ar gyfer camau meddiannu mewn cysylltiad â'r sector rhentu preifat, y bydd y protocol yn gofyn i landlordiaid hysbysu'r awdurdod tai lleol pan gyflwynir hysbysiad yn ymwneud â meddiannu.
102. Dylai Llywodraeth Cymru roi canllawiau i awdurdodau tai lleol yn nodi y dylai unrhyw gontractau a wneir rhwng awdurdodau lleol a landlordiaid sector preifat, ar gyfer darparu llety, gynnwys gofynion i landlordiaid sector preifat fod dan ddyletswydd i gydweithredu a darparu gwybodaeth i awdurdodau tai lleol ar gais.
103. Dylai Llywodraeth Cymru roi canllawiau i awdurdodau tai lleol yn nodi y dylai unrhyw gyllid a roddir i fudiadau yn y sector gwirfoddol gynnwys gofynion yn nodi y bydd ddyletswydd ar y mudiad a ariennir i gydweithredu a darparu gwybodaeth i awdurdodau tai lleol ar gais.
104. Dylai Llywodraeth Cymru roi canllawiau sy'n annog awdurdodau tai lleol i gynnwys cydsyniad i rannu gwybodaeth o fewn ei ffurflenni tai a gwasanaethau cymdeithasol safonol, gan gynorthwyo â'r ddyletswydd i rannu gwybodaeth lle bo unigolyn yn ddigartref neu'n wynebu risg o ddigartrefedd.
- Cryfhau ac ymestyn y ddyletswydd i gydweithredu**
105. Dylid diwygio Adran 95 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 fel bod yr awdurdod cyhoeddus neu'r landlord cymdeithasol cofrestredig, lle bo awdurdod tai lleol yn gofyn i awdurdod cyhoeddus neu landlord cymdeithasol cofrestredig gydweithredu er mwyn cyflawni ei swyddogaethau digartrefedd, yn cydweithredu oni bai fod ganddo reswm da dros beidio â gwneud hynny.
106. Dylai canllawiau statudol nodi bod yn rhaid i unrhyw un sy'n gwrthod cais dan argymhelliad 105 (ar y sail bod ganddo reswm da dros beidio â chydweithredu) wneud hynny yn ysgrifenedig a chynnwys rhesymau priodol.
107. Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei phŵer yn Adran 95(6) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i ymestyn y rhestr o sefydliadau sector cyhoeddus a chyrrff eraill y gellir gofyn iddynt gydymffurfio â chais gan yr awdurdod tai lleol i gydweithredu neu ddarparu gwybodaeth. Dylai hyn gynnwys pob sefydliad dan y pwerau datganoledig a restrir yn argymhelliad 98.

108. Dylai Llywodraeth Cymru gysylltu â Llywodraeth y DU ac Ysgrifennydd Gwladol perthnasol y DU ynglŷn ag ymestyn y ddyletswydd i gydweithredu yn Adran 95 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i gyrrff sector cyhoeddus dan bwerau a gadwyd yn ôl, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau, yr ystâd ddiogel, y Swyddfa Gartref a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn.
109. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y dylid cysoni'r ddyletswydd i nodi, gweithredu, cyfeirio a chydweithredu lle bo unigolyn yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd ar draws y deddfwriaeth bresennol, gan sicrhau cyfrifoldebau clir ar gyfer cylch gwaith yr awdurdodau sector cyhoeddus amrywiol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
110. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid adolygu a monitro'r ddyletswyddau newydd i nodi, gweithredu, cyfeirio a chydweithredu.
- (Gweler argymhelliad 163 yn yr adran ar reoleiddio yn yr adroddiad.)*
111. Dylai canllawiau nodi y dylai awdurdodau tai lleol gyfeirio ceiswyr y maent wedi eu nodi fel rhai sydd angen cymorth at sefydliadau eraill a all gynnig cymorth perthnasol, gan ddal i gyflawni eu ddyletswyddau i'r ceisydd dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.
112. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dulliau eraill o'i gwneud yn ofynnol i sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol a'r sector cyhoeddus ehangach a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig 'weithredu' o fewn eu cylch gwaith er mwyn helpu i atal digartrefedd.

Bwrdd digartrefedd ar y cyd

113. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno ddyletswydd statudol ar yr awdurdod tai lleol i sefydlu ac arwain dull amlasiantaethol o gyflawni swyddogaethau digartrefedd drwy Fwrdd Digartrefedd ar y Cyd. Gallai'r Bwrdd hwn gynorthwyo i ddatrys anghydfod yn ymwneud â chydweithredu, adolygu achosion a rhannu ymarfer da a gweithio ar y cyd yn gyffredinol. Dylai pob awdurdod cyhoeddus a sefydliadau eraill a restrir yn argymhelliad 98 gael gwahoddiad i fynychu a dylent fod yn ddarostyngedig i ddyletswydd y byddant yn mynychu ac yn cydweithredu â'r bwrdd oni bai

fod ganddynt reswm da dros beidio â gwneud hynny. Dylai pob corff cyhoeddus a chyrrff eraill a restrir yn 98 hefyd gael y pŵer i **wneud cais** i gynnal cyfarfod o Fwrdd Digartrefedd ar y Cyd. Dylai'r awdurdod tai lleol fod â'r gallu i alw cyfarfod o'r Bwrdd Digartrefedd ar y Cyd ac i gymeradwyo ceisiadau i alw cyfarfod o'r bwrdd.

Cydweithio cyffredinol

114. Dylai Llywodraeth Cymru alw ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i roi ystyriaeth benodol i gydlafurio i ddod â digartrefedd i ben yn sgil diwygio deddfwriaethol a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Wrth wneud hynny, dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol weithio mewn cysylltiad agos â chynrychiolwyr presennol yr awdurdod tai lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ar y bwrdd ac estyn allan at wasanaethau digartrefedd allweddol eraill yn yr ardal. Dylent weithio gyda Byrddau Digartrefedd ar y Cyd newydd, gan sicrhau bod asiantaethau'n cydlafurio ar y lefel uchaf ac yn darparu cyfeiriad cyffredinol, tra gall y Bwrdd Digartrefedd ar y Cyd sefydlu'r manylion ar gyfer cynlluniau o'r fath a gweithio ar lefel weithredol.
115. Dylai Llywodraeth Cymru geisio annog efelychu ymarfer da lle mae gan wasanaethau digartrefedd a thai fynediad uniongyrchol at weithwyr proffesiynol allweddol megis therapyddion galwedigaethol, neu lle mae gwasanaethau allweddol yn rhannu'r un safle. Gallai hyn gynnwys ystyried sut y gellir defnyddio ffrydiau cyllid o nifer o feysydd gwasanaeth cyhoeddus i gydariannu gwasanaethau digartrefedd amlddisgyblaethol.

Galluogwyr a rhwystrau

Er bod y Panel yn credu bod angen ddyletswydd deddfwriaethol newydd er mwyn sicrhau dull mwy cyson o gydlafurio, bydd canllawiau hefyd yn chwarae rôl hollbwysig drwy nodi'n fanwl sut y dylai'r ddyletswydd hon weithio. Bydd yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori'n eang er mwyn canfod beth mae pobl yn ei feddwl y dylai'r ddyletswydd hon ei olygu.

Yn ychwanegol at hyn, bydd canllawiau'n hanfodol er mwyn sefydlu manylion sut y dylai Byrddau Digartrefedd ar y Cyd weithredu. Bydd yn bwysig

bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori'n eang â sefydliadau perthnasol wrth greu'r canllawiau hyn, gan annog sectorau eraill i feddwl sut y gallant weithredu er mwyn atal a datrys digartrefedd o fewn eu cylch gwaith.

Mae rhai o'r sefydliadau a restrwyd gan y Panel yn rhan o feysydd deddfwriaethol a gadwyd yn ôl i Lywodraeth y DU. O ganlyniad, bydd angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod y sefydliadau hyn yn cael eu cynnwys yn y ddyletswydd newydd.

Byddai'r argymhellion sy'n ymwneud â Rhentu Doeth Cymru yn newid yn y ffordd y mae'r corff hwn yn gweithio a gallent fod yn rhan o'r ystyriaethau yn yr adolygiad o Rentu Doeth Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

2. Pobl ag anghenion niferus a chymhleth

Beth yw'r problem?

Fel y nodwyd yn yr adran uchod, mae gan rai pobl digartref anghenion cymorth niferus a chymhleth. Mewn rhai achosion, gallai hyn gynnwys materion sydd wedi cyfrannu tuag at eu digartrefedd yn y lle cyntaf, megis problemau iechyd meddwl, problemau defnyddio sylweddau, trawma, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a llythrennedd ariannol. Os nad yw'r anghenion hyn yn cael cymorth priodol, mae risgiau sylweddol na fydd y ceisydd yn gallu cadw tenantiaeth.

Mewn ymchwiliad yn ddiweddar i ddigartrefedd yng Nghymru gan Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd, cyfeiriodd nifer o sefydliadau at y rôl bwysig y gall llety â chymorth ei chwarae drwy helpu pobl sydd ag anghenion niferus, ond roedd hefyd yn dweud bod y "galw [am lety â chymorth] gryn dipyn yn uwch" na'r cyflenwad.¹¹¹ Dywedodd awdurdod lleol a oedd yn cyfrannu at yr ymchwil hwn mai ei her fwyaf oedd lleoli unigolion ag anghenion cymhleth mewn llety â chymorth addas oherwydd cost ac argaeledd. Roedd cyfranwyr i

Fonitor Digartrefedd Cymru yn ategu'r pryderon hyn hefyd.¹¹²

Gall yr heriau wrth geisio dod o hyd i lety dros dro priodol i bobl ag anghenion cymhleth, yn anffodus, barhau wrth chwilio am lety sefydlog a hirdymor. Drwy ymchwil a gomisiynwyd yn benodol er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer trafodaethau'r Panel ynglŷn â dyrannu tai cymdeithasol yng Nghymru, rhannodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol bryder fod cymdeithasau tai yn amharod i osod eiddo i aelwydydd ag anghenion cymhleth, tra oedd cymdeithasau tai yn pwysleisio bod angen talu cost diwallu anghenion cymorth uchel er mwyn cadw tenantiaethau.¹¹³ Roedd yr ymchwil yn dweud bod teimlad bod anghenion cymorth pobl yn mynd yn fwy a mwy cymhleth, ac nad oes gan wasanaethau cymorth y capasiti i ymdopi yn gyflym, er mwyn cefnogi tenantiaethau cynaliadwy a chymunedau cydlynus.¹¹⁴ Roedd y cynrychiolwyr hyn yn awgrymu nad oes gan systemau y seilwaith i gefnogi pobl sydd ag anghenion mwy cymhleth, ac o ganlyniad roeddent yn ofni na fydd y tenantiaethau hyn yn gynaliadwy.

Mae gweithwyr proffesiynol a oedd yn gweithio yn y sector¹¹⁵ a phobl â phrofiad personol wedi pwysleisio pwysigrwydd gwaith amlasiantaethol. Roedd yr arbenigwyr drwy brofiad yn rhannu rhwystredigaeth bod yr angen i fynd i lawer o wahanol leoedd er mwyn cael mynediad at wasanaethau yn gallu achosi rhwystrau ac atal pobl rhag cael y cymorth y mae arnynt ei angen. Dywedodd arbenigwr drwy brofiad wrthym:

"Mae angen mwy o wasanaethau iechyd meddwl a defnyddio sylweddau mewn llety â chymorth. Mwy o weithio amlasiantaethol i gyd mewn un lle. Mae ar bobl sydd ag anghenion cymhleth a thrawma angen i bethau fod yn syml ac yn hawdd i'w defnyddio."

Mae llawer o achosion lle mae gwaith amlasiantaethol wedi arwain at well canlyniadau o safbwynt tai. Roedd gwaith maes a gynhaliwyd

111 Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd (2023) *Digartrefedd*.

112 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Young, G., Watts, B. a Wood, J. (2021) *Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2021*. t. 33.

113 Woolley, B. (2023) *Allocations: Understanding more, in the context of homelessness in Wales*.

114 Woolley, B. (2023) *Allocations: Understanding more, in the context of homelessness in Wales*. t. 3.

115 Er enghraifft, gweler y dystiolaeth a dderbyniwyd fel rhan o Ymchwiliad Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd (2023) *Digartrefedd*.

fel rhan o Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2021 yn disgrifio cynnydd cadarnhaol mewn gweithio amlasiantaethol â chydweithwyr iechyd drwy gydol pandemig COVID-19.¹¹⁶ Arweiniodd y cydweithrediad hwn rhwng iechyd a gwasanaethau digartrefedd at well canlyniadau i bobl a oedd yn profi digartrefedd a oedd yn ceisio cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl neu wella ar ôl bod yn defnyddio sylweddau.

Un o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn dilyn ymgynghoriad y Panel ag arbenigwyr drwy brofiad oedd bod dod o hyd i gymorth ar gyfer anghenion cymhleth yn gallu bod yn anodd, a nodwyd bod angen i:

"Staff iechyd meddwl, cyffuriau ac alcohol, a staff y ganolfan waith weithio gyda'i gilydd."

Dywedodd gweithwyr proffesiynol wrth y Panel fod pocedi o ymarfer da lle mae gwasanaethau tai wedi gweithio gyda gwasanaethau iechyd a defnyddio sylweddau er mwyn defnyddio ffrydiau cyllido lleol, rhanbarthol a/neu genedlaethol i ddarparu mynediad cliriach at gymorth arbenigol. Fodd bynnag, cydnabyddid bod yr enghreifftiau hyn o ymarfer da yn dibynnu llawer iawn ar bersonoliaethau ac arweinyddiaeth rheolwyr gwasanaeth unigol, ac o ganlyniad nad ydynt yn gyson ledled Cymru.

A oes angen newid cyfreithiol?

Mae'r Panel yn credu bod angen newid deddfwriaethol er mwyn sicrhau dull gweithredu lle mae achosion yn cael eu cydlyn, ac sydd ag arweiniad proffesiynol clir, lle mae gan bobl anghenion cymorth cymhleth.

Fodd bynnag, mae aelodau'r Panel hefyd yn credu y gall canllawiau helpu i gefnogi'r uchelgais hon, gan amlinellu sut y gall cydlyn achosion weithio yn fwyaf effeithiol yn ymarferol a thrwy annog ehangu'r ymarfer da presennol.

Argymhellion y Panel

116. **Dylid diwygio Deddf Tai (Cymru) 2014 er mwyn nodi bod angen dull gweithredu sy'n seiliedig ar gydlyn achosion lle mae gan unigolion anghenion niferus a chymhleth, a**

bod angen mewnbwn gan ddau wasanaeth cyhoeddus neu fwy. Dylai'r dull gweithredu gynnwys:

- Nodi gweithiwr proffesiynol i arwain wrth gysylltu â'r unigolyn a chydlynu'r gwaith o ddarparu gwasanaeth;**
- Dull o oruchwylio cydlynu achosion er mwyn nodi a mynd i'r afael â bylchau yn y gwasanaeth a ddarperir i unigolion o'r fath yn ogystal â rheoli risg a'i hatal rhag cynyddu.**

- Dylid darparu canllawiau er mwyn helpu i benderfynu pa sefydliadau all chwarae'r rôl arweiniol a phwysleisio bod angen i ymatebion amlasiantaethol fod yn gymesur â'r angen.
- Lle bo anghenion yn fwy cymhleth, i'r graddau nad oes modd cefnogi'r unigolyn mewn tai prif ffrwd, hyd yn oed â chymorth ychwanegol, dylai canllawiau bwysleisio y dylai'r prif gyfrifoldeb am ddiwallu'r anghenion cymorth hynny fod yn nwylo iechyd a/neu ofal cymdeithasol. Byddai hyn yn digwydd, er enghraifft, os oes ar unigolyn angen gofal mewn cartref nyrsio neu gartref preswyl arbenigol iawn er mwyn diwallu ei anghenion iechyd a chymorth cymhleth.

Galluogwyr a rhwystrau

Mae'r Panel yn cydnabod bod yr argymhellion hyn yn newid mawr mewn ffyrdd o weithio. Fodd bynnag, y sail resymegol yw y dylai gweithio ar y cyd ar achosion gan ddefnyddio dulliau ataliol leihau llwyth gwaith. Dylai hefyd sicrhau bod y gwasanaeth sydd â'r arbenigedd mwyaf addas i ddiwallu anghenion yr unigolyn yn cymryd yr awenau wrth ddiwallu'r anghenion penodol hynny.

Dylid nodi hefyd bod nifer o argymhellion eraill mewn adrannau amrywiol o'r adroddiad sy'n gysylltiedig â'i gilydd ac sy'n cefnogi argymhellion y Panel yn yr adran hon. Yn fwyaf arbennig, bydd yr argymhellion sy'n ymwneud â sefydlu Byrddau Digartrefedd ar y Cyd, dyletswyddau newydd ar sefydliadau amrywiol i gydweithredu â gwasanaethau tai, a datblygu ein cyflenwad o dai (gan gynnwys llety â chymorth) hefyd yn helpu i

116 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Young, G., Watts, B. a Wood, J. (2021) *Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2021*. t. 35.

gynorthwyo'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.

Mae'r Panel hefyd yn cydnabod rôl bwysig Tai yn Gyntaf fel dull o ddiwallu anghenion pobl sydd ag anghenion cymhleth a dylai hyn fod yn rhan allweddol o waith ehangach Llywodraeth Cymru er mwyn symud tuag at ddull ailgartrefu cyflym. Mae Tai yn Gyntaf yn cydnabod ei bod yn bwysig bod gan bobl sydd â phroblemau cymhleth, le sefydlog i'w alw'n gartref. O ganlyniad, mae argymhelliad y Panel ynglŷn â mynd i'r afael â bylchau yn y cyflenwad tai a sicrhau bod Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym yn sail i ddatblygiadau tai hefyd yn berthnasol yma (gweler tudalennau 50–52).

3. Pobl ag anghenion iechyd

Beth yw'r problem?

Gall iechyd gwael achosi digartrefedd a bod yn un o'i ganlyniadau. Mae ymchwil yn dangos bod iechyd gwael – yn enwedig iechyd meddwl gwael, ac mewn rhai achosion anawsterau â chaethiwed i sylweddau – yn gallu bod yn ffactorau sy'n cyfrannu.¹¹⁷

Yn ychwanegol at hyn, gall pwysau a straen digartrefedd ei hun gael effaith sylweddol ar iechyd, â phobl sy'n ddigartref yn aml yn dioddef salwch meddwl, salwch corfforol, disgwyliad oes byrrach, ac afiacheddau ychwanegol y gellir eu hatal. O ganlyniad, mae anghenion iechyd anghymesur o uchel ymysg pobl sy'n profi digartrefedd ac yn wynebu risg o ddigartrefedd, ac eto mae ymchwil yn dangos bod pobl sy'n ddigartref yn aml yn cael anhawster i gael gafael ar ofal iechyd.¹¹⁸

Roedd hyn yn cael ei adlewyrchu gan arbenigwyr drwy brofiad a ddywedodd wrth y Panel eu bod yn wynebu heriau wrth gofrestru â meddyg teulu heb gyfeiriad parhaol. Roedd pobl eraill a oedd wedi llwyddo i gael mynediad at wasanaethau iechyd yn mynegi pryder ynglŷn â diffyg ymwybyddiaeth o'r effaith y mae trawma a digartrefedd yn ei gael ar fywyd unigolyn. Yn fwyaf arbennig, dywedodd

llawer eu bod wedi profi rhestrau aros hir am wasanaethau iechyd meddwl, gan adael i'w hiechyd meddwl ddirywio mwy yn y cyfamser:

“Rwy'n cael anhawster mawr gyda fy iechyd meddwl. Mae fy meddyg teulu yn meddwl bod gen i ADHD, anhwylder deubegynol a sgitsoffrenia paranoiaidd, ond mae wedi cymryd dwy flynedd i mi gael gweld seiciatrydd. Rydw i wedi bod ar lawer o feddyginiaethau, ac mae rhai wedi ei wneud yn waeth. Fe wnaeth Mam fy nhroi i allan gan fod fy iechyd meddwl mor wael a doeddwn i ddim yn gallu cael yr help y mae arna i ei angen. Fe wnes i aros gyda fy chwaer, ac oni bai amdani hi fe fyddwn i ar y stryd.”

Yn ystod sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid y Panel, pwysleisiodd gweithwyr proffesiynol hefyd rwystredigaeth ynglŷn â'r anawsterau cyffredinol a wynebid wrth geisio cael mynediad at gymorth iechyd. Roedd y gweithwyr proffesiynol hyn yn galw am ymestyn enghreifftiau o ymarfer da, er enghraifft meddygfeydd lleol yn cynnig clinigau allgymorth arbenigol yn ogystal â defnyddio ffrydiau cyllido ar y cyd i helpu i gydeoli gwasanaethau.

Ymysg pobl sy'n profi'r mathau mwyaf eithafol o ddigartrefedd, gall salwch meddwl yn aml ddigwydd yr un pryd â defnyddio sylweddau. Dangosodd astudiaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fod 30% o'r bobl a brofodd ddigartrefedd ar y stryd yn ystod pandemig COVID-19 yn dweud bod camddefnyddio sylweddau yn ffactor a oedd wedi cyfrannu tuag at eu digartrefedd¹¹⁹ ac o'r ymatebwyr i ymchwil a gynhaliwyd gan Homeless Link, dywedodd 45% eu bod yn hunanfeddyginiaethu â chyffuriau neu alcohol i'w helpu i ymdopi â'u hiechyd meddwl.¹²⁰

Er ei bod yn broblem gyffredin, mae pobl sydd ag anghenion iechyd meddwl ac anghenion yn ymwneud â defnyddio sylweddau sy'n digwydd yr un pryd yn aml yn cael anhawster i gael triniaeth

a chymorth, ac mae gwasanaethau'n dangos cyndynrwydd i drin y ddwy broblem yr un pryd.¹²¹ Yn wir, dywedodd 13% o'r ymatebwyr i ymchwil 'Health Matters' Cymorth Cymru mai eu defnydd o gyffuriau neu alcohol oedd y rheswm pam nad oeddent yn gallu cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd neu iechyd meddwl.¹²² Dywedodd unigolyn â phrofiad personol wrth y Panel:

“Mwy o feddygon yn dweud allwn ni ddim eich trin chi os ydych chi'n cymryd cyffuriau. Ond mae arnoch chi angen gwasanaethau iechyd meddwl yn fwy fyth os ydych chi'n cymryd cyffuriau i hunanfeddyginiaethu!”

Yn ogystal ag edrych ar yr angen cyffredinol i wella mynediad at ofal iechyd er mwyn mynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol sy'n gallu achosi neu waethygu digartrefedd unigolyn, roedd y Panel hefyd yn awyddus i drafod y rôl fwy uniongyrchol y gall ysbytai ei chwarae er mwyn atal digartrefedd.

Mae derbyn i ysbyty yn bwynt cyswllt allweddol i bobl sy'n profi digartrefedd neu'n wynebu risg o ddigartrefedd. Yn ogystal, nodir y gall anghenion llety unigolyn newid yn ystod ei arhosiad mewn ysbyty, yn enwedig lle mae unigolyn yn datblygu anghenion hygyrchedd.

Er hyn, mae ymchwil yn awgrymu bod cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty heb unlle i aros. Yn ôl Cymorth Cymru dim ond 65% o'r cyfranogwyr yn eu hymchwil *Health Matters* oedd yn dweud bod staff wedi gofyn iddynt pan oeddent yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty a oedd ganddynt rywle addas i fynd, ac roedd 11% ohonynt wedi cael eu rhyddhau i'r stryd.¹²³

Yn achos y rhai hynny ym mhen mwyaf eithafol digartrefedd, yn aml iawn gall bywyd ar y stryd arwain at fwy o broblemau iechyd. Er bod angen i ysbytai ganolbwyntio ar 'lif cleifion' a diwallu anghenion meddygol fel y maent yn codi, dylid

cydnabod hefyd y gall rhyddhau i amgylcheddau anniogel, gan gynnwys digartrefedd, arwain at aildderbyn i ysbyty a rhagor o anghenion iechyd.

I'r perwyl hwn, mae'r Panel yn credu bod cynllunio ar gyfer rhyddhau'n gynnar a chysylltiadau â gwasanaethau tai'r awdurdod lleol yn hollbwysig. Er bod enghreifftiau o ymarfer da yn bodoli'n barod yn y cyswllt hwn, mae ymchwil i gynllunio ar gyfer rhyddhau yn dangos diffyg cysondeb wrth ryddhau cleifion o ysbytai rhwng gwahanol ysbytai, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yng Nghymru.¹²⁴

A oes angen newid cyfreithiol?

Mae'r Panel yn cydnabod bod y cysylltiad rhwng gwasanaethau iechyd a digartrefedd yn gallu bod yn eang, gan rychwantu nifer o wahanol ddisgyblaethau a gwasanaethau. Rydym hefyd yn cydnabod bod offer yn bodoli'n barod i helpu i gefnogi a llywio gwell cysylltiadau rhwng digartrefedd a gwasanaethau iechyd – gan gynnwys y canllawiau a gyhoeddwyd gan NICE yn ddiweddar,¹²⁵ yn ogystal â chyfeiriadau eraill amrywiol at ddigartrefedd mewn canllawiau.¹²⁶

Oherwydd hyn, mae'r Panel yn argymhell dull amlhaenog o wella mynediad at ofal iechyd. Mae'n bwysig defnyddio ysgogyddion sy'n bodoli'n barod ar gyfer gwella a cheisio annog ymestyn ymarfer da, ond mae gan newid deddfwriaethol ran i'w chwarae hefyd lle mae angen dull gweithredu mwy cyffredinol.

Argymhellion y Panel

Mae'r argymhellion yn yr adran hon yn ceisio sicrhau dull gweithredu cyson er mwyn cynllunio'n gynnar ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty, fel bod cleifion nad oes ganddynt lety i ddychwelyd iddo yn cael eu cyfeirio at awdurdodau tai lleol ac yn cael cymorth priodol cyn cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Mae'r Panel yn rhagweld y bydd cynllunio cynharach a mwy cyson yn y modd hwn yn osgoi

117 Preece, J. a Bimpson, E. (2019) *Housing insecurity and mental health in Wales*: UK. Collaborative Centre for Housing Evidence.

118 Song, J., Moreno-Stokoe, C., Grey, C. a Davies, A. (2021) *Iechyd unigolion sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd yng Nghymru, yn ystod y pandemig COVID-19*. Iechyd Cyhoeddus Cymru.

119 Song, J., Moreno-Stokoe, C., Grey, C. a Davies, A. (2021) *Iechyd unigolion sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd yng Nghymru, yn ystod y pandemig COVID-19*. Iechyd Cyhoeddus Cymru.

120 Homeless Link (2022) *Unhealthy State of Homelessness 2022: Findings from the Homeless Health Needs Audit*.

121 Homeless Link (2022) *Unhealthy State of Homelessness 2022: Findings from the Homeless Health Needs Audit*.

122 Cymorth Cymru (2016) *Health Matters: The health needs of homeless people in Wales*.

123 Cymorth Cymru (2016) *Health Matters: The health needs of homeless people in Wales*.

124 C.A.R.P. Collaborations and Gana Consulting (2021) *From hospital to home; planning the discharge journey*: Sefydliad Tai Siartredig Cymru a Tyfu Tai.

125 Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (2022) *Integrated health and social care for people experiencing homelessness*.

126 Er enghraifft: Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (2008) *Passing the baton: A Practical Guide to Effective Discharge Planning*.

rhyddhau i ddiartrefedd ac yn cynorthwyo â llif cleifion.

Wrth gydnabod yr heriau y mae pobl sy'n wynebu digartrefedd yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad at ofal iechyd, mae'r Panel hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddod o hyd i ffyrdd o greu llwybr cyfeirio haws at gymorth iechyd meddwl yn ogystal ag ymestyn ymarfer da, er enghraifft cydleoli a chydariannu gwasanaethau.

Yn ogystal, o ystyried maint a chymhlethdod y cysylltiad rhwng iechyd a digartrefedd, mae argymhellion y Panel hefyd yn adlewyrchu'r angen i sicrhau bod cynllunio strategol ym maes iechyd yn rhoi gwell ystyriaeth i anghenion pobl sy'n profi digartrefedd ac yn wynebu risg o ddiartrefedd.

Mae hefyd yn werth nodi y byddai argymhellion a wneir o dan adrannau eraill o'r adroddiad hwn yn chwarae rhan hollbwysig er mwyn gwella dulliau gweithio ar y cyd rhwng iechyd a gwasanaethau i bobl ddiartref. Yn fwyaf arbennig, mae cysylltiad agos rhwng y ddyletswydd ar sefydliadau ehangach, gan gynnwys cyrff iechyd, i helpu i nodi a chydweithredu lle mae pobl yn ddiartref neu dan fygythiad o ddiartrefedd (gweler tudalennau 63–65) â chynigion y Panel ar gyfer cynllunio i ryddhau o'r ysbyty.

Yn ychwanegol at hyn, bydd ein hargymhellion sy'n ymwneud â chefnogi'r rhai sydd ag anghenion cymhleth (gweler tudalen 67) yn ddefnyddiol iawn lle mae gan bobl anawsterau sy'n gysylltiedig â defnyddio sylweddau.

Mae'r Panel hefyd yn galw yn fwy cyffredinol ar Lywodraeth Cymru i ystyried pa dulliau eraill sydd ar gael i wella gwaith amlasiantaethol. Bydd yn bwysig gweithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol er mwyn nodi a mapio ffyrdd eraill y gall gwasanaethau iechyd ategu a chefnogi gwaith gwasanaethau digartrefedd.

Cynllunio ar gyfer rhyddhau

119. Dylai Llywodraeth Cymru geisio adeiladu ar y canllawiau presennol er mwyn sicrhau bod dyletswyddau statudol clir ar gyfer cyflawni asesiadau a chynllunio er mwyn ystyried anghenion llety claf fel mater o drefn, er mwyn osgoi rhyddhau i ddiartrefedd.

120. Os bydd person a allai fod yn ddiartref yn cael ei ryddhau o'r ysbyty ni ddylai gael ei

ryddhau nes bydd atgyfeiriad wedi'i wneud i'r awdurdod tai lleol a bod yr awdurdod hwn wedi derbyn y ddyletswydd i asesu dyletswydd interim i ddarparu llety neu'r brif ddyletswydd i ddarparu llety.

Iechyd meddwl

121. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall ei strategaeth iechyd meddwl newydd a chanllawiau yn ymwneud â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 gydnabod y cysylltiad rhwng digartrefedd neu lety heb ddiogelwch ac iechyd meddwl, gan bwysleisio pwysigrwydd cydweithredu rhwng gwasanaethau iechyd meddwl ac opsiynau tai/gwasanaethau digartrefedd.

122. Dylai Llywodraeth Cymru annog awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ystyried sut y gellid gwella cymorth iechyd meddwl ar gyfer pobl sy'n profi digartrefedd neu'n wynebu risg o ddiartrefedd. Er enghraifft, cydariannu timau digartrefedd aml-ddisgyblaethol a chymorth tai ag arbenigedd penodol mewn iechyd meddwl, cydleoli gwasanaethau, neu lwybrau sy'n galluogi mynediad cyflym at wasanaethau iechyd meddwl y GIG i bobl sy'n profi digartrefedd neu'n wynebu risg o ddiartrefedd.

123. Dylid ychwanegu awdurdodau tai lleol a gweithwyr cymorth at y rhestr o asiantaethau a all gyfeirio unigolion yn uniongyrchol am asesiad gan Wasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol, fel yr amlinellir yn Adran 6 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

124. Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio Adran 18 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (Swyddogaethau'r cydgysylltydd gofal), a Rheoliad 5(2) ac Atodlen 2 o Reoliadau Iechyd Meddwl (Cydgysylltu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011, OS 2011/942, er mwyn nodi y dylid asesu statws llety unigolyn ac unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â llety a'u cofnodi ym mhob Cynllun Gofal a Thriniaeth. Yn ogystal, dylid diweddarau canllawiau statudol i adlewyrchu'r gofyniad hwn.

Cyffredinol

125. Dylai Llywodraeth Cymru nodi bod angen rôl ddynodedig i arwain ar ddiartrefedd ym mhob bwrdd iechyd. Byddai'r rôl hon yn

helpu i arwain datblygiadau i gefnogi cleifion digartref ac i annog rhannu gwybodaeth yn briodol rhwng asiantaethau er mwyn cefnogi cleifion digartref yn y ffordd orau sy'n bosibl.

Galluogwyr a rhwystrau

Mae prinder data dybryd am iechyd a digartrefedd yng Nghymru, sy'n atal y gwaith o ddatblygu polisi ystyriol a darparu atebion. Bydd angen archwilio hyn fel rhan o ystyriaeth ehangach Llywodraeth Cymru o wella dulliau o gasglu a dadansoddi data, fel yr amlinellwyd yn adran ddata yr adroddiad hwn.

Mae'r Panel yn ymwybodol bod rhai ysgogyddion cadarnhaol yn bodoli'n barod er mwyn annog a datblygu ymarfer da yn ymwneud â gwasanaethau iechyd a digartrefedd – gan gynnwys canllawiau NICE. Ond mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn canfod sut y gellir annog a datblygu'r ysgogiad hwn er mwyn sicrhau dull gweithredu mwy cyffredin ledled Cymru. Bydd hyn yn galw am waith gan uwch arweinwyr iechyd.

Yn ogystal, mae angen bod yn ymwybodol o'r pwysau a'r straen sydd ar system y GIG, gan sicrhau nad yw ffyrdd newydd o weithio yn dod yn ymarfer ticio blychau biwrocraidaidd, a'u bod yn hytrach yn hwyluso cynllunio go iawn at y dyfodol. Fel y nodwyd gan randdeiliaid, bydd angen ystyried sut y gellir codi ymwybyddiaeth o lwybrau atgyfeirio tai ymhlith staff rheng flaen. Yn y pen draw, bydd hyn yn helpu i sicrhau bod modd atal digartrefedd a bod llif cleifion drwy ysbytai yn parhau.

4. Pobl sydd â phrofiad o fod mewn Gofal

Beth yw'r broblem?

Mae'r data digartrefedd diweddaraf yn dangos bod 6,018 o bobl rhwng 16 a 25 oed wedi gwneud cais am gymorth digartrefedd yng Nghymru yn 2022-23. O'r rhain, roedd 423 rhwng 16 a 17 oed.¹²⁷

Er bod digartrefedd yn brofiad trawmatig a heriol i bobl o bob oed, gall pobl ifanc sy'n canfod eu hunain yn y system ddiartrefedd wynebu heriau a ffactorau eraill sy'n eu gwneud yn agored i niwed.

Mae Homeless Link yn amlinellu'r anffanteision a wynebir gan bobl ifanc sy'n achosi ac yn nodweddu digartrefedd ymhlith pobl ifanc. Mae pobl ifanc yn wynebu risg anghymesur o dlodi, yn derbyn llai o hawliadau budd-daliadau lles, ar isafswm cyflog is, ac yn gallu wynebu gwahaniaethu yn y marchnadoedd llafur. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc ddiartref wedi gadael cartrefi a pherthnasoedd yr oeddent, i ryw raddau, yn ddibynol arnynt o safbwynt economaidd a chymdeithasol. Yn ychwanegol at hyn, mae polisiâu yn aml yn ei gwneud yn anos i'r grŵp hwn gael mynediad at dai.¹²⁸

Mae pobl ifanc sy'n gadael gofal yn wynebu risg lawer iawn uwch o fod yn ddiartref. Dengys ymchwil bod 25% o'r holl bobl ifanc ddiartref yn y DU yn y system ofal ar un adeg, a bod un o bob tri (33%) pherson ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn y DU wedi mynd yn ddiartref yn ystod y ddwy flynedd gyntaf ar ôl gadael gofal.¹²⁹

Yn achos pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, mae eu diffyg cysylltiadau teuluol yn aml yn golygu nad oes ganddynt yr ysgogiad ariannol na'r gwarantwyr sydd eu hangen i allu rhentu cartref.

Yn ychwanegol at hyn, nid oes llawer o gymhelliant yn y system gofal maeth i ddal i ddarparu cartref i bobl ifanc ar ôl iddynt gael eu pen-blwydd yn 18 oed. Cyfeiriwyd at hyn mewn adroddiad¹³⁰ a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd, sy'n galw am newidiadau i'r rhaglen 'Pan Fydda i'n Barod' i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Dangoswyd bod y prawf cysylltiad lleol presennol hefyd yn achosi effeithiau problemus ac yn cael ei gamgymhwyso yn achos pobl ifanc sy'n gadael gofal. Cyfeiriodd rhanddeiliaid at achosion lle'r oedd pobl ifanc a oedd wedi cael eu maethu

127 StatsCymru (2023) *Aelwydydd y darparwyd cymorth iddynt yn ôl canlyniad, oed a rhywedd*. Darllenwyd 24 Awst 2023. <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/Statutory-Homelessness-Prevention-and-Relief/householdsforwhichassistancehasbeenprovided-by-outcome-age-gender>

128 Homeless Link (2023) *Young people's experiences of homelessness are distinct from adults*. Darllenwyd 24 Awst 2023. <https://homeless.org.uk/areas-of-expertise/meeting-diverse-needs/young-people>

129 Step by Step (2022) *Who cares? The Link Between Leaving Care and Homelessness*.

130 Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd (2023) *Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal*. t. 14.

mewn un ardal awdurdod lleol yn cael eu gorfodi yn anghyfreithlon i ddychwelyd i'w hawdurdod cartref lle nad oedd ganddynt rwydwaith a chysylltiadau cymdeithasol go iawn. Yn yr un modd, roedd yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd yn cydnabod effeithiau negyddol y prawf cysylltiad lleol ar y rhai sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac mae wedi argymhell diwygio'r ddeddf tai *“fel na ellir cyfeirio pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy'n wynebu digartrefedd at awdurdod lleol arall ar sail 'cysylltiad lleol' os nad ydynt yn dymuno i hynny ddigwydd.”*¹³¹

Yn yr adroddiad hwn, taflodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg oleuni hefyd ar feysydd eraill lle mae angen cymorth neu ystyriaeth bellach er mwyn helpu i amddiffyn pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal rhag digartrefedd. Roedd hyn yn cynnwys yr angen i gynyddu'r cyflenwad o lety â chymorth addas, galwadau i ychwanegu'r grŵp hwn at y rhai ag angen blaenoriaethol am lety, yn ogystal â rhoi ffafriaeth resymol i'r grŵp hwn mewn polisïau dyrannu.

Fel rhan o broses y Panel o ymgysylltu â rhanddeiliaid, pwysleisiodd rhanddeiliaid yn y sector ac arbenigwyr drwy brofiad pa mor bwysig yw llety arbenigol â chymorth wedi'i deilwra ar gyfer anghenion pobl ifanc sy'n profi digartrefedd. Rhannodd un arbenigwr drwy brofiad yr adborth cadarnhaol hwn am ei lety arbenigol:

“Yr hostel yma ydy'r un orau. Mae yna ofal 24 awr ac maen nhw'n trio rhoi pethau i ni eu gwneud – gweithgareddau, gwirfoddoli, celf.”

Yn anffodus, dywedodd rhanddeiliaid fod angen mwy o lety â chymorth i bobl ifanc er mwyn bodloni'r galw. O ganlyniad, mae achosion lle mae pobl ifanc wedi cael eu lleoli mewn llety dros dro anaddas sy'n golygu eu bod yn agored i ddylanwadau niweidiol, camfanteisio rhywiol a chamddefnyddio sylweddau.¹³² Yn ogystal â hyn

nid oes gan bobl ifanc 16 a 17 oed hawl gyfreithiol i ddal contract meddiannaeth.

Roedd adroddiad y Pwyllgor hefyd yn galw am well trefniadau pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion, pwynt a ategwyd yn gryf gan rhanddeiliaid a gyfrannodd at waith y Panel. Mynegodd y rhanddeiliaid hyn bryder ynglŷn â'r diffyg eglurder ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am ddod o hyd i lety i bobl ifanc ddigartref a rhai sy'n gadael gofal – p'un ai gwasanaethau tai ynteu adrannau gwasanaethau cymdeithasol.

Mae adroddiad gan Dileu Digartrefedd Ieuencid Cymru¹³³ hefyd yn cyfeirio at fethiannau wrth drosglwyddo o'r naill sefydliad i'r llall, gan gynnwys diffyg eglurder ymddangosiadol ynglŷn â phwy sy'n bennaf gyfrifol am bobl ifanc ddigartref – p'un ai gwasanaethau cymdeithasol ynteu wasanaethau tai:

“Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn dweud: 'dim fy nghyfrifoldeb i ydy hi, dw i ddim yn edrych ar ei hôl hi ddim mwy – mae hi'n 18, tai sy'n gyfrifol.' Wedyn mae tai yn dweud 'wel mae hi'n 17 dydy hi ddim yn perthyn i ni eto'. Felly mae gennych chi frwydr (yn) y cyngor ynglŷn â phwy sy'n gofalu (am y person ifanc hwnnw).”¹³⁴

Er 2009, mae cyfraith achosion wedi diffinio'r cyfrifoldebau yn y maes hwn. Yn ôl y gyfraith achos os yw person ifanc digartref 16 neu 17 oed yn gwneud cais i awdurdod tai, dylai gael ei gyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol am asesiad o'i anghenion o dan yr hyn sydd bellach yn Adran 21 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod hyn yn digwydd yn ymarferol.

Yn ogystal â'r diffyg eglurder hwn o ran rheoli achosion, mynegwyd pryder hefyd gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol o'r gwasanaethau tai nad oes ganddynt yr arbenigedd, y gefnogaeth na llety priodol i ddiwallu anghenion y grŵp penodol hwn.

131 Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd (2023) *Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal*. t. 15.

132 Dileu Digartrefedd Ieuencid Cymru (2020) *Don't Let Me Fall Through the Cracks: Homelessness amongst Care-Experienced Young People in Wales*. tt. 65-67.

133 Dileu Digartrefedd Ieuencid Cymru (2020) *Don't Let Me Fall Through the Cracks: Homelessness amongst Care-Experienced Young People in Wales*.

134 Person ifanc yn cyfrannu yn Dileu Digartrefedd Ieuencid Cymru (2020) *Don't Let Me Fall Through the Cracks*.

Yn dilyn yr heriau a wynebir gan bobl ifanc a gadawyr gofal ifanc, mae'r Panel yn ymwybodol iawn bod profiadau trawmatig yn ystod plentyndod, gan gynnwys treulio cyfnodau mewn gofal, yn gallu cynyddu risg unigolyn o fod yn ddigartref pan fydd yn oedolyn.¹³⁵ Oherwydd diffyg cefnogaeth yn ystod oedran ifanc, gall pobl sydd â phrofiad o'r system ofal fod yn dueddol i gael anhawster â sgiliau byw'n annibynnol a rheoli cyllid. Gallant hefyd brofi mwy o debygolrwydd o gyrhaeddiad addysgol gwael ac anawsterau ag iechyd meddyliol a chorfforol.¹³⁶ Mae'r ffactorau hyn, ynghyd â'r diffyg cefnogaeth barhaus gan rieni y gallai unigolion eraill fod yn elwa ohoni nes byddant yn oedolion, yn cynyddu'r risg o fod yn ddigartref i bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ar ôl y blynyddoedd cychwynnol hynny pan maent yn gadael gofal.

A oes angen newid cyfreithiol?

Mae'r Panel yn argymhell y byddai newid deddfwriaethol yn helpu i egluro pa wasanaeth sy'n bennaf gyfrifol am gynorthwyo pobl ifanc ddigartref sy'n 16 a 17 oed a gadawyr gofal i gael llety priodol.

O ystyried bod risg benodol ac uwch o ddigartrefedd ymhlith gadawyr gofal a phobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal, mae'r Panel hefyd wedi cynnig newidiadau deddfwriaethol yn adrannau cysylltiad lleol a dyrannu tai cymdeithasol yr adroddiad er mwyn darparu mesurau amddiffyn penodol i'r rhai hynny sydd â phrofiad o fod mewn gofal (gweler tudalennau 23 a 46).

Mae rhagor o argymhellion yn ymwneud â phobl ifanc o dan yr adrannau o'r adroddiad hwn sy'n ymwneud â chysylltiad lleol (ar dudalen 23) ac addasrwydd llety (ar dudalen 32). Mae'r argymhellion hyn yn ceisio sicrhau bod y prawf cysylltiad lleol yn ystyried anghenion y grŵp hwn yn well a bod llety'n bodloni safonau gofynnol.

Dylid cydnabod hefyd y bydd llawer o'r pwyntiau eraill a godwyd uchod yn elwa o'r argymhellion ehangach eraill sydd yn yr adroddiad, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag ystyried fforddiadwyedd llety (ar dudalen 47) a'r dyletswyddau ehangach i

sefydliadau eraill helpu i adnabod a chydweithredu er mwyn dod â digartrefedd i ben (gweler tudalennau 63–65).

Yn ogystal, mae'r Panel yn credu bod rhai newidiadau anneddfwriaethol a allai fod o gymorth er mwyn helpu i atal digartrefedd ymhlith y rhai sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Amlinellir yr argymhellion hyn isod hefyd.

Argymhellion y Panel

Bwriadwyd yr argymhellion isod er mwyn egluro'n glir mai'r gwasanaethau cymdeithasol sy'n dal yn gyfrifol am gefnogi pobl ifanc sy'n ddigartref. Gall gwasanaethau cymdeithasol ofyn i wasanaethau tai gydweithredu, ond ni allant ddefnyddio'r system ddigartrefedd statudol i gyflawni'r rhwymedigaeth hon. Yn y pen draw, mae gan y gwasanaethau hyn ddyletswydd i sicrhau nad yw pobl ifanc sy'n gadael gofal yn wynebu'r math o argyfwng tai sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddefnyddio gwasanaethau digartrefedd statudol.

Mae ein hargymhellion hefyd yn ceisio sicrhau, mewn achosion lle mae gan geisydd brofiad o fod mewn gofal, bod ei gymorth a'i Gynllun Tai Personol yn ystyried sut y gallai hyn effeithio ar ei anghenion cymorth.

Yn ychwanegol at hyn, rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gallai'r system faethu wneud mwy i hwyluso gofalwyr maeth i ddal i roi cartref i adawyr gofal ar ôl iddynt gael eu pen-blwydd yn 18 oed.

126. Dylai deddfwriaeth nodi y bydd pobl ifanc ddigartref sy'n 16 a 17 oed, yn ogystal â phobl ifanc sy'n gadael gofal, yn cael eu cartrefu gan y gwasanaethau cymdeithasol dan ddyletswyddau sy'n bodoli'n barod dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dylai gwasanaethau plant (ac os llwyddir i sicrhau llety dan swyddogaethau digartrefedd, awdurdodau tai lleol) sicrhau na ddylai unrhyw berson ifanc 16 neu 17 oed gael ei leoli mewn llety dros dro heb gymorth.

127. Dylai fod yn ofynnol i awdurdodau tai lleol wneud ymholiadau er mwyn canfod a oes gan

135 Crisis a Phrifysgol Caerdydd (2014) *Nations Apart? Experiences of Single Homeless People across Great Britain*, 2014.

136 Beynon, C., Morgan, L., Evans, L., Darlington, O., Brace, L., Roberts M., a Woodfine, L. (2022) *Preventing homelessness in care experienced individuals*. tt. 6-7.

geisydd brofiad o fod mewn gofal, ac a yw'n gwneud cais am gymorth fel sy'n briodol gan asiantaethau perthnasol, ac adlewyrchu hyn yn yr asesiad o angen a'r Cynllun Tai Personol.

128. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid addasu'r rhaglen "Pan Fydda i'n Barod" er mwyn goresgyn y sefyllfa bresennol lle nad oes cymhelliant i ofalwyr maeth barhau i roi cartref i bobl ifanc ar ôl iddynt gyrraedd 18 oed.

Galluogwyr a rhwystrau

Bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan wasanaethau cymdeithasol yr adnoddau i ddiwallu anghenion y grŵp hwn yn briodol.

Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, yn yr adran yn ymdrin â'r cyflenwad o dai, cydnabyddir yn gyffredinol bod bylchau yn y cyflenwad a bod angen mynd i'r afael â'r rhain. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod digon o lety â chymorth i bobl ifanc ddiartref.

Mae'r Panel yn cydnabod y gall y ffaith nad yw pobl ifanc 16 a 17 oed yn gallu dal contractau preswyllo wneud problemau digartrefedd yn fwy cymhleth yn y grŵp oedran hwn. Er hyn, nid oedd y Panel yn credu ei fod mewn sefyllfa i wneud argymhelliad ynglŷn â'r mater hwn, ac mae'n awgrymu y gallai hwn fod yn faes i Lywodraeth Cymru edrych arno ymhellach.

Mae angen rhagor o waith i ystyried pa newidiadau y gellid eu gwneud i'r rhaglen "Pan Fydda i'n Barod" er mwyn galluogi gadawyr gofal i aros gyda gofalwyr maeth am fwy o amser lle bo hyn yn briodol.

5. Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Beth yw'r problem?

Mae goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yn wynebu mwy o risg o brofi digartrefedd yng Nghymru, yr Alban a Lloegr.¹³⁷

Yn aml, mae angen i oroeswyr camdriniaeth a thrais adael y sefyllfaoedd lle maent yn cael eu cam-drin yn gyflym.¹³⁸ Gall hyn olygu ffoi o'r ardal y maent yn gyfarwydd â hi, yn ogystal â rhwydweithiau cefnogi sefydledig, a hyd yn oed eu man gwaith. Yn ogystal, mae'n bosibl na fydd goroeswyr sydd wedi profi ymddygiad sy'n eu rheoli yn gallu cael mynediad at gyllid, ac o ganlyniad mae'n bosibl na fydd ganddynt y modd i ddod o hyd i lety arall. Yn ychwanegol at hyn, dywedodd rhai goroeswyr hefyd nad oeddent wedi cael budd-daliadau lles neu gymorth digartrefedd, cyn ffoi o berthynas lle'r oeddent yn cael eu cam-drin, a'u bod yn teimlo bod diffyg ymwybyddiaeth ynglŷn â sut yr oedd y gwasanaethau hyn yn gweithio yn rhwystr ychwanegol.

Er bod mwy o risg o ddiartrefedd i oroeswyr camdriniaeth, dywedodd pobl â phrofiad personol a gweithwyr cymorth o'r sector wrth y Panel fod y grŵp hwn yn gallu wynebu nifer o wahanol anawsterau wrth geisio cael cymorth llety. Un thema sylfaenol gyffredin oedd y ffaith nad oes gan dimau cymorth tai ddealltwriaeth o gam-drin domestig, ac o ganlyniad, mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod goroeswyr yn gallu cael cymorth yn fuan, yn hytrach nag aros nes byddant yn ffoi oddi wrth y sawl sy'n eu cam-drin, ac yn cysylltu â gwasanaethau mewn argyfwng. Dywedodd un goroeswr wrthym:

"Mae angen gwneud mwy ar yr ochr ataliol. Cyn gynted ag y mae rhywun yn sylweddoli ei fod yn cael ei gam-drin, mae angen estyn allan a darparu man diogel y gall y person hwnnw fynd iddo, cyn i'r gamdriniaeth waethgu."

Problem arall a nodwyd yn aml oedd bod goroeswyr sy'n berchen ar eiddo ar y cyd â'r sawl sy'n eu cam-drin wedi cael profiadau o beidio â chael eu trin fel person digartref oherwydd bod ganddynt ran mewn eiddo (er nad oedd yr eiddo hwnnw'n ddiogel i fyw ynddo). Er bod y gyfraith bresennol yn nodi y dylid dosbarthu goroeswyr cam-drin domestig sy'n berchen ar eiddo fel

unigolion digartref os nad yw'n ddiogel iddynt feddu'r cartref hwn, a bod Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn rhoi amddiffyniad i'r rhai sy'n meddiannu dan gontract meddiannu ar y cyd â'r sawl sy'n eu cam-drin, mae profiadau o fywyd go iawn yn dangos nad yw'r agweddau hyn ar y gyfraith yn cael eu gweithredu bob amser. Dywedodd goroeswyr wrth y Panel:

"Roedd yn wael oherwydd gan fod gen i fy eiddo fy hun, do'n i ddim yn cael fy nosbarthu fel rhywun a oedd yn wynebu risg neu a oedd yn ddiartref, ac eto roedd marcwyr yr heddlu yn erbyn fy nhŷ."

"Doedd yna ddim llwybr clir. Gan fod gen i forgais, doedd gen i ddim syniad beth i'w wneud."

Roedd adolygiad annibynnol yn 2014 o wasanaethau VAWDASV yng Nghymru¹³⁹ hefyd yn cyfeirio at anawsterau wrth geisio dod o hyd i lety diogel i fenywod â gwaith cyflogedig, oherwydd gan nad oedd ganddynt hawl i fudd-dal tai, sydd hefyd yn cynyddu'r risg o fod yn ddiartref neu aros mewn sefyllfa anniogel.

Defnyddir y model lloches ledled Cymru fel math o loches argyfwng. Yn ychwanegol at hyn, mae llawer o lochesi yn ceisio cynnig rhaglen wedi'i chynllunio o gefnogaeth therapiwtig ac ymarferol a mynediad at gefnogaeth cymheiriaid gan oroeswyr eraill.¹⁴⁰ Er hyn, nododd y rhanddeiliaid, oherwydd prinder llety addas i symud ymlaen iddo, bod goroeswyr yn aros mewn llety lloches am amser hir er eu bod yn barod i symud i gartref sefydlog. Mae hyn yn rhwystru'r goroeswr a'i blant rhag symud ymlaen â'u bywydau, ac mae hefyd yn achosi tagfeydd yn y system ac yn golygu bod llai o lety lloches ar gael i oroeswyr newydd a allai ddod ymlaen.

Canfu adroddiad a gyhoeddwyd yn 2020¹⁴¹ fod y model lloches cynullol traddodiadol yn cynnig nifer o fanteision amrywiol, megis diogelwch ac anonymedd, mynediad at gymorth gan

gymheiriaid a chymorth dwys ar y safle, ond gall heriau godi hefyd. Roedd yr heriau hyn yn cynnwys y posibilrwydd o orfod symud oddi wrth rwydweithiau cefnogi, mynediad i fenywod â phlant gwrywaidd 16 oed a grwpiau trawsryweddol, rheolau tŷ cyfyngol a fwriadwyd er mwyn sicrhau diogelwch yn y lloches, ac achosi mwy o straen oherwydd bod yn rhaid byw yn agos at bobl eraill, yn enwedig os nad yw'r perthnasoedd rhwng cymheiriaid yn y llety hwn yn rhai cadarnhaol. Ategwyd y canfyddiadau hyn gan arbenigwyr drwy brofiad a oedd, er eu bod yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth ymarferol a oedd ar gael yn y lloches, yn profi anhawster hefyd gan fod y llety'n cael ei rannu.

"Mae'r gefnogaeth yn wych yn y lloches, ond mae'n anodd iawn byw gyda phobl eraill, yn enwedig os oes gennych chi blant."

"Byddai fflat hunangynhwysol â chymorth wedi bod yn well. Mae lloches yn anodd, yn enwedig pan ydych chi'n rhannu gyda llawer o bobl. Mae rheolau penodol y mae'n rhaid i chi eu dilyn mewn lloches."

Mae goroeswyr sy'n ddiartref ac sydd â nifer o anghenion croestoriadol (megis problemau iechyd meddwl neu broblem defnyddio cyffuriau) yn wynebu rhwystrau mwy fyth wrth geisio cael cymorth arbenigol i'w helpu i wella ar ôl camdriniaeth a thrawma.¹⁴² Mae llochesi yn aml yn gwrthod mynediad i'r rhai sydd ag anghenion mwy cymhleth gan ddweud na allant ddiwallu eu hanghenion, tra mae problemau megis camddefnyddio cyffuriau yn gallu aflonyddu ac achosi gorbryder i oroeswyr eraill yn y lloches sydd angen man diogel. O ganlyniad, er bod llochesi cynullol yn chwarae rhan hollbwysig, mae hefyd yn bwysig sicrhau bod atebion tai gwasgaredig a chymorth yn y gymuned ar gyfer y grŵp hwn a grwpiau eraill nad yw llochesi cynullol traddodiadol yn opsiwn addas iddynt o bosibl.

137 UN Women (2020) *The Shadow Pandemic: Violence against women during COVID-19*. Darllenwyd 24 Awst 2023. <https://www.unwomen.org/en/news/in-focus/in-focus-gender-equality-in-covid-19-response/violence-against-women-during-covid-19>

138 Safe Lives (2018) *Safe at Home: Homelessness and domestic abuse*.

139 Berry, V., Stanley, N., Radford, L., McCarry, M. a Larkins, C. (2014) *Building Effective Responses: An Independent Review of Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence Services in Wales*.

140 Cymorth i Fenywod Cymru (2020) *Time to Act on Sustainability*.

141 Adisa, O., Allen, K., Costello, F. a Meehan, A. (2020) *A scoping review of refuge provision models*. Prifysgol Suffolk.

142 FEANTSA (2022) *Housing First and Women: Case studies from across Europe*.

Mae adroddiad gan Gymorth i Fenywod Lloegr¹⁴³ yn nodi rhwystrau gan nad oes gan lochesi y capasiti i gefnogi goroeswyr ag anghenion iechyd meddwl penodol ac anghenion cymorth sy'n gysylltiedig â sylweddau, yn ogystal ag anawsterau wrth gynorthwyo menywod nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus (NRPF). Mae menywod nad oes ganddynt sicrwydd ynglŷn â'u statws mewn fudo, neu sydd â'u statws mewn fudo yn dibynnu ar gyfar neu gyflogwr, yn aml yn wynebu mwy o risg o drais a chamfanteisio, lle mae'r cyflawnwr yn defnyddio hyn fel ffordd arall o reoli.¹⁴⁴ Ac eto, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae'r grŵp hwn yn wynebu rhwystrau penodol wrth geisio cael cymorth tai.

Dyweddodd rhanddeiliaid hefyd fod tai a chymorth priodol i'r rhai sy'n cam-drin hefyd yn ffactor pwysig yn niogelwch goroeswyr. Gall sicrhau bod cyflawnwyr yn cael ymyriad priodol helpu i atal y gam-driniaeth rhag parhau ac arwain at ddiogelwch y goroeswr. Rhannodd un goroeswr ei brofiad uniongyrchol, gan ddweud:

“Ges i mam ar y ffôn yn crio achos ei fod o [y cyflawnwr] yn byw mewn pabell. Ro'n i'n teimlo dan bwysau i adael iddo fo ddod yn ôl i'r cartref. Doedd gen i nunlle arall i fynd efo 3 o blant. Byddai'r Cyngor yn sicr wedi gallu gwneud mwy – efallai nad oedd o eisiau mynd i'r lleoedd roedden nhw'n eu cynnig iddo fo. Efallai y byddai wedi dod yn ôl p'un bynnag. Ond o'n i bob amser yn teimlo bod pwysau arna i.”

Er bod y ddeddfwriaeth bresennol yn nodi na ellir atgyfeirio'r rhai sy'n ffoi rhag camdriniaeth ddomestig dan reolau cysylltiad lleol i ardal arall lle byddent yn wynebu risg o gamdriniaeth ddomestig, gwelwyd enghreifftiau o ymarfer gwael ac anystyriol. Yn y cyfamser roedd adroddiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ddigartrefedd¹⁴⁵ yn cyfeirio at enghreifftiau o adolygu achosion penodol a oedd yn cynnwys cleientiaid yn cael eu lleoli mewn eiddo ger cyn-bartneriaid treisgar,¹⁴⁶ er bod y swyddog achos yn gwybod am y broblem cyn hynny.

Er bod rhesymau amlwg a phwysig dros sicrhau bod deddfwriaeth digartrefedd yn galluogi'r rhai hynny sy'n ffoi rhag cam-drin domestig i gael cymorth mewn awdurdod lleol ar wahân i'w hawdurdod cartref lle bo'n briodol, dywedodd y rhanddeiliaid bod hyn mewn rhai achosion hefyd yn gallu cael ei ddehongli mewn ffordd sy'n cyfyngu ar ddewis goroeswyr. Dywedodd y rhanddeiliaid hyn mai'r hyn a ffefrid gan oroeswr o bosibl, mewn rhai achosion, oedd aros yn ei ardal gartref â mesurau diogelwch yn eu lle. Yn ychwanegol at hyn, pwysleiswyd y dylai goroeswyr cam-drin domestig gael hawl i newid eu meddwl ynglŷn â pha leoliad y maent yn teimlo'n ddiogel ynddo.

Thema sylfaenol arall yn ein trafodaethau gyda goroeswyr a'r gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi'r grŵp hwn oedd pwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) arbenigol ac ystyriol o drawma yn cael eu darparu. Dywedodd un goroeswr wrth y Panel:

“Roedd gen i weithiwr cymorth cyffredinol. Roedd y gweithiwr yn edrych fel pe bai wedi dioddef trawma ei hun ar ôl clywed beth oedd gen i i'w ddweud. Mae cael rhywun sydd â'r sgiliau i allu dal y wybodaeth yna a rhoi atebion ymarferol ar y bwrdd yn bwysig iawn.”

Dyweddodd y goroeswyr hyn hefyd y gallai treulio amser maith mewn llety dros dro yn aros am gartref sefydlog wneud pethau'n waeth ac ychwanegu at y trawma yr oeddent wedi ei brofi'n barod. Mewn rhai achosion, siaradodd goroeswyr am yr anawsterau gweinyddol wrth gael eu trosglwyddo i awdurdod arall, gan dynnu sylw at y straen ychwanegol y gall hyn ei achosi.

Yn gyffredinol, er bod rhai mesurau amddiffyn ar gyfer y rhai sy'n ffoi rhag cam-drin domestig yn y ddeddfwriaeth ddigartrefedd bresennol, roedd yn amlwg nad yw'r mesurau amddiffyn hyn bob amser yn cael eu cymhwyso'n briodol ac nad ydynt yn ystyried anghenion amrywiol y grŵp hwn.

A oes angen newid cyfreithiol?

Mae'r Panel yn credu bod angen newid deddfwriaethol er mwyn diwygio'r diffiniad o "gam-drin" yn Neddf Tai (Cymru) 2014, yn unol â'r diffiniad yn Lloegr yn Neddf Cam-drin Domestig 2021, fel bod mesurau amddiffyn ar gyfer goroeswyr yn cynnwys y rhai sydd wedi profi gwahanol fathau o gamdriniaeth.

Bydd argymhellion pellach ynglŷn â deddfwriaeth sylfaenol a chanllawiau yn sicrhau bod goroeswyr yn cael cymorth i gael mynediad i'r llety lle byddant yn teimlo'n ddiogel.

Mae yna hefyd gyfres o argymhellion anneddfwriaethol sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o gamdriniaeth, gwella materion yn ymwneud â lleoli cyflawnwyr camdriniaeth, sicrhau (lle bo'n briodol) bod goroeswyr yn cael yr opsiwn i gael cymorth i aros yn eu cartref presennol, yn ogystal ag annog ffyrdd amlasiantaethol o weithio sy'n ystyriol o drawma.

Ar draws yr adroddiad hwn, mae nifer o argymhellion eraill sy'n ceisio cynorthwyo â'r materion a godwyd uchod. Yn fwyaf arbennig, mae'r Panel yn gwneud argymhellion penodol dan gysylltiad lleol er mwyn cefnogi anghenion goroeswyr camdriniaeth yn well (tudalennau 23–26), dan gynyddu opsiynau tai er mwyn hwyluso ystod ehangach o opsiynau llety (gweler tudalennau 39–41), dan adran gymhwystra yr adroddiad hwn (tudalen 18), ac o dan dyraniadau er mwyn helpu i sicrhau bod cyflawnwyr troseddau cam-drin yn cael eu lleoli (tudalen 46). Mae argymhellion ehangach y Panel yn ymwneud â hyfforddiant ystyriol o drawma ar gyfer staff tai, a dyletswyddau ar gyfer sector cyhoeddus i helpu i adnabod digartrefedd.

Argymhellion y Panel

Gwneud diffiniadau o gam-drin yn unol â'r ddeddfwriaeth yn lloegr (Deddf Tai 1996 a Deddf Cam-drin Domestig 2021)

129. Dylid diwygio'r diffiniad o "gam-drin" yn Adran 58(1) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i gynnwys ymddygiad sy'n rheoli neu orfodi, camdriniaeth economaidd neu gamdriniaeth seicolegol.

130. Dylid diwygio'r diffiniad o "gam-driniaeth ddomestig" yn Adran 58(2)(h) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 fel bod modd iddo fod yn gynnwys lle mae camdriniaeth yn cael ei

chyflawni gan unigolyn sydd mewn perthynas bersonol agos â'r dioddefwr, gan ddileu'r gofyniad y dylai fod wedi parhau am gyfnod sylweddol.

131. Dylai canllawiau bwysleisio y gallai'r risgiau y mae goroeswr yn eu hwynebu esblygu. Dylai canllawiau nodi bod awdurdodau tai lleol yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion goroeswyr, gan gynnwys lle bo goroeswr wedi cael cymorth i gadw llety ac nad yw'n rhesymol yn ddiweddarach iddi barhau i'w feddiannu.

“Gweithredu a Gofyn”

132. Dylid darparu canllawiau i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i'w cynorthwyo i gydymffurfio â'u dyletswyddau cydweithredu ychwanegol a gofynion cyfreithiol fel y nodir yn adran 1g o'r Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys y ddyletswydd “Gofyn a Gweithredu”.

133. Dylid ystyried darparu hyfforddiant “Gofyn a Gweithredu” i landlordiaid preifat fel rhan o broses gofrestru Rhentu Doeth Cymru.

134. Dylai swyddogion tai awdurdodau lleol gael hyfforddiant “Gofyn a Gweithredu.”

Tai

135. Dylai canllawiau statudol nodi pa gymorth y gallai fod ar geisydd sy'n ddigartref o ganlyniad i gamdriniaeth neu gamdriniaeth ddomestig fod ei angen. Dylai'r canllawiau hyn ymwneud â sut y dylid cynorthwyo ceisydd i ddychwelyd i'w llety presennol os yw'n dymuno gwneud hynny (gweler yr argymhellion ar gynyddu opsiynau tai a'r ddyletswydd i gynnig cymorth i gadw llety), yn ogystal â'r angen i ystyried barn y ceisydd ynglŷn â ble mae'n teimlo'n ddiogel (gweler yr argymhelliad yn yr adran ar Gynlluniau Tai Personol) yn ogystal ag effaith unrhyw gamdriniaeth hanesyddol.

(Gweler hefyd argymhellion perthnasol eraill dan adrannau cynharach ar gysylltiad lleol ac addasrwydd, gan gynnwys yr angen i ystyried rhwydwaith cefnogi ceisydd, a allai fod yn ehangach na chysylltiadau teuluol. Gweler hefyd argymhellion ar oroeswyr camdriniaeth nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus dan yr adran ar gymhwystra.)

143 Ffederasiwn Cymorth i Fenywod Lloegr (2022) *Nowhere to Turn*. t. 11.

144 Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2021) *Improving pathways to support for migrant victims of domestic abuse*.

145 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (2021) *Adolygiad Digartrefedd: drws agored i newid cadarnhaol*.

146 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2023) *Erthygl 8: Parch am eich bywyd preifat a theuluol*.

Cyflawnwyr camdriniaeth

136. Dylai Llywodraeth Cymru geisio cryfhau canllawiau ac ymwybyddiaeth o'r hawl, gan unigolyn sy'n dal contract ar y cyd a chan landlord, i derfynu contract meddiannaeth lle bo deiliad contract ar y cyd yn euog o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu wedi rhoi'r gorau i feddiannu'r llety (Pennod 14, Rhan 2, Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016).

(Gweler hefyd argymhelliaid 131 a hefyd argymhelliaid 74 a wnaethpwyd yn gynharach dan ddyrannu llety i gyflawnwyr camdriniaeth)

Galluogwyr a rhwystrau

Roedd y Panel yn cytuno â'r adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru¹⁴⁷ a oedd yn dangos bod angen gwella'r trefniadau rhannu data er mwyn helpu goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dylai argymhelliaid y Panel mewn rhan arall o'r adroddiad hwn, sy'n nodi y dylai sefydliadau cyhoeddus ehangach nodi a chydweithredu pan fydd unigolyn yn ddiartref neu'n wynebu risg o fod yn ddiartref, fod o gymorth i fynd i'r afael â hyn (gweler tudalen 61).

Roedd yn amlwg o'n proses ymgysylltu â rhanddeiliaid fod llawer o'r rhwystrau a wynebir gan y rhai sy'n dianc rhag trais yn codi o ganlyniad i gamgymhwyso'r gyfraith. Mae'r Panel yn credu y dylai ein hargymhellion ynglŷn â darparu canllawiau yn y gofod hwn helpu i ddarparu eglurder. Bydd yn bwysig cynnwys y rhanddeiliaid perthnasol yn y broses o greu canllawiau o'r fath.

Yn ychwanegol at hyn, mae'r Panel yn credu y bydd darparwyr cymorth tai arbenigol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn dal i chwarae rhan allweddol wrth gefnogi'r grŵp hwn.

6. Carcharorion a rhai sy'n gadael carchar

Beth yw'r broblem?

Mae cyfran fawr o bobl o Gymru sy'n gadael y ddalfa yn canfod eu hunain yn profi digartrefedd ar ôl cael eu rhyddhau.¹⁴⁸ Clywodd y Panel dystiolaeth gan rhanddeiliaid, gan gynnwys pobl â phrofiad personol, a oedd yn dangos bod y risg uwch o ddiartrefedd a brofir gan bobl sy'n gadael sefydliadau diogel yn aml yn cael ei hachosi a/ neu ei gwaethygu gan ddiffygion yn y systemau a'r strwythurau presennol.

Er bod y 'Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel' yn darparu canllawiau i asiantaethau sy'n ymwneud â chynllunio ar gyfer ailsefydlu'r rhai sydd yn y ddalfa, o'r adeg y maent yn cael eu derbyn i'r ddalfa tan yr adeg y maent yn cael eu rhyddhau, mae'n amlwg nad yw'r canllawiau yn gweithio fel y bwriadwyd iddynt wneud. Yn ôl Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi dim ond 3% o garchardai yng Nghymru a Lloegr oedd yn 'dda' yng nghyswllt 'cynllunio ar gyfer adsefydlu a rhyddhau' yn 2021-22.¹⁴⁹

Yn y cyfamser, mae data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dangos, yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2023, bod 13.7% o'r bobl a oedd yn gadael carchar yng Nghymru a Lloegr heb gael eu rhoi mewn llety ar y noson ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Bydd rhai o'r unigolion hyn a oedd yn gadael carchar wedi cael eu lleoli mewn llety ansefydlog neu dros dro, sy'n cael ei adlewyrchu yn rhannol gan ystadegau sy'n dangos bod bron i chwarter y rhai a oedd wedi gadael carchar (24.4%) heb fod mewn llety sefydlog dri mis ar ôl cael eu rhyddhau.

Diffyg llety ar ôl i bobl gael eu rhyddhau o'r carchar oedd y broblem fwyaf cyffredin a godwyd gan arbenigwyr drwy brofiad a oedd yn y carchar neu a oedd wedi bod yn y carchar yn ddiweddar. Roedd llawer wedi cael profiad o gael eu rhyddhau o'r carchar i ddiartrefedd ac yn disgrifio pa mor anodd roedd hyn wedi bod wrth geisio ymdopi â throsglwyddo yn ôl i'r gymdeithas:

"Pan wnes i ddod allan o'r carchar rhoddodd yr awdurdod lleol babell i mi a bŵm yn byw ynnddi am dair wythnos. Mae gadael carchar yn ddigon o straen ar y gorau. Ro'n i'n teimlo'n fregus, a chymaint o embaras. Dylwn i gael to uwch fy mhen. Rwy'n poeni y bydd yr un peth yn digwydd pan fydda i'n cael fy rhyddhau y tro yma. Does dim siawns i rywun ddod drwyddi. Dylai rhywun allu cofrestru ymlaen llaw â'r Cyngor [i gael llety]."

"Ddois i allan yn 2018 ond dywedodd y gweithwyr prawf wrtha i nad oedd gen i angen blaenoriaethol a bod dim byd y bydden nhw'n gallu ei wneud. Wnaethon nhw roi sach gysgu i mi a chefais fy ngadael ar y stryd."

Dangosodd proses y Panel o ymgysylltu â rhanddeiliaid fod angen gwneud defnydd cyson o brosesau cynllunio cynnar ac asesiadau o anghenion er mwyn sicrhau bod llety ar gael yn barod ar gyfer y diwrnod rhyddhau. Clywodd y Panel fod y gwaith o gynllunio ar gyfer rhyddhau carcharor yn aml yn cael ei adael nes bydd y dyddiad rhyddhau bron â chyrraedd. Yn ôl un arbenigwr drwy brofiad:

"Dylid cynllunio ar gyfer ailsefydlu ar ddechrau'r ddedfryd o garchar, nid ar y diwedd."

Ffactor allweddol arall sy'n achosi i garcharorion gael eu rhyddhau i ddiartrefedd yw'r ffaith fod mwy na thraean y carcharorion yn cael eu rhyddhau ar ddydd Gwener,¹⁵⁰ sy'n golygu bod pobl yn aml yn methu â gwneud trefniadau angenrheidiol ar gyfer llety tan y dydd Llun canlynol, neu'n ddiweddarach os ydynt yn cael eu rhyddhau ar ddydd Gwener cyn gŵyl y banc.¹⁵¹

Clywodd y Panel hefyd nad yw carcharorion yn cael digon o wybodaeth neu gyngor ynglŷn â'u hawliau tai tra yn y carchar. Gall hyn arwain at ddryswch ac ansicrwydd a all carcharor gadw ei denantiaeth tra bydd yn treulio ei ddedfryd.

"Mae gen i rywle i fyw gyda [cymdeithas dai]. Rydw i yn y carchar am ddau fis a hanner. Rydw i wedi cael llythyr [gan y gymdeithas dai] yn dweud wrtha i bod yn rhaid i mi lofnodi i drosglwyddo fy nhenantiaeth, ond rwy'n gwrthod gwneud achos mae'n bosibl y bydda i allan cyn bo hir. Gobeithio cael y DHP i dalu rhent interim."

Oherwydd diffyg tryloywder ac ymwybyddiaeth o hawliau, ynghyd â diffyg mynediad at gyngor annibynnol, roedd rhai carcharorion yn teimlo bod pwysau arnynt i ildio eu tenantiaeth yn ogystal â mynd ar ei hôl hi â'u taliadau rhent. Pwysleisiodd eraill eu bod wedi colli eu heiddo personol, a oedd wedi gwneud adsefydlu i gymdeithas ac addasu i fywyd ar ôl carchar yn anos byth.

"Rwy'n wynebu'r baich ariannol o orfod talu costau llety blaenorol. Cymerodd lawer o amser i gau'r fflat ar ôl i mi gael fy ngalw'n ôl i'r carchar. Cafodd y gwaith papur ei ddal yn ôl. Cefais fil am y rhent yn ystod y cyfnod hwnnw, felly roedd gen i fwy o ddyled. Mae fy nwyddau gwyn yn dal yn y fflat er nad fy fflat i ydy o ddim mwy. Ffoniodd y carchar y gymdeithas dai i geisio sortio'r problemau llety a'r eiddo, ond dywedodd y gymdeithas dai nad oeddwn i'n denant. Ond pan ges i fy rhyddhau dyma nhw'n dweud fy mod i'n denant a bod angen iddyn nhw gasglu'r ôl-ddyledion rhent a chostau eraill."

"Dim ond am flwyddyn ro'n i yn y carchar a byddwn i wedi hoffi rhoi fy eiddo yn rhywle i gael eu storio. Collais fy mhopty, oergell, popeth. Pan ddois i allan o'r carchar, doedd gen i ddim byd."

Yn ogystal â'r risg uniongyrchol o ddiartrefedd y mae pobl yn ei hwynebu wrth adael y carchar, mae'r grŵp yma hefyd yn wynebu rhwystrau llety hirdymor. Clywodd y Panel am achosion lle canfu unigolion a oedd yn gadael y carchar fod dod o hyd i lety yn gymaint o her nes eu bod wedi mynd yn ôl i'w patrymau blaenorol neu hyd yn oed wedi ceisio aildroseddu er mwyn dychwelyd i'r carchar. Cefnogir hyn gan dystiolaeth gan y Weinyddiaeth

147 Swyddfa Archwilio Cymru (2019) *Cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith.*

148 Llywodraeth Cymru (2022) *Sicrhau cyfiawnder i Gymru.* t. 87.

149 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a HMPPS (2023) *Improving resettlement support for prisoners to reduce reoffending.*

150 Mae hyn yn cynnwys trefnu i ryddhau ar ddydd Gwener yn ogystal â dyddiadau rhyddhau sy'n digwydd bod ar ddydd Sadwrn, dydd Sul neu Wyl y Banc.

151 Nacro (2021) *Friday Prison Releases Briefing update September 2021.*

Amddiffyn sy'n dangos bod troseddwr mewn llety sefydlog 50% yn llai tebygol o gyflawni rhagor o droseddau.¹⁵²

Mae adroddiad Sicrhau Cyfiawnder i Gymru gan Lywodraeth Cymru yn amlinellu rhai o'r 'llu o heriau'¹⁵³ y gallai pobl eu hwynebu wrth gael eu rhyddhau o'r carchar, ac ategwyd pob un ohonynt ym mhroses ymgysylltu â rhanddeiliaid y Panel.

Wrth geisio cael mynediad i'r sector rhentu preifat, mae pobl sy'n gadael y carchar yn aml yn cael anhawster oherwydd bod landlordiaid yn gofyn i ddarparu denantiaid ddarparu geiradaon, datganiadau banc, manylion adnabod, blaendaliadau mawr, gwarantwyr neu rent ymlaen llaw. Problem arall yw bod rhai landlordiaid yn anfodlon gadael eu heiddo i bobl sydd ag euogfarnau troseddol blaenorol a bod gan lawer o landlordiaid bolisiau yswiriant nad ydynt yn cynnwys tenantiaid sydd wedi cael eu dyfarnu'n euog o gynnu tanau bwriadol.

Dyweddodd rhanddeiliaid hefyd y gall pobl sy'n gadael y carchar wynebu rhwystrau penodol lle mae cyfyngiadau o ran ble y gallant fyw oherwydd natur eu trosedd (cyfeirir atynt fel Troseddwr Cyson a Throseddwr Eraill â Blaenoriaeth). Mae'r rhwystrau hyn yn ymwneud yn bennaf â'r fframiau amser estynedig ar gyfer cymeradwyo eiddo, diffyg cynllunio ymlaen llaw â chymorth a chyfathrebu gwael rhwng awdurdodau. Er enghraifft, dywedodd arbenigwr drwy brofiad wrth y Panel:

“Gollyngodd y carchar fi yn [awdurdod lleol] ond erbyn deall doedd gen i ddim hawl i fod yno. Roedd yn rhaid i mi wario £35 o'm grant rhyddhau ar dacs i [awdurdod lleol] oherwydd doeddwn i ddim yn cael mynd ar y trên yn yr ardal a oedd wedi'i chynnwys yn fy nghyfyngiadau. Doedd y swyddogion prawf yn y ddau awdurdod lleol ddim wedi siarad â'i gilydd.”

Rhwystrau eraill i bobl sydd wedi treulio cyfnod yn y carchar sy'n ceisio dod o hyd i lety sefydlog yw'r prawf cysylltiad lleol, a drafodir ar dudalennau 23–26 a pholisiau dyrannu tai, a drafodir ar dudalennau 41–47.

A oes angen newid cyfreithiol?

Mae'r Panel yn credu bod angen newid deddfwriaethol er mwyn sicrhau bod cynlluniau yn cael eu gwneud yn gynharach ar gyfer anghenion llety carcharor pan fydd yn cael ei ryddhau.

Yn gyntaf, mae'n hollbwysig egluro bod carcharorion mewn amgylchiadau perthnasol 'dan fygythiad o ddiartrefedd' a bod ganddynt hawl i'r ddyletswydd atal statudol. Yn ail, os a phan gaiff y ddyletswydd liniaru ei dileu, mae'n bwysig cymhwyso'r prawf cysylltiad lleol yn y cam dyletswydd atal i garcharorion fel bod yr un awdurdod lleol yn gallu eu cefnogi drwy'r cam ataliol hwn ac â chynnig o lety ar ôl rhyddhau o'r carchar, gan ddarparu trefniadau pontio rhwyddach.

Y tu hwnt i'r newidiadau deddfwriaethol hyn, bydd yn bwysig hefyd gwella canllawiau perthnasol, ac ystyried a ddylid rhoi agweddau penodol ar y canllawiau presennol ar sylfaen statudol.

Sylwer: Mae argymhellion eraill sy'n ymwneud yn benodol ag anghenion carcharorion dan yr adrannau ar gysylltiad lleol (tudalennau 23–26), dyraniadau (tudalennau 41–47) a'r ddyletswydd i adnabod a chydweithredu (tudalennau 63–65).

Argymhellion y Panel

Mae argymhellion y Panel yn canolbwyntio ar dri maes: cymorth tai a chynllunio tra yn y carchar, diffiniadau statudol o ddiartrefedd sy'n ymwneud â charcharorion a gwella mynediad at lety i rai sy'n gadael carchar.

Mae'r argymhellion hefyd yn ceisio mynd i'r afael â mater carcharorion yn colli eu heiddo personol a darparu eglurder, fel mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn, mai'r gwasanaethau cymdeithasol ddylai fod yn bennaf gyfrifol am gefnogi pobl ifanc ddiartref 16 a 17 oed sy'n gadael carchar.

Diffiniadau statudol o ddiartrefedd sy'n ymwneud â charcharorion

137. Dylai deddfwriaeth nodi nad yw carcharorion yn ddiartref yn ystod cyfnod eu dedfrydau o garchar. Os ydynt yn debygol o gael eu rhyddhau cyn pen chwe mis, ac os nad oes

llety ar gael iddynt ei feddiannu sy'n rhesymol iddynt barhau i'w feddiannu, byddant dan fygythiad o ddiartrefedd.

138. Dylai deddfwriaeth nodi, os oes ar garcharorion angen llety gan awdurdod tai lleol er mwyn cael ei ryddhau'n gynnar, ar barôl neu ar fechniaeth, y bydd y carcharor yn cael ei ystyried yn ddiartref ar y dyddiad rhyddhau'n gynnar, a bydd prif ddyletswydd i ddarparu llety Adran 75(1) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn gymwys, fel nad yw carcharor yn cael ei atal rhag cael ei ryddhau oherwydd nad oes ganddo lety.

Cymorth tai a chynllunio tra yn y carchar

139. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a diweddarau'r Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel ar y cyd â phartneriaid allweddol, gan ystyried a ellid rhoi agweddau ar y canllawiau hyn ar sylfaen statudol. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod asesiadau yn y cam derbyn yn ddigon manwl a bod gwybodaeth hygyrch, cefnogaeth a chynngor annibynnol ar dai i garcharorion.

140. Dylid enwi'r swyddog prawf perthnasol fel cydgysylltydd arweiniol wrth gynllunio ar gyfer cymorth tai carcharor mewn dull cydgysylltu achosion sy'n cynnwys yr awdurdod tai lleol a gwasanaethau perthnasol eraill.

Sylwer: Fel y nodwyd yn yr adran ar gefnogi pobl ag anghenion niferus a chymhleth, mae angen dull cydgysylltu achosion lle mae nifer o wasanaethau yn cynorthwyo pobl i gael llety, sy'n digwydd yn aml yn achos carcharorion. Gweler argymhelliad 116 am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r dull hwn.

141. Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau tai lleol weithio gyda gwasanaethau carchar er mwyn sicrhau bod asesiadau cynnar rheolaidd o garcharorion newydd, a gynhelir gan y gwasanaeth carchardai, yn nodi a oes risg i lety carcharor yn ystod ei ddedfryd ac a oes ar y carcharorion angen cynngor ynglŷn â sut i gadw llety neu eiddo o ganlyniad i hyn. Dylai gwasanaethau carchar weithio gyda'r awdurdod tai lleol a phartneriaid perthnasol er mwyn darparu mynediad cyflym at gynngor i'r carcharor yn unol ag Adran 60(4) o Ddeddf

Tai (Cymru) 2014. Gallai hyn gynnwys cefnogi dymuniad carcharor i gadw ei lety presennol tra bydd yn y carchar, os yw hynny'n ymarferol ac yn gymesur (er enghraifft trefnu i dalu budd-dal neu ganiatáu i is-denant feddiannu'r llety).

142. Dylid diwygio Rhan 11 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 er mwyn nodi y dylid cymryd pob cam rhesymol i gynorthwyo carcharor i wneud trefniadau i gadw ei eiddo tra bydd yn treulio ei ddedfryd.

143. Dylai gwasanaethau opsiynau tai lleol weithio gyda'r llysoedd a'r gwasanaeth carchardai er mwyn sicrhau bod cynngor ynglŷn ag opsiynau tai ar gael yn rhwydd mewn llysoedd a charchardai.

144. Dylai deddfwriaeth nodi bod angen cynnal yr asesiad o angen a llunio'r Cynllun Tai Personol yn ystod cyfnod y ddyletswydd atal (chwe mis cyn rhyddhau), tra bo'r ceisydd yn y carchar.

Gweler argymhelliad 19 am fanylion ynglŷn â phryd y dylid cymhwyso'r prawf cysylltiad lleol i garcharorion.

145. Dylai canllawiau gynnwys awgrymiadau ynglŷn â sut y bydd angen addasu Cynllun Tai Personol o bosibl er mwyn diwallu anghenion penodol carcharorion. Gallai hyn gynnwys cefnogi dymuniad carcharor i gadw ei lety presennol tra bydd yn y carchar, lle bo hynny'n ymarferol ac yn gymesur (er enghraifft trefnu i dalu budd-dal neu ganiatáu i is-denant feddiannu'r llety).

146. Rhaid i'r awdurdod tai lleol ailasesu'r asesiad o angen a'r Cynllun Tai Personol pan fydd y diwrnod rhyddhau yn agosáu, neu fel sy'n berthnasol os oes newid i ddyddiad rhyddhau bwriadedig neu os bydd amgylchiadau'n newid.

(Mae rhagor o fanylion ac argymhellion yn ymwneud â Chynlluniau Tai Personol wedi'u cynnwys yn yr adran Cynlluniau Tai Personol ar dudalen 56.)

152 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a'r Gwir Anrhydeddus Damian Hinds AS (2023) *Basic housing to keep offenders off streets and cut crime*.

153 Llywodraeth Cymru (2022) *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru*. t. 87.

Gwella mynediad at lety wrth ryddhau o'r carchar

147. Dylid gallu cynnig llety i'r carcharor yn ystod cyfnod y ddyletswydd atal, er mwyn iddo fod ar gael pan fydd yn cael ei ryddhau, naill ai dan gontract meddiannaeth neu ar sail fwy anffurfiol (llety â theulu neu ffrindiau).
148. Dylai Llywodraeth Cymru geisio annog yr ymarfer o osgoi rhyddhau o'r carchar ar ddydd Gwener, ar benwythnosau ac ar wyliau banc, fel yr amlinellwyd yn Neddf Troseddwy (Diwrnod Rhyddhau o'r Carchar) 2023.
149. Dylai Rhentu Doeth Cymru ddarparu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ymhlith landlordiaid preifat er mwyn sicrhau bod mwy o gartrefi ar gael i'w rhentu i rai sy'n gadael carchar.

Pobl ifanc sy'n gadael sefydliadau diogel

150. Dylai deddfwriaeth a chanllawiau nodi'n glir bod carcharorion 16 a 17 oed, sy'n disgwyl cael eu rhyddhau cyn pen chwe mis, yn gyfrifoldeb i'r gwasanaethau cymdeithasol.
151. Dylai carcharorion ifanc sydd, neu a oedd, yn adawyr gofal, ac a fydd rhwng 18 ac 21 oed pan fyddant yn cael eu rhyddhau (neu rhwng 18 a 24 oed os ydynt mewn addysg neu hyfforddiant) fod yn gyfrifoldeb i'r gwasanaethau cymdeithasol a dylai'r gwasanaethau cymdeithasol ddarparu llety iddynt.
152. Dylai canllawiau sy'n mynd gyda Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 bwysleisio'r angen am Gynllun Gofal a Chymorth i gynllunio ar gyfer llety addas mewn da bryd cyn y dyddiad rhyddhau disgwylidig.

Galluogwyr a rhwystrau

Mae argymhellion a wnaethpwyd mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn – yn enwedig mewn cysylltiad â rhoi dyletswyddau ar sefydliadau'r sector cyhoeddus ehangach i helpu i adnabod pobl a allai fod yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd ac i gydweithredu er mwyn eu cefnogi – hefyd yn bwysig iawn er mwyn sicrhau

bod yr argymhellion yn yr adran hon yn gweithio'n effeithiol.

Cafodd Deddf Troseddwy (Diwrnod Rhyddhau o'r Carchar) 2023, sy'n ceisio rhoi diwedd ar ryddhau o'r carchar ar ddydd Gwener yn achos y bobl fwyaf agored i niwed, Gydsyniad Brenhinol ym mis Mehefin 2023 ac mae'n debygol o ddod i rym cyn diwedd 2023. Bydd y Weinyddiaeth gyfiawnder yn gweithio gyda charchardai er mwyn gweithredu'r newidiadau a dylai hyn fod yn ffactor galluogol arwyddocaol er mwyn osgoi rhyddhau i ddigartrefedd.¹⁵⁴

7. Cyn-filwyr

Fel rhan o'i raglen ymgysylltu â rhanddeiliaid, cysylltodd y Panel â sefydliadau yng Nghymru sy'n cefnogi cyn-filwyr, yn fwyaf arbennig dau sefydliad sy'n arbenigo mewn cymorth llety i gyn-aelodau o'r lluoedd arfog.

Beth yw'r broblem?

Roedd y rhanddeiliaid yn gadarnhaol at ei gilydd ynglŷn â chynnwys y Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog.¹⁵⁵ Cyhoeddwyd y Llwybr hwn am y tro cyntaf yn 2016 ac mae'n ceisio sicrhau bod pob cyn-aelod o'r Lluoedd Arfog yn cael cymorth, os oes angen, i ddod o hyd i lety addas, boed yn syth ar ôl cael ei ryddhau neu yn ddiweddarach yn ei oes. Fodd bynnag, er bod teimlad cyffredinol bod cynnwys y Llwybr hwn yn darparu sylfaen dda ar gyfer gwaith amlasiantaethol, roedd cytundeb hefyd bod rhannau ohono wedi dyddio. O ganlyniad, dywedodd rhanddeiliaid fod angen mwy o fuddsoddiad er mwyn sicrhau bod gan awdurdodau lleol yr adnoddau, y wybodaeth a'r seilwaith i weithredu'r canllawiau hyn.

Awgrymodd elusennau yn y sector cyn-filwyr fod cymorth yn aml yn canolbwyntio ar y rhai sydd wedi gadael y gwasanaeth yn ddiweddar, ond pan mae cyn-filwyr yn profi problemau yn gysylltiedig â thai oherwydd PTSD hwyr neu PTSD sy'n gwaethygu yn ddiweddarach yn eu hoes, nid oes digon o gymorth ar gael.

Dywedodd rhanddeiliaid hefyd fod gan lawer o gyn-filwyr anghenion iechyd meddyliol a chorfforol, sy'n effeithio ar eu gallu i gael llety, a bod dod o hyd i lety hygyrch addas i gyn-aelodau o'r lluoedd arfog sydd ag anabledd yn anodd iawn. Yn ôl un elusen roedd person ifanc a oedd wedi colli ei goes wedi cael ei leoli mewn llety i bobl dros 55 oed lle'r oedd 'rheolau tŷ' yn ymwneud â chyrffyw a chael gwesteion yn ei atal rhag byw bywyd annibynnol a derbyn rhai cyfleoedd gwaith.

Roedd rhanddeiliaid a oedd yn gweithio gyda chyn-filwyr hefyd yn pwysleisio'n gryf y gall y prawf cysylltiad lleol achosi rhwystrau penodol i gyn-aelodau o'r lluoedd arfog a'u teuluoedd (gweler uchod dan yr adran cysylltiad lleol ar dudalennau 23–26.)

Ai newid cyfreithiol yw'r ateb?

Mae'r Panel yn argymhell y dylid diwygio deddfwriaeth ar gysylltiad lleol yn benodol er mwyn cynorthwyo cyn-filwyr, gweler tudalen 25. Yn ogystal, rydym yn cynnig y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda llywodraeth San Steffan er mwyn sicrhau bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn (mewn cysylltiad â llety i'r lluoedd arfog) yn cael ei gynnwys yn y dyletswyddau arfaethedig i nodi, gweithredu, cyfeirio a chydweithredu ag awdurdodau tai lleol er mwyn cefnogi aelodau o'r lluoedd arfog sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o fod yn ddigartref. Yn ogystal â'r newid deddfwriaethol hwn, mae'r Panel hefyd yn gwneud argymhelliad anneddfwriaethol i ddiweddarau'r canllawiau.

Argymhelliad y Panel

153. Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau'r Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog a chwilio am ffyrdd o sicrhau ei fod yn cael ei gymhwyso'n gyson ar draws awdurdodau lleol. Er enghraifft, drwy ystyried a ellid gosod rhannau o'r llwybr ar sylfaen statudol.

Sylwer: Mae argymhelliad 9 hefyd yn ymwneud â chysylltiad lleol a chyn-filwyr.

Galluogwyr a rhwystrau

Bydd yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cysylltu â rhanddeiliaid arbenigol yn ogystal â chyn-filwyr sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd wrth ddatblygu polisi, canllawiau neu ddeddfwriaeth yn y cyswllt hwn.

Dylid cydnabod hefyd bod llawer o'r heriau a nodwyd uchod wedi'u hamlygu gan lawer o grwpiau eraill sy'n wynebu mwy o risg o brofi digartrefedd. O ganlyniad, mae'r Panel yn credu y bydd argymhellion mewn meysydd eraill, darparu hyfforddiant ystyriol o drawma, y ddyletswydd i gynnig cymorth i gadw llety a'r argymhellion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, o fudd i gyn-filwyr yn ogystal â grwpiau eraill.

8. Troseddoli digartrefedd

Beth yw'r broblem?

Mae troseddoli digartrefedd, ac yn fwy penodol cardota a chysgu allan, yn rhwystr sy'n atal pobl rhag dod â'u digartrefedd i ben. Dan Ddeddf Crwydraeth 1824, gall pobl yng Nghymru a Lloegr wynebu camau gan yr heddlu a dirwy o hyd at £1,000 am gysgu allan.

Yn 2023, mae ymatebion Rhyddid Gwybodaeth gan 29 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn dangos bod swyddogion wedi warestio 1,173 o bobl er 2021 am droseddau dan y Ddeddf Crwydraeth.¹⁵⁶

Canfu ymchwil gan Crisis¹⁵⁷ fod ymddiriedaeth yn chwalu rhwng yr heddlu a phobl a oedd yn ddigartref o ganlyniad i gael eu symud ymlaen neu eu dirwyo gan ddefnyddio pwerau yn y Ddeddf Crwydraeth. O ganlyniad, mae cosb yn gwrthio pobl ymhellach oddi wrth wasanaethau cefnogi, wrth iddynt symud i ardaloedd eraill, troi at ymddygiadau mwy peryglus i wneud arian, a/ neu fynd yn gyndyn i ofyn am help pan fyddant yn ddioddefwyr trosedd.

Er bod Senedd y DU wedi pleidleisio i ddiddymu Deddf Crwydraeth 1824 ym mis Mawrth 2022, nid yw llywodraeth y DU wedi dod â'r diddymiad i rym ac nid yw'n bwriadu gwneud hynny nes bydd deddfwriaeth wedi'i chyflwyno yn

154 Nacro (2023) *New law to reduce Friday releases passed.*

155 Llywodraeth Cymru (2016) *Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog.*

156 Wall, T. (2023) *Thousands of homeless people arrested under archaic Vagrancy Act.* The Guardian.

157 Morris, N. (2017) *Scrap the Act: The case for repealing the Vagrancy Act (1824).* Crisis.

ei lle (gweler Cynllun Gweithredu Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Llywodraeth y DU).¹⁵⁸

Mae Llywodraeth Cymru wedi annog heddluoedd yng Nghymru i symud oddi wrth ddefnyddio Deddf Crwydraeth 1824 ac yn lle hynny i ddefnyddio dull cydweithredol sy'n seiliedig ar bartneriaeth i fynd i'r afael â chysgu allan.¹⁵⁹ Er hyn, mae'r syniad o ryw fath o 'ddeddfwriaeth arall' yn codi pryder y gall cysgu allan a chardota gael eu hystyried yn drosedd eto.

A oes angen newid cyfreithiol?

Er bod ymarfer da yng Nghymru yn golygu bod digartrefedd wedi'i ddad-droseddoli at ei gilydd, mae'n bwysig diogelu rhag risgiau o ail-droseddoli drwy gyfraith annatganoledig.

Argymhelliad y Panel

154. Dylai Llywodraeth Cymru atal ymarfer sy'n troseddoli digartrefedd drwy:

- a. alw ar Lywodraeth y DU i symud ymlaen i ddechrau diddymu Deddf Crwydraeth 1824 a sicrhau nad yw cysgu allan a chardota anymosodol yn cael eu troseddoli gan ddeddfwriaeth yn y dyfodol;
- b. parhau i annog heddluoedd yng Nghymru i weithredu ymarfer da nad yw'n troseddoli cysgu allan.

(Gweler hefyd yr argymhellion ar wasanaethau cyhoeddus ehangach ar dudalennau 63–65.)

Galluogwyr a rhwystrau

Nid yw'r ddeddfwriaeth dan sylw yn dod dan awdurdodaeth Llywodraeth Cymru; er hyn, mae gan Lywodraeth Cymru y pŵer i annog ymarfer da gan heddluoedd yng Nghymru.

¹⁵⁸ Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (2023) *Anti-Social Behaviour Action Plan*.

¹⁵⁹ Hutt, J. Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol (2022) *Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd—Cynnig 1, a Chynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd—Cynnig 2*. Trawsgrifiad o ddadl y Senedd, (2023). Darllenwyd 25 Awst 2023. <https://cofnod.senedd.cymru/Plenary/12653#C411153>

RHAN 3: Sicrhau bod y system yn gweithio

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Panel wedi clywed yn gyson am ddiwyddiadau lle mae'r gyfraith bresennol yn cael ei chamgymhwyso, gan achosi gofid mawr i unigolion digartref sydd eisoes yn wynebu amgylchiadau anodd iawn. Mae tystiolaeth o'r profiadau hyn i'w gweld mewn nifer o adroddiadau ac adolygiadau.¹⁶⁰

Wrth i Lywodraeth Cymru geisio cyflwyno deddfwriaeth newydd, rhaid mynd i'r afael â'r bwch gweithredu hwn er mwyn datgloi potensial llawn y diwygiadau deddfwriaethol a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Panel yn credu bod tair prif agwedd i'w hystyried wrth fynd i'r afael â'r bwch: hawliau ceiswyr i wneud iawn ac adolygu; rheoleiddio a gorfodi; a choladu a monitro data.

Mae sicrhau bod ceiswyr yn cael eu cynorthwyo i wybod bod ganddynt hawl i wneud iawn ac adolygu yn rhan sylfaenol o feithrin hyder yn y system a grymuso ceiswyr digartref. Gall sicrhau bod yr hawliau hyn yn eu lle annog ymarfer cadarnhaol a thynnu sylw at achosion o gamgymhwyso.

Mae cyfraith achosion a sefydlwyd drwy apeliadau unigol ac adolygiadau barnwrol hefyd yn ffurfio rhan o sicrwydd ansawdd ehangach. Er hyn, oherwydd ei natur, mae cyfraith achosion yn dibynnu ar unigolion i ddewis cyflwyno achos. Drwy wneud hynny, mae cyfraith achosion yn taflu goleuni pwysig ar ddiwyddiadau penodol, ond nid yw'n darparu sicrwydd ansawdd ehangach ar gyfer system. Dylid nodi hefyd, o gofio bod ceiswyr digartref yn aml yn profi lefelau uchel o drawma, y gallent fod yn llai tebygol o ymarfer eu hawliau i apêl ac adolygiad barnwrol.

Am y rhesymau hyn, rhaid i hawliau ceiswyr gael eu hategu gan fecanweithiau sicrwydd ansawdd eraill sy'n cyflwyno trosolwg o'r ffordd y mae'r system yn gweithio. O ganlyniad, roedd y Panel hefyd yn awyddus i ystyried sut y mae rheoleiddio yn ystyried perfformiad gwasanaethau a gorfodi safonau. Yn ychwanegol at hyn, roedd ar y Panel eisiau edrych sut y gall coladu a monitro data helpu i sicrhau atebolrwydd o ran y ffordd y mae systemau'n gweithio ac a yw deddfwriaeth yn

llwyddo i symud tueddiadau mewn digartrefedd i'r cyfeiriad ataliol, cywir.

1. Hawliau unigolion i gyngor, adolygiad a gwneud iawn

Beth yw'r broblem?

Fel sy'n cael ei gydnabod mewn canllawiau statudol, mae mynediad at gyngor a gwybodaeth ynglŷn â thai, sy'n ddi-dâl, yn ddiuedd, ac yn cynnig sicrwydd ansawdd, yn chwarae rhan allweddol wrth helpu pobl i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ffeithiau, gorfodi neu amddiffyn eu hawliau ac atal eu digartrefedd. Er mwyn bod yn effeithiol, dylai cyngor ynglŷn â thai gynnwys cyngor amrywiol ynglŷn â lles cymdeithasol, gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: cyngor ynglŷn â dyledion a budd-daliadau lles, gwasanaethau hyfforddiant a chyflogaeth, cyngor ynglŷn ag iechyd a gofal cymdeithasol, timau'r sector rhentu preifat, a gwasanaethau cyfryngu.¹⁶¹

Mae Adran 60 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol gynnig cyngor digartrefedd di-dâl i unrhyw unigolyn yn ei ardal, p'un a yw dan fygythiad o ddiartrefedd ai peidio. Gall awdurdodau lleol ddewis a ydynt am ddarparu'r gwasanaeth hwn eu hunain, comisiynu sefydliad arall i ddarparu'r gwasanaeth, neu gydweithredu â sefydliad arall i ddarparu'r gwasanaeth ar y cyd.

Er gwaetha'r ffaith fod gan geiswyr hawl i gael cyngor annibynnol, fel yr eglurwyd yn yr adroddiad hwn, nid yw ceisiadau digartrefedd bob amser yn arwain at y penderfyniadau a'r canlyniadau mwyaf priodol ar gyfer anghenion unigol pob ceisydd.

Dan y ddeddfwriaeth bresennol, mae gan geiswyr digartrefedd hawl, dan Adran 85 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefn Adolygu) (Cymru) 2015, i adolygiad o benderfyniadau allweddol a wnaethpwyd mewn cysylltiad â'u cais am gymorth.¹⁶² Cynhelir yr adolygiad hwn fel arfer gan yr Awdurdod Lleol a

wnaeth y penderfyniad. Os yw'r swyddog adolygu yn cael ei gyflogi gan yr awdurdod lleol hwnnw, ni ddylai fod wedi bod yn rhan o'r penderfyniad cychwynnol.

Er hyn, canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon i wasanaethau digartrefedd y gallai awdurdodau lleol wneud gwelliannau o ran gweinyddu adolygiadau, yn enwedig o ran eu hannibyniaeth a'u prydlondeb.¹⁶³ Canfu'r adroddiad nad oedd ceiswyr yn aml iawn yn cael digon o wybodaeth am y broses adolygu a bod rhai ceiswyr yn gyndyn o ymarfer eu hawl i adolygiad oherwydd eu bod yn poeni y byddai defnyddio'r hawl hon yn cael effaith niweidiol ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei gael.¹⁶⁴ Yn ystod ymgysylltiad y Panel ag arbenigwyr drwy brofiad a rhanddeiliaid, dywedwyd yn aml nad oedd ceiswyr yn deall sut y mae systemau'n gweithio, ac nad oeddent yn deall bod ganddynt hawl i herio penderfyniadau.

Gellir apelio yn erbyn adolygiad ceisydd yn y Llys Sirol, ond dim ond ar bwynt cyfreithiol. Nid oes achosion wedi'u hadrodd sydd wedi cael eu hystyried gan y Llys Sirol, y Llys Gweinyddol, y Llys Apêl neu'r Goruchaf Lys mewn cysylltiad â'r darpariaethau digartrefedd yn Neddf Tai (Cymru) 2014.

Gall unigolyn hefyd orfodi ei hawliau unigol drwy adolygiad barnwrol. Mae awdurdodau lleol yn ddarostyngedig i adolygiad barnwrol yn gysylltiedig â phenderfyniadau ceisiadau digartrefedd, a gall awdurdodau lleol a chymdeithasau tai hefyd fod yn ddarostyngedig i adolygiad barnwrol yn gysylltiedig â phenderfyniadau ar ddyraniadau tai cymdeithasol.

Rhwyrstr arwyddocaol i unigolion sy'n gwneud cais am apêl yn y Llys Sirol a/neu adolygiad barnwrol yw bod yn ofynnol iddynt fod yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol a dod o hyd i gyfreithiwr cymorth cyfreithiol er mwyn dilyn y camau gwneud iawn hyn. Nid yw hyn yn bosibl bob amser.

Mae Shelter Cymru yn ddarparwr cymorth cyfreithiol tai ym mhob ardal awdurdod lleol ac oherwydd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru gall yr elusen gynorthwyo pobl p'un a ydynt yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol ai peidio a ph'un a yw eu cais o fewn cwrpas cymorth cyfreithiol ai peidio. Fodd bynnag, lle mae

cynrychiolaeth gyfreithiol yn ofynnol er mwyn gwneud adolygiad barnwrol neu achos yn y llys sirol, dim ond mewn achosion lle mae cymorth cyfreithiol ar gael y gall Shelter Cymru helpu. Gall Shelter Cymru gynnig y gwasanaeth hwn ledled Cymru i gleientiaid cymwys ond mae ei dîm o gyfreithwyr yn gyfyngedig o ran maint felly mae mynediad at gymorth ymglyfreitha yn ddibynnol ar y capasiti hwn.

Ffordd arall o unioni cam mewn cysylltiad â chais digartrefedd yw drwy wneud cwyn am wasanaeth i'r Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus. Gall preswlydd llety cymdeithasol ofyn i'r Ombwdsmon adolygu materion penodol yn ymwneud â'i lety. Er bod yr Ombwdsmon yn gallu gwneud argymhellion, ni all orfodi'r corff sy'n cael ei ymchwilio i ddilyn yr argymhellion na rhoi dirwy. Yn ogystal, fel arfer mae'n ofynnol i achwynydd ddilyn trefn gwyno'r corff cyhoeddus ei hun yn gyntaf cyn cyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon, a gall hyn gymryd llawer o amser.

Ai newid cyfreithiol yw'r ateb?

Mae'r Panel yn credu bod angen newidiadau i ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau bod ceiswyr yn cael mynediad priodol at adolygiadau a ffyrdd o wneud iawn ag unigolion.

Mae diweddarau canllawiau a chydweithredu mwy effeithiol rhwng awdurdodau lleol hefyd yn rhan allweddol o'r ateb yn y maes hwn.

Lle bynnag y bo modd, dylid ceisio dod o hyd i ateb lleol yn gyntaf i bryderon ceisydd. Er hyn, mae sefydlu hawliau gwneud iawn clir i'r ceisydd yn helpu i annog ymarfer da yn gyffredinol, yn sicrhau cyfiawnder mewn achosion unigol lle mae'r gyfraith yn cael ei chamgymhwyso neu lle mae camweinyddu'n digwydd, ac yn gyffredinol yn gwella hyder yn y system. Mae'n bwysig sicrhau hefyd bod yr hawliau hyn yn cael eu cefnogi â mynediad at gyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol briodol.

Er bod y Panel yn awyddus i sicrhau nad yw gorfodaeth neu reoleiddio mewn cysylltiad â dyletswyddau digartrefedd yn dibynnu'n gyfan gwbl ar allu unigolyn i herio, mae sicrhau hawliau ceisydd i herio yn hanfodol o hyd.

160 Er enghraifft: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (2021) *Adolygiad digartrefedd: drws agored i newid cadarnhaol*; Ahmed, A., Rogers, M., Wilding, M., Gibbons, A., Jones, K. a Madoc-Jones, I. (2018) *Gwerthusiad ôl-weithredu o Ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014: Adroddiad Terfynol*. Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR rhif 46/2018.

161 Llywodraeth Cymru (2016) *Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd*.

162 Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefn Adolygu) (Cymru) 2015.

163 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (2021) *Adolygiad Digartrefedd: drws agored i newid cadarnhaol*. t. 72.

164 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (2021) *Adolygiad Digartrefedd: drws agored i newid cadarnhaol*. t. 71.

Argymhellion y Panel

Mae'r argymhellion isod, ac mewn rhannau eraill o'r adroddiad, hefyd yn ceisio sicrhau bod ceiswyr yn gwybod yn iawn bod ganddynt hawl i herio penderfyniadau allweddol (gweler tudalen 58). Yn ychwanegol at hyn, gallai'r Byrddau Digartrefedd ar y Cyd a argymhellir gan y Panel chwarae rôl drwy adolygu achosion difrifol.

155. Dylai awdurdodau tai lleol weithio'n rhanbarthol lle bo angen er mwyn helpu i sicrhau bod swyddogion sy'n annibynnol ar achos ar gael i gynnal adolygiad.
156. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag eiriolwyr cyfreithiol ac awdurdodau tai lleol er mwyn llunio canllawiau ar gyfer ymarfer da wrth ddatrys anghydfodau.
157. Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â chael cynrychiolaeth gyfreithiol i geiswyr digartrefedd yng Nghymru ac ystyried sut y gellid atgyfnerthu hyn. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i sicrhau bod digon o adnoddau i ddarparu mynediad ledled Cymru at gynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol.
158. Dylai mynediad at gyngor ynglŷn â dyledion a lles fod ar gael i bob ceisydd digartref sydd y tu allan i gwmpas y Gwasanaeth Cyngor ar Atal Colli Cartref.
159. Dylai awdurdodau tai lleol ddarparu cyngor annibynnol ar dai, lle mae angen i unigolyn herio cyfreithlondeb penderfyniad digartrefedd. Dylid darparu adnoddau priodol i awdurdodau lleol i'w galluogi i ariannu a darparu cyngor annibynnol ar dai.
160. Dylai Llywodraeth Cymru gysylltu â Llywodraeth y DU i sicrhau bod Cymorth Cyfreithiol ar gael i geiswyr yng Nghymru sydd dan fygythiad o ddiartrefedd o fewn y ffrâm amser newydd o chwe mis, yn hytrach na'r 56 diwrnod presennol, dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r 2012, Atodlen 1, Paragraff 34.

Galluogwyr a rhwystrau

Nid yw deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth cyfreithiol yn rhan o awdurdodaeth Llywodraeth Cymru, ac o ganlyniad bydd angen camau gan Lywodraeth y DU er mwyn gwneud rhai o'r argymhellion perthnasol yn yr adran hon yn effeithiol.

Sylwer bod rhagor o argymhellion yn ymwneud ag adolygiadau wedi'u cynnwys yn yr adrannau ar addaswydd, dyraniadau a Chynlluniau Tai Personol.

2. Rheoleiddio a Gorfodaeth

Beth yw'r problem?

Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad hwn, mae rhanddeiliaid a phobl sydd â phrofiad personol wedi rhoi gwybod am nifer o achosion lle mae'r gyfraith wedi cael ei chamgyhmhwyso neu ei dehongli'n wahanol mewn awdurdodau lleol. Mae'r adborth hwn yn unol â chanfyddiadau mewn adroddiadau amrywiol eraill, gan gynnwys adroddiad thematig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i wasanaethau digartrefedd 2019.¹⁶⁵

Ar hyn o bryd, mae nifer o wahanol ddulliau o reoleiddio yng Nghymru ar draws y sector. Mae rheoleiddio cymdeithasau tai yng Nghymru yn seiliedig ar ddull rheoleiddio ar y cyd. Mae'r Fframwaith Rheoleiddio Cymdeithasau Tai, a gyflwynwyd yn 2017, yn nodi safonau y mae pob cymdeithas dai yn gwerthuso ei hun yn eu herbyn. Caiff yr hunan-werthusiadau hyn eu hasesu wedyn gan Dîm Rheoleiddio Tai Llywodraeth Cymru. Mae natur yr asesiad blynyddol hwn yn amrywio â'r Tîm Rheoleiddio Tai yn cynnal adolygiad manwl o hunan-werthusiad cymdeithas dai yn achlysurol ac asesiad cyffyrddiad ysgafn mewn blynyddoedd eraill. Mae'r asesiadau hyn yn canolbwyntio ar ystyriaeth o risgiau strategol, materion hyfywedd busnes a materion o bwys sy'n achosi pryder. Mae'r Tîm Rheoleiddio Tai yn gwneud penderfyniad ar sail yr asesiad hwn, sy'n cael ei gyhoeddi, ac sy'n ceisio ymyrryd dim ond pan nodir materion o bwys.

Cyn hyn, yn 2008, sefydlwyd y Safon Rheoli Tai i Fynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, â landlordiaid yn dewis ymuno â'r safon a

chael achrediad gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, dangosodd adolygiad yn 2014 o bolisiau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol nad oedd y rhan fwyaf o'r landlordiaid cymunedol yn meddwl bod y safon yn fuddiol.¹⁶⁶ Ers hynny, mae Shelter Cymru wedi galw am ddatblygu safon rheoli tai newydd ac ehangach yng Nghymru, sy'n cynnwys ystyriaeth o ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy lens ystyriol o drawma, ond sydd hefyd yn edrych yn fwy cyffredinol ar atal digartrefedd.¹⁶⁷ Byddai'r safon hon yn gyfle i gadarnhau'r ymarfer da a'r gwersi a ddysgwyd o'r symudiad i ddod â throï allan i ddiartrefedd o dai cymdeithasol i ben.

Mae'r cyfrifoldeb am reoleiddio tai cymdeithasol awdurdodau lleol yn nwylo aelodau etholedig sydd wedi eu hethol yn ddemocrataidd ac mae gan awdurdodau lleol hefyd bwerau gorfodi mewn cysylltiad ag amodau gwael mewn tai.

Er bod gan Lywodraeth Cymru rôl reoleiddio a gorfodi mewn cysylltiad â thai cymdeithasol, nid oes ganddi gyfrifoldebau cyfatebol am wasanaethau digartrefedd. Mae hyn yn golygu bod ceiswyr yn dibynnu ar orfodi eu hawliau fesul achos unigol yn hytrach na rheoleiddio a gorfodi systemig. Yn hanesyddol, cynhelid archwiliadau o dimau digartrefedd awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru, ond nid yw hyn yn digwydd mwyach.

Er nad yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried fel mater o drefn sut y mae landlordiaid cymunedol (cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol) yn cyflawni eu cyfrifoldebau eang, mae ei swyddfa yn darparu mecanweithiau ar gyfer gwneud iawn ag unigolion (trafodir isod). Gall yr Ombwdsmon hefyd ddewis cyhoeddi adroddiadau thematig *ad hoc* ac adroddiadau ar ei liwt ei hun i dynnu sylw at feysydd lle mae'n ymddangos bod problemau penodol a pharhaus.

Mae Archwilio Cymru yn darparu mecanwaith pellach ar gyfer goruchwyllo gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol ledled Cymru, gan gynnwys gwasanaethau tai awdurdodau lleol. Mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru rôl i'w chwarae drwy roi sicrwydd bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddarbodus

a bod gwasanaethau'n diwallu anghenion pobl. Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae Archwilio Cymru wedi canolbwyntio ar ddadansoddi gwasanaethau digartrefedd. Mae hyn yn cynnwys adroddiad yn dangos sut y mae awdurdodau lleol yn rheoli'r galw am gymorth digartrefedd ac yn gweithredu mesurau ataliol,¹⁶⁸ yn ogystal ag adroddiad yn ymchwilio i weld sut y mae cyrff cyhoeddus ehangach yn ymateb i gysgu allan.¹⁶⁹ I gyd-fynd â phob un o'r adroddiadau hyn roedd cyfres o argymhellion â'r bwriad o helpu i ddatblygu ymarfer gwell.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru ran ffurfiol i'w chwarae mewn cysylltiad â gorfodi rheoliadau yn y sector rhentu preifat. Yn hytrach, mae gorfodi yn y sector rhentu preifat yn gyfrifoldeb i awdurdodau lleol sydd â nifer o bwerau gorfodi yn ymwneud â safonau preswyllo a defnyddio trwyddedau gorfodol a dewisol.

Mae Adran 91 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) yn nodi bod yn rhaid i annedd fod yn 'ffit i bobl fyw ynddi,' ond y gwir amdani yw nad oes gan awdurdodau lleol yr adnoddau i orfodi hyn. Mae nifer yr archwiliadau a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru dan y System Mesur Lechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS) wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gellir priodoli nifer isel yr asesiadau rhwng 2019 a 2021 i bandemig Covid-19, ond mae'n amlwg bod y patrwm yn parhau ar ôl y pandemig. Yn 2021-22, dim ond 4,363 o asesiadau a gynhaliwyd ledled Cymru – mae hyn yn ostyngiad o 22% o'i gymharu â 2018-19 (y flwyddyn ddata ddiweddaraf heb ei heffeithio gan y pandemig) pan oedd nifer yr asesiadau eisoes wedi gostwng 10% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.¹⁷⁰

Mae Rhentu Doeth Cymru yn gorff rheoleiddio sy'n prosesu cofrestradau landlordiaid, yn rhoi trwyddedau ac yn darparu hyfforddiant i'r rhai sy'n ymwneud â'r farchnad rentu i'w helpu i gyflawni eu rhwymedigaethau dan Ddeddf Tai 2004 (Rhan 1). Er nad oes ganddo bwerau gorfodi, mae tîm gorfodi Rhentu Doeth Cymru yn gweithio gydag

165 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (2021) *Adolygiad Digartrefedd: drws agored i newid cadarnhaol*.

166 Ymchwil Cymdeithasol wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru (2014) *Wales Anti-Social Behaviour: Policy Practice and Review*. t. 66.

167 Shelter Cymru (2023) *Ailddehongli Ymddygiad Cwrthgymdeithasol: Adolygiad o arferion da atal digartrefedd yng Nghymru*.

168 Archwilydd Cyffredinol Cymru (2018) *Sut mae Llywodraeth Leol yn rheoli galw – Digartrefedd*.

169 Archwilydd Cyffredinol Cymru (2020) *Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb*.

170 Llywodraeth Cymru (2023) *Peryglon mewn tai a thrwyddedau: Ebrill 2021 i Fawrth 2022*. Darllenwyd 24 Awst 2023. <https://www.llyw.cymru/perylon-mewn-tai-thrwyddedau-ebriill-2021-i-fawrth-2022.html>

awdurdodau lleol ar brosiectau 'chwilio a chanfod' er mwyn dod o hyd i landlordiaid ac asiantau nad ydynt yn cydymffurfio yn ogystal ag ymdrin â chwynion.

Galwodd undeb y tenantiaid, ACORN Cymru, a Chymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl (NRLA) am ddiwygio rôl orfodi Rhentu Doeth Cymru, er nad oes cytundeb ar hyn o bryd ynglŷn â manylion diwygio o'r fath. Mae ACORN wedi galw am weithredu yn erbyn landlordiaid nad ydynt wedi'u cofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru, tra mae'r NRLA wedi dweud y byddai'n well ganddi weld Rhentu Doeth Cymru yn canolbwyntio ar "droseddoldeb gweithredol" gan landlordiaid.¹⁷¹

Mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwerthusiad annibynnol o Rhentu Doeth Cymru eleni, ond nid yw'r manylion wedi'u diffinio eto na'u cwmpas.¹⁷²

Mae teimladau cymysg ar draws y sector ynglŷn â'r cwestiwn a yw'r trefniadau rheoleiddio presennol yn ddigonol i alw landlordiaid i gyfrif. O ran landlordiaid cymunedol, mae rhai'n awgrymu bod diffyg goruchwyliaeth annibynnol o awdurdodau lleol, ac nad yw prosesau rheoleiddio cymdeithasau tai sy'n seiliedig ar hunanwerthuso yn ddigon trylwyr. Er hyn, mae eraill yn croesawu'r dull o reoleiddio cymdeithasau tai ar y cyd. Roedd cynrychiolwyr cymdeithasau tai a roddodd dystiolaeth i ymchwiliad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd i drefn reoleiddio cymdeithasau tai yn 2017 yn siarad yn gadarnhaol am reoleiddio ar y cyd, gan ddweud ei fod yn cydweddu'n dda â threfniadau llywodraethu modern ac wedi arwain at lefelau uwch o ymgysylltu rhwng preswylwyr a landlordiaid.¹⁷³

Er hyn, bu galw cryf, gan gynnwys gan swyddfa'r Ombwdsmon, am greu teitl mwy ffurfiol "Rheoleiddiwr Tai/Digartrefedd."¹⁷⁴ Ategwyd y galw hwn gan Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd yn 2022, yn dilyn ei ymchwiliad i ddiartrefedd.¹⁷⁵ Galwodd y Pwyllgor a'r Ombwdsmon ill dau am gorff rheoleiddio o'r fath

ar ôl gweld dystiolaeth o gamgymhwyso'r gyfraith, yn aml â chanlyniadau sylweddol i unigolion digartref sy'n cael eu gadael mewn sefyllfaoedd anodd o ganlyniad i hynny.

Mewn ymateb, mynegodd Llywodraeth Cymru bryder y "byddai sefydlu swyddogaeth reoleiddiol ychwanegol ym maes digartrefedd yn creu'r risg o wneud trefniadau llywodraethu yn fwy cymhleth a chynyddu costau gweinyddol, ac ni fyddai'n gwella'r cyflenwad o dai o reidrwydd, na'r ffactorau sy'n achosi digartrefedd sydd wrth wraidd yr argyfwng presennol."¹⁷⁶

Roedd y safbwyntiau cymysg hyn ynglŷn â sefydlu rheoleiddiwr digartrefedd neu gorff rheoleiddio mwy ffurfiol ar gyfer tai cymdeithasol i'w gweld hefyd ymhlith aelodau'r Panel. Teimlai rhai aelodau o'r Panel y byddai rheoleiddiwr yn rhoi trosolwg manylach o wasanaethau a bod darparwyr tai yng Nghymru yn rhy "gyfforddus" â'r mesurau hunanwerthuso sy'n bodoli ar hyn o bryd. Nodwyd hefyd bod strwythurau rheoleiddio mwy ffurfiol mewn gwledydd eraill yn y DU.

Ar y llaw arall, roedd aelodau eraill o'r Panel yn gyndyn i gefnogi galwadau am reoleiddiwr, gan ddweud y byddai hyn yn ychwanegu mwy o haenau o reoleiddio a biwrocraatiaeth gostus i wasanaethau tai sydd wedi'u hystyngi i'r eithaf yn barod.

Roedd y Panel hefyd yn cydnabod yn fwy cyffredinol y byddai'n anos sefydlu rheoleiddiwr newydd yn fuan ochr yn ochr â'r diwygiadau sylweddol ac eang a argymhellir yn yr adroddiad hwn.

Ai newid cyfreithiol yw'r ateb?

Oherwydd bod safbwyntiau aelodau'r Panel yn amrywio, ni allent ddod i gonsensws ynglŷn â'r maes hwn ac nid yw'r Panel felly'n argymhell unrhyw newid deddfwriaethol i gyflwyno rheoleiddiwr tai/digartrefedd newydd.

Er hyn, roedd y Panel yn cytuno bod dystiolaeth glir o fylchau sylweddol sy'n peri pryder yn gysylltiedig

â gweithredu'r fframwaith deddfwriaethol presennol. Roedd aelodau'r Panel hefyd yn ymwybodol bod yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn ffurfio pecyn cyfunol o ddiwygiadau, a chan fod penderfyniadau wedi'u gwneud i beidio â chyflwyno deddfwriaeth mewn rhai meysydd, roeddent yn awyddus yn hytrach i sicrhau atebolrwydd drwy strwythurau rheoleiddiol. Gan gadw hyn mewn golwg, roedd y Panel yn ceisio canfod sut y gallai'r mecanweithiau presennol wneud rhagor i helpu i weithredu a gorfodi'r gyfraith fel y mae, a hefyd y trefniadau cyfreithiol newydd a gynigir yn yr adroddiad hwn.

Argymhellion y Panel

Mae'r argymhellion isod yn ceisio gwella fframweithiau a strwythurau rheoleiddio sy'n bodoli'n barod er mwyn sicrhau cydymffurfiad cyfreithiol a dilyn egwyddorion y gyfraith. Yn fwyaf arbennig, maent yn ystyried sut y gellir addasu'r strwythurau hyn i ystyried newidiadau arfaethedig y Panel yn y system, er enghraifft atebolrwydd ehangach sefydliadau cyhoeddus eraill wrth helpu i atal digartrefedd.

161. Dylai Llywodraeth Cymru ddal i gefnogi'r bwriad i ehangu Rhaglen Wella CLILC i gynnwys pwyslais penodol ar awdurdodau tai lleol a gwasanaethau digartrefedd.
162. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid gwella rôl orfodi Rhentu Doeth Cymru.
163. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried, yn sgil cynigion y Panel ar gyfer dyletswyddau sector cyhoeddus ehangach i helpu i atal digartrefedd, pa gyrrff rheoleiddio sy'n bodoli'n barod allai gynnwys digartrefedd mewn gweithgaredd arolygu a rheoleiddio rheolaidd. Er enghraifft, gallai Arolygiaeth Gofal Cymru helpu i nodi problemau yn ymwneud â gadawyr gofal sy'n canfod eu hunain yn ddiartref.
164. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i ystyried sut y gall y Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai yng Nghymru adlewyrchu perfformiad Cymdeithasau Tai a'u gwaith gyda phartneriaid er mwyn atal ac ymateb i ddiartrefedd. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, osgoi troi allan i ddiartrefedd, ystyried anghenion aelwydydd digartref mewn cynlluniau dyrannu, darparu llety â chymorth a Thai yn

Gyntaf, a/neu gynorthwyo tenantiaid i gadw eu tenantiaethau.

165. Ar wahân i'r Fframwaith Rheoleiddio, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu Safon Rheoli Tai newydd sy'n mabwysiadu dull ystyriol o drawma wrth ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a chynnal tenantiaethau, tra hefyd yn darparu trosolwg ehangach ar atal digartrefedd.
166. Dylid sefydlu cylch archwilio rheolaidd ar gyfer swyddogaethau awdurdodau tai lleol, ag archwiliadau'n cael eu cynnal naill ai gan Lywodraeth Cymru, neu Archwilio Cymru neu drwy adolygiad gan gymheiriaid.
167. Dylid addasu'r Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddiartrefedd er mwyn ystyried deddfwriaeth newydd yn deillio o'r papur gwyn a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru cyn bo hir.
168. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn flynyddol ar y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddiartrefedd.
169. Pan fydd y ddeddfwriaeth newydd yn cael ei rhoi ar waith, dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa mor effeithiol y mae'n cael ei gweithredu ac a oes angen mesurau eraill (gan gynnwys ystyried rheoleiddiwr tai a digartrefedd) yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod y gyfraith yn cael ei chymhwyso'n gyson.

Galluogwyr a rhwystrau

Wrth wneud newidiadau i ddulliau rheoleiddio cymdeithasau tai, mae'n bwysig cofio bod y gyfraith yn nodi ei bod yn ofynnol i gymdeithasau tai ymarfer rhywfaint o annibyniaeth er mwyn cadw eu dosbarthiad fel corfforaethau preifat. Er bod aelodau'r Panel yn cydnabod bod dulliau rheoleiddio mwy ffurfiol yn bodoli yn Lloegr ac yn yr Alban lle mae cymdeithasau tai yn parhau i gael eu dosbarthu fel darparwyr preifat, mae'n dal yn bwysig cadw'r pwynt hwn mewn golwg wrth i Lywodraeth Cymru ystyried newid rheoleiddiol. Yn debyg i'r adran gynharach ar ddyrannu tai cymdeithasol (gweler tudalen 41), mae'r Panel yn dymuno pwysleisio bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau na fydd unrhyw newidiadau i ddulliau rheoleiddio a gorfodi yn arwain at aiddosbarthu.

171 NRLA (2021) *Rent Smart Wales fails accountability and transparency tests*. Darllenwyd 24 Awst 2023. <https://www.nrla.org.uk/news-Rent-Smart-Wales-fails-accountability-tests>

172 Sylw yn y Cyfarfod Llawn (2023). Darllenwyd 24 Awst 2023. <https://cofnod.senedd.cymru/Plenary/13186#C473022>

173 Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd (2017) *Ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai*.

174 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (2021) *Adolygiad Digartrefedd: drws agored i newid cadarnhaol*.

175 Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd (2023) *Digartrefedd*.

176 Ymateb Llywodraeth Cymru (2023) *Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai – Digartrefedd*.

Mae'r Panel yn cydnabod bod y Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai, ar hyn o bryd, yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth, llywodraethu, materion ariannol a chymorth i'r tenantiaid presennol. O ganlyniad, byddai defnyddio'r offeryn hwn fel dull o sicrhau atebolrwydd mewn cysylltiad â darpar denantiaid a chefnogi'r rhai sy'n wynebu risg o ddiartrefedd yn ddimensiwn newydd i'r fframwaith, a bydd angen ystyried yn ofalus gyda phartneriaid a rhanddeiliaid amrywiol beth yw'r ffordd orau o wneud hyn.

Cydnabyddir hefyd bod penderfyniadau yn erbyn y safon reoleiddiol yn cael eu defnyddio gan fenthycwyr er mwyn penderfynu ar ba gyfradd y gall cymdeithasau tai fenthycu. Mae hyn, yn ei dro yn helpu i ddenu cyllid preifat i hybu'r cyflenwad o dai cymdeithasol. Wrth ystyried sut y gellid defnyddio'r fframwaith i ddarparu atebolrwydd ynglŷn â chymorth i aelwydydd digartref, dylai'r mater hwn fod yn rhan o'r drafodaeth fel nad yw gofyniad i gynyddu stoc dai er mwyn diwallu anghenion aelwydydd digartref yn amharu ar y gallu i gael cyllid i wneud hynny.

Bydd angen i unrhyw newidiadau i ddulliau rheoleiddio a gorfodi gael eu cefnogi gan welliant mewn data fel bod modd i Lywodraeth Cymru fonitro cynnydd. Rhoddir sylw manylach i hyn yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

Bydd angen ystyried beth yw'r ffordd orau o gynnal archwiliadau rheolaidd o awdurdodau tai lleol, gan sicrhau bod y rhain yn cadw elfen o annibyniaeth.

Ar adeg ysgrifennu hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynglŷn â chyflwyno Fframwaith Canlyniadau newydd ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddiartrefedd er mwyn helpu i fesur cynnydd wrth geisio dod â digartrefedd i ben. Er bod y Panel yn teimlo ei bod yn bwysig symud ymlaen a chyflwyno'r fframwaith hwn cyn gynted ag y bo modd, bydd hefyd yn bwysig bod y fframwaith hwn yn cael ei ddiwygio yn y dyfodol i gyd-fynd â newidiadau deddfwriaethol.

3. Data

Beth yw'r broblem?

Mae diffyg data manwl wedi bod yn thema gyffredin yn holl drafodaethau, ymchwil a sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid y Panel. Er enghraifft, wrth ystyried dyraniadau, nid oedd y data a oedd ar gael yn cynnwys y manyldeb a'r cysondeb i allu asesu'n llawn pa mor effeithiol y mae systemau ledled Cymru yn dyrannu llety i aelwydydd digartref. Yn yr un modd, wrth ystyried a oes angen rhagor o ddeddfwriaeth i fynd i'r afael â throi allan i ddiartrefedd, roedd diffyg data yn amharu ar drafodaethau'r Panel. Wrth edrych ar anghenion pobl sy'n gadael carchar, roedd diffyg eglurder unwaith eto yn y data. Ac yn gyffredinol, nid oes gennym y data sydd eu hangen i allu deall yn iawn a yw cymorth digartrefedd yn cynnwys yn briodol y rhai hynny sydd â nodweddion gwarchoddedig.

Pe bai Llywodraeth Cymru yn ceisio bwrw ymlaen â'r argymhellion a wnaethpwyd gan y Panel er mwyn symud ymlaen tuag at Gymru lle mae digartrefedd yn rhywbeth prin, byrloedlog na fydd yn cael ei ailadrodd, mae gwella'r dirwedd data yn rhan hanfodol o'r broses o fapio a monitro'r daith honno.

Drwy gydol yr adroddiad hwn, mae'r Panel wedi tynnu sylw at bwysigrwydd gwella ac ymestyn prosesau casglu data fel ffordd o sicrhau ansawdd wrth gefnogi'r gwaith o fonitro, rheoleiddio a gorfodi. Os yw Llywodraeth Cymru am fwrw ymlaen â'r diwygiadau hyn heb reoleidiwr digartrefedd, bydd hyn yn bwysicach byth.

Bydd gwell data hefyd yn hanfodol wrth ystyried pa mor effeithiol y mae'r diwygiadau'n cael eu rhoi ar waith ac a yw'n bosibl y bydd angen rhagor o fesurau. Yn fwyaf arbennig, bydd hyn yn hollbwysig lle mae'r Panel wedi dweud bod angen monitro er mwyn canfod a oes angen rhagor o newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol. Er enghraifft, bydd angen ystyried a yw cyflwyno Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn ddiweddar yn cael yr effaith a fwriadwyd, sef lleihau nifer yr achosion o droi allan o gartrefi rhentu preifat ar hyd a lled y wlad. Dylai data hefyd chwarae rhan wrth ystyried a yw'r newidiadau a gynigiwyd gan y Panel, er enghraifft, ynglŷn â chysylltiad lleol a "gwrthod cydweithredu a hynny'n fwriadol ac yn afresymol", yn taro cydbwysedd digonol yn ymarferol rhwng sicrhau bod rhwystrau sy'n atal cymorth yn cael sylw tra'n cynnal system y gellir ei rheoli ac sy'n

effeithiol. Fel y nodwyd ar ddechrau'r adroddiad, mae'r bylchau presennol yn stoc dai Cymru (yn enwedig stoc dai cymdeithasol y wlad) heb os nac oni bai wrth wraidd y cynnydd mewn digartrefedd. Unwaith eto, mae gwell data yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon a sicrhau bod ein hawdurdodau lleol yn buddsoddi yn y mathau o eiddo sydd eu hangen er mwyn diwallu anghenion aelwydydd digartref.

Mae'r enghreifftiau eraill lle mae'r Panel wedi nodi meysydd lle mae angen coladu data manylach a mwy cyson yn cynnwys dyrannu tai cymdeithasol, data manylach ar statws llety pobl sy'n gadael carchar, yn ogystal â data ar ryddhau o ysbytai a digartrefedd. Mae'r angen am well data yn gyffredin ar draws y sector.

Fel y nodwyd mewn rhan arall o'r adroddiad hwn, mae'r Panel hefyd yn ymwybodol o adroddiadau gan yr Ombwdsmon,¹⁷⁷ yr Archwilydd Cyffredinol¹⁷⁸ a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol,¹⁷⁹ sy'n dangos diffyg cydymffurfiaid â deddfwriaeth cydraddoldeb. I'r perwyl hwn, mae'r Panel yn credu y bydd hefyd yn bwysig sicrhau bod data yn ymwneud â sut y mae cymorth yn diwallu anghenion pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig.

Mae'r angen sylfaenol am drefniadau coladu data gwell a pharhaus yn cael ei gydnabod yn gyffredinol ar draws y sector tai yng Nghymru a chafodd ei nodi fel maes y dylid rhoi blaenoriaeth iddo gan y Grŵp Gweithredu ar Ddiartrefedd yn 2020, ac eto yn adroddiad diweddaraf y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Dod â Digartrefedd i Ben.¹⁸⁰

Mae'r Panel yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru, yn ystod y misoedd diwethaf, wedi bod yn ceisio cofnodi gwybodaeth fanylach yn ei datganiadau ystadegol ar ddiartrefedd. Fodd bynnag, wrth i Lywodraeth Cymru geisio symud ymlaen ar ei thaith i ddod â digartrefedd i ben, ac yn fwyaf arbennig, i gyflwyno diwygiadau, bydd yn fwyfwy pwysig bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod data digon manwl yn cael eu coladu, eu cyhoeddi a'u monitro'n rheolaidd, a'u bod yn sail i ddatblygiadau yn y dyfodol.

Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, mae barn pobl sydd â phrofiad personol o ddiartrefedd yng Nghymru wedi bod yn werthfawr iawn er mwyn canfod sut mae systemau a strwythurau yn gweithio yn ymarferol a pha ddiwygiadau allai fod yn fuddiol. Mae'r Panel yn cydnabod bod *Rhoi Diwedd ar Ddiartrefedd yng Nghymru: Cynllun Gweithredu Lefel Uchel* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru hefyd yn pwysleisio bod angen "grymuso pobl sydd â phrofiad uniongyrchol i ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer."¹⁸¹ Os bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno newid deddfwriaethol, gobeithio y bydd lleisiau'r rhai sydd â phrofiad personol yn parhau i fod yn sail i unrhyw adolygiad o ba mor dda mae diwygiadau yn gweithio yn ymarferol.

A oes angen newid cyfreithiol?

Mae'r Panel yn cydnabod bod gwell data yn hollbwysig er mwyn monitro llwyddiant diwygio cyfreithiol a sicrhau bod digon o letyau a chymorth ar gael i ddiwallu angen lleol ledled Cymru. Nid yw'r argymhellion isod ar ddata yn gofyn am ddeddfwriaeth newydd neu ddiwygiedig ynddynt eu hunain ond maent yn cefnogi cynigion y Panel ar gyfer newid deddfwriaethol.

Argymhellion y Panel

170. Yn unol ag argymhellion gan y Grŵp Gweithredu ar Ddiartrefedd ac yn yr Adroddiad Blynyddol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Fwrdd Cynghori Cenedlaethol Dod â Digartrefedd i Ben, dylai Llywodraeth Cymru weithio er mwyn gwella'r dull o goladu data parhaus ledled y sector tai a digartrefedd. Dylid defnyddio'r data hyn i helpu i fonitro cydymffurfiaid â gofynion statudol yn ogystal â nodi bylchau yn y system. Yn ogystal ag ymdrin â phynciau amrywiol ar draws y sector (gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: dyrannu tai cymdeithasol; y cyflenwad o dai; data digartrefedd statudol; troi allan o lety preifat a thai cymdeithasol; rhyddhau o ysbytai a charchardai i ddiartrefedd), dylai'r data hyn hefyd gynnwys ystyriaeth benodol o nodweddion gwarchoddedig.

177 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (2021) *Adolygiad Digartrefedd: Drws Agored i Newid*. t. 4.

178 Yr Archwilydd Cyffredinol (2018) *Sut mae Llywodraeth Leol yn Rheoli Galw – Digartrefedd*. tt. 11 a 15.

179 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2018) *Tai a Phobl Anabl: Argyfwng Cudd Cymru*.

180 Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Dod â Digartrefedd i Ben (Awst 2023) *Adroddiad Blynyddol i Weinidogion Cymru*.

181 Llywodraeth Cymru (2021) *Rhoi Diwedd ar Ddiartrefedd yng Nghymru: Cynllun Gweithredu Lefel Uchel*. t. 27.

171. Pe bai Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â diwygio cyfreithiol, dylai hefyd ymrwymo i adolygu sut y mae diwygiadau o'r fath yn gweithio yn ymarferol. Dylai lleisiau pobl sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd fod yn ganolog i adolygiad o'r fath ac wrth sicrhau bod newid deddfwriaethol yn cael ei weithredu'n effeithiol.

Galluogwyr a rhwystrau

Bydd yn hollbwysig bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid allweddol ar draws y sector er mwyn nodi ble mae angen rhagor o ddata a beth yw'r ffordd orau o goladu'r wybodaeth hon.

Mae'n bosibl hefyd y bydd angen ystyried ymhellach sut y mae awdurdodau lleol a darparwyr perthnasol yn cael eu cefnogi i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen a beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol o fonitro hynny a darparu gwybodaeth ar gyfer datblygiadau pellach drwy Gymru gyfan.

Casgliad



Mae'n gwbl amlwg bod nifer o fylchau rhwng yr hyn y mae ein deddfwriaeth bresennol yn ei ddarparu er mwyn cynorthwyo pobl sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd a'r uchelgais gyffredin o wneud digartrefedd yn rhywbeth prin, byrhoedlog na fydd yn cael ei ailadrodd.

Yn ystod gwaith y Panel, gwelwyd pobl sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd a gweithwyr proffesiynol, ynghyd ag ymchwil ar draws y maes, yn galw am newid i helpu i gyflawni'r uchelgais hon.

Er hyn, mae'r farn ynglŷn â beth yw'r ffordd orau o sicrhau'r newid hwn wedi amrywio weithiau. O ganlyniad, mae'r Panel wedi ceisio sicrhau barn gytbwys ar draws y Panel, ond yn bennaf oll, rhoi lle creiddiol i fuddiannau pobl ddigartref a'r rhai sydd dan fygythiad o ddigartrefedd. Rydym wedi ceisio bod yn uchelgeisiol a hirdymor yn ein barn, a bod yn sensitif yr un pryd i realiti'r oes sydd ohoni. Mae'r diwygiadau'n ceisio mynd i'r afael â'r rhwystrau penodol a wynebir gan grwpiau penodol sy'n wynebu mwy o risg o ddigartrefedd a sicrhau bod ceisiadau am gymorth digartrefedd yn fwy hygyrch, tryloyw ac ystyriol o drawma.

O ystyried cymhlethdod y dirwedd tai a digartrefedd yng Nghymru, mae'r diwygiadau a amlinellwyd yn fanwl, yn eang ac yn ddewr. Maent yn cydnabod, mewn cyfnod lle mae nifer y ceisiadau am gymorth digartrefedd yn cynyddu, a mwy a mwy o unigolion mewn llety dros dro, bod yn rhaid i ni chwilio am gyfeiriadau newydd radical, gweithredu i atal digartrefedd yn gynharach, a chael sectorau eraill i fod yn rhan o'r siwrnai.

Mae'r argymhellion a gynigir yn yr adroddiad hwn wedi'u cynllunio er mwyn ategu, atgyfnerthu a gweithio ochr yn ochr â'i gilydd. Gan ystyried hyn y mae'r Panel yn cyflwyno ei argymhellion i Lywodraeth Cymru fel pecyn integredig wedi'i asesu'n ofalus, ac mae'n gofyn i Lywodraeth Cymru weithredu'r diwygiadau yn eu ffurf gyfunol er mwyn sefydlu llinell sylfaen gadarn a chynhwysol ar gyfer cymorth digartrefedd ar hyd a lled y wlad.

Mae'r Panel yn cydnabod y bydd yn cymryd amser i gyflwyno'r diwygiadau a argymhellir, a bod angen buddsoddi yn ein cyflenwad o dai ac mewn gwasanaethau cefnogi, ynghyd â phenderfyniad ac ymrwymiad. Pe bai Llywodraeth Cymru yn dewis ymrwymo i'r diwygiadau hyn, bydd y canlyniadau'n torri tir newydd, yn arwain at effeithiau cadarnhaol parhaol ac yn sicrhau newid sylweddol yng nghyswllt digartrefedd yng Nghymru. Bydd Cymru unwaith eto ar y blaen i weddill y DU, a rhannau helaeth o'r byd, wrth ddefnyddio deddfwriaeth a fframweithiau polisi blaengar i ddod â digartrefedd i ben.

Atodiad: Rhestr o argymhellion



Deddfwriaeth digartrefedd craidd

Cymhwysra

Cymhwysra'r rhai nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus (nrpf) a'r rhai sy'n cael caniatâd i aros

1. Dylai Llywodraeth Cymru geisio cynnwys pobl nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus (NRPF) yn y rhestr o'r rhai sy'n gymwys i gael cymorth digartrefedd ac i dderbyn budd-daliadau lles, gan gysylltu â Llywodraeth y DU i geisio canfod ffordd o symud ymlaen.
2. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ellid barnu bod ceiswyr lloches sy'n cael eu hysbysu eu bod wedi cael caniatâd i aros (ac o ganlyniad sydd â chyfnod o 28 diwrnod i adael llety arbenigol i geiswyr lloches)¹⁸² dan fygythiad o ddiartrefedd (naill ai oherwydd y derbynnir eu bod yn debygol o fod yn ddiartref cyn pen 6 mis neu oherwydd bod deddfwriaeth yn nodi y bernir eu bod dan fygythiad o ddiartrefedd pan roddir caniatâd iddynt). Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried mecanwaith a fyddai'n rhoi dyletswydd ar y Swyddfa Gartref i gyfeirio'r cyn geisiwr lloches i gael cymorth digartrefedd pan roddir caniatâd iddo.

(Gweler hefyd argymhellion 97 a 98 ar ddyletswyddau i nodi, cyfeirio, gweithredu a chydweithredu).

Cymorth i'r rhai heb hawl i gyllid cyhoeddus sy'n ffoi rhag trais

3. Lle mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn cefnogi goroeswyr cam-drin domestig neu riant â phlentyn neu blant nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus, dylai canllawiau a gyhoeddir dan ddyletswyddau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddarparu y dylai rhan o'r gefnogaeth a'r cymorth fod er mwyn helpu i wneud cais i godi'r amod NRPF a/neu gais am y Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd.
4. Nes bydd argymhelliad 1 yn cael ei roi ar waith, fel mesur dros dro, dylai Llywodraeth Cymru roi cyflwyniad gerbron Swyddfa

Gartref y DU y dylai goroeswyr trais domestig nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus, er hynny, fod yn gymwys i gael cymorth digartrefedd.

5. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall alluogi goroeswyr nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus i gael mynediad at lety mewn lloches, gan gynnwys y posibilrwydd o ariannu darpariaeth lloches arbenigol.

Profion cyfreithiol

Angen blaenoriaethol

6. Dylid diddymu'r prawf Angen Blaenoriaethol (fel y mae wedi'i nodi yn Adran 70 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014) a dylai'r ddyletswydd interim i sicrhau llety (Adran 68 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014) a'r brif ddyletswydd i sicrhau llety (Adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014) fod yn gymwys i bob ceisydd sy'n ddiartref, neu a allai fod yn ddiartref, p'un a oes ganddo angen blaenoriaethol ai peidio. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi dyddiad penodedig i weithredu'r diddymiad hwn er mwyn galluogi awdurdodau tai lleol i baratoi.
7. Tra mae dileu angen blaenoriaethol yn cael ei ystyried a/neu ei weithredu, dylai pobl (o unrhyw oed) sydd â phrofiad o fod mewn gofal gael eu hystyried yn rhai ag angen blaenoriaethol (gan ddefnyddio pwerau Gweinidogion dan Adran 72(1) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014). Yn ystod y cyfnod hwn, dylai'r mesur interim a gyflwynwyd yn ddiweddar, sy'n nodi y dylai'r rhai sy'n ddiartref ar y stryd gael eu hystyried yn rhai ag angen blaenoriaethol, barhau mewn grym hefyd.

Bwriadoldeb

8. Dylid dileu'r prawf 'digartref yn fwiadol' yn Adran 77 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a diwygio'r brif ddyletswydd i ddarparu llety yn Adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 fel bod dyletswydd tuag at bob ceisydd cymwys sy'n ddiartref (ac nad yw'n cael ei gyfeirio dan gysylltiad lleol).

Cysylltiad lleol

9. Dylid diwygio Adran 80 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 fel bod y grwpiau canlynol o geiswyr yn cael eu heithrio o'r darpariaethau cysylltiad lleol:
 - a. Pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac nad ydynt yn cael llety dan ddyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol.

(Gweler argymhelliad 126, sy'n nodi mai gwasanaethau cymdeithasol ddylai fod yn bennaf gyfrifol am gefnogi gadawyr gofal sy'n ddiartref.)
 - b. Cyn-filwyr a'r rhai sydd wedi cyd-fyw â chyn-filwyr yn ystod eu cyfnod mewn gwasanaeth.
 - c. Pobl sydd ar hyn o bryd yn wynebu risg o gam-drin domestig, camdriniaeth o fath arall, neu gamfanteisio os cânt eu cyfeirio at awdurdod tai lleol arall, pa un a oedd cam-drin blaenorol ai peidio. Byddai angen i ganllawiau ddarparu eglurder ynglŷn â hyn er mwyn osgoi camgyhmwysu.
- b. Pobl sydd wedi dioddef cam-drin domestig, camdriniaeth o fath arall neu gamfanteisio yn y gorffennol, ac a fydd yn profi trawma o ganlyniad i'r cam-drin domestig, camdriniaeth arall neu gamfanteisio hwnnw, os cânt eu cyfeirio at awdurdod tai lleol arall. Byddai canllawiau yn darparu diffiniadau o drawma yn y cyd-destun hwn.
10. Dylai eithriadau o gysylltiad lleol gynnwys gadawyr carchar sydd angen symud i ardal newydd fel rhan o'u proses adsefydlu neu er mwyn helpu i fodloni'r cyfyngiadau a osodwyd o ran ble y gallant fyw o ganlyniad i'w trosedd. Ni ddylid cyfeirio unigolyn sy'n gadael carchar i ardal a fyddai'n anghyson â'i broses adsefydlu neu i ardal lle na allai fyw oherwydd ei drosedd.

Sylwer, fel y nodwyd uchod dan adran Dyrannu Tai Cymdeithasol yr adroddiad hwn ar dudalen 41, y byddai'r eithriadau hyn hefyd yn gymwys wrth ystyried cysylltiad lleol mewn dyraniadau.

11. Dylid diwygio canllawiau statudol ar gymhwysu'r prawf cysylltiad lleol gyda'r bwriad o wella cysondeb wrth ei gymhwysu a sicrhau dull gweithredu sy'n fwy ystyriol o drawma. Yn fwyaf arbennig, dylai canllawiau statudol:
 - a. Egluro bod yn rhaid cymhwysu'r prawf cysylltiad lleol gan ddefnyddio dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n ystyriol o drawma, ac yn rhoi sylw i amgylchiadau'r unigolyn. Gallai hyn gynnwys hyblygrwydd o ran y dystiolaeth sy'n ofynnol er mwyn penderfynu bod unigolyn yn perthyn i grŵp sydd wedi'i eithrio o'r prawf. Er enghraifft, dylid diwygio Paragraff 8.22 y Cod Canllawiau er mwyn nodi y "dylid ymgymryd ag ymholiadau i achosion lle'r honnir bod camdriniaeth, trais neu gamfanteisio mewn modd sensitif a dylid hysbysu awdurdodau tai lleol na fydd tystiolaeth gyfnerthol ar gael bob amser."
 - b. Cynnwys cyngor yn ymwneud ag "amgylchiadau arbennig" yn Adran 81(2)(d) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 y dylid ystyried presenoldeb mewn ysgol leol ers cyfnod maith neu ofyniad i fynychu ysgol i gael cymorth arbenigol yn amgylchiad arbennig er mwyn sefydlu cysylltiad lleol.
 - c. Cynnwys cyngor y gallai cysylltiadau nad ydynt yn rhai teuluol fod yn bwysig iawn i unigolyn mewn rhai achosion. Gallai rhwydweithiau cefnogi, lle darperir y gefnogaeth gan ffrindiau neu gefnogaeth gymunedol, fod yn "amgylchiadau arbennig" at ddibenion cysylltiad lleol (Adran 81(2)(d) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014), yn enwedig os yw'r unigolyn wedi ymbellhau oddi wrth ei deulu.
 - d. Amlinellu sut y gallai'r meini prawf "amgylchiadau arbennig" fod yn gymwys i rai grwpiau sy'n wynebu mwy o risg o niwed o'r prawf cysylltiad lleol, gan annog awdurdodau tai lleol i fabwysiadu dull mwy hyblyg lle maent yn nodi'r risg hon o niwed. Dylai Llywodraeth Cymru geisio ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ynglŷn â datblygu'r canllawiau hyn. Gallai grwpiau o'r fath gynnwys:

¹⁸² Yn y cyfnod rhwng yr adeg y cwblhaodd y Panel ei argymhellion a phan gyhoeddwyd y papur hwn, mae ymarfer wedi newid sy'n golygu bod posibilrwydd o gyfnod hysbysu byrrach o 7 niwrnod. Sylwer nad oedd y Panel yn gwybod am hyn ar adeg ei drafodaethau.

- i. Pobl ifanc 25 oed ac iau
 - ii. Aelodau o'r gymuned LHDTTC+
 - iii. Ceiswyr anabl sydd angen cymorth penodol
 - iv. Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr
 - v. Pobl sy'n ceisio gwella ar ôl bod yn camddefnyddio sylweddau
 - vi. Ffoaduriaid a chyn geiswyr lloches eraill sydd wedi cael caniatâd i aros yn y wlad.
12. Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau tai lleol geisio sicrhau bod gwasanaethau ar gael sy'n cynorthwyo pobl:
- a. a allai berthyn i grŵp wedi ei eithrio, neu gael eu hystyried yn rhai sydd mewn amgylchiadau arbennig, i ddeall y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â chysylltiad lleol;
 - b. i ddod o hyd i atebion tai amgen os ydynt yn cael eu cyfeirio dan gysylltiad lleol ond nad oes arnynt eisiau symud;
 - c. i adleoli i'r awdurdod lleol y maent yn dod ohono yn wreiddiol os yw hynny er eu pennaf les ac os yw'r ceisydd yn cydsynio.
13. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid monitro'r modd y cymhwysir y prawf cysylltiad lleol er mwyn sicrhau nad yw'r prawf yn cael ei gamgymhwyso, gan gymryd camau cyflym lle gwelir achos o gamgymhwyso.

Dyletswydd atal

14. Dylid diwygio Adran 55(4) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 fel bod person o dan fygythiad o ddigartrefedd (ac o ganlyniad, y bydd y ddyletswydd atal yn gymwys) os yw'n debygol y bydd y person yn mynd yn ddigartref cyn pen **chwe mis**.
15. Dylid diwygio'r Cod Canllawiau i nodi y dylai'r awdurdod tai lleol, er mwyn dileu'r ddyletswydd atal, fod yn fodlon bod llety yn debygol o fod yn ddiogel am o leiaf 12 mis (yn hytrach na'r cyfnod presennol o chwe mis).

Sylwer: Mae'r ffrâm amser hwn yn gyson ag argymhelliad 14 ar ymestyn y ddyletswydd atal i'r rhai sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd cyn pen chwe mis. Mae'r argymhelliad hwn hefyd yn gyson â'r dull gweithredu a ddefnyddir yn argymhelliad 52 wrth ystyried sefydlogrwydd opsiynau tai ychwanegol.

16. Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau'r ddyletswydd ar yr awdurdod tai lleol i gymryd "camau rhesymol" i helpu'r ceisydd drwy ddiwygio geiriad Adran 65(a) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i ddweud; "cymryd y cyfryw gamau rhesymol sy'n debygol o atal y ceisydd rhag dod yn ddigartref neu sy'n debygol o sicrhau llety i'r ceisydd ei feddiannu gan roi sylw (ymysg pethau eraill) i'r angen i wneud y defnydd gorau o adnoddau'r awdurdod."
17. Dylid diwygio'r canllawiau statudol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru er mwyn rhoi mwy o fanylion i awdurdodau tai lleol ynglŷn â chymhwyso dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wrth ystyried pa gamau y dylent eu cymryd i helpu'r ceisydd i sicrhau llety.

Dyletswydd liniaru

18. Yn dilyn argymhellion eraill yn ymwneud â dileu angen blaenoriaethol a bwriadoldeb, dylid dileu'r ddyletswydd liniaru.

(Ni fydd angen y ddyletswydd liniaru oherwydd bydd person sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd atal dan Adran 66 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a bydd person sy'n ddigartref yn ddarostyngedig i'r brif ddyletswydd i ddarparu llety dan Adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.)

Sylwer: Mae Argymhelliad 52 yn ceisio sicrhau mwy o hyblygrwydd ar gyfer opsiynau llety fel rhan o'r brif ddyletswydd i ddarparu llety yn dilyn colli'r ddyletswydd liniaru.)

19. Yn dilyn argymhelliad y Panel i ddiddymu'r ddyletswydd liniaru, dylid cadw'r sefyllfa bresennol, lle gellir gwneud atgyfeiriadau cysylltiad lleol dim ond mewn cysylltiad â cheiswyr y byddai'r brif ddyletswydd i ddarparu llety dan Adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn ddyledus iddynt fel arall. Fodd bynnag, dylai deddfwriaeth ddarparu eithriad i'r rheol hon i

garcharorion. Ystyrir y byddai carcharorion yn elwa o atgyfeiriad dan gysylltiad lleol yn ystod y cam atal yn hytrach na dim ond yng ngham y brif ddyletswydd i ddarparu llety, fel bod y ddyletswydd atal a'r brif ddyletswydd i ddarparu llety yn cael eu cyflawni gan yr un awdurdod tai lleol, yn hytrach nag un awdurdod tai lleol yn cyflawni'r ddyletswydd atal ac yna'n cyfeirio'r brif ddyletswydd i ddarparu llety i awdurdod tai lleol arall.

Troi allan

Troi allan o dai cymdeithasol

20. Dylai Llywodraeth Cymru gyfathrebu yn glir ei safiad na ddylid troi neb allan i ddigartrefedd o dai cymdeithasol. Dylai'r cyfathrebiad hwn bwysleisio bod safiad Llywodraeth Cymru yn wahanol i'r hyn a amlinellir yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth y DU ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.
21. Dylai Llywodraeth Cymru geisio dathlu arferion da landlordiaid cymunedol sy'n symud tuag at sefyllfa o 'ddim troi allan i ddigartrefedd', gan annog parhad a datblygiad yr ymarfer da hwn ledled Cymru.
22. Dylai data ar droi allan i ddigartrefedd o dai cymdeithasol gan landlord gael eu casglu'n rheolaidd, eu cyhoeddi a'u hadolygu, gyda Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y duedd hon tuag at beidio â throi allan i ddigartrefedd yn parhau.
23. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i gynorthwyo landlordiaid cymunedol i sicrhau nad yw pobl yn cael eu troi allan i ddigartrefedd o dai cymdeithasol, gan gynnwys cyngor ynglŷn â sut i osgoi troi allan o ganlyniad i ôl-ddyledion rhent neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Troi allan o'r sector rhentu preifat

24. Dylai Llywodraeth Cymru gadw llygad ar droi allan heb fai o'r sector rhentu preifat, gan ystyried y pwyntiau a ganlyn wrth iddi adolygu a oes angen rhagor o fesurau deddfwriaethol yn y maes hwn:
- a. tueddiadau yn nifer yr achosion o droi allan heb fai wrth i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 gael ei sefydlu; a

b. sut y mae gweithredu deddfwriaeth newydd yn ymwneud â throi allan heb fai yn yr Alban a Lloegr yn datblygu.

25. Dylai Llywodraeth Cymru osod dyletswydd ar landlordiaid preifat i hysbysu'r awdurdod tai lleol pan fydd yn bwriadu cyflwyno hawliad meddiant dan unrhyw adran o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Dylid diwygio Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i nodi, os methir â chydymffurfio â'r ddyletswydd hon, y caiff hawliadau meddiant eu gwrthod, fel sy'n digwydd ag amodau eraill y mae angen eu bodloni er mwyn cyflwyno hawliad meddiant.
26. Dylai canllawiau statudol hysbysu awdurdodau tai lleol bod derbyn hysbysiad o'r fath yn gyfystyr â chais am gymorth digartrefedd yn unol ag Adran 62(1) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, ac y bydd dyletswydd ar yr awdurdod tai lleol i asesu achos yr unigolyn, gan gynnwys ystyried pa ddyletswydd sy'n ddyledus i'r ceisydd, a llunio asesiad o'r angen o ran tai a Chynllun Tai Personol, lle bo'n briodol.
27. Dylai canllawiau nodi y dylai awdurdodau tai lleol drin deiliaid contractau y mae eu landlord wedi hysbysu'r awdurdod tai lleol ynglŷn â bwriad i ddwyn achos meddiant fel rhai dan fygythiad o ddigartrefedd, oni bai fod yr unigolyn o'r farn nad yw'n wynebu risg a bod trefniadau amgen wedi'u gwneud.

Addasrwydd llety sefydlog a dros dro

Cyflwyno safonau addasrwydd dros gyfnod

28. Dylid rhoi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i adolygu safonau addasrwydd bob tair blynedd er mwyn asesu a yw datblygiadau yn y cyflenwad o dai yn galluogi'r Llywodraeth i gyflwyno lefel uwch o safonau gofynnol. Dylai'r adolygiadau hyn gynnwys ystyried:
- a. A ddylid rhagnodi nad yw llety dros dro gorlawn byth yn addas;
 - b. A ddylid rhagnodi y dylai ystafell fyw bob amser fod ar wahân i ystafelloedd cysgu;
 - c. A ddylid rhagnodi safonau gofod mwy hael ar gyfer ystafelloedd cysgu;
 - d. A ddylid rhagnodi safonau gofynnol yn ymwneud â mynediad at gyfleusterau

preifat (yn hytrach na chyfleusterau a rennir) er enghraifft coginio a thoiledau;

- e. A ddylid rhagnodi rheoliadau llymach yn ymwneud â fforddiadwyedd rhenti â thaliadau gwasanaeth mewn llety dros dro.

Safonau addasrwydd gofynnol i'w rhoi ar waith ar unwaith

29. Dylid diwygio Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015, OS 2015/1268, ("y Gorchymyn Addasrwydd 2015") i nodi:

- Ni fydd llety cysgu a rennir rhwng unigolion nad ydynt yn aelodau o deulu yn cael ei ystyried yn addas mewn unrhyw amgylchiadau (mae teulu yn cyfeirio at y diffiniad yn Adran 56 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac yn cynnwys y rhai sy'n byw fel arfer gyda'r ceisydd fel aelod o'i deulu ac unrhyw berson arall y byddai'n rhesymol disgwyl iddo fyw gyda'r ceisydd).
- Lle na ddarperir cyfleusterau megis cyfleusterau coginio neu olchi dillad yn y llety, dylid cael trefniant lle bydd y costau ychwanegol i'r aelwyd yn cael eu had-dalu gan yr awdurdod tai lleol.
- Nid yw llety a asesir fel un sy'n cynnwys peryglon Categori Un byth yn addas.
- Nid yw llety sy'n anaddas i bobl fyw ynddo byth yn addas.
- Dylai'r llety gynnwys toiled sy'n gweithio'n iawn, cyfleusterau ymolchi a chyfleusterau coginio (boed yn gyfleusterau preifat neu'n rhai a rennir).
- Dylai'r llety gynnwys cyfleusterau ar gyfer gwasanaethau Wi-Fi, sydd naill ai am ddim i'r ceisydd a'i aelwyd eu defnyddio, neu bod yr awdurdod tai lleol yn fodlon eu bod yn fforddiadwy i'r ceisydd.
- Dylai llety ganiatáu mynediad i'r trigolion bob adeg o'r dydd a'r nos.

30. Pan fydd awdurdod tai lleol yn ystyried a ddylai llety fod yn fforddiadwy i'r ceisydd a'i aelwyd (dan Adran 59(2) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014), dylid ystyried cost cludiant cyhoeddus neu breifat er mwyn i'r ceisydd allu cael mynediad at addysg, cyflogaeth, cyfleusterau

meddygol a gwasanaethau eraill a nodir yn Rheoliad 3 o Orchymyn Addasrwydd 2015. Un ffordd o sicrhau bod yr awdurdod tai lleol yn gallu bod yn fodlon bod y gost yn fforddiadwy fyddai drwy ad-dalu'r costau hynny i'r ceisydd. Rydym yn rhagweld y byddai'r senario hon yn gymwys gan amlaf i gynigion dan y ddyletswydd interim yn hytrach na'r brif ddyletswydd i ddarparu llety. Dylid darparu canllawiau er mwyn amlinellu paramedrau'r hyn a fyddai'n cael ei gynnwys gan yr amod hwn.

- Dylid dileu'r eithriad yn Erthygl 7(2) o Orchymyn Addasrwydd 2015 ac yn 19.81 o'r Cod Canllawiau (sy'n nodi y bydd llety nad yw'n bodloni'r safon uwch er hynny yn addas am hyd at 6 wythnos os yw'r llety ym mherchnogaeth neu'n cael ei reoli gan awdurdod tai lleol neu landlord cymdeithasol cofrestredig). Dylai'r un safonau fod yn gymwys ar gyfer llety mewn perchnogaeth breifat ac ar gyfer llety nad yw'n hunangynhwysol sydd ym mherchnogaeth neu a reolir gan awdurdod tai lleol/landlord cymdeithasol cofrestredig.
- Ni ddylai llety sy'n orlawn yn statudol fod yn addas ac eithrio fel llety dros dro, a hyd yn oed wedyn, am ddim mwy na chyfnod hwyaf a ddiffiniwyd (a ddylai yn ein barn ni fod mor fyr ag sy'n bosibl, ac mewn unrhyw achos, yn ddim mwy na 6 wythnos). Dylai canllawiau statudol amlinellu'r fframiau amser a'r amgylchiadau eithriadol lle byddai hyn yn gymwys.
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylai cysylltiad unigolyn â'r iaith Gymraeg fod yn gysylltiedig ag addasrwydd llety, gan ofyn am gyngor yn ôl y galw gan y Comisiwn Cymunedau Cymraeg.
- Dylai canllawiau amlinellu'r safonau ymarfer da yn ymwneud â mynediad at gyfleusterau golchi dillad.

Dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

- Dylai canllawiau statudol sy'n gysylltiedig â Gorchymyn Addasrwydd 2015 sicrhau hyblygrwydd er mwyn hwyluso dewis y ceisydd. Os yw'r ceisydd yn dewis cyfaddawdu er mwyn hwyluso ei ddewis, rhaid hysbysu'r ceisydd ynglŷn â'r safonau is a rhaid ystyried ei

ddymuniadau a chael cydsyniad penodol ganddo.

Sylwer: Mae'r Panel yn rhagweld na fydd y cymal uchod yn cael ei ddefnyddio mor aml wrth i safonau Llety Dros Dro wella dros gyfnod ac wrth i broblemau sy'n ymwneud â'r cyflenwad o dai cymdeithasol leihau.

Mae'r argymhellion ar dudalennau 57–58 dan Gynlluniau Tai Personol yn nodi y dylid cofnodi dymuniadau a barn ceisydd ynglŷn â beth yw llety addas yn y cynllun hwn (y bwriedir iddo fod yn statudol) a'u hystyried wrth gynnig llety ac yn unrhyw adolygiad perthnasol.

Lleoliad lety

- Dylid diwygio Rheoliad 3(b) Gorchymyn Addasrwydd 2015 er mwyn ystyried agosrwydd a hygyrchedd "cymorth teuluol," a "chymorth" yn fwy cyffredinol, gan gynnwys rhwydweithiau nad ydynt yn rhai teuluol.
- Dylid defnyddio'r gair "angenrheidiol" yn hytrach na "hanfodol" yn Rheoliad 3(d) o Orchymyn Addasrwydd 2015 er mwyn sicrhau ystyriaeth fwy cyffredinol ac ehangach o les ceisydd: "agosrwydd a hygyrchedd cyfleusterau meddygol a gwasanaethau cymorth eraill sydd ar hyn o bryd yn cael eu defnyddio gan y person neu'n cael eu darparu iddo ac sy'n hanfodol er llesiant y person hwnnw."
- Dylid diwygio'r cyfeiriad at gam-drin domestig yn Rheoliad 3(g) o Orchymyn Addasrwydd 2015 i ddarllen "domestig neu gam-driniaeth arall." Bydd hyn yn ystyried agosrwydd cyflawnwyr troseddau honedig a dioddefwyr cam-drin domestig yn ogystal â mathau eraill o gamdriniaeth, gan gynnwys ymhlith pethau eraill camdriniaeth hiliol, homoffobig a thrawsffobig.
- Dylid diwygio Rheoliad 3 o Orchymyn Addasrwydd 2015 (a chanllawiau cysylltiedig) i nodi na fydd llety yn addas oni bai ei fod wedi'i leoli o fewn pellter teithio rhesymol o gyfleusterau addysgol presennol, cyflogaeth, cyfrifoldebau gofalu, cyfleusterau meddygol a gwasanaethau cefnogi eraill, gan gynnwys rhwydweithiau cefnogi anffurfiol, ac eithrio os

bydd y ceisydd yn dymuno symud ymhellach na phellter teithio rhesymol oddi wrth y cyfleusterau hynny. Dylai'r diwygiadau hyn ddarparu eithriad lle bydd llety dros dro yn cael ei sicrhau dan Adran 68 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac nad oes llety addas ar gael. Dylai'r eithriad hwn fod am ddim mwy na chyfnod a bennwyd fel uchafswm.

- Mewn cysylltiad â'r uchod, lle bo'r ceisydd yn cael cynnig llety tymor hwy neu sefydlog er mwyn dod â'r ddyletswydd atal neu'r brif ddyletswydd i ddarparu llety i ben, gallai fod yn rhesymol disgwyl i'r ceisydd newid ysgolion a/neu gyfleusterau meddygol, gan ddibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn. Ni fyddai byth yn rhesymol disgwyl i'r ceisydd neu aelod o'i aelwyd adael ei waith presennol. Yn yr amgylchiadau hynny, byddai'r pellter teithio rhesymol y cyfeirir ato yn gymwys i gyfleusterau addysgol newydd neu gyfleusterau meddygol. Yn unol ag argymhellion y Panel dan gysylltiad lleol, dylai canllawiau statudol bwysleisio na ddylid disgwyl i geisydd newid ysgolion os oes presenoldeb ers cyfnod maith, lle byddai newid ysgol yn amharu ar les y plentyn, neu lle mae angen i blentyn fynychu ysgol benodol er mwyn cael cymorth penodol.

Digartref gartref

- Dylai canllawiau statudol bwysleisio y gall unigolyn fod â rhywle i aros yn y tymor byr i ganolig ond dal i gael ei ystyried yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd (cyfeirir at hyn weithiau fel "digartref gartref"). Mae'r trothwy yn Adran 62(1) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn isel: "os yw'n ymddangos i'r awdurdod y gallai'r person fod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd." [ychwanegwyd pwyslais] Os bydd person yn dweud ei fod yn ddigartref, neu dan fygythiad o ddigartrefedd, a'i fod yn gallu parhau i feddiannu'r llety yn y tymor byr neu ganolig, dylid derbyn cais am gymorth digartrefedd. Dylai'r awdurdod tai lleol asesu anghenion tai'r ceisydd a llunio Cynllun Tai Personol gyda'r ceisydd. Mae'n bwysig iawn bod y rhwymedigaethau hyn yn parhau yn yr amgylchiadau lle gallai awdurdod tai lleol ystyried bod unigolyn yn "ddigartref gartref." Mae'r dyletswyddau statudol yn parhau'n gymwys.

42. Dylai canllawiau statudol bwysleisio bod y prawf ar gyfer ystyried a yw'n "rhesymol parhau i feddiannu" llety yn cyfeirio at yr hirdymor. Gallai person fod yn ddiartref gan nad yw'n rhesymol iddo feddiannu ei lety yn yr hirdymor a dal i allu meddiannu'r llety hwnnw yn y tymor byr. Yn yr amgylchiadau hynny, bydd y brif ddyletswydd i ddarparu llety dan Adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn gymwys a bydd yr awdurdod tai lleol yn dod â'r ddyletswydd honno i ben drwy gynnig llety rhentu preifat neu lety addas Rhan 6 addas i'r ceisydd. Tra bydd y ceisydd yn aros am y cynnig hwnnw, os bydd yn well ganddo aros yn y llety, bydd yn ddiartref gartref.
43. Bydd yr hysbysiad ysgrifenedig ynglŷn â chanlyniad yr asesiad o'r angen am lety yn hysbysu'r ceisydd ynglŷn â'i hawl i ofyn am adolygiad (Adran 63(4) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014). Os bydd yr awdurdod tai lleol yn penderfynu y gall y ceisydd barhau i feddiannu'r llety (sydd, yn yr hirdymor, ddim yn rhesymol i barhau i'w feddiannu) at ddibenion y ddyletswydd interim neu'r brif ddyletswydd i ddarparu llety (Adranau 68 neu 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014), bydd yr awdurdod tai lleol yn hysbysu'r ceisydd ynglŷn â'i benderfyniad nad yw llety yn addas ac yn ei hysbysu ynglŷn â'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw, ynglŷn â chanlyniadau posibl derbyn neu wrthod y llety hwnnw ac ynglŷn â'i hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad yn ymwneud ag addasrwydd (gan gynnwys unrhyw bryd yn ystod y cyfnod y mae'r llety'n cael ei feddiannu). Bydd hyn yn caniatáu i'r ceisydd godi unrhyw fater yn ymwneud â pham na fyddai'r llety'n addas i'w feddiannu ganddo hyd yn oed yn y tymor byr neu ganolig.
44. Dylid cyflwyno cyfyngiadau yn ymwneud â'r arfer o roi blaenoriaeth is i geiswyr sy'n "ddiartref gartref" o'u cymharu â cheiswyr eraill ar gynllun dyrannu awdurdod tai lleol, naill ai drwy ddiwygio Rhan 6 o Ddeddf Tai 1996 neu drwy ganllawiau. Pwrpas hyn yw er mwyn sicrhau nad yw ceiswyr yn teimlo nad oes arnynt eisiau bod yn "ddiartref gartref," ymarfer sy'n lleihau pwysau ar lety dros dro. Dylai canllawiau statudol ar ddyrannu llety gan awdurdodau tai lleol nodi na ddylai awdurdodau tai lleol roi llai o ffafriaeth neu flaenoriaeth i geiswyr sy'n "ddiartref gartref"

yn eu cynlluniau dyrannu tai nag i geiswyr eraill y mae dyletswydd iddynt dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Polisiau ar gyfer llety dros dro a/neu lety â chymorth

45. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau tai lleol ar 'reolau tŷ' a threfniadau eraill mewn llety dros dro a llety â chymorth, yn enwedig mewn mathau cynullol o letyau o'r fath. Dylai canllawiau o'r fath roi sylw i faterion y gwyddys eu bod yn achosi rhwystrau o ran mynediad neu a allai amharu ar les trigolion. Dylent gydnabod y dylai pobl sydd mewn llety dros dro gael eu galluogi i weithio, ac na ddylai rheolau tŷ gosbi tenantiaid, er enghraifft, am fethu â bod yn bresennol yn ystod eu horiau gwaith. Dylai'r canllawiau hyn hefyd drafod a rhoi sylw i feysydd amrywiol eraill y gwyddys eu bod yn achosi rhwystrau anodd, gan gynnwys: polisiau dim anifeiliaid anwes; cyrffw; defnyddio teledu cylch cyfyng, taliadau gwasanaeth; polisiau ôl-ddyledion rhent; polisiau gwahardd; polisiau yn ymwneud ag euogfarnau blaenorol, ac yn y blaen. Dylid llunio canllawiau o'r fath yng nghyd-destun dull strategol ehangach o drafod dyfodol llety dros dro a llety â chymorth yng Nghymru.

Hawliau sy'n gysylltiedig ag adolygiad: addasrwydd llety

46. Pryd bynnag y bydd awdurdod tai lleol yn sicrhau llety i geisydd dan y ddyletswydd interim, y brif ddyletswydd i ddarparu llety neu'r ddyletswydd i geisydd y mae ei achos yn cael ei ystyried ar gyfer atgyfeiriad cysylltiad lleol (Adranau 68, 75 ac 82 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014), dylai hysbysu'r ceisydd yn ysgrifenedig:
- Ynglŷn â'i benderfyniad bod y llety yn addas;
 - Ynglŷn â'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw;
 - Ynglŷn â chanlyniadau posibl derbyn a gwrthod;
 - Ynglŷn â hawl y ceisydd i ofyn am adolygiad o addasrwydd llety (pa un a yw'n ei dderbyn ynteu'n ei wrthod); ac

- Y gellir gwneud cais am adolygiad unrhyw bryd pan fydd y ceisydd yn meddiannu'r llety.
47. Os yw'r llety'n cael ei sicrhau dan unrhyw un o'r dyletswyddau yn Adran 68, 75 neu 82 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, dylai'r ceisydd gael yr hawl i ofyn am adolygiad o addasrwydd llety unrhyw bryd yn ystod y cyfnod y mae'n meddiannu'r llety (ac ni ddylid ei gyfyngu i ofyn am adolygiad cyn pen 21 diwrnod ar ôl cael cynnig llety). Ar ôl i'r ceisydd ofyn am adolygiad o addasrwydd llety, a chael ei hysbysu ynglŷn â phenderfyniad yr adolygiad, os bydd y ceisydd yn gofyn yn ddiweddarach am adolygiad arall o addasrwydd llety, byddai'n rhaid iddo ddangos bod ei amgylchiadau wedi newid ers penderfyniad yr adolygiad blaenorol.
48. Dylai unrhyw gais am adolygiad o addasrwydd llety sy'n cael ei feddiannu dan y dyletswyddau yn Adranau 68, 75 neu 82 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 gael ei gwblhau a'i ddwyn i sylw'r ceisydd cyn pen cyfnod heb fod yn fwy na thair wythnos ar ôl y cais neu gyfnod hwy y bydd yr adolygwr a'r ceisydd yn cytuno arno yn ysgrifenedig.
49. Dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol gyfathrebu yn rheolaidd â cheiswyr ynglŷn â'r canlynol:
- Cynnydd eu cais am lety hirdymor a'r graddfeydd amser disgwylid (gweler yr argymhellion dan yr adran Cynlluniau Tai Personol);
 - Eu hawliau i ofyn am adolygiad o addasrwydd y llety ac unrhyw benderfyniadau perthnasol eraill;
 - Cymorth a allai fod ar gael i'r ceisydd.

Addasrwydd llety i gymunedau sipsiwn, roma a theithwyr

50. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu eglurder ynglŷn â'r dull y mae'n ei ffafrio ar gyfer defnyddio pwerau dan Ddeddf yr Heddlu, Trosedd, Dedfrydau a Llysoedd 2022 i'w gwneud yn ofynnol i'r rhai hynny o gymunedau sy'n teithio (Sipsiwn, Roma neu Deithwyr) adael tir. Os caiff y pwerau hyn eu defnyddio, dylai Llywodraeth Cymru weithredu i sicrhau bod y rhai y gofynnir

iddynt adael tir dan y Ddeddf hon yn cael cynnig llety dros dro sy'n briodol o safbwynt eu diwylliant, a hynny'n gyflym. Bydd hyn yn cynnwys gweithio i sicrhau bod safleoedd priodol ar gael a bod Asesiadau o anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

51. Dylai canllawiau statudol nodi ei bod yn ofynnol i'r awdurdod tai lleol ofyn i geisydd o'r Gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr a yw'n gwrthwynebu brics a mortar oherwydd ei ddiwylliant ai peidio, a sicrhau bod llety yn briodol ac yn addas i'r ceisydd hwnnw.

Cynyddu opsiynau tai a dod â'r brif ddyletswydd i ddarparu llety i ben

52. Bod y brif ddyletswydd i ddarparu llety yn Adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn gallu dod i ben drwy ystod fwy o opsiynau tai. Ar hyn o bryd, yr unig ffordd y gall ddod i ben yw pan fydd y ceisydd yn cael cynnig ac yn derbyn neu'n gwrthod llety Rhan 6 addas (tai cymdeithasol) neu lety addas yn y sector rhentu preifat (neu'n gwrthod llety Adran 75 addas): Adran 76(2) a (3) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Byddai'r argymhelliad hwn yn caniatáu i awdurdod tai lleol ddod â'r brif ddyletswydd i ddarparu llety i ben mewn amgylchiadau eraill, ond **dim ond** lle mae'r awdurdod tai lleol yn fodlon bod yr amodau a ganlyn wedi'u bodloni:
- bod y llety yn addas i'r ceisydd ei feddiannu, a phob aelod o'i aelwyd; a
 - bod y llety yn debygol o fod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu, a phob aelod o'i aelwyd, am o leiaf 12 mis.
53. Bod opsiynau a allai ddod o dan y dull ychwanegol hwn o ddod â'r brif ddyletswydd i ddarparu llety i ben yn cynnwys:
- Darparu cyngor a chymorth sy'n helpu ceisydd a oedd yn ddiartref oherwydd bod ganddo lety nad oedd yn rhesymol parhau i'w feddiannu i ddychwelyd i feddiannu'r llety hwnnw. Mae enghreifftiau o gyngor a chymorth o'r fath yn cynnwys helpu ceisydd i gael gwaharddeb i'w alluogi i ailfeddiannu ei gartref yn dilyn troi allan anghyfreithlon, helpu ceisydd i gael gorchymyn meddiannaeth neu rwymedi

- cyfreithiol arall i wahardd rhywun sydd wedi cyflawni camdriniaeth neu drais, gosod nodweddion diogelwch ffisegol, helpu'r ceisydd i gael cyngor fel bod modd trosglwyddo perchnogaeth neu denantiaeth i'w enw ef yn unig;
- b. cynorthwyo'r ceisydd i symud i dŷ llety â chymorth neu fath arall o lety â chymorth.
- c. cynorthwyo'r ceisydd i ddychwelyd i gartref y mae wedi cael ei wahardd ohono gan rieni neu deulu, er enghraifft darparu gwasanaethau cyfryngu.
54. Dylai fod yn ofynnol i unrhyw gynig o lety sy'n dod o fewn yr "opsiwn ychwanegol" hwn gynnwys y mesurau diogelu a ganlyn:
- a. Cytundeb ysgrifenedig megis contract meddiannaeth (os yw'n briodol) a/neu ddatganiad o hawliau a chyfrifoldeb;
- b. Rhaid i'r ceisydd fod wedi cael ei hysbysu yn ysgrifenedig ynglŷn â chanlyniad derbyn y cynnig (y bydd y ddyletswydd yn dod i ben);
- c. Rhaid i gynig o lety o'r fath gael ei dderbyn yn ysgrifenedig gan y ceisydd os yw'r opsiwn hwn i'w ddefnyddio i ddod â'r ddyletswydd i ddarparu llety i ben. Ni all gwrthod cynnig o'r fath arwain at ddod â'r brif ddyletswydd i ddarparu llety i ben, h.y. **mae gan y ceisydd feto**;
- d. Cynnig o gyngor annibynnol ynglŷn â llety i'r ceisydd cyn derbyn llety "opsiwn ychwanegol";
- e. Gwybodaeth ysgrifenedig i'r ceisydd ynglŷn â'i hawl i ofyn am adolygiad o addasrwydd y llety;
- f. Hysbysu'r ceisydd y gall wneud cais newydd am gymorth digartrefedd gan yr awdurdod tai lleol os bydd y cytundeb yn methu (a sut i wneud hynny);
- g. Yn ogystal â sicrhau bod y llety'n bodloni'r holl safonau arferol ar gyfer 'addasrwydd,' rhaid cadarnhau'r canlynol:
- i. mynediad 24 awr i'r llety hwnnw
- ii. cyfleusterau toiled ac ymolchi digonol
- iii. mynediad at gyfleusterau cegin
- iv. ystafell wely breifat
- v. ystafell fyw ar gael os yw'r ceisydd yn byw gyda phlant
- vi. fforddiadwy;
- h. bod gan yr awdurdod tai lleol ddyletswydd i gysylltu â'r ceisydd chwe mis ar ôl iddo dderbyn y cynnig er mwyn canfod a yw'r llety'n parhau i fod yn addas a/neu a yw'r ceisydd dan fygythiad o ddigartrefedd neu'n ddigartref.
- Sylwer: Os oes ddyletswydd i gynig cymorth er mwyn cadw llety, (gweler argymhelliad 78), bydd y ddyletswydd hon yn parhau'n gymwys i bobl sy'n derbyn llety "opsiwn ychwanegol".*
55. Os yw'n ymddangos i'r awdurdod tai lleol nad yw'r llety ar gael mwyach i'r ceisydd (neu i bob aelod o'i aelwyd) neu os nad yw'n addas mwyach, dylai'r awdurdod tai lleol gynorthwyo'r ceisydd i wneud cais newydd am gymorth digartrefedd dan Adran 62(1) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Dylai canllawiau statudol gynnwys cyngor y dylai awdurdodau tai lleol fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gallai ceisydd ganfod ei hun yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd o lety "opsiwn ychwanegol" o'r fath a dylai dderbyn cais newydd am gymorth digartrefedd a chydymffurfio â ddyletswyddau statudol yn fuan.
56. Dylai canllawiau statudol nodi bod yn rhaid i awdurdodau tai lleol fonitro eu defnydd o lety "opsiwnau ychwanegol", cadw cofnod o nifer y cynigion sy'n cael eu gwneud a'u derbyn, y math o lety, nodweddion y ceisydd a pham yr oedd yn briodol dod â'r ddyletswydd i ben â'r opsiwn hwn. Dylai Llywodraeth Cymru oruchwylio'r cofnodion hyn.

Dyrannu tai cymdeithasol

Enwebiadau awdurdodau lleol i gymdeithasau tai

57. Dylai Llywodraeth Cymru geisio cyflwyno deddfwriaeth o natur debyg i Adran 5 o Ddeddf Tai (Yr Alban) 2001, a fyddai'n galluogi awdurdod tai lleol i ofyn i landlord cymdeithasol cofrestredig ddarparu llety i berson y mae gan awdurdod tai lleol ddyletswydd iddo dan Adran 75(1) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Rhaid i'r landlord cymdeithasol cofrestredig gydymffurfio o fewn cyfnod rhesymol o amser oni bai fod ganddo reswm da dros beidio â gwneud hynny, ac os hynny dylai ymateb ysgrifenedig yn nodi'r rheswm y dibynnwyd arno gael ei ddarparu i'r awdurdod tai lleol a'i dderbyn ganddo. Bydd yn hollbwysig bod ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i'r canllawiau ategol sy'n amlinellu natur "rhesymau da" a "chyfnod rhesymol o amser" gan sicrhau bod hyn yn gymwys i'r cyd-destun yng Nghymru.
- Wrth benderfynu a ddylid gwneud cais o'r fath, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried a oes llety priodol ar gael yn ei ardal.
- Dylai awdurdodau tai lleol hefyd ystyried addasrwydd y llety i'r unigolyn fel y nodwyd yn yr asesiad o'r angen am lety a/neu'r Cynllun Tai Personol.
58. Wrth benderfynu ynglŷn â newid deddfwriaethol o'r fath, a chan gadw unrhyw effaith gronnydd y gallai newidiadau eraill a argymhellwyd mewn cof, dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n rhagweithiol i sicrhau na fydd hyn yn achosi i'r Swyddfa ystadegau Gwladol aiddosbarthu cymdeithasau tai.
59. Dylai Llywodraeth Cymru annog awdurdodau tai lleol i ddefnyddio contractau a chynlluniau dyrannu i egluro a all landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, y mae ganddynt drefniadau enwebu gyda hwy, wrthod enwebiad, ac os hynny, ar ba sail. Mae'r Panel yn argymhell y byddai'n ymarfer da i awdurdodau tai lleol ailedrych ar y contractau a'r polisiâu dyrannu presennol er mwyn sicrhau bod y rhain yn ymwneud ag enwebiadau ac egluro ar ba sail na fyddai enwebiadau yn cael eu derbyn. Dylid pwysleisio'r pwynt hwn ym Mhennod 3 o'r

Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Dyrannu Llety a Digartrefedd.

Cynlluniau dyrannu

60. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth newydd i sicrhau'r defnydd o Gofrestrau Tai Cyffredin ar draws pob ardal awdurdod tai lleol.
- (Gweler hefyd argymhelliad 64 ar Bolisiau Dyrannu Cyffredin.)*
61. Dylid diwygio Rhan 6 o Ddeddf Tai 1996 er mwyn rhoi pŵer i awdurdodau tai lleol nodi na fydd grwpiau penodol o bobl, nad ydynt mewn angen o safbwynt llety, yn gymwys ar gyfer eu cynllun dyrannu. Dylai canllawiau statudol ddarparu diffiniad o angen am lety. Byddai'r pŵer hwn yn un caniatool yn unig; bydd awdurdodau tai lleol yn cadw disgrisiwn i dderbyn pob ceisydd i'w cynllun dyrannu pa un a oes ganddo anghenion llety ai peidio.
62. Dylai'r Cod Canllawiau ddarparu eglurhad bod y prawf presennol ar gyfer ymddygiad annerbyniol, sy'n caniatáu i awdurdod tai lleol wahardd ceisydd o'i gynllun dyrannu, neu dynnu unrhyw ddymuniad rhesymol oddi arno, yn gymwys dim ond:
- a. lle mae ceisydd (neu aelod o'i aelwyd) wedi bod yn euog o ymddygiad annerbyniol, sy'n ddigon difrifol i dorri amodau Adran 55 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 gan arwain at orchymyn meddiant llwyr; ac
- b. ar adeg ystyried y ceisydd, lle mae'r ceisydd yn parhau'n anaddas i fod yn denant oherwydd yr ymddygiad hwnnw (Adranau 160A(7) ac (8) a 167(2B) a (2C) o Ddeddf Tai 1996.
63. Dylai'r Cod Canllawiau bwysleisio difrifoldeb ymddygiad sy'n ofynnol er mwyn arwain at orchymyn meddiant llwyr. Yn ogystal, dylai bwysleisio bod angen i awdurdodau tai lleol ystyried hefyd a yw amgylchiadau presennol y ceisydd, ar yr adeg yr ystyrir y cais, yn golygu nad yw'n addas mwyach i fod yn denant. Fel rhan o hyn, dylai awdurdodau tai lleol ystyried cymorth sy'n cael ei ddarparu i'r ceisydd a fydd yn lleihau risgiau. Yn benodol, dylai'r Cod Canllawiau egluro nad yw hanes

o ôl-ddyledion rhent a/neu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn arwain at y casgliad y bydd ceisydd bob amser yn anaddas i fod yn denant oherwydd yr hanes hwnnw.

64. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno Polisiâu Dyrannu Cyffredin ledled Cymru. Gallai Llywodraeth Cymru amlinellu canllawiau i awdurdodau tai lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ymwneud â pholisiâu dyrannu tai cymdeithasol, gan geisio sicrhau dull gweithredu mwy cyson a lleihau effaith polisiâu y gwyddys eu bod yn creu rhwystrau, megis ôl-ddyledion rhent hanesyddol, gwarantwyr (lle mae amgylchiadau'n golygu bod ceisydd yn gallu dangos y byddai'n anodd cael gwarantwr), polisiâu rhent ymlaen llaw, cyfyngiadau oedran, polisiâu dim anifeiliaid anwes a chyfyngiadau ar gyn-droseddwr. Dylid llunio canllawiau o'r fath ar y cyd â'r sector a dylent fod yn seiliedig ar yr arferion gorau presennol.

65. Dylai canllawiau amlinellu, lle mae cysylltiad lleol yn faen prawf ar gyfer pennu blaenoriaethau yn y cynllun dyrannu:

a. y dylai "cysylltiad lleol" gyfeirio'n benodol at y meini prawf cysylltiad lleol sydd yn Adran 81 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn eu cyfanrwydd (gan gynnwys unrhyw grwpiau a nodir fel rhai sydd wedi'u heithrio o'r atgyfeiriadau cysylltiad lleol (*gweler argymhelliad 9 ar gysylltiad lleol dan yr adran ar y profion cyfreithiol*); a

b. lle defnyddir "preswylid" fel ffordd o gael cysylltiad lleol, y dylid nodi'r cyfnod preswylid sy'n ofynnol er mwyn creu cysylltiad lleol yn y cynllun dyrannu.

66. Dylid darparu mecanwaith clir i geiswyr, nad yw'n ddibynnol ar gyllid Cymorth Cyfreithiol, i herio penderfyniad yn ymwneud â dyrannu llety gan awdurdod lleol neu landlord cymdeithasol cofrestredig.

Mynd i'r afael â chymhellion gwrthnysig

67. Dylid diwygio Adran 167 o Ddeddf Tai 1996 er mwyn sicrhau, lle bo awdurdod tai lleol yn fodlon bod ceisydd wedi camddefnyddio'r system digartrefedd yn fwriadol at ddibenion cael mynediad â blaenoriaeth at dai

cymdeithasol, bod gan yr awdurdod tai lleol bŵer i ddileu unrhyw ffafriaeth resymol oherwydd bod dyletswyddau digartrefedd yn ddyledus i'r ceisydd dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (Adran 167(2)(b) o Ddeddf Tai 1996) am gyfnod penodol. Byddai'r ceisydd yn parhau ar y cynllun dyrannu, ond byddai'n cael llai o ffafriaeth na cheiswyr digartref eraill y mae ffafriaeth resymol yn ddyledus iddynt dan Adran 167(2)(b) o Ddeddf Tai 1996. Byddai dyletswyddau yn parhau yn ddyledus i'r ceisydd dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, (dyletswyddau digartrefedd), a byddai'n cadw unrhyw ffafriaeth resymol arall y mae ganddo hawl iddi. Byddai angen ystyried y canllawiau cysylltiedig sy'n amlinellu manylion y pŵer i gymhwyso prawf "camddefnyddio yn fwriadol" yn ofalus. Byddai gan y ceisydd hawl i gael ei hysbysu yn ysgrifenedig ynglŷn â phenderfyniad i dynnu ffafriaeth resymol oddi arno ar sail y prawf hwn, â rhesymau dros y penderfyniad. Byddai ganddo hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad a'r cyfnod y mae'n gymwys.

Gwella ffafriaeth resymol

68. Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei phŵer yn Adran 167(3) o Ddeddf Tai 1996 i ddiwygio Adran 167(2) o Ddeddf Tai 1996 er mwyn nodi y bydd pobl y mae unrhyw ddyletswydd sy'n ddyledus iddynt dan Adranau 66 a/neu 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn cael ffafriaeth ychwanegol dros y grwpiau eraill a amlinellir yn Adran 167(2) yn ystod cyfnodau penodol. Dylai canllawiau amlinellu mesurau ar gyfer dechrau a diwedd cyfnodau o'r fath.

69. Dylai canllawiau statudol nodi na ddylai cynlluniau dyrannu roi llai o flaenoriaeth i rai sy'n gadael carchar na rhai sydd wedi'u cyhuddo o gyflawni camdriniaeth, oni bai eu bod yn fodlon bod y prawf ymddygiad annerbyniol yn Adran 160A (7) ac (8) o Ddeddf Tai 1996 yn cael ei fodloni.

Gweler hefyd argymhellion 62 a 63 ar ymddygiad annerbyniol.

70. Dylai unigolion sydd â phrofiad o fod mewn gofal ffurfio chweched grŵp sydd â hawl i ffafriaeth resymol o fewn y cynllun dyrannu dan Adran 167(2) o Ddeddf Tai 1996.

Amrywiol

71. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ystyried y cwestiynau sylfaenol a godwyd gan y gwaith ymchwil ar ddyraniadau a gomisiynwyd yn ddiweddar, gan edrych ar y rôl hirdymor y gall tai cymdeithasol ei chwarae yn y dull gweithredu cenedlaethol ehangach o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Dylai'r ymchwil hwn daflu goleuni ar yr arferion da presennol ac ystyried sut y gallai dyraniadau yn gyffredinol weithio yn fwy effeithiol.

72. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y posibiladau ar gyfer digidoleiddio ym maes tai cymdeithasol a sut y gellid cefnogi datblygiadau o'r fath, gan sicrhau hefyd nad yw ceiswyr sydd â mynediad cyfyngedig i'r rhyngwrwyd, neu ddim mynediad o gwbl, yn ogystal â'r rhai hynny nad oes ganddynt lythrennedd cyfrifiadurol, yn cael eu rhoi dan anfantais.

73. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn fuan i ba raddau y mae gan rai unigolion sy'n gwneud cais am lety cymdeithasol incwm rhy isel ar gyfer rhenti tai cymdeithasol, hyd yn oed â chymorth budd-daliadau lles. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut i ddarparu rhagor o gymorth yn y cyswllt hwn a gwneud sylwadau perthnasol i Lywodraeth y DU.

74. Dylai canllawiau statudol nodi, lle mae rhesymau dilys dros beidio â gallu rhoi unigolyn sy'n gadael carchar ar restr ddyrannu mewn ardal benodol (er enghraifft cyfyngiadau oherwydd y math o drosedd neu agosrwydd at ddiodeffwr cam-drin domestig), y dylai awdurdodau lleol gyfeirio'r carcharor i ardal briodol. Dylai hyn gynnwys amodau cadarn a phroses gymrodeddu gydnabyddedig.

75. Dylai canllawiau nodi y gall awdurdodau tai lleol ddefnyddio'r pŵer yn Adran 167(2) (e) o Ddeddf Tai 1996, lle gellir cadw llety penodol ar gyfer pobl o ddisgrifiad penodol, i flaenoriaethu llety addas ar gyfer unigolion sy'n gadael carchar ac sydd â chyfyngiadau yn ymwneud â'r llety y caniateir iddynt ei feddiannu.

76. Dylai fod yn ofynnol dan y gyfraith i bob awdurdod tai lleol yng Nghymru gadw cofrestr dai hygyrch. Dylai Llywodraeth Cymru roi arweiniad i gefnogi gofyniad o'r fath.

77. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir beth yw ei hagwedd at ymddygiad gwrthgymdeithasol a dyraniadau, gan nodi ei bod yn wahanol i'r dull gweithredu a nodir yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth y DU ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

Cadw llety

78. Dylai Llywodraeth Cymru fewnosod dyletswydd newydd yn Neddf Tai (Cymru) 2014 i awdurdod tai lleol gynorthwyo ceisydd i gadw llety: lle mae'r ceisydd yn meddiannu llety sydd wedi'i sicrhau dan swyddogaeth yn Neddf Tai (Cymru) 2014, lle mae'r ceisydd wedi'i gynorthwyo i sicrhau llety (a allai olygu ei lety presennol), neu lle mae llety wedi cael ei gynnig i'r ceisydd ac wedi cael ei dderbyn ganddo. Dylai'r ddyletswydd hon fod fel a ganlyn: "Os yw ceisydd wedi cael ei asesu fel un sydd angen cymorth er mwyn cadw llety, mae gan yr awdurdod tai lleol ddyletswydd, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol angenrheidiol, gan ystyried anghenion y ceisydd ac adnoddau'r awdurdod tai lleol:

a. i ddarparu'r cyfryw gymorth sy'n dod o fewn ei swyddogaethau i gynorthwyo'r ceisydd i gadw'r llety; a

b. i ofyn i awdurdodau cyhoeddus eraill ddarparu cymorth i gynorthwyo'r ceisydd i gadw'r llety."

Sylwer: Fel yr amlinellwyd ar dudalen 63, mae'r Panel yn argymhell (gweler argymhelliad 97) y dylai adrannau eraill yn yr awdurdod lleol ac awdurdodau cyhoeddus eraill fod yn ddarostyngedig i ddyletswydd i gydweithredu os bydd yr awdurdod tai lleol yn gofyn am gydweithrediad er mwyn darparu'r cymorth.

79. Dylai'r ddyletswydd (a amlinellwyd uchod yn argymhelliad 78) ar awdurdod tai lleol i ddarparu cymorth i geisydd (a/neu aelodau o'i aelwyd) er mwyn i'r ceisydd allu cadw llety barhau nes bydd yr awdurdod tai lleol yn asesu nad oes ar y ceisydd (neu'r aelod o'i aelwyd) angen y cymorth hwnnw mwyach. Wrth wneud yr asesiad hwn, dylai'r awdurdod tai lleol roi sylw dyladwy i farn y landlord (os nad yr awdurdod lleol ei hun yw hwn.) Mae'r ddyletswydd felly'n parhau hyd yn oed ar ôl i unrhyw ddyletswyddau digartrefedd eraill sy'n ddyledus dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ddod i ben.

Bydd yn ofynnol i'r awdurdod lleol adolygu, yn rheolaidd, a oes ar y ceisydd (neu'r aelod perthnasol o aelwyd y ceisydd) angen cymorth o hyd er mwyn cadw llety. Dylai Llywodraeth Cymru geisio ymgynghori ymhellach er mwyn penderfynu ynglŷn â'r cyfnodau rheolaidd hyn.

Fodd bynnag, yn unol ag argymhelliad 87, gallai'r ddyletswydd hon ddod i ben pe bai'r unigolyn yn bodloni amodau "gwrthod cydweithredu a hynny'n fwriadol ac yn afresymol."

80. Dylai canllawiau statudol gynnwys enghreifftiau o'r math o gymorth y gellid ei ddarparu dan y ddyletswydd hon. Er enghraifft, gallai cymorth gynnwys cynorthwyo i gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl, darparu cyfryngu, cymorth i ddeall materion ariannol, cymorth i wneud cais am fudd-daliadau lles ac i'w cadw, cymorth i ddodrefnu llety, gwneud llety yn addas i fyw ynddo, cymorth i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol ymddygiadau sy'n cael eu hystyried yn wrthgymdeithasol a chynnal a chadw'r llety. Dylai canllawiau hefyd ddarparu enghreifftiau yn dangos pryd y gellid ystyried bod y ddyletswydd yn dod i ben mewn amgylchiadau amrywiol.

Y cyflenwad tai

81. Dylid diwygio Adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i nodi'n benodol ei bod yn ofynnol i awdurdodau tai lleol ystyried eu hadolygiad a'u strategaeth digartrefedd (Adrannau 51 a 52 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014) a lefelau digartrefedd yn eu hardal, a'r lefelau tebygol yn y dyfodol, wrth lunio eu strategaeth dai ac Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA).
82. Dylai Llywodraeth Cymru geisio mynd i'r afael â'r problemau sylfaenol ac allweddol sy'n gysylltiedig â'r cyflenwad tai. Mae'r Panel yn nodi bod canllawiau statudol eisoes yn nodi y dylai strategaethau amrywiol, megis Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol, ystyried digartrefedd a chysylltu â strategaethau eraill megis Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym ac Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr, ond oherwydd maint y broblem â chyflenwad llety Cymru, mae angen gwaith i sicrhau bod y cysylltiadau hyn yn gweithio'n effeithiol a

bod gwaith cynllunio a datblygu wedi'i seilio'n briodol ar ddata manwl am fylchau yn y cyflenwad tai.

Y broses o wneud cais

Cyfathrebu â cheiswyr

83. Dylai canllawiau statudol amlinellu pwysigrwydd tryloywder ynglŷn â pha mor aml, ac ar ba adegau perthnasol, y dylai'r awdurdod tai lleol gysylltu'n rhagweithiol â'r ceisydd a chyfathrebu statws y cais. Gallai'r cyfnodau hyn amrywio o'r naill unigolyn i'r llall a dylid cytuno arnynt gydag unigolion yn gynnar yn eu cais.

Sylwer bod yr argymhelliad hwn hefyd yn cael ei atgyfnerthu gan argymhellion dan "Gynlluniau Tai Personol" sy'n cynnig y dylai amllder cyfathrebu rhwng y tîm cymorth tai a'r ceisydd gael ei drafod a'i gytuno gyda'r ceisydd a'i gofnodi yn ei gynllun.

84. Dylai canllawiau statudol nodi bod y broses o wneud cais yn hygyrch. Dylid cynnig gwybodaeth i geiswyr mewn iaith glir ac mewn fformatau amrywiol (er enghraifft, i bobl nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf neu i bobl niwrowahanol).
85. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu templed o lythyrau mewn iaith glir i gynorthwyo awdurdodau tai lleol. Gellid llunio'r rhain ar y cyd ag arbenigwyr drwy brofiad.
86. Dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu hyfforddiant rheolaidd i staff gwasanaethau tai ar:
- dulliau gweithredu sy'n ystyriol o drawma;
 - cydraddoldeb a hygyrchedd.

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall gefnogi'r broses o gynhyrchu hyfforddiant o'r fath ar y cyd â phobl sydd â phrofiad personol.

Methu â chydweithredu

87. Dylid newid y ddarpariaeth bresennol sy'n nodi y gall unrhyw ddyletswydd sy'n ddyledus i geisydd ddod i ben os yw'r awdurdod tai lleol yn fodlon bod y ceisydd yn methu â chydweithredu â'r awdurdod tai lleol wrth ymarfer ei swyddogaethau (Adran 79(5)

o Ddeddf Tai (Cymru) 2014), a hynny yn afresymol, am gymal mwy cyfyng "gwrthod cydweithredu a hynny'n fwriadol ac yn afresymol", a fydd yn golygu na ellir dod â dyletswydd sy'n ddyledus i geisydd i ben ac eithrio am nifer fach o resymau cyfyngedig sydd wedi'u diffinio'n glir. Drwy awgrymu y dylid defnyddio'r gair "gwrthod" yn lle "methu", mae'r Panel yn dymuno pwysleisio na ddylid defnyddio'r cymal oni bai fod y ceisydd wedi ymddieithrio'n fwriadol. Roedd yr enghreifftiau a drafodwyd gan y Panel yn cynnwys lle mae'r awdurdod tai lleol yn fodlon bod y ceisydd wedi dangos:

- ymddygiad bygythiol tuag at staff awdurdod tai lleol;
 - dim cyswllt yn gyson â gwasanaethau opsiynau tai, staff perthnasol yr awdurdod lleol neu'r landlord, neu ddarpariaeth cymorth tai berthnasol wedi'i chomisiynu.
88. Dylai deddfwriaeth nodi, pa bryd bynnag y mae awdurdod lleol yn bwriadu defnyddio'r cymal "gwrthod cydweithredu a hynny'n fwriadol ac yn afresymol", bod yn rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig o "fwriad" i'r ceisydd yn gyntaf. Dylai'r hysbysiad hwn:
- Amlinellu'r rhesymau pam y mae'r awdurdod tai lleol yn credu bod y ceisydd wedi gwrthod cydweithredu a hynny'n fwriadol ac yn afresymol;
 - amlinellu canlyniadau unrhyw benderfyniad bod y ddyletswydd sy'n ddyledus iddo wedi dod i ben i'r ceisydd;
 - rhoi cyfle o fewn cyfnod penodedig o amser i'r ceisydd ymateb.
89. Dylai deddfwriaeth nodi na ddylid hysbysu ceisydd ynglŷn â'r penderfyniad ei fod wedi 'gwrthod cydweithredu a hynny'n fwriadol ac yn afresymol' nes bydd y ceisydd wedi ymateb i hysbysiad o 'fwriad', neu bod y cyfnod penodedig o amser wedi dod i ben. Dylai unrhyw hysbysiad ynglŷn â phenderfyniad bod y ceisydd wedi gwrthod cydweithredu a hynny'n fwriadol ac yn afresymol a bod dyletswydd yr awdurdod tai lleol iddo wedi dod i ben:
- gynnwys y rhesymau dros benderfyniad yr awdurdod tai lleol;

- egluro effaith y penderfyniad; a
- hysbysu'r ceisydd bod ganddo hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad a pha bryd y dylai'r ceisydd ofyn am yr adolygiad.

Cynlluniau tai personol

90. Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol lunio Cynlluniau Tai Personol yn seiliedig ar egwyddorion cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer pob ceisydd y mae'r ddyletswydd atal neu'r brif ddyletswydd i ddarparu llety yn ddyledus iddo dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, â'r newidiadau deddfwriaethol a ganlyn:
- Cyflwyno dyletswydd statudol newydd i lunio a chytuno ar Gynllun Tai Personol gyda'r ceisydd a fydd yn cynnwys y camau a gymerir gan yr awdurdod tai lleol i helpu i atal y ceisydd rhag mynd yn ddigartref a/ neu i sicrhau llety i'r ceisydd;
 - Bydd y ddyletswydd yn gymwys pan fydd awdurdod tai lleol yn derbyn naill ai ddyletswydd atal dan Adran 66 neu brif ddyletswydd i ddarparu llety dan Adran 75(1) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014;
 - Dyletswydd statudol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod tai lleol ganfod a chofnodi dymuniadau'r ceisydd o ran beth fyddai cynnig o lety addas yn yr asesiad o angen ac yn y Cynllun Tai Personol a cheisio parchu a gwireddu'r dymuniadau hynny, lle bo modd. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys unrhyw fathau o lety lle na fyddai'r ceisydd yn teimlo'n ddiogel, dymuniadau ceisydd i gael llety gyda'i anifail anwes neu mewn amgylchedd sy'n cefnogi adferiad o ddefnyddio sylweddau;
 - Dyletswydd statudol bod yn rhaid rhoi sylw i gynnwys asesiad o angen a Chynllun Tai Personol wrth ystyried addasrwydd llety (diwygiad i Adran 59 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014);
 - Dyletswydd statudol i adolygu'r asesiad a'r Cynllun Tai Personol gyda'r ceisydd o fewn ffrâm amser a ddiffiniwyd (*gweler argymhelliad 93 isod*).

Sylwer: Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd y ddyletswydd i lunio Cynllun Tai Personol

- yn gymwys ar ôl i'r awdurdod tai lleol hysbysu'r ceisydd bod y ddyletswydd atal neu'r brif ddyletswydd i ddarparu llety yn ddyledus iddo.*
91. Dylai canllawiau statudol amlinellu pynciau penodol y dylid ymdrin â hwy mewn Cynllun Tai Personol. Er enghraifft, dylai hyn gynnwys cymorth i'r ceisydd mewn cysylltiad â materion ariannol yn ogystal â dealltwriaeth o sut a pha bwyntiau y bydd yr awdurdod tai lleol yn eu cyfathrebu gyda cheisydd ynglŷn â statws ei gais.
92. Dylai canllawiau statudol bwysleisio bod yn rhaid i'r asesiad o angen a'r Cynllun Tai Personol gynnwys, dan benawdau anghenion tai ac angen cymorth i gadw llety, ystyriaeth o unrhyw anabledau sydd gan y ceisydd neu unrhyw aelod o'i aelwyd.
93. Dylai canllawiau statudol ddarparu amlinelliad ar gyfer graddfeydd amser sy'n gysylltiedig â'r cyfnodau rheolaidd hyn ar gyfer cyfathrebu, â fframiau amser penodol yn cael eu teilwra ar gyfer achosion unigol ac yn cael eu cytuno rhwng yr awdurdod tai lleol a'r ceisydd yn y Cynllun Tai Personol.
94. Dylai deddfwriaeth nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau tai lleol adolygu'r asesiad o anghenion llety a Chynlluniau Tai Personol ar bob adeg berthnasol. Dylai hyn gynnwys:
- Pryd bynnag y mae'r ceisydd yn gofyn am ailystyriaeth oherwydd bod ei amgylchiadau wedi newid;
 - Pryd bynnag y mae'n ymddangos i'r awdurdod tai lleol bod anghenion tai neu amgylchiadau'r ceisydd wedi newid;
 - Pryd bynnag y mae'r ddyletswydd sy'n ddyledus i'r ceisydd wedi newid; ac
 - Ar adegau rheolaidd fel y cytunwyd gyda'r ceisydd ond yn ddim mwy na X wythnos/mis (i'w bennu drwy ymgynghori).
95. Rhaid i'r hysbysiad ysgrifenedig o'r asesiad o anghenion tai gynnwys y Cynllun Tai Personol ysgrifenedig a rhaid hysbysu'r ceisydd bod ganddo hawl i ofyn am adolygiad.
96. Dylai'r ceisydd gael yr hawliau a ganlyn i ofyn am adolygiad (i'w gyflawni drwy ddiwygio Adran 85(1) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014):

- hawl i ofyn am adolygiad o gynnwys asesiad o anghenion tai;
- hawl i ofyn am adolygiad o gynnwys y Cynllun Tai Personol gan gynnwys y camau a gofnodwyd yn y Cynllun Tai Personol y bydd yr awdurdod tai lleol yn eu cymryd; (*Ni ddylai'r hawl i ofyn am adolygiad o gynnwys y Cynllun Tai Personol fod yn gyfyngedig i 21 diwrnod o'r dyddiad hysbysu ynglŷn â'r Cynllun Tai Personol a dylai fod ar gael i'r ceisydd bob amser nes bydd y ddyletswydd berthnasol wedi dod i ben.*)
- hawl i ofyn am adolygiad o fethiant yr awdurdod tai lleol i gymryd y camau a gofnodwyd yn y Cynllun Tai Personol (yn gyfan gwbl, neu yn rhannol);
- hawl i ofyn am adolygiad o unrhyw benderfyniad gan yr awdurdod tai lleol bod ei ddyletswydd wedi dod i ben, os yw'r ceisydd yn credu bod yr awdurdod tai lleol wedi methu â chymryd y camau a gofnodwyd yn y Cynllun Tai Personol.

Rhoi diwedd ar ddiartrefedd gyda'n gilydd

Dyletswyddau ar wasanaethau eraill i nodi, cyfeirio, gweithredu a chydweithredu

Dyletswydd newydd ar awdurdodau cyhoeddus penodedig ac unrhyw awdurdod arall sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus er mwyn nodi'r rhai sy'n wynebu risg o ddiartrefedd, gweithredu, cyfeirio a chydweithredu fel sy'n briodol

97. Dylid gosod set newydd o ddyletswyddau statudol (yn cydgrynhoi unrhyw ddyletswyddau statudol sy'n bodoli'n barod o bosibl) ar awdurdodau cyhoeddus ac unrhyw awdurdod arall sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus er mwyn:
- cymryd camau priodol i **nodi** bod unigolyn y mae'n cyflawni swyddogaethau mewn cysylltiad ag ef yn ddiartref neu dan fygythiad o ddiartrefedd, neu y gallai fod yn ddiartref neu dan fygythiad o ddiartrefedd;

- gweithredu** fel sy'n briodol a lle bo o fewn ei bŵer i gynorthwyo i atal digartrefedd yr unigolyn hwnnw;
 - cyfeirio'r** unigolyn (â'i gydsyniad) at y cyfryw awdurdod tai lleol a enwebir gan yr unigolyn. Dylai atgyfeiriad o'r fath, yn ei dro, ysgogi ddyletswydd yr awdurdod tai lleol i wneud asesiad o'r angen am lety dan Adran 62 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014;
 - cydweithredu** â'r awdurdod tai lleol drwy ymateb i geisiadau am gymorth oni bai fod ganddo reswm da dros beidio â gwneud hynny.
98. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r awdurdodau a fyddai'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd hon (gan gynnwys cael cydsyniad llywodraeth y DU ar gyfer yr awdurdodau hynny sy'n dod o fewn pwerau a gadwyd yn ôl). Dylai sefydliadau o'r fath gynnwys:
- Adrannau gwasanaethau cymdeithasol (o fewn yr un awdurdod lleol â'r adran ddiartrefedd berthnasol ac o awdurdodau gwahanol);
 - Pob agwedd ar y GIG, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl;
 - Penaethiaid ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, a phenaethiaid colegau addysg bellach;
 - Sefydliadau addysg uwch;
 - Adrannau'r Adran Gwaith a Phensiynau;
 - Timau troseddwr ifanc;
 - Prawf;
 - Carchardai a chanolfannau cadw cyfiawnder troseddol eraill;
 - Yr heddlu;
 - Y Swyddfa Gartref ar y dyddiad y cafodd ceisiwr lloches y daethpwyd o hyd i lety iddo dan Ddeddf Mewnffudo a Lloches 1999 statws ffoadur neu statws cymwys arall, ac a fydd o ganlyniad dan fygythiad o ddiartrefedd cyn pen chwe mis (ac o bosibl yn llawer cynt);

- Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn mewn cysylltiad â llety i aelodau o'r lluoedd arfog;
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

99. Dylid cyflwyno canllawiau statudol cadarn yn ymwneud â'r ddyletswydd i nodi pobl sy'n ddiartref neu a allai fod dan fygythiad o ddiartrefedd, a ddylai amlinellu sut y bydd yn gweithredu fel sail i ymholiadau wedi'u targedu. Byddai hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth ymhlith staff y sector cyhoeddus a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ynglŷn â nodi ffactorau ar gyfer risg o ddiartrefedd, er enghraifft crynhoi ôl-ddyledion rhent neu anhawster ariannol arall; ymddygiad tenant neu gamau a allai arwain at risg o ddiartrefedd; yn ogystal ag amgylchiadau eraill, gan gynnwys cam-drin domestig neu fath arall o gamdriniaeth, neu achos llys.

Mecanweithiau y gellid eu defnyddio er mwyn annog landlordiaid preifat i gymryd rhan yn y ddyletswydd i nodi, gweithredu, cyfeirio a chydweithredu

100. Dylai'r amodau ar gyfer cofrestru landlordiaid preifat gyda Rhentu Doeth Cymru gynnwys y ffaith fod ganddynt ddyletswydd i hysbysu'r awdurdod tai lleol pan fyddant yn bwriadu cyflwyno hawliad meddiant. Dylid diwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i ddarparu lle bo methiant i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon, y bydd hawliadau meddiant yn cael eu gwrthod.
- (*Gweler yr argymhellion ar Droï Allan ar dudalen 31*).
101. Dylai Llywodraeth Cymru wneud cais i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan nodi, os cyflwynir protocol cyn gweithredu ar gyfer camau meddiannu mewn cysylltiad â'r sector rhentu preifat, y bydd y protocol yn gofyn i landlordiaid hysbysu'r awdurdod tai lleol pan gyflwynir hysbysiad yn ymwneud â meddiannu.
102. Dylai Llywodraeth Cymru roi canllawiau i awdurdodau tai lleol yn nodi y dylai unrhyw gontractau a wneir rhwng awdurdodau lleol a landlordiaid sector preifat, ar gyfer darparu

llety, gynnwys gofynion i landlordiaid sector preifat fod dan ddyletswydd i gydweithredu a darparu gwybodaeth i awdurdodau tai lleol ar gais.

103. Dylai Llywodraeth Cymru roi canllawiau i awdurdodau tai lleol yn nodi y dylai unrhyw gyllid a roddir i fudiadau yn y sector gwirfoddol gynnwys gofynion yn nodi y bydd dyletswydd ar y mudiad a ariennir i gydweithredu a darparu gwybodaeth i awdurdodau tai lleol ar gais.
104. Dylai Llywodraeth Cymru roi canllawiau sy'n annog awdurdodau tai lleol i gynnwys cydsyniad i rannu gwybodaeth o fewn ei ffurflenni tai a gwasanaethau cymdeithasol safonol, gan gynorthwyo â'r ddyletswydd i rannu gwybodaeth lle bo unigolyn yn ddiartref neu'n wynebu risg o ddiartrefedd.

Cryfhau ac ymestyn y ddyletswydd i gydweithredu

105. Dylid diwygio Adran 95 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 fel bod yr awdurdod cyhoeddus neu'r landlord cymdeithasol cofrestredig, lle bo awdurdod tai lleol yn gofyn i awdurdod cyhoeddus neu landlord cymdeithasol cofrestredig gydweithredu er mwyn cyflawni ei swyddogaethau digartrefedd, yn gydweithredu oni bai fod ganddo reswm da dros beidio â gwneud hynny.
106. Dylai canllawiau statudol nodi bod yn rhaid i unrhyw un sy'n gwrthod cais dan argymhelliad 105 (ar y sail bod ganddo reswm da dros beidio â chydweithredu) wneud hynny yn ysgrifenedig a chynnwys rhesymau priodol.
107. Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei phŵer yn Adran 95(6) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i ymestyn y rhestr o sefydliadau sector cyhoeddus a chyrrff eraill y gellir gofyn iddynt gydymffurfio â chais gan yr awdurdod tai lleol i gydweithredu neu ddarparu gwybodaeth. Dylai hyn gynnwys pob sefydliad dan y pwerau datganoledig a restrir yn argymhelliad 98.
108. Dylai Llywodraeth Cymru gysylltu â Llywodraeth y DU ac Ysgrifennydd Gwladol perthnasol y DU ynglŷn ag ymestyn y ddyletswydd i gydweithredu yn Adran 95 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i gyrrff sector cyhoeddus dan bwerau a gadwyd yn ôl, gan

gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau, yr ystâd ddiogel, y Swyddfa Gartref a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn.

109. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y dylid cysoni'r ddyletswydd i nodi, gweithredu, cyfeirio a chydweithredu lle bo unigolyn yn ddiartref neu dan fygythiad o ddiartrefedd ar draws y ddeddfwriaeth bresennol, gan sicrhau cyfrifoldebau clir ar gyfer cylch gwaith yr awdurdodau sector cyhoeddus amrywiol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
110. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid adolygu a monitro'r dyletswyddau newydd i nodi, gweithredu, cyfeirio a chydweithredu.
- (Gweler argymhelliad 163 yn yr adran ar reoleiddio yn yr adroddiad.)*
111. Dylai canllawiau nodi y dylai awdurdodau tai lleol gyfeirio ceiswyr y maent wedi eu nodi fel rhai sydd angen cymorth at sefydliadau eraill a all gynnig cymorth perthnasol, gan ddal i gyflawni eu dyletswyddau i'r ceisydd dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.
112. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dulliau eraill o'i gwneud yn ofynnol i sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol a'r sector cyhoeddus ehangach a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig 'weithredu' o fewn eu cylch gwaith er mwyn helpu i atal digartrefedd.

Bwrdd digartrefedd ar y cyd

113. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno dyletswydd statudol ar yr awdurdod tai lleol i sefydlu ac arwain dull amlasiantaethol o gyflawni swyddogaethau digartrefedd drwy Fwrdd Digartrefedd ar y Cyd. Gallai'r Bwrdd hwn gynorthwyo i ddatrys anghydfod yn ymwneud â chydweithredu, adolygu achosion a rhannu ymarfer da a gweithio ar y cyd yn gyffredinol. Dylai pob awdurdod cyhoeddus a sefydliadau eraill a restrir yn argymhelliad 98 gael gwahoddiad i fynychu a dylent fod yn ddarostyngedig i ddyletswydd y byddant yn mynychu ac yn gydweithredu â'r bwrdd oni bai fod ganddynt reswm da dros beidio â gwneud hynny. Dylai pob corff cyhoeddus a chyrrff eraill a restrir yn 98 hefyd gael y pŵer i **wneud cais** i gynnal cyfarfod o Fwrdd Digartrefedd ar y Cyd. Dylai'r awdurdod tai lleol fod â'r gallu i alw cyfarfod o'r Bwrdd Digartrefedd ar y Cyd

ac i gymeradwyo ceisiadau i alw cyfarfod o'r bwrdd.

Cydweithio cyffredinol

114. Dylai Llywodraeth Cymru alw ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i roi ystyriaeth benodol i gydlafulio i ddod â digartrefedd i ben yn sgil diwygio deddfwriaethol a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Wrth wneud hynny, dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol weithio mewn cysylltiad agos â chynrychiolwyr presennol yr awdurdod tai lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ar y bwrdd ac estyn allan at wasanaethau digartrefedd allweddol eraill yn yr ardal. Dylent weithio gyda Byrddau Digartrefedd ar y Cyd newydd, gan sicrhau bod asiantaethau'n cydlafulio ar y lefel uchaf ac yn darparu cyfeiriad cyffredinol, tra gall y Bwrdd Digartrefedd ar y Cyd sefydlu'r manylion ar gyfer cynlluniau o'r fath a gweithio ar lefel weithredol.
115. Dylai Llywodraeth Cymru geisio annog efelychu ymarfer da lle mae gan wasanaethau digartrefedd a thai fynediad uniongyrchol at weithwyr proffesiynol allweddol megis therapyddion galwedigaethol, neu lle mae gwasanaethau allweddol yn rhannu'r un safle. Gallai hyn gynnwys ystyried sut y gellir defnyddio ffrydiau cyllid o nifer o feysydd gwasanaeth cyhoeddus i gydariannu gwasanaethau digartrefedd amlddisgyblaethol.

Cefnogi pobl ag anghenion niferus a chymhleth

116. Dylid diwygio Deddf Tai (Cymru) 2014 er mwyn nodi bod angen dull gweithredu sy'n seiliedig ar gydlyn achosion lle mae gan unigolyn anghenion niferus a chymhleth, a bod angen mewnbwn gan ddau wasanaeth cyhoeddus neu fwy. Dylai'r dull gweithredu gynnwys:
- Nodi gweithiwr proffesiynol i arwain wrth gysylltu â'r unigolyn a chydlynu'r gwaith o ddarparu gwasanaeth;
 - Dull o oruchwylio cydlynu achosion er mwyn nodi a mynd i'r afael â bylchau yn y gwasanaeth a ddarperir i unigolion o'r fath yn ogystal â rheoli risg a'i hatal rhag cynyddu.

117. Dylid darparu canllawiau er mwyn helpu i benderfynu pa sefydliadau all chwarae'r rôl arweiniol a phwysleisio bod angen i ymatebion amlasiantaethol fod yn gymesur â'r angen.
118. Lle bo anghenion yn fwy cymhleth, i'r graddau nad oes modd cefnogi'r unigolyn mewn tai prif ffrwd, hyd yn oed â chymorth ychwanegol, dylai canllawiau bwysleisio y dylai'r prif gyfrifoldeb am ddiwallu'r anghenion cymorth hynny fod yn nwylo iechyd a/neu ofal cymdeithasol. Byddai hyn yn digwydd, er enghraifft, os oes ar unigolyn angen gofal mewn cartref nysio neu gartref preswyl arbenigol iawn er mwyn diwallu ei anghenion iechyd a chymorth cymhleth.

Pobl ag anghenion iechyd

Cynllunio ar gyfer rhyddhau

119. Dylai Llywodraeth Cymru geisio adeiladu ar y canllawiau presennol er mwyn sicrhau bod dyletswyddau statudol clir ar gyfer cyflawni asesiadau a chynllunio er mwyn ystyried anghenion llety claf fel mater o drefn, er mwyn osgoi rhyddhau i ddiartrefedd.
120. Os bydd person a allai fod yn ddiartref yn cael ei ryddhau o'r ysbyty ni ddylai gael ei ryddhau nes bydd atgyfeiriad wedi'i wneud i'r awdurdod tai lleol a bod yr awdurdod hwn wedi derbyn y ddyletswydd i asesu dyletswydd interim i ddarparu llety neu'r brif ddyletswydd i ddarparu llety.

Iechyd meddwl

121. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall ei strategaeth iechyd meddwl newydd a chanllawiau yn ymwneud â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 gydnabod y cysylltiad rhwng digartrefedd neu lety heb ddiogelwch ac iechyd meddwl, gan bwysleisio pwysigrwydd cydweithredu rhwng gwasanaethau iechyd meddwl ac opsiynau tai/gwasanaethau digartrefedd.
122. Dylai Llywodraeth Cymru annog awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ystyried sut y gellid gwella cymorth iechyd meddwl ar gyfer pobl sy'n profi digartrefedd neu'n wynebu risg o ddiartrefedd. Er enghraifft, cydariannu timau digartrefedd amlddisgyblaethol a chymorth tai ag arbenigedd penodol mewn

iechyd meddwl, cydleoli gwasanaethau, neu lwybrau sy'n galluogi mynediad cyflym at wasanaethau iechyd meddwl y GIG i bobl sy'n profi digartrefedd neu'n wynebu risg o ddiartrefedd.

123. Dylid ychwanegu awdurdodau tai lleol a gweithwyr cymorth at y rhestr o asiantaethau a all gyfeirio unigolion yn uniongyrchol am asesiad gan Wasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol, fel yr amlinellir yn Adran 6 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.
124. Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio Adran 18 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (Swyddogaethau'r cydgysylltydd gofal), a Rheoliad 5(2) ac Atodlen 2 o Reoliadau Iechyd Meddwl (Cydgysylltu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011, OS 2011/942, er mwyn nodi y dylid asesu statws llety unigolyn ac unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â llety a'u cofnodi ym mhob Cynllun Gofal a Thriniaeth. Yn ogystal, dylid diweddarau canllawiau statudol i adlewyrchu'r gofyniad hwn.

Cyffredinol

125. Dylai Llywodraeth Cymru nodi bod angen rôl ddynodedig i arwain ar ddiartrefedd ym mhob bwrdd iechyd. Byddai'r rôl hon yn helpu i arwain datblygiadau i gefnogi cleifion digartref ac i annog rhannu gwybodaeth yn briodol rhwng asiantaethau er mwyn cefnogi cleifion digartref yn y ffordd orau sy'n bosibl.

Pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal

126. Dylai deddfwriaeth nodi y bydd pobl ifanc ddiartref sy'n 16 a 17 oed, yn ogystal â phobl ifanc sy'n gadael gofal, yn cael eu cartrefu gan y gwasanaethau cymdeithasol dan ddyletswyddau sy'n bodoli'n barod dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dylai gwasanaethau plant (ac os llwyddir i sicrhau llety dan swyddogaethau digartrefedd, awdurdodau tai lleol) sicrhau na ddylai unrhyw berson ifanc 16 neu 17 oed gael ei leoli mewn llety dros dro heb gymorth.
127. Dylai fod yn ofynnol i awdurdodau tai lleol wneud ymholiadau er mwyn canfod a oes gan geisydd brofiad o fod mewn gofal, ac a yw'n gwneud cais am gymorth fel sy'n briodol gan asiantaethau perthnasol, ac adlewyrchu hyn yn yr asesiad o angen a'r Cynllun Tai Personol.

128. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid addasu'r rhaglen "Pan Fydda i'n Barod" er mwyn goresgyn y sefyllfa bresennol lle nad oes cymhelliant i ofalwyr maeth barhau i roi cartref i bobl ifanc ar ôl iddynt gyrraedd 18 oed.

Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Gwneud diffiniadau o gam-drin yn unol â'r ddeddfwriaeth yn Lloegr (Deddf Tai 1996 a Deddf Cam-drin Domestig 2021)

129. Dylid diwygio'r diffiniad o "gam-drin" yn Adran 58(1) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i gynnwys ymddygiad sy'n rheoli neu orfodi, camdriniaeth economaidd neu gamdriniaeth seicolegol.
130. Dylid diwygio'r diffiniad o "gam-driniaeth ddomestig" yn Adran 58(2)(h) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 fel bod modd iddo fod yn gymwys lle mae camdriniaeth yn cael ei chyflawni gan unigolyn sydd mewn perthynas bersonol agos â'r dioddefwr, gan ddileu'r gofyniad y dylai fod wedi parhau am gyfnod sylweddol.
131. Dylai canllawiau bwysleisio y gallai'r risgiau y mae goroeswr yn eu hwynebu esblygu. Dylai canllawiau nodi bod awdurdodau tai lleol yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion goroeswyr, gan gynnwys lle bo goroeswr wedi cael cymorth i gadw llety ac nad yw'n rhesymol yn ddiweddarach iddi barhau i'w feddiannu.

"Gweithredu a Gofyn"

132. Dylid darparu canllawiau i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i'w cynorthwyo i gydymffurfio â'u dyletswyddau cydweithredu ychwanegol a gofynion cyfreithiol fel y nodir yn adran 1g o'r Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys y ddyletswydd "Gofyn a Gweithredu".
133. Dylid ystyried darparu hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu" i landlordiaid preifat fel rhan o broses gofrestru Rhentu Doeth Cymru.
134. Dylai swyddogion tai awdurdodau lleol gael hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu."

Tai

135. Dylai canllawiau statudol nodi pa gymorth y gallai fod ar geisydd sy'n ddiartref o ganlyniad i gamdriniaeth neu gamdriniaeth ddomestig fod ei angen. Dylai'r canllawiau hyn ymwneud â sut y dylid cynorthwyo ceisydd i ddychweled i'w llety presennol os yw'n dymuno gwneud hynny (gweler yr argymhellion ar gynyddu opsiynau tai a'r ddyletswydd i gynnig cymorth i gadw llety), yn ogystal â'r angen i ystyried barn y ceisydd ynglŷn â ble mae'n teimlo'n ddiogel (gweler yr argymhelliad yn yr adran ar Gynllunio Tai Personol) yn ogystal ag effaith unrhyw gamdriniaeth hanesyddol.

(Gweler hefyd argymhellion perthnasol eraill dan adrannau cynharach ar gysylltiad lleol ac addasrwydd, gan gynnwys yr angen i ystyried rhwydwaith cefnogi ceisydd, a allai fod yn ehangach na chysylltiadau teuluol. Gweler hefyd argymhellion ar oroeswyr camdriniaeth nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus dan yr adran ar gymhwysra.)

Cyflawnwyr camdriniaeth

136. Dylai Llywodraeth Cymru geisio cryfhau canllawiau ac ymwybyddiaeth o'r hawl, gan unigolyn sy'n dal contract ar y cyd a chan landlord, i derfynu contract meddiannaeth lle bo deiliad contract ar y cyd yn euog o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu wedi rhoi'r gorau i feddiannu'r llety (Pennod 14, Rhan 2, Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016).

(Gweler hefyd argymhelliad 131 a hefyd argymhelliad 74 a wnaethpwyd yn gynharach dan ddyrannu llety i gyflawnwyr camdriniaeth)

Carcharorion a rhai sy'n gadael carchar

Diffiniadau statudol o ddiartrefedd sy'n ymwneud â charcharorion

137. Dylai deddfwriaeth nodi nad yw carcharorion yn ddiartref yn ystod cyfnod eu dedfrydau o garchar. Os ydynt yn debygol o gael eu rhyddhau cyn pen chwe mis, ac os nad oes llety ar gael iddynt ei feddiannu sy'n rhesymol iddynt barhau i'w feddiannu, byddant dan fgythiad o ddiartrefedd.

138. Dylai deddfwriaeth nodi, os oes ar garcharor angen llety gan awdurdod tai lleol er mwyn cael ei ryddhau'n gynnar, ar barôl neu ar fechniaeth, y bydd y carcharor yn cael ei ystyried yn ddiartref ar y dyddiad rhyddhau'n gynnar, a bydd prif ddyletswydd i ddarparu llety Adran 75(1) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn gymwys, fel nad yw carcharor yn cael ei atal rhag cael ei ryddhau oherwydd nad oes ganddo llety.

Cymorth tai a chynllunio tra yn y carchar

139. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a diweddarau'r Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel ar y cyd â phartneriaid allweddol, gan ystyried a ellid rhoi agweddau ar y canllawiau hyn ar sylfaen statudol. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod asesiadau yn y cam derbyn yn ddigon manwl a bod gwybodaeth hygyrch, cefnogaeth a chynghor annibynnol ar dai i garcharorion.
140. Dylid enwi'r swyddog prawf perthnasol fel cydgysylltydd arweiniol wrth gynllunio ar gyfer cymorth tai carcharor mewn dull cydgysylltu achosion sy'n cynnwys yr awdurdod tai lleol a gwasanaethau perthnasol eraill.
- Sylwer: Fel y nodwyd yn yr adran ar gefnogi pobl ag anghenion niferus a chymhleth, mae angen dull cydgysylltu achosion lle mae nifer o wasanaethau yn cynorthwyo pobl i gael llety, sy'n digwydd yn aml yn achos carcharorion. Gweler argymhelliad 116 am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r dull hwn.*
141. Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau tai lleol weithio gyda gwasanaethau carchar er mwyn sicrhau bod asesiadau cynnar rheolaidd o garcharorion newydd, a gynhelir gan y gwasanaeth carchardai, yn nodi a oes risg i llety carcharor yn ystod ei ddedfryd ac a oes ar y carcharor angen cynghor ynglŷn â sut i gadw llety neu eiddo o ganlyniad i hyn. Dylai gwasanaethau carchar weithio gyda'r awdurdod tai lleol a phartneriaid perthnasol er mwyn darparu mynediad cyflym at gynghor i'r carcharor yn unol ag Adran 60(4) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Gallai hyn gynnwys cefnogi dymuniad carcharor i gadw ei llety presennol tra bydd yn y carchar, os yw hynny'n ymarferol

ac yn gymesur (er enghraifft trefnu i dalu budd-dal neu ganiatáu i is-denant feddiannu'r llety).

142. Dylid diwygio Rhan 11 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 er mwyn nodi y dylid cymryd pob cam rhesymol i gynorthwyo carcharor i wneud trefniadau i gadw ei eiddo tra bydd yn treulio ei ddeddfryd.
143. Dylai gwasanaethau opsiynau tai lleol weithio gyda'r llysoedd a'r gwasanaeth carchardai er mwyn sicrhau bod cyngor ynglŷn ag opsiynau tai ar gael yn rhwydd mewn llysoedd a charchardai.
144. Dylai deddfwriaeth nodi bod angen cynnal yr asesiad o angen a llunio'r Cynllun Tai Personol yn ystod cyfnod y ddyletswydd atal (chwe mis cyn rhyddhau), tra bo'r ceisydd yn y carchar.

Gweler argymhelliad 19 am fanylion ynglŷn â phryd y dylid cymhwyso'r prawf cysylltiad lleol i garcharorion.

145. Dylai canllawiau gynnwys awgrymiadau ynglŷn â sut y bydd angen addasu Cynllun Tai Personol o bosibl er mwyn diwallu anghenion penodol carcharorion. Gallai hyn gynnwys cefnogi dymuniad carcharor i gadw ei lety presennol tra bydd yn y carchar, lle bo hynny'n ymarferol ac yn gymesur (er enghraifft trefnu i dalu budd-dal neu ganiatáu i is-denant feddiannu'r llety).
146. Rhaid i'r awdurdod tai lleol ailasesu'r asesiad o angen a'r Cynllun Tai Personol pan fydd y diwrnod rhyddhau yn agosáu, neu fel sy'n berthnasol os oes newid i ddyddiad rhyddhau bwriadedig neu os bydd amgylchiadau'n newid.

(Mae rhagor o fanylion ac argymhellion yn ymwneud â Chynlluniau Tai Personol wedi'u cynnwys yn yr adran Cynlluniau Tai Personol ar dudalen 56.)

Gwella mynediad at lety wrth ryddhau o'r carchar

147. Dylid gallu cynnig llety i'r carcharor yn ystod cyfnod y ddyletswydd atal, er mwyn iddo fod ar gael pan fydd yn cael ei ryddhau, naill ai dan gontract meddiannaeth neu ar sail fwy anffurfiol (llety â theulu neu ffrindiau).
148. Dylai Llywodraeth Cymru geisio annog yr ymarfer o osgoi rhyddhau o'r carchar ar ddydd Gwener, ar benwythnosau ac ar wyliau banc, fel yr amlinellwyd yn Neddf Troseddwy (Diwrnod Rhyddhau o'r Carchar) 2023.
149. Dylai Rhentu Doeth Cymru ddarparu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ymhlith landlordiaid preifat er mwyn sicrhau bod mwy o gartrefi ar gael i'w rhentu i rai sy'n gadael carchar.

Pobl ifanc sy'n gadael sefydliadau diogel

150. Dylai deddfwriaeth a chanllawiau nodi'n glir bod carcharorion 16 a 17 oed, sy'n disgwyl cael eu rhyddhau cyn pen chwe mis, yn gyfrifoldeb i'r gwasanaethau cymdeithasol.
151. Dylai carcharorion ifanc sydd, neu a oedd, yn adawyr gofal, ac a fydd rhwng 18 ac 21 oed pan fyddant yn cael eu rhyddhau (neu rhwng 18 a 24 oed os ydynt mewn addysg neu hyfforddiant) fod yn gyfrifoldeb i'r gwasanaethau cymdeithasol a dylai'r gwasanaethau cymdeithasol ddarparu llety iddynt.
152. Dylai canllawiau sy'n mynd gyda Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 bwysleisio'r angen am Gynllun Gofal a Chymorth i gynllunio ar gyfer llety addas mewn da bryd cyn y dyddiad rhyddhau disgwylidig.

Cyn-filwyr

153. Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau'r Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog a chwilio am ffyrdd o sicrhau ei fod yn cael ei gymhwyso'n gyson ar draws awdurdodau lleol. Er enghraifft, drwy ystyried a ellid gosod rhannau o'r llwybr ar sylfaen statudol.

Sylwer: Mae argymhelliad 9 hefyd yn ymwneud â chysylltiad lleol a chyn-filwyr.

Troseddoli digartrefedd

154. Dylai Llywodraeth Cymru atal ymarfer sy'n troseddoli digartrefedd drwy:
- alw ar Lywodraeth y DU i symud ymlaen i ddechrau diddymu Deddf Crwydraeth 1824 a sicrhau nad yw cysgu allan a chardota anymosodol yn cael eu troseddoli gan ddeddfwriaeth yn y dyfodol;
 - parhau i annog heddluoedd yng Nghymru i weithredu ymarfer da nad yw'n troseddoli cysgu allan.

(Gweler hefyd yr argymhellion ar wasanaethau cyhoeddus ehangach ar dudalennau 63–65.)

Hawliau i unigolion i gyngor, adolygiad a gwneud iawn

155. Dylai awdurdodau tai lleol weithio'n rhanbarthol lle bo angen er mwyn helpu i sicrhau bod swyddogion sy'n annibynnol ar achos ar gael i gynnal adolygiad.
156. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag eiriolwyr cyfreithiol ac awdurdodau tai lleol er mwyn llunio canllawiau ar gyfer ymarfer da wrth ddatrys anghydfodau.
157. Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â chael cynrychiolaeth gyfreithiol i geiswyr digartrefedd yng Nghymru ac ystyried sut y gellid atgyfnerthu hyn. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i sicrhau bod digon o adnoddau i ddarparu mynediad ledled Cymru at gynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol.
158. Dylai mynediad at gyngor ynglŷn â dyledion a lles fod ar gael i bob ceisydd digartref sydd y tu allan i gwmpas y Gwasanaeth Cyngor ar Atal Colli Cartref.
159. Dylai awdurdodau tai lleol ddarparu cyngor annibynnol ar dai, lle mae angen i unigolyn herio cyfreithlondeb penderfyniad digartrefedd. Dylid darparu adnoddau priodol i awdurdodau lleol i'w galluogi i ariannu a darparu cyngor annibynnol ar dai.
160. Dylai Llywodraeth Cymru gysylltu â Llywodraeth y DU i sicrhau bod Cymorth Cyfreithiol ar gael i geiswyr yng Nghymru sydd dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn y ffrâm
- amser newydd o chwe mis, yn hytrach na'r 56 diwrnod presennol, dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012, Atodlen 1, Paragraff 34.
161. Dylai Llywodraeth Cymru ddal i gefnogi'r bwriad i ehangu Rhaglen Wella CLILC i gynnwys pwyslais penodol ar awdurdodau tai lleol a gwasanaethau digartrefedd.
162. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid gwella rôl orfodi Rhentu Doeth Cymru.
163. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried, yn sgil cynigion y Panel ar gyfer dyletswyddau sector cyhoeddus ehangach i helpu i atal digartrefedd, pa gyrrff rheoleiddio sy'n bodoli'n barod allai gynnwys digartrefedd mewn gweithgaredd arolygu a rheoleiddio rheolaidd. Er enghraifft, gallai Arolygiaeth Gofal Cymru helpu i nodi problemau yn ymwneud â gadawyr gofal sy'n canfod eu hunain yn ddigartref.
164. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i ystyried sut y gall y Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai yng Nghymru adlewyrchu perfformiad Cymdeithasau Tai a'u gwaith gyda phartneriaid er mwyn atal ac ymateb i ddigartrefedd. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, osgoi troi allan i ddigartrefedd, ystyried anghenion aelwydydd digartref mewn cynlluniau dyrannu, darparu llety â chymorth a Thai yn Gyntaf, a/neu gynorthwyo tenantiaid i gadw eu tenantiaethau.
165. Ar wahân i'r Fframwaith Rheoleiddio, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu Safon Rheoli Tai newydd sy'n mabwysiadu dull ystyriol o drawma wrth ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a chynnal tenantiaethau, tra hefyd yn darparu trosolwg ehangach ar atal digartrefedd.
166. Dylid sefydlu cylch archwilio rheolaidd ar gyfer swyddogaethau awdurdodau tai lleol, ag archwiliadau'n cael eu cynnal naill ai gan Lywodraeth Cymru, neu Archwilio Cymru neu drwy adolygiad gan gymheiriaid.
167. Dylid addasu'r Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd er mwyn ystyried deddfwriaeth newydd yn deillio o'r papur gwyn a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru cyn bo hir.

168. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn flynyddol ar y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd.
169. Pan fydd y deddfwriaeth newydd yn cael ei rhoi ar waith, dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa mor effeithiol y mae'n cael ei gweithredu ac a oes angen mesurau eraill (gan gynnwys ystyried rheoleiddiwr tai a digartrefedd) yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod y gyfraith yn cael ei chymhwyso'n gyson.

Data

170. Yn unol ag argymhellion gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ac yn yr Adroddiad Blynyddol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Fwrdd Cynghori Cenedlaethol Dod â Digartrefedd i Ben, dylai Llywodraeth Cymru weithio er mwyn gwella'r dull o goladu data parhaus ledled y sector tai a digartrefedd. Dylid defnyddio'r data hyn i helpu i fonitro cydymffurfiaid â gofynion statudol yn ogystal â nodi bylchau yn y system. Yn ogystal ag ymdrin â phynciau amrywiol ar draws y sector (gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: dyrannu tai cymdeithasol; y cyflenwad o dai; data digartrefedd statudol; troi allan o lety preifat a thai cymdeithasol; rhyddhau o ysbytai a charchardai i ddigartrefedd), dylai'r data hyn hefyd gynnwys ystyriaeth benodol o nodweddion gwarchoddedig.
171. Pe bai Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â diwygio cyfreithiol, dylai hefyd ymrwymo i adolygu sut y mae diwygiadau o'r fath yn gweithio yn ymarferol. Dylai lleisiau pobl sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd fod yn ganolog i adolygiad o'r fath ac wrth sicrhau bod newid deddfwriaethol yn cael ei weithredu'n effeithiol.

